# Rhaglen Gyflawn

**Gwasanaeth Democratiaeth**
Swyddfa'r Cyngor
CAERNARFON
Gwynedd
LL55 1SH

Cyfarfod

**PWYLLGOR SAFONAU**

Dyddiad ac Amser

**10.30 y.b., DYDD LLUN, 8FED TACHWEDD, 2021**

Lleoliad

**Cyfarfod Rhithiol - Zoom**

Pwynt Cyswllt

**Eirian Roberts**

**01286 679018**

**eirianroberts3@gwynedd.llyw.cymru**

(Dosbarthwyd Dydd Gwener, 29 Hydref 2021)

# PWYLLGOR SAFONAU

## AELODAETH

## Aelodau Etholedig (3)

Y Cynghorwyr

Anne Lloyd Jones
Beth Lawton
Dewi Wyn Roberts

## Aelodau Annibynnol (hefo pleidlais) (5)

Aled Jones
Margaret E.Jones
David Wareing
Einir Young
Hywel Eifion Jones

## Aelod Pwyllgor Cymuned (hefo pleidlais) (1)

Richard Parry Hughes

# R H A G L E N


**1. YMDDIHEURIADAU**

Derbyn unrhyw ymddiheuriadau am absenoldeb.

**2. DATGAN BUDDIANT PERSONOL**

Derbyn unrhyw ddatganiadau o fuddiant personol.

**3. MATERION BRYS**

Nodi unrhyw eitemau sy’n fater brys ym marn y Cadeirydd fel y gellir eu hystyried.

**4. COFNODION** 4 - 8

Bydd y Cadeirydd yn cynnig y dylid llofnodi cofnodion y cyfarfodydd o’r pwyllgor hwn a gynhaliwyd ar y dyddiadau isod fel rhai cywir:-

- 14 Mehefin, 2021
- 7 Gorffennaf, 2021 (Cyfarfod Arbennig)

**5. ADOLYGIAD O'R FFRAMWAITH SAFONAU MOESEGOL I GYMRU** 9 - 64

Ystyried adroddiad y Swyddog Monitro.

**6. HONIADAU YN ERBYN AELODAU** 65 - 67

Ystyried adroddiad yr Uwch Gyfreithiwr (Corfforaethol).

**7. ADRODDIAD BLYNYDDOL YR OMBWDSMON 2020-21** 68 - 211

Ystyried adroddiad y Swyddog Monitro.

# PWYLLGOR SAFONAU DYDD LLUN, 14 MEHEFIN 2021

**Yn bresennol**:-

**Aelodau Etholedig:-** Y Cynghorwyr Anne Lloyd Jones, Beth Lawton a Dewi Roberts.

**Aelodau Annibynnol:-** Mr Aled Jones, Mr Hywel Eifion Jones, Miss Margaret E.Jones a'r Dr Einir Young (Cadeirydd)

**Hefyd yn Bresennol:** Iwan Evans (Swyddog Monitro), Sion Huws (Uwch Gyfreithiwr - Corfforaethol), Miriam Roberts (Hyfforddai Proffesiynol Cyfreithiol) ac Eirian Roberts (Swyddog Gwasanaethau Democratiaeth).

**1. ETHOL CADEIRYDD**

**PENDERFYNWYD ethol y Dr Einir Young yn gadeirydd y pwyllgor hwn.**

**2. ETHOL IS-GADEIRYDD**

**PENDERFYNWYD ethol Mr Hywel Eifion Jones yn is-gadeirydd y pwyllgor hwn.**

**3. YMDDIHEURIADAU**

Derbyniwyd ymddiheuriad gan Mr Richard Parry Hughes (Aelod Pwyllgor Cymuned) a Dave Wareing (Aelod Annibynnol).

**4. DATGAN BUDDIANT PERSONOL**

Ni dderbyniwyd unrhyw ddatganiadau o fuddiant personol.

**5. MATERION BRYS**

Ni chodwyd unrhyw faterion brys.

**6. COFNODION**

Llofnododd y Cadeirydd gofnodion y cyfarfod blaenorol o'r pwyllgor hwn a gynhaliwyd ar 22 Chwefror, 2021 fel rhai cywir.

Mater yn codi o'r cofnodion
Eitem 5 – Hunan Asesiad a Rhaglen Waith

Nododd y Swyddog Monitro na fu'n bosib' cyflwyno trosolwg o'r trefniadau hyfforddiant i'r cyfarfod hwn, ond y bwriedid adrodd ar hynny i'r cyfarfod nesaf. Bwriedid hefyd ail-afael yn yr elfen o'r cynllun hyfforddi ar gyfer cynghorau cymuned, pan fydd amodau yn caniatáu.

**7. ADRODDIAD BLYNYDDOL Y PWYLLGOR SAFONAU 2020/21**

Cyflwynwyd – adroddiad yr Uwch Gyfreithiwr (Corfforaethol) yn amgáu drafft o adroddiad blynyddol y pwyllgor ar gyfer 2020/21. Gwahoddwyd sylwadau a chymeradwyaeth y pwyllgor i'r ddogfen.

Gofynnwyd i'r aelodau gysylltu â'r Uwch Gyfreithiwr (Corfforaethol) gydag unrhyw ddiweddariadau i'w bywgraffiadau.

Nododd y Swyddog Monitro fod Deddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru) 2021 yn gosod adroddiad blynyddol y Pwyllgor Safonau ar sail statudol o'r flwyddyn nesaf ymlaen.

Awgrymwyd y dylid cynnwys cyfeiriad yn yr adroddiad blynyddol at fater a godwyd yn y Cyngor llawn droeon ynglŷn â'r prawf budd cyhoeddus. Mewn ymateb, eglurodd y Swyddog Monitro fod y Llywodraeth yn gwneud gwaith cychwynnol ar adolygiad o'r drefn foesegol yn ei chyfanrwydd, a'i bod yn debyg y byddai trafodaeth ynglŷn â'r prawf budd cyhoeddus yn codi fel rhan o hynny. Ni ddymunai godi gobeithion, oherwydd bod cymaint o ffactorau yn dylanwadu ar hynny. Er hynny, efallai bod cyfle trwy gyfrannu at hyn i amlygu sut mae'r drefn yn gweithio i gynghorau cymuned pan mae'r rhiniog yn cael ei osod ar lefel cyngor sir, a chytunodd i ddrafftio geiriad o gwmpas hynny ar gyfer y rhagarweiniad i'r adroddiad blynyddol.

Gan gyfeirio at y bwriad dan Ddeddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru) 2021 i osod dyletswydd statudol ar Arweinyddion Grwpiau Gwleidyddol ynglŷn â safonau ymddygiad aelodau, awgrymwyd y gallai'r hyfforddiant a ddarperir ar gyfer yr Arweinyddion fod o gymorth o ran y mater a godwyd droeon yn y Cyngor, oherwydd y gallai'r Arweinyddion egluro wrth eu haelodau beth yw'r problemau sy'n wynebu'r Pwyllgor Safonau, pa fath o waith mae'r pwyllgor yn ymdrin ag o, ayb.

**PENDERFYNWYD cymeradwyo'r adroddiad blynyddol i'w gyflwyno i'r Cyngor llawn ar 8 Gorffennaf, yn ddarostyngedig i ychwanegu cyflwyniad a rhagair gan y Cadeirydd a'r Swyddog Monitro.**

**8 DEDDF LLYWODRAETH LEOL AC ETHOLIADAU (CYMRU) 2021 – NEWIDIADAU I'R FFRAMWAITH FOESEGOL**

Cyflwynwyd – adroddiad y Swyddog Monitro yn manylu ar y newidiadau i'r fframwaith foesegol fel rhan o Ddeddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru) 2021, gan gyfeirio'n benodol at gyfrifoldeb statudol Arweinyddion Grwpiau Gwleidyddol am ymddygiad eu haelodau.

Awgrymwyd y byddai'n fuddiol trefnu gweithdy rhwng Arweinyddion y Grwpiau Gwleidyddol ac aelodau'r pwyllgor hwn, er mwyn magu perthynas weithredol bositif rhyngddynt.

**PENDERFYNIAD**

**(1) Yn ddarostyngedig i gyhoeddi arweiniad gan y Llywodraeth, dylid cymryd camau i gynnal hyfforddiant i Arweinyddion Grwpiau Gwleidyddol ar y gofynion a sut y gellid eu cyfarch.**

**(2) Y dylai'r Pwyllgor Safonau sefydlu protocol ar gyfer gweithredu, cyd-weithredu a monitro gweithrediad y dyletswydd erbyn Rhagfyr 2021, a hynny mewn cyd-drafodaeth gydag Arweinyddion a Dirprwy Arweinyddion Grwpiau presennol y Cyngor.**

**(3) Dylid gosod yr uchod o fewn Rhaglen Waith y Pwyllgor.**

**(4) Gwahodd y Swyddog Monitro i fwrw ymlaen â'r gwaith, a threfnu gweithdy ar bwynt penodol er mwyn magu'r berthynas rhwng Arweinyddion y Grwpiau Gwleidyddol ac aelodau'r Pwyllgor hwn.**

**9. COFLYFR ACHOSION COD YMDDYGIAD OMBWDSMON**

Cyflwynwyd – adroddiad yr Uwch Gyfreithiwr (Corfforaethol) yn atodi copi o Lyfr Achosion chwarterol diweddaraf yr Ombwdsmon.

Nodwyd y byddai'n ddiddorol gwybod beth oedd canlyniadau'r achosion hynny a gyfeiriwyd at Bwyllgor Safonau neu at Banel Dyfarnu Cymru. Byddai hefyd yn ddiddorol gwybod oedd yna effaith cronnus, e.e. oedd yr un cwynion yn dod trwodd gan yr un person neu o'r un ardal bob tro, oedd yna themâu cyffredin, ayb?

Nodwyd ei bod yn ymddangos bod canlyniadau nifer o'r achosion sy'n cael eu cyfeirio at Bwyllgor Safonau neu at y Panel Dyfarnu yn mynd yn gyhoeddus yn y wasg, ac awgrymwyd y byddai'n fuddiol i'r pwyllgor hwn gael gwybod amdanynt. Awgrymwyd hefyd, o gofio bod y Coflyfr yn ddogfen gyhoeddus, y byddai'n fuddiol pe byddai adroddiadau mwy manwl o'r achosion ar gael ar gyfer aelodau pwyllgorau safonau. Mewn ymateb, nododd y Swyddog Monitro fod y Panel Dyfarnu wedi cyhoeddi canllawiau ynglŷn â sut i ddelio ag achosion, a bod hynny ar gael i'r Pwyllgor Safonau beth bynnag. Eglurodd hefyd fod canlyniadau achosion sy'n cael eu cyfeirio at Bwyllgorau Safonau a'r Panel Dyfarnu yn cael eu cyhoeddi ar wefannau'r cyrff dan sylw. Fodd bynnag, nid oedd cofrestr ganolog o ganlyniadau achosion ar gael, heblaw drwy'r Ombwdsmon, ac roedd yn anodd mynd ati heb fynd at bob cyngor yn unigol i ofyn am y canlyniad.

**PENDERFYNWYD derbyn yr adroddiad.**

**10. HONIADAU YN ERBYN AELODAU**

Cyflwynwyd - adroddiad yr Uwch Gyfreithiwr (Corfforaethol) yn cyflwyno gwybodaeth am benderfyniadau'r Ombwdsmon ar gwynion ffurfiol yn erbyn aelodau.

**PENDERFYNWYD nodi'r wybodaeth a'r bwriad i drefnu cyfarfod arbennig i ymdrin â chanlyniad ymchwiliad sydd wedi ei gyfeirio i'r Pwyllgor Safonau gan Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru.**

Dechreuodd y cyfarfod am 10.30 y.b. a daeth i ben am 11.20 y.b.

______________________________

**CADEIRYDD**

# CYFARFOD ARBENNIG O’R PWYLLGOR SAFONAU
# DYDD MERCHER, 7 GORFFENNAF 2021

**Presenoldeb:**

**Aelodau Etholedig:** Y Cynghorwyr Beth Lawton a Dewi Roberts

**Aelodau Annibynnol:** Mr Aled Jones, Mr Hywel Eifion Jones, Miss Margaret E.Jones, Mr Dave Wareing a’r Dr Einir Young (Cadeirydd)

**Aelod Pwyllgor Cymunedol:** Mr Richard Parry Hughes

**Hefyd yn bresennol:** Sion Huws (Uwch Gyfreithiwr – Corfforaethol) ac Eirian Roberts (Swyddog Gwasanaethau Democratiaeth)

**1. YMDDIHEURIADAU**

Derbyniwyd ymddiheuriad gan y Cynghorydd Anne Lloyd Jones.

**2. DATGAN BUDDIANT PERSONOL**

Ni dderbyniwyd unrhyw ddatganiadau o fuddiant personol.

**3. MATERION BRYS**

Ni chodwyd unrhyw faterion brys.

**4. CAU ALLAN Y WASG A’R CYHOEDD**

**PENDERFYNWYD y dylid cau’r wasg a’r cyhoedd allan o’r cyfarfod yn ystod y drafodaeth ar yr eitem ganlynol gan ei fod yn debygol y datgelir gwybodaeth eithriedig fel y’i diffinnir ym mharagraff 18C, Rhan 4, Atodiad 12A, Deddf Llywodraeth Leol 1972. Mae’r paragraff yma yn berthnasol oherwydd ei fod yn ymwneud â thrafodion y Pwyllgor Safonau wrth ddod i benderfyniad ar fater a gyfeiriwyd ato gan Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru. Credir na ddylid datgelu’r wybodaeth rhag ofn i unrhyw gyhoeddusrwydd ynglŷn â’r achos ragfarnu sefyllfa’r cynghorydd cyn unrhyw wrandawiad. Fel canlyniad mae’r budd cyhoeddus o gadw’r wybodaeth yn eithriedig yn gorbwyso’r budd cyhoeddus o’i datgelu.**

**5. ADRODDIAD OMBWDSMON GWASANAETHAU CYHOEDDUS CYMRU AR YMCHWILIAD I GWYN YN ERBYN CYNGHORYDD**

Cyflwynwyd – adroddiad yr Uwch Gyfreithiwr (Corfforaethol) yn gwahodd y pwyllgor i ystyried adroddiad yr Ombwdsmon ar ymchwiliad i gŵyn yn erbyn cynghorydd, a dod i benderfyniad yn unol â gofynion y rheoliadau perthnasol.

**PENDERFYNWYD**

**(a) Gwahodd y person sy’n destun yr ymchwiliad i gyflwyno sylwadau, naill ai ar lafar neu’n ysgrifenedig, mewn perthynas â chasgliadau’r ymchwiliad ac unrhyw honiad ei fod ef / hi wedi methu â chydymffurfio â chod ymddygiad yr awdurdod perthnasol.**

**(b) Galw cyfarfod arbennig o’r Pwyllgor Safonau i ystyried a phenderfynu ar y mater.**

**(c) Gwahodd yr Ombwdsmon i’r gwrandawiad i gyflwyno’r adroddiad a / neu egluro unrhyw faterion sydd ynddo.**
**(ch) Bod y swyddogion, mewn ymgynghoriad â’r Cadeirydd, yn gosod dyddiad (ynghyd â dau wrth gefn) ar gyfer cynnal y gwrandawiad.**

Dechreuodd y cyfarfod am 2.00 y.h. a daeth i ben am 2.50 y.h.

**CADEIRYDD**

| | |
|---|---|
| **CYFARFOD** | **Pwyllgor Safonau** |
| **DYDDIAD** | **8 Tachwedd 2021** |
| **TEITL** | **Adolygiad o’r Fframwaith Safonau Moesegol i Gymru** |
| **AWDUR** | **Swyddog Monitro** |

1. Crëwyd y Fframwaith Safonau Moesegol gyfredol gan Ddeddf Lywodraeth Leol 2000 . Fe adolygwyd y Cod Ymddygiad gwreiddiol yn sylweddol yn 2008 i’w ffurf presennol ond nid oes adolygiad arwyddocaol o’r fframwaith gyfansawdd ers ei sefydlu. Penodwyd Richard Penn gan Lywodraeth Cymru yn nechrau’r flwyddyn i adolygu y fframwaith yn ei chyfanrwydd a gwneud argymhellion. Bellach mae ei adroddiad wedi ei chyhoeddi gan y Llywodraeth . Mae datganiad Rebecca Evans AS, Y Gweinidog Cyllid a Llywodraeth Leol yn datgan ei gyhoeddiad yn Atodiad 1 a’r arddodiad gyhoeddedig yn Atodiad 2.

2. Casglwyd tystiolaeth ar ystod eang o bynciau gan edrych, ymhlith eraill , ar y materion canlynol:

   - a oedd dal angen am y cod;
   - a oedd y cod presennol yn gyfredol ac yn addas i bwrpas;
   - a oedd ymchwilio a gorfodi cwynion yn effeithiol.
   - sut mae Pwyllgor Safonau yn annof cydymffurfiaeth drwy ddefnydd o bolisïau a hyfforddiant ;
   - a oedd y cod yn briodol ar gyfer Cynghorau Tref a Chymuned a’u gallu I gydymffurfio gyda’r ddarpariaeth.

   Fed nodir yn yr adroddiad fod ystod o ymgynghoreion wedi eu cynnwys ac rwy’n ymwybodol fod Fforwm Pwyllgorau Safonau Gogledd a Chanolbarth Cymru wedi ei gynnwys . Fodd bynnag dylid nodi fod rhai absenoldebau yn creu syndod ..

3. Deallaf nad oes unrhyw fwriad i greu deddfwriaeth mewn ymateb I’r adroddiad cyn diwedd y tymor llywodraeth leol cyfredol. Mae ystod o argymhellion all gael oblygiadau adnoddau o sylwedd. Bydd gofyn rhoi ystyriaeth ofalus i’r adroddiad a bydd ymgynghori ar newidiadau arwyddocaol .

   **Argymhelliad**

   **Fod y Pwyllgor yn derbyn yr adroddiad er gwybodaeth**

**Atodiad 1**

**Datganiad Ysgrifenedig: Adolygiad o’r Fframwaith Safonau Moesegol i Gymru**

**Rebecca Evans AS, Y Gweinidog Cyllid a Llywodraeth Leol**

**Cyhoeddwyd gyntaf:**

**14 Hydref 2021**

“Cafodd y Fframwaith Safonau Moesegol i Gymru ei sefydlu gan Ran 3 o Ddeddf Llywodraeth Leol 2000 i hyrwyddo a chynnal safonau uchel o ymddygiad moesegol gan aelodau a swyddogion yr awdurdodau perthnasol yng Nghymru. Mae ‘awdurdod perthnasol’ yn golygu cyngor sir neu gyngor bwrdeistref sirol (sef prif gyngor), cyngor cymuned, awdurdod tân ac achub, ac awdurdod Parc Cenedlaethol yng Nghymru.

Mae’r Fframwaith yn cynnwys deg o egwyddorion cyffredinol fel sail i ymddygiad aelodau (sef egwyddorion sy’n deillio o Saith Egwyddor Bywyd Cyhoeddus yr Arglwydd Nolan). Maent wedi eu cynnwys yng Ngorchymyn Ymddygiad Aelodau (Egwyddorion) (Cymru) 2001. Ar ben hynny, mae Gorchymyn Awdurdodau Lleol (Cod Ymddygiad Enghreifftiol) (Cymru) 2008 (“Cod Ymddygiad Enghreifftiol”) yn darparu ar gyfer set o safonau gofynnol y gellir eu gorfodi mewn perthynas â sut y dylai aelodau ymddwyn, wrth gyflawni eu swyddogaethau swyddogol ac (mewn rhai achosion) o ran eu gweithgareddau yn eu bywyd personol. Mae hefyd yn cynnwys darpariaethau sy’n ymwneud â datgan a chofrestru buddiannau. Gan mwyaf, mae’r Fframwaith wedi parhau heb ei newid, er i nifer o newidiadau gael eu gwneud i wella sut mae wedi gweithredu yn ystod yr ugain mlynedd diwethaf.

Cynhaliwyd adolygiad annibynnol o’r Fframwaith gan Richard Penn rhwng mis Ebrill a mis Gorffennaf 2021 i asesu a yw’n parhau i fod yn addas ar gyfer ei ddiben. Roedd yr adolygiad yn rhoi ystyriaeth i’r gofynion deddfwriaethol newydd a nodwyd yn Neddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru) 2021 a chyd-destun y polisïau cydraddoldeb ac amrywiaeth presennol. Hoffwn ddiolch i Richard Penn a’r holl randdeiliaid a gymerodd ran yn yr adolygiad hwn.

Mae’r Adroddiad terfynol, a gafodd ei gyhoeddi heddiw, yn dod i’r casgliad bod y trefniadau presennol yn addas ar gyfer eu diben, ond mae’n argymell gwneud rhai newidiadau i’r Fframwaith, gan gynnwys y Cod Ymddygiad Enghreifftiol. Byddaf yn ystyried yr argymhellion i ddiwygio’r Cod Ymddygiad Enghreifftiol yn y tymor byr. Bydd unrhyw newid i’r ddeddfwriaeth yn destun ymgynghoriad technegol.

Bydd camau gweithredu i roi sylw i argymhellion eraill yn cael eu datblygu mewn partneriaeth â rhanddeiliaid allweddol yn y tymor canolig a’r tymor hirach. “

# Adolygiad Annibynnol o'r Fframwaith Safonau Moesegol yng Nghymru

**Richard Penn**
**Ymgynghorydd Annibynnol**

**Gorffennaf 2021**

**Tabl cynnwys**

1. Crynodeb gweithredol 3

2. Cefndir a methodoleg 10

3. Y fframwaith safonau moesegol presennol ar gyfer llywodraeth leol yng Nghymru 15

4. Fy nghanfyddiadau 28

5. Casgliadau ac argymhellion 42

## 1 Crynodeb gweithredol

1.1 Ym mis Mawrth 2021 cyhoeddodd y Gweinidog Tai a Llywodraeth Leol ar y pryd ei bod yn bwriadu comisiynu adolygiad annibynnol o'r fframwaith safonau moesegol ar gyfer llywodraeth leol yng Nghymru a sefydlwyd gan Ddeddf Llywodraeth Leol 2000 ac nad yw wedi newid fawr ddim er mwyn sicrhau ei fod yn parhau i fod yn addas at y diben, yn agored ac yn dryloyw, a'i fod yn ennyn hyder pawb sydd ynghlwm wrth y fframwaith. Cefais fy nghomisiynu i gynnal yr adolygiad hwn gyda'r nod o gyflwyno adroddiad i Weinidogion Llywodraeth Cymru erbyn diwedd mis Mehefin 2021. Bwriedir i unrhyw newidiadau y cytunir arnynt gael eu gwneud cyn yr etholiadau llywodraeth leol ym mis Mai 2022.

1.2 Byddai'r adolygiad yn cynnwys y canlynol:

- archwiliad o Godau Ymddygiad awdurdodau;
- dadansoddiad o effeithiolrwydd y fframwaith wrth feithrin safonau ymddygiad uchel mewn llywodraeth leol a hyder y cyhoedd yn y trefniadau hynny;
- a yw'r fframwaith yn addas at y diben o hyd;
- rôl Pwyllgorau Safonau;
- dadansoddiad o'r trefniadau a'r protocolau sydd ar waith i gefnogi aelodau a staff;
- ystyried y sancsiynau presennol ac a ydynt yn briodol o hyd.

1.3 Roedd yn hanfodol sicrhau bod y teulu llywodraeth leol yng Nghymru yn chwarae rhan lawn yn yr adolygiad ac yn llywio'r canlyniad, a chynhaliwyd cyfarfodydd â llawer o'r unigolion hynny a chynrychiolwyr y sefydliadau a oedd fwyaf amlwg ynghlwm wrth gyflwyno'r fframwaith safonau moesegol yng Nghymru, ac mae'r adroddiad hwn, ei ganfyddiadau a'i argymhellion yn bennaf seiliedig ar farn a phrofiad yr unigolion a'r sefydliadau hynny.

1.4 Y prif gwestiwn i bawb dan sylw oedd - sut y gellir gwella safonau moesegol mewn llywodraeth leol yng Nghymru, ac yn ymarferol sut y gellir lleihau nifer y cwynion?

1.5 Credir yn gyffredinol fod y fframwaith presennol yn 'addas at y diben' ac yn gweithio'n dda yn ymarferol. Mae llawer hefyd o'r farn ei fod gryn dipyn yn well na'r hyn a ddefnyddir gan lywodraeth leol yn Lloegr ar hyn o bryd. Fodd bynnag, mae hefyd yn glir, gyda rhai mân addasiadau a diwygiadau i'r fframwaith presennol, y gallai hyn arwain at lai o gwynion lefel isel a golygu bod angen cynnal ymchwiliadau ffurfiol yn llawer llai aml. Mae canlyniad y cam cyntaf hwn o'r adolygiad yn adeiladu ar elfennau cadarnhaol y fframwaith gan gryfhau'r meysydd hynny lle yr ystyrir y gellid gwneud gwelliannau ar yr un pryd. Byddai'r safonau moesegol sydd eisoes yn uchel o fewn llywodraeth leol yng Nghymru yn cael eu gwella ymhellach o ganlyniad.

1.6 Nodir fy mhrif ganfyddiadau ac argymhellion ar gyfer newid yn Adran 5 o'r adroddiad hwn ac fe'u crynhoir isod:

- ***Archwiliad o Godau Ymddygiad yr holl awdurdodau gofynnol yn erbyn y Cod Enghreifftiol er mwyn nodi unrhyw amrywiadau lleol***

  Heblaw am un eithriad (Cyngor Sir) mae'r Cod Ymddygiad Enghreifftiol wedi cael ei fabwysiadu heb amrywiadau nac ychwanegiadau sylweddol. Fodd bynnag, mae dros hanner wedi mabwysiadu gweithdrefn neu brotocol datrys lleol sy'n ategu'r Cod Enghreifftiol, ac mae gan dros hanner ofyniad hyfforddiant hefyd, unwaith eto nid fel rhan o'r Cod ei hun ond yn ychwanegol ato. Yn yr awdurdodau eraill mae hyn yn ddisgwyliad yn hytrach na bod yn orfodol.

- ***Dadansoddiad o effeithiolrwydd y fframwaith wrth feithrin safonau ymddygiad uchel mewn llywodraeth leol yng Nghymru a hyder y cyhoedd yn y trefniadau hynny***

  Mae'r fframwaith yn gyffredinol, a gofynion y Cod Ymddygiad yn arbennig, wedi chwarae rhan annatod wrth feithrin y safonau ymddygiad uchel sydd i'w gweld mewn llywodraeth leol yng Nghymru. Fodd bynnag, mae pryderon ynghylch y lefel barhaus o gwynion, sydd wedi cynyddu'n ddiweddar, am ymddygiad aelodau Cynghorau Cymuned. Dylai addasiadau a diwygiadau i'r fframwaith presennol sy'n gofyn am hyfforddiant gorfodol ar y Cod ar gyfer pob aelod a mwy o ddefnydd o weithdrefnau datrys lleol arwain at leihad sylweddol yn nifer y cwynion lefel isel yn bennaf a wneir a'r angen am ymchwiliadau ffurfiol sy'n ofynnol i honiadau o dorri'r Cod, a fyddai'n arwain at wella'r safonau moesegol sydd eisoes yn uchel o fewn llywodraeth leol yng Nghymru ymhellach.

- ***Ystyried a yw'r fframwaith yn dal i fod yn addas at y diben, gan gynnwys a yw'r deg egwyddor ymddygiad yn dal i fod yn berthnasol ac a oes angen i'r Cod Ymddygiad Enghreifftiol gael ei ddiweddaru. Bydd hyn yn cynnwys nodi meysydd lle y gellid/dylid gwneud gwelliannau i'r trefniadau presennol***

  Y consensws yw bod y fframwaith presennol yn addas at y diben ac yn gweithio'n dda yn ymarferol. Ystyrir bod y deg egwyddor ymddygiad yn berthnasol, ac yn gyffredinol credir bod y Cod Ymddygiad Enghreifftiol yn briodol ac nad oes angen ei ddiwygio'n sylweddol. Fodd bynnag, rwyf wedi cynnig nifer o ddiwygiadau i'r Cod:

  - Nid yw'r Cod yn cynnig unrhyw drothwy o ran datgan unrhyw rodd, lletygarwch, buddiant perthnasol na mantais. Dylai'r trothwy gael ei nodi yn y Cod er mwyn sicrhau cysondeb ledled Cymru.

  - Mae'n ofynnol i aelodau gynnwys eu cyfeiriad cartref yng Nghofrestr

Buddiannau eu Cyngor. Cytunir na ddylai'r Cod ei gwneud yn ofynnol i Gynghorwyr ddatgelu eu cyfeiriad cartref ac y dylai'r Cod gael ei ddiwygio'n briodol.

- Ni chaiff *'person'* ei ddiffinio yn Neddf Llywodraeth Leol 2000 nac yn y Cod. Argymhellir y byddai'n fuddiol cael diffiniad clir o ystyr *'person'* ar wyneb y ddeddfwriaeth neu yn y Cod.

- Nid yw paragraff 4a o'r Cod sy'n ei gwneud yn ofynnol i aelod:

  *'cyflawni eich dyletswyddau a'ch cyfrifoldebau gan roi sylw dyladwy i'r egwyddor y dylai fod cyfle cyfartal i bawb, waeth beth fo'u rhyw, eu hil, eu hanabledd, eu cyfeiriadedd rhywiol, eu hoed neu eu crefydd'*

  yn cynnwys yr holl nodweddion gwarchodedig. Dylai'r ddarpariaeth yn y Cod gael ei hymestyn i gynnwys y naw nodwedd warchodedig sydd o dan Ddeddf Cydraddoldeb 2010.

- Mae'r posibilrwydd o dorri'r Cod yn sgil y defnydd helaeth a chynyddol o'r cyfryngau cymdeithasol yn destun pryder. Dylai'r canllawiau defnyddiol gan CLlLC ac Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru gael eu ffurfioli drwy ddiwygiadau priodol i'r Cod.

- Mae 6(1)(b) o'r Cod Ymddygiad yn rhwymo aelodau etholedig i adrodd ar ymddygiad troseddol eraill ond nid eu hymddygiad troseddol eu hunain. Dylai'r Cod gael ei ddiwygio'n briodol fel bod yr aelod yn gorfod adrodd ar ei ymddygiad troseddol ei hun.

Yn ogystal â'r diwygiadau arfaethedig hyn i'r Cod Ymddygiad Enghreifftiol, mae nifer o argymhellion eraill o ran y fframwaith safonau moesegol presennol yng Nghymru:

- **Hyfforddiant gorfodol ar y Cod Ymddygiad i holl aelodau prif gynghorau a chynghorau cymuned**

  Y ffordd symlaf o sicrhau bod pawb yn cael hyfforddiant gorfodol fyddai cynnwys ymrwymiad i gwblhau'r hyfforddiant angenrheidiol yn y Datganiad Derbyn Swydd y mae'n ofynnol i bob aelod etholedig ei lofnodi o dan Orchymyn Etholiadau Lleol (Datganiad Derbyn Swydd) (Cymru) 2004 cyn y gall ddod yn Gynghorydd, yn yr un ffordd ag y mae'n ofynnol iddo ddilyn Cod Ymddygiad ei awdurdod ar hyn o bryd. Gall fod angen deddfwriaeth i ddiwygio Gorchymyn 2004 yn briodol.

- **Datrys mwy o gwynion yn lleol**

  Dylai'r Cod Ymddygiad Enghreifftiol gael ei ddiwygio'n briodol er mwyn ei gwneud yn ofynnol i ystyried datrys cwyn yn lleol cyn ei hatgyfeirio at yr Ombwdsmon

Gwasanaethau Cyhoeddus. Y consensws yw, ar y cyd â rhoi hyfforddiant gorfodol ar y Cod Ymddygiad i bob Cynghorydd, y byddai hyn yn cyflymu'r broses gwyno ac yn sicrhau bod adnoddau'r Ombwdsmon yn canolbwyntio ar ymchwilio i gwynion difrifol.

- **Pwerau estynedig i Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru**

  Byddai mwy o ddefnydd o ddisgresiwn yr Ombwdsmon ym maes atgyfeirio yn cael ei groesawu gan Swyddogion Monitro a Chadeiryddion Pwyllgorau Safonau. Byddai ei alluogi i atgyfeirio cwynion yn ôl er mwyn eu datrys yn lleol yn newid buddiol i'r fframwaith presennol.

- **Newidiadau i bwerau a phrosesau Panel Dyfarnu Cymru**

  - **Gorchmynion adrodd cyfyngedig**

    Ni all y Panel reoli'r sylw a gaiff achos yn y wasg. Ym marn Llywydd y Panel, byddai'r pwerau sydd ar gael i Dribiwnlys Cyflogaeth - i orfodi Gorchymyn Adrodd Cyfyngedig hyd nes diwedd achos neu Orchymyn Adrodd Cyfyngedig estynedig - yn briodol i bob Tribiwnlys Panel, a gellid eu cyflwyno naill ai drwy ddeddfwriaeth ar gyfer yr holl dribiwnlysoedd yng Nghymru yn sgil Adroddiad diweddar Comisiwn y Gyfraith neu'n benodol ar gyfer Panel Dyfarnu Cymru.

  - **Tystion dienw**

    Gall y Llywydd gyhoeddi canllawiau i sicrhau cysondeb a thryloywder, ond byddai pŵer penodol i gadw tystion yn ddienw yn ddefnyddiol i Dribiwnlysoedd Achos ac Apêl er mwyn sicrhau sail gyfreithiol. Gall y Llywydd ychwanegu'r pŵer hwn ar gyfer Tribiwnlysoedd Apêl fel rhan o'i gylch gwaith, ond byddai angen deddfwriaeth newydd sbon ar gyfer Tribiwnlysoedd Achos.

  - **Datgelu**

    Mae mater yn codi ynghylch datgelu deunydd heb ei ddefnyddio a ddelir gan yr Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus a Swyddogion Monitro. Cytunwyd diwygio proses yr Ombwdsmon ei hun yn hyn o beth, gyda chanllawiau/cyfarwyddyd ymarfer Llywyddol ar ddatgelu a rôl y Swyddog Monitro'n gyffredinol.

  - **Gweithdrefn y Tribiwnlys Apêl**

    Mae Llywydd y Panel yn bwriadu gofyn am ddiwygiadau i weithdrefn y Tribiwnlys Apêl. Mae'r Rheoliadau presennol yn ei gwneud yn ofynnol i'r Pwyllgor Safonau ystyried penderfyniad y Panel ar yr Apêl os yw'n wahanol

i'r penderfyniad gwreiddiol. Mae hyn yn amhoblogaidd ymhlith Pwyllgorau Safonau am eu bod yn teimlo'n rhwym wrth benderfyniad y Panel. Mae'r Llywydd yn fodlon ar hyn gan fod y Pwyllgor Safonau yn parhau i fod yn gyfrifol a gall adlewyrchu ei ymateb i benderfyniad y Panel yn y sancsiwn y mae'n penderfynu ei osod.

- **Gweithdrefn y Tribiwnlys Achos**

  Ym marn Llywydd y Panel mae'r Rheoliadau yn rhy hen ac mae wedi cynnig nifer o ddiwygiadau er mwyn gwneud Gweithdrefn y Tribiwnlys Achos yn fwy effeithlon ac yn decach i dystion.

- **Gweithdrefn caniatâd i apelio**

  Rhaid cael caniatâd Llywydd y Panel i apelio. Mae'r Llywydd yn cynnig mân ddiwygiadau er mwyn gwneud y broses yn fwy cytbwys a synhwyrol.

- **Pwerau dedfrydu**

  Mae'r pwerau sydd ar gael i'r Panel yn gyfyngedig a hoffai'r Llywydd allu gorfodi sancsiynau mwy amrywiol fel yn achos cyn-Banel Dyfarnu Lloegr.

- **Tribiwnlysoedd Achos Interim**

  Mae gan yr Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus y pŵer i wneud atgyfeiriadau interim at y Panel os yw hynny er budd y cyhoedd a lle ceir tystiolaeth prima facie nad yw'r unigolyn wedi cydymffurfio â'r Cod Ymddygiad, y mae ei natur yn debygol o arwain at ei anghymhwyso. Ystyrir bod y trothwy ar gyfer bodloni'r gofynion deddfwriaethol ar gyfer atgyfeiriad interim yn rhy uchel, ond byddai unrhyw newid i'r pwerau hyn yn gofyn am ddeddfwriaeth sylfaenol gan Lywodraeth Cymru. Cynigir symleiddio'r broses gyfan drwy gymhwyso prawf sy'n debyg i'r hyn a ddefnyddir gan y Tribiwnlysoedd Rheoleiddiol megis Tribiwnlys yr Ymarferwyr Meddygol. Byddai'r diwygiad hwn yn gymharol fach o ran y prawf budd cyhoeddus presennol, ond byddai'n gwneud y camau y mae angen eu cymryd a'r diffiniad o fudd y cyhoedd yn llawer cliriach. Byddai'n gofyn am ddeddfwriaeth newydd gan Lywodraeth Cymru.

- ***Ystyried rôl Pwyllgorau Safonau, gan gynnwys eu rôl o ran Cynghorau Tref a Chymuned, ac a yw sefydlu is-bwyllgorau wedi cael unrhyw effaith ar y broses o gefnogi Cynghorau Cymuned ac ymdrin â chwynion.***

  - Mae angen gweithredu mewn modd cyson a sicrhau bod cylch gwaith y Pwyllgor Safonau yn debyg, at ei gilydd, ledled Cymru ond bod angen i'r Pwyllgor Safonau lleol adlewyrchu natur benodol y sefyllfa ar gyfer y prif gyngor dan sylw. Dylai Cadeirydd y Pwyllgor Safonau chwarae rôl arwain,

ynghyd â'r Prif Weithredwr, y Swyddog Monitro ac Arweinwyr grwpiau gwleidyddol wrth hyrwyddo safonau ymddygiad uchel ym mhob rhan o'r Cyngor.

- Mae Deddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru) 2021 yn cynnwys nifer o ddarpariaethau ac iddynt oblygiadau o ran gwaith Pwyllgorau Safonau y disgwylir iddynt gefnogi arweinyddiaeth wleidyddol y Cyngor wrth gynnal safonau ymddygiad uchel gan aelodau eu grŵp a chyflwyno adroddiad blynyddol i'r awdurdod ar gyflawni ei swyddogaethau, ei asesiad o safonau ymddygiad o fewn yr awdurdod ac unrhyw argymhellion ar gyfer gwella safonau.

- Mae angen hyfforddi aelodau Pwyllgorau Safonau, nid yn unig ar y Cod Ymddygiad Enghreifftiol, ond hefyd ar sut i gynnal Gwrandawiadau er mwyn sicrhau bod yr aelod y cwynir amdano, yr achwynydd ac unrhyw dystion yn cael eu trin mewn ffordd agored a theg.

- Dylai fod Fforwm Cymru gyfan ar gyfer Cadeiryddion Annibynnol Pwyllgorau Safonau a dylid ailsefydlu'r Gynhadledd flynyddol ar gyfer Cadeiryddion Annibynnol ac aelodau Annibynnol o Bwyllgorau Safonau a fyddai'n annog dull cyson o weithredu a mabwysiadu arferion gorau ledled Cymru.

- Mae Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru yn derbyn yr angen am fwy o atgyfeirio'n ôl at Bwyllgorau Safonau pan fydd yn gwrthod ymchwilio i gwynion. Byddai angen i Bwyllgorau Safonau gael pwerau ychwanegol i'w gwneud yn ofynnol i aelodau gael yr hyfforddiant angenrheidiol a'r pŵer i'w gwneud yn ofynnol i aelod ymddiheuro i'r achwynydd.

- Mae cryn bryder am y lefel o fwlio, diffyg parch neu fel arall ymddygiad aflonyddgar cyffredinol rhai aelodau mewn cyfarfodydd Cynghorau Tref a Chymuned. Mae hwn yn fater y gellid ei liniaru drwy ei gwneud yn ofynnol i gynghorwyr gael hyfforddiant gorfodol a gwneud mwy o ddefnydd o weithdrefnau datrys lleol, ac mae canllawiau gan Un Llais Cymru a Chymdeithas Clercod Cynghorau Lleol wedi bod o fudd wrth gynorthwyo Cynghorau i osgoi neu fynd i'r afael ag ymddygiad o'r fath, ond mae'n dal i fod yn broblem ddifrifol.

- ***Dadansoddiad o'r trefniadau a'r protocolau sydd ar waith o fewn awdurdodau i gefnogi aelodau a staff i a) atal materion rhag codi yn y lle cyntaf a b) atal uwchgyfeirio materion y tu hwnt i lefel ddatrys leol. Bydd hyn yn cynnwys meysydd megis cyfathrebu a chyfeirio clir, hyfforddiant ac ymwybyddiaeth a'r dull o ymdrin â chwynion.***

  Bu'r adolygiad o fudd mawr wrth ddynodi lle mae'r angen am newidiadau i'r trefniadau presennol i gefnogi aelodau a staff – yn bennaf Pwyllgorau Safonau a Swyddogion Monitro – i atal materion rhag codi ac ymdrin â nhw mewn ffordd fwy

effeithiol ac amserol heb fod angen i'r Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus ymchwilio iddynt. Bwriedir i'r argymhellion ar gyfer newidiadau i'r fframwaith safonau moesegol presennol gynorthwyo'r gwaith o gyflawni'r amcan hwnnw.

- ***Ystyried y sancsiynau presennol ac a ydynt yn briodol o hyd***

  Yn ystod fy adolygiad ni fynegwyd nad yw'r sancsiynau hyn sydd ar gael i Bwyllgor Safonau yn gymesur nac yn briodol. Fodd bynnag, cefnogir galluogi Panel Dyfarnu Cymru i osod sancsiynau mwy amrywiol nag sy'n wir ar hyn o bryd. Cynigir y dylai'r sancsiynau fod yn debyg i'r rhai sydd ar gael i cyn-Banel Dyfarnu Lloegr.

- **Hygyrchedd y fframwaith safonau moesegol**

  Cyfyngir ar allu aelod o'r cyhoedd i wneud cwyn ddilys am ymddygiad aelod etholedig yn ei ardal gan y diffyg cyhoeddusrwydd ynghylch y fframwaith safonau moesegol a sut y gall y weithdrefn gwyno gael ei defnyddio. Ceir gwybodaeth a chyngor defnyddiol iawn ar wefannau Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru, CLlLC ac Un Llais Cymru. Fodd bynnag, byddai aelod o'r cyhoedd yn ei chael hi'n anodd iawn dod o hyd i wybodaeth ddefnyddiol petai am gwyno, yn enwedig os na all fynd ar y we, neu ei fod yn ei chael hi'n anodd cael gafael ar wybodaeth oherwydd anableddau amrywiol, neu am ei fod yn perthyn i 'grŵp anodd ei gyrraedd', neu oherwydd rhwystrau ieithyddol. Er mwyn sicrhau bod y fframwaith safonau moesegol yn wirioneddol agored, tryloyw a hygyrch i bawb, ac os mai'r amcan yw y dylai'r fframwaith ennyn hyder pawb a all fod angen ei ddefnyddio, yna mae angen ystyried sut y gellir sicrhau mynediad cyfartal i bawb.

## 2 Cefndir a methodoleg

2.1 Yng nghyfarfod Cyngor Partneriaeth Cymru ar 1 Medi 2021, trafododd y Gweinidog Tai a Llywodraeth Leol ar y pryd amrywiaeth o faterion yn gysylltiedig â gweithredu Deddf

Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru) 2021. Un o'r materion a drafodwyd oedd ei bwriad i gomisiynu adolygiad annibynnol o'r fframwaith safonau moesegol. Cytunodd Arweinwyr Cynghorau fod hyn yn amserol yn sgil y newidiadau i'r fframwaith a nodwyd yn y Ddeddf a'r amser sydd wedi mynd heibio ers i'r fframwaith gael ei gyflwyno gyntaf.

2.2 Cafodd y fframwaith safonau moesegol yng Nghymru ei sefydlu gan Ddeddf Llywodraeth Leol 2000 ac nid yw wedi newid fawr ddim, er y bu nifer o addasiadau bach er mwyn gwella'r ffordd y caiff y fframwaith ei roi ar waith dros yr ugain mlynedd diwethaf. Yn 2016 y cafodd yr is-ddeddfwriaeth sy'n sail i'r fframwaith ei hadolygu a'i diwygio ddiwethaf. Cafodd y Cod Ymddygiad Enghreifftiol, a gyflwynwyd gyntaf yn 2001, ei ailwampio'n sylweddol yn 2008 a chafodd ei ddiwygio ymhellach yn 2016.

2.3 Wrth wraidd Deddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru) 2021, a gafodd Gydsyniad Brenhinol ar 20 Ionawr 2021, mae egwyddorion democratiaeth, amrywiaeth, tryloywder ac atebolrwydd i ddinasyddion Cymru. Mae nifer o ddarpariaethau sy'n hanfodol er mwyn sicrhau bod cymunedau a Chynghorau lleol yn fwy tryloyw ac agored, ac mae'r Ddeddf yn cynnwys mesurau i drechu bwlio ac aflonyddu ymhlith aelodau etholedig a staff Cynghorau.

2.4 Ers i'r fframwaith gael ei sefydlu, mae Llywodraeth Cymru wedi parhau i ddangos ei hymrwymiad i gydraddoldeb ac amrywiaeth, gan gynnwys drwy Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol 2015. Yn fwyaf diweddar, mae'r Llywodraeth wedi cyhoeddi'r Adolygiad o Gydraddoldeb Rhywiol ac mae wrthi'n ymgynghori ar ei Chynllun Gweithredu Cydraddoldeb Hiliol newydd.

2.5 Ar sail y ddeddfwriaeth a'r polisïau newydd hyn y daeth Llywodraeth Cymru i'r casgliad bod angen i'r fframwaith safonau moesegol gael ei adolygu er mwyn sicrhau ei fod yn dal yn addas at y diben, yn agored ac yn dryloyw, a'i fod yn ennyn hyder pawb sydd ynghlwm wrth y fframwaith.

2.6 Wrth ddatblygu'r gwaith hwn, ystyriwyd ei bod yn hanfodol sicrhau bod y teulu llywodraeth leol yng Nghymru yn chwarae rhan lawn yn yr adolygiad ac yn llywio'r canlyniad. Dylai hyn gynnwys aelodau llywodraeth leol (Prif Gynghorau a Chynghorau Cymuned), swyddogion monitro, pwyllgorau safonau, penaethiaid gwasanaethau democrataidd, Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru (CLlLC), Cyfreithwyr mewn Llywodraeth Leol, Un Llais Cymru, Cymdeithas Clercod Cynghorau Lleol, Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru a dinasyddion/sefydliadau cynrychioliadol. Roedd angen dangos y fath gyfranogiad fel rhan o ganlyniad y gwaith hwn.

2.7 Isod nodir prif elfennau'r gwaith:

- archwiliad o Godau Ymddygiad yr holl awdurdodau gofynnol yn erbyn y Cod Enghreifftiol er mwyn nodi unrhyw amrywiadau lleol.

- dadansoddiad o effeithiolrwydd y fframwaith wrth feithrin safonau ymddygiad uchel mewn llywodraeth leol yng Nghymru a hyder y cyhoedd yn y trefniadau hynny.
- ystyried a yw'r fframwaith yn dal i fod yn addas at y diben, gan gynnwys a yw'r deg egwyddor ymddygiad yn dal i fod yn berthnasol ac a oes angen i'r Cod Ymddygiad Enghreifftiol gael ei ddiweddaru. Bydd hyn yn cynnwys nodi meysydd lle y gellid/dylid gwneud gwelliannau i'r trefniadau presennol.
- ystyried rôl pwyllgorau safonau, gan gynnwys eu rôl o ran Cynghorau Cymuned, ac a yw sefydlu is-bwyllgorau yn cael unrhyw effaith ar y broses o gefnogi Cynghorau Cymuned ac ymdrin â chwynion.
- dadansoddiad o'r trefniadau a'r protocolau sydd ar waith o fewn awdurdodau i gefnogi aelodau a staff i a) atal materion rhag codi yn y lle cyntaf a b) atal uwchgyfeirio materion y tu hwnt i lefel ddatrys leol. Bydd hyn yn cynnwys meysydd megis cyfathrebu a chyfeirio clir, hyfforddiant ac ymwybyddiaeth a dull awdurdodau o ymdrin â chwynion.
- ystyried y sancsiynau presennol ac a ydynt yn briodol o hyd

2.8 Cynhelir yr adolygiad mewn dwy ran:

- Yn gyntaf ymgysylltwyd â phartneriaid er mwyn casglu barn am y broses a'r dull o roi'r fframwaith ar waith, gan gynnwys manylion ynghylch lle mae'r fframwaith yn gweithio'n dda a lle y gellid gwneud gwelliannau. Byddai'r cam cyntaf hwn yn arwain at fap i adeiladu ar elfennau cadarnhaol y fframwaith wrth hefyd gryfhau'r meysydd hynny lle yr ystyrir y gellid gwneud gwelliannau. Hefyd, fel rhan o'r gwaith hwn, ystyrir opsiynau i sicrhau bod gofynion darpariaethau'r Gofrestr Buddiannau yng Ngorchymyn y Cod Ymddygiad Enghreifftiol yn unol â pholisi'r Ddeddf i atal cyfeiriadau Cynghorwyr rhag cael eu cyhoeddi.
- Yn ail canolbwyntir ar weithio gyda phartneriaid a rhanddeiliaid er mwyn cyflawni'r newidiadau angenrheidiol.

2.9 Rwy'n gyn-Brif Weithredwr dau awdurdod lleol mawr yn Lloegr, ac ymhlith y rolau eraill rwyf wedi'u cyflawni ers dychwelyd i Gymru mae Comisiynydd Safonau cyntaf Cynulliad Cenedlaethol Cymru rhwng 2000 a 2012.

2.10 Croesewais y cyfle i arwain yr adolygiad hwn ac i gasglu'r dystiolaeth ehangaf bosibl am gryfderau a gwendidau'r fframwaith safonau moesegol presennol gan y rhai sydd ynghlwm wrth roi'r fframwaith ar waith, sut y gellid ei wella a sut y rheolir gofynion y ddeddfwriaeth ddiweddar. Y prif gwestiwn i bawb dan sylw oedd - sut y gellir gwella safonau moesegol mewn llywodraeth leol yng Nghymru, ac yn ymarferol sut y gellir lleihau nifer y cwynion?

2.11 Bu'n ofynnol imi lunio adroddiad ar yr adolygiad yn cynnwys fy nghanfyddiadau,

casgliadau ac unrhyw argymhellion perthnasol.

2.12 I ddechrau edrychais ar amrywiaeth o ddogfennau a oedd ar gael i'r cyhoedd ac, yn ystod fy adolygiad, cefais nifer mawr o ddogfennau perthnasol eraill, y mae'r rhan fwyaf ohonynt ar gael i'r cyhoedd ond yr oedd nifer ohonynt yn gyflwyniadau gan ymgyngoreion unigol.

2.13 Mae fy ymchwiliad wedi cynnwys adolygiad o'r holl ddogfennau hyn, ynghyd â chyfweliadau ag ystod eang o randdeiliaid sydd ynghlwm wrth roi'r fframwaith safonau moesegol ar waith yng Nghymru.

2.14 Cyfarfûm â'r canlynol:

**Swyddogion Llywodraeth Cymru**

Dirprwy Gyfarwyddwr Is-adran Democratiaeth Llywodraeth Leol

Pennaeth y Gangen Democratiaeth, Amrywiaeth a Chydnabyddiaeth

Cyn-bennaeth y Tîm Moeseg a Rheoliadau

Arweinydd polisi'r Fframwaith Safonau Moesegol

Pennaeth Polisi Partneriaethau Llywodraeth Leol

Polisi Partneriaethau Llywodraeth Leol - Cynghorau Cymuned a Rheoliadau

Pennaeth y Gangen Gwasanaethau Tân ac Achub, Is-adran Diogelwch Cymunedol

Pennaeth Tirweddau a Hamdden Awyr Agored, yr Economi, Sgiliau a Chyfoeth Naturiol

Pennaeth Uned Tribiwnlysoedd Cymru

**Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru**

Pennaeth Polisi (Gwelliant a Llywodraethu)

Swyddog Polisi a Gwelliant (Gwasanaethau Democrataidd)

**Un Llais Cymru**

Prif Weithredwr

Dirprwy Brif Weithredwr a Rheolwr Adnoddau

**Cymdeithas Clercod Cynghorau Lleol**

Swyddog Cyswllt Polisi Cymru

**Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru**

Ombwdsmon

Cyfarwyddwr Polisi, Cyfreithiol a Llywodraethu

**Panel Dyfarnu Cymru**

Llywydd PDC

**Swyddogion Monitro**

Swyddog Monitro Cyngor Bwrdeistref Sirol Caerffili

Swyddog Monitro Cyngor Caerdydd

Swyddog Monitro Cyngor Sir Ceredigion

Swyddog Monitro Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy

Swyddog Monitro Cyngor Sir Ddinbych

Swyddog Monitro Cyngor Sir y Fflint

Swyddog Monitro Cyngor Gwynedd

Swyddog Monitro Cyngor Sir Fynwy

Swyddog Monitro Cyngor Sir Powys

Swyddog Monitro Cyngor Bwrdeistref Sirol Rhondda Cynon Taf (cyflwyniad ysgrifenedig)

Swyddog Monitro Cyngor Bro Morgannwg

Swyddog Monitro Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam

Cyfarfod o Grŵp y Swyddogion Monitro

**Awdurdodau Tân ac Achub**

Swyddog Monitro Awdurdod Tân ac Achub De Cymru

**Awdurdodau Parciau Cenedlaethol**

Swyddog Monitro Awdurdod Parc Cenedlaethol Arfordir Penfro

**Cadeiryddion Pwyllgorau Safonau**

Fforwm y canolbarth a'r gogledd ar gyfer Cadeiryddion Pwyllgorau Safonau

Cadeirydd Pwyllgor Safonau Caerdydd

Cadeirydd Pwyllgor Safonau Rhondda Cynon Taf

Cadeirydd Pwyllgor Safonau Bro Morgannwg

Cadeirydd Pwyllgor Safonau Awdurdod Tân ac Achub Canolbarth a Gorllewin Cymru

2.15 Hoffwn ddiolch i bawb a gafodd gyfweliad fel rhan o'r adolygiad hwn am eu parodrwydd i rannu eu profiad â mi mewn ffordd mor agored a chynhwysfawr, ac am eu harsylwadau, barn a chasgliadau proffesiynol ynghylch rhoi'r fframwaith safonau moesegol ar waith yng Nghymru, a'r hyn sydd angen newid er mwyn sicrhau bod y fframwaith yn addas at y diben.

## 3 Y fframwaith safonau moesegol presennol ar gyfer llywodraeth leol yng Nghymru

3.1 Mae Rhan III o Ddeddf Llywodraeth Leol 2000 (Deddf 2000) yn amlinellu fframwaith safonau moesegol ar gyfer llywodraeth leol yng Nghymru. Gwnaeth greu pŵer i Gynulliad Cenedlaethol Cymru gyhoeddi Cod Ymddygiad Enghreifftiol a fyddai'n gymwys i aelodau ac aelodau cyfetholedig yr holl awdurdodau perthnasol yng Nghymru (cyngor sir/bwrdeistref sirol; cyngor cymuned; awdurdod tân ac achub; ac awdurdod parc cenedlaethol). Cafodd y pŵer hwn ei drosglwyddo i Weinidogion Cymru gan Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006. Yn 2008 (fel y'i diwygiwyd ar 1 Ebrill 2016), cyhoeddodd Gweinidogion Cymru y Cod Ymddygiad Enghreifftiol presennol y mae'n ofynnol i'r holl awdurdodau perthnasol ei fabwysiadu.

3.2 Mae'r **Cod Ymddygiad Enghreifftiol** yn amlinellu'r hyn y mae angen i bob aelod etholedig ei wneud o ran safonau ymddygiad priodol mewn swydd gyhoeddus. Er enghraifft, mae'r Cod yn ei gwneud yn ofynnol i aelodau ddangos parch tuag at eraill a bod yn ystyrlon ohonynt a pheidio ag ymddwyn fel bwli neu harasio unrhyw berson. Rhaid i Gynghorwyr ymddwyn mewn ffordd wrthrychol ac er budd y cyhoedd, gan ystyried cyngor swyddogion, ac ni ddylent ddatgelu gwybodaeth gyfrinachol na gwybodaeth y dylid ystyried yn rhesymol ei bod yn gyfrinachol, heb ganiatâd penodol neu oni bai ei bod yn ofynnol gwneud hynny o dan y gyfraith.

3.2.1 Gwnaeth Deddf Llywodraeth Leol 2000 rymuso'r Cynulliad Cenedlaethol i gyhoeddi egwyddorion y mae'n rhaid i'r rhai a etholir i awdurdodau perthnasol eu hystyried wrth gyflawni eu rôl. Mae'r Cod Ymddygiad yn seiliedig ar yr egwyddorion hyn a gynlluniwyd i hyrwyddo'r safonau ymddygiad uchaf posibl. Mae'r egwyddorion hyn yn tynnu ar y 7 Egwyddor Bywyd Cyhoeddus a gyflwynwyd yn Adroddiad Nolan 'Standards of Conduct in Local Government in England, Scotland and Wales'. Ychwanegwyd tair egwyddor arall at y rhain: '*dyletswydd i gynnal y gyfraith'*, '*stiwardiaeth briodol o adnoddau'r Cyngor*' a '*cydraddoldeb a pharch at eraill'*. Cafodd yr egwyddorion presennol eu nodi mewn offeryn statudol (1. Gorchymyn Ymddygiad Aelodau (Egwyddorion) (Cymru) 2001 OS 2001 Rhif 2276 (Cy.166))

3.2.2 Mae'r aelodau a gaiff eu hethol i awdurdodau perthnasol yn rhoi'n hael o'u hamser ac yn ymrwymo i sicrhau budd i'w cymunedau. Mae'r 10 egwyddor yn darparu fframwaith i sianelu'r ymrwymiad hwnnw mewn ffordd a fydd yn adlewyrchu'n dda ar y Cynghorydd a'i awdurdod, ac yn rhoi hyder i'r gymuned leol o ran y ffordd y caiff yr awdurdod ei lywodraethu.

3.2.3 Bwriedir i adrannau unigol y Cod Ymddygiad gefnogi'r gwaith o weithredu'r 10 Egwyddor Bywyd Cyhoeddus fel y nodir isod.

*1. Anhunanoldeb*

*Rhaid i aelodau weithredu er lles y cyhoedd yn unig. Rhaid iddynt beidio byth â defnyddio'u safle fel aelodau er mantais amhriodol iddynt eu hunain neu er mantais neu anfantais amhriodol i eraill.*

*2. Gonestrwydd*

*Rhaid i aelodau ddatgan unrhyw fuddiannau preifat sy'n berthnasol i'w dyletswyddau cyhoeddus a chymryd camau i ddatrys unrhyw wrthdaro mewn modd sy'n diogelu buddiannau'r cyhoedd.*

*3. Uniondeb a gwedduster*

*Rhaid i aelodau beidio â'u rhoi eu hunain mewn sefyllfa lle mae unrhyw rwymedigaeth ariannol neu rwymedigaeth arall tuag at unigolion neu gyrff a allai geisio dylanwadu arnynt wrth iddynt gyflawni eu dyletswyddau yn bwrw amheuaeth ar eu huniondeb. Rhaid i aelodau osgoi ymddygiad sy'n ymddangos felly bob adeg.*

*4. Dyletswydd i gynnal y gyfraith*

*Rhaid i aelodau weithredu i gynnal y gyfraith, a gweithredu bob amser yn unol â'r ymddiriedaeth y mae'r cyhoedd wedi'i rhoi iddynt.*

*5. Stiwardiaeth*

*Wrth gyflawni eu dyletswyddau a'u cyfrifoldebau, rhaid i aelodau sicrhau bod adnoddau'r awdurdod yn cael eu defnyddio'n gyfreithlon ac yn ddoeth.*

*6. Gwrthrychedd wrth wneud penderfyniadau*

*Wrth gyflawni eu cyfrifoldebau, gan gynnwys gwneud penodiadau, dyfarnu contractau, neu argymell unigolion ar gyfer gwobrwyon a manteision, rhaid i aelodau wneud penderfyniadau ar sail rhagoriaeth. Er bod yn rhaid i aelodau roi sylw i gyngor proffesiynol swyddogion a gall fod yn briodol iddynt roi sylw i farn eraill, gan gynnwys eu grwpiau gwleidyddol, eu cyfrifoldeb nhw yw penderfynu pa safbwynt i'w arddel ac, os yw'n briodol, sut i bleidleisio ar unrhyw fater.*

*7. Cydraddoldeb a pharch*

*Rhaid i aelodau gyflawni eu dyletswyddau a'u cyfrifoldebau gyda sylw dyladwy i'r angen i hybu cyfle cyfartal i bawb, ni waeth beth yw eu rhywedd, eu hil, eu hanabledd, eu cyfeiriadedd rhywiol, eu hoed neu eu crefydd, a dangos parch ac ystyriaeth tuag at eraill.*

*8. Bod yn agored*

*Rhaid i aelodau fod mor agored â phosibl ynghylch eu holl weithredoedd a gweithredoedd eu hawdurdod. Rhaid iddynt geisio sicrhau bod datgeliadau gwybodaeth yn cael eu cyfyngu yn unol â'r gyfraith yn unig.*

*9. Atebolrwydd*

*Mae'r aelodau'n atebol i'r etholwyr ac i'r cyhoedd yn gyffredinol am eu gweithredoedd ac am sut y maent yn cyflawni eu cyfrifoldebau fel aelod. Rhaid iddynt fod yn barod i ildio i unrhyw archwiliadau sy'n briodol ar gyfer eu cyfrifoldebau.*

*10. Rhoi arweiniad*

*Rhaid i aelodau hybu a chefnogi'r egwyddorion hyn drwy roi arweiniad ac esiampl fel y byddant yn hybu hyder cyhoeddus yn eu rôl ac yn yr awdurdod. Rhaid iddynt barchu uniondeb swyddogion statudol yr awdurdod a chyflogeion eraill yr awdurdod a'r ffaith eu bod yn ddiduedd.*

3.2.4 Nid yw'r Egwyddorion yn rhan o'r Cod Ymddygiad Enghreifftiol ac nid yw methu â chydymffurfio â'r Egwyddorion yn dynodi torri'r Cod ynddo'i hun. Fodd bynnag, mae'n debygol, er enghraifft, y byddai methu â glynu wrth yr Egwyddor ynghylch 'cydraddoldeb a pharch' yn gyfystyr â thorri'r gofynion a nodir ym mharagraffau 4(a) a 4(b) o'r Cod ynghylch cyfle cyfartal a pharch.

3.2.5 Bu'n ofynnol i'r holl awdurdodau perthnasol yng Nghymru fabwysiadu'r Cod Enghreifftiol yn ei gyfanrwydd, ond gellid ychwanegu ato ar yr amod bod hyn yn cael ei wneud mewn ffordd a oedd yn gyson â'r Cod Enghreifftiol. Bwriad hyn oedd rhoi sicrwydd i aelodau etholedig a'r cyhoedd ynghylch y safonau disgwyliedig. Mae'n helpu i sicrhau cysondeb rhwng awdurdodau perthnasol, gan osgoi dryswch i'r aelodau etholedig hynny sy'n rhan o fwy nag un awdurdod a'r cyhoedd.

3.2.6 Mae pob aelod etholedig, pan fydd yn llofnodi'r Datganiad Derbyn Swydd, yn cadarnhau y bydd yn cydymffurfio â Chod Ymddygiad ei Gyngor. Cyfrifoldeb personol yr aelod yw sicrhau ei fod yn deall ei rwymedigaethau o dan y Cod ac yn gweithredu mewn ffordd sy'n dangos ei fod yn ymrwymedig i gyrraedd y safonau ymddygiad uchel y disgwylir ohono fel aelod. Yn y pen draw, fel aelod, ef sy'n gyfrifol am y penderfyniadau a wna a gall gael ei ddwyn i gyfrif amdanynt. Fodd bynnag, nid yw hyn yn golygu y gall wneud penderfyniadau sy'n torri'r Cod nac sy'n mynd yn groes i gyngor dim ond oherwydd mai'r unigolyn sy'n gwneud y penderfyniad.

3.2.7 Mae Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru wedi cyhoeddi canllawiau defnyddiol iawn i gynorthwyo Cynghorwyr i benderfynu pryd mae'r Cod Ymddygiad yn gymwys iddynt:

- Ymddygiad ar lefel gyhoeddus a phreifat

  Mae gan aelodau hawl i fywyd preifat, ac mae llawer o'r darpariaethau yn y Cod ond yn gymwys pan fydd yn gweithredu fel aelod etholedig neu'n cynrychioli'r Cyngor. Fodd bynnag, gan fod amgylchiadau lle y gall ymddygiad aelod yn ei fywyd preifat effeithio ar enw da ac uniondeb y Cyngor, mae rhai o ddarpariaethau'r Cod yn gymwys bob amser. Wrth ddod i benderfyniad ynghylch a yw'r Cod yn gymwys ar adeg benodol mae'r Ombwdsmon yn ystyried amgylchiadau penodol a natur yr ymddygiad ar yr adeg honno.

- Pryd mae'r Cod yn gymwys?

  - pryd bynnag y mae aelod yn gweithredu mewn rhinwedd swyddogol, gan gynnwys pryd bynnag y bydd yn cynnal busnes ei awdurdod neu'n gweithredu, yn honni gweithredu, neu'n rhoi'r argraff ei fod yn gweithredu, yn ei rinwedd swyddogol fel aelod neu gynrychiolydd ei awdurdod

- ar unrhyw adeg, os bydd yr aelod yn gweithredu mewn ffordd a allai gael ei ystyried yn rhesymol yn dwyn anfri ar ei swydd neu ei awdurdod neu os yw'n defnyddio neu'n ceisio defnyddio ei safle i ennill mantais neu osgoi anfantais iddo'i hun neu unrhyw un arall neu os yw'n camddefnyddio adnoddau ei awdurdod.

- lle bydd aelod yn cynrychioli ei Gyngor ar awdurdod perthnasol arall, neu unrhyw gorff arall, rhaid iddo, wrth weithredu ar ran yr awdurdod arall hwnnw, gydymffurfio â Chod Ymddygiad ei Gyngor. Pan gaiff ei enwebu gan ei Gyngor yn ymddiriedolwr elusen mae'n ofynnol iddo wrth weithredu felly i wneud hynny er budd yr elusen honno, yn unol â chyfraith elusennau a'r canllawiau sydd wedi'u llunio gan y Comisiwn Elusennau.

- os bydd aelod yn cynrychioli ei Gyngor ar gorff arall, er enghraifft ar bwyllgor digwyddiadau, nad oes ganddo God Ymddygiad sy'n ymwneud â'i aelodau, rhaid i'r aelod gydymffurfio â Chod ei Gyngor ei hun oni fydd yn gwrthdaro ag unrhyw ofynion cyfreithiol y mae'n rhaid i'r corff arall eu bodloni.

- os bydd aelod yn cyfeirio ato'i hun fel Cynghorydd, bydd y Cod yn gymwys, a hynny mewn sgwrs, yn ysgrifenedig, neu wrth ddefnyddio'r cyfryngau electronig. Bu cynnydd sylweddol yn nifer y cwynion i'r Ombwdsmon ynghylch y defnydd o Facebook, blogiau a Twitter. Os yw'r aelod yn cyfeirio at ei rôl fel Cynghorydd mewn unrhyw ffordd neu fod y sylwadau a wna yn amlwg yn gysylltiedig â'r rôl honno, yna bydd y Cod yn gymwys i unrhyw sylwadau a wneir yno. Hyd yn oed os na fydd yr aelod yn cyfeirio at ei rôl fel Cynghorydd, gall y sylwadau ddwyn anfri ar ei swydd neu awdurdod ac felly gallai dorri paragraff 6(1)(a) o'r Cod. Mae Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru wedi llunio canllawiau defnyddiol ar y cyfryngau cymdeithasol, sef 'Cyfryngau Cymdeithasol: Canllaw i Gynghorwyr'. Nod y canllawiau yw rhoi gwell syniad i aelodau sut y gallant ddefnyddio'r cyfryngau cymdeithasol, y problemau posibl a sut i'w hosgoi.

- os caiff aelod ei wahardd o'i swydd am unrhyw reswm, rhaid iddo barhau i ddilyn yr elfennau hynny o'r Cod sy'n gymwys, yn enwedig fel y nodir ym mharagraff 2(1)(d), tra'i fod wedi'i wahardd.

3.3 Bwriedir i'r fframwaith safonau moesegol yng Nghymru hyrwyddo safonau ymddygiad uchel gan Gynghorwyr. Mae gan **Bwyllgorau Safonau** prif gynghorau a sefydlir o dan adran 53 o Ddeddf 2000 rôl allweddol yn hyn o beth. Maent yn cynnwys aelodau lleyg annibynnol ynghyd ag aelodau etholedig yr awdurdod, ac aelod annibynnol fydd y Cadeirydd.

3.3.1 'Swyddogaethau cyffredinol' Pwyllgor Safonau yw:

- hyrwyddo a chynnal safonau ymddygiad uchel ymhlith aelodau'r awdurdod;

- cynorthwyo aelodau i ddilyn y Cod Ymddygiad a fabwysiadwyd gan y Cyngor

3.3.2 Hefyd mae gan Bwyllgor Safonau y 'swyddogaethau penodol' canlynol:

- cynghori'r awdurdod ar fabwysiadu neu ddiwygio Cod Ymddygiad;
- monitro'r broses o roi'r Cod Ymddygiad ar waith;
- cynghori, hyfforddi neu drefnu hyfforddiant i aelodau ar faterion yn ymwneud â'r Cod Ymddygiad.

3.3.3 O dan ddarpariaethau eraill Deddf 2000, mae Pwyllgorau Safonau hefyd yn ystyried ceisiadau gan aelodau am ganiatâd i gymryd rhan mewn busnes y mae ganddynt fudd rhagfarnol ynddo. Maent yn ystyried honiadau o dorri'r Cod Ymddygiad ac yn dyfarnu yn eu cylch yn dilyn ymchwiliad gan yr Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus neu, yn llai aml, y Swyddog Monitro perthnasol. Er bod rhai Pwyllgorau wedi tueddu i weld yr olaf o'r rhain fel eu prif rôl, dylai eu prif ffocws fod ar fesurau rhagweithiol i gefnogi aelodau o'u Cyngor i gynnal safonau ymddygiad priodol a thrwy hynny osgoi torri'r Cod. Gwna Pwyllgorau Safonau hyn drwy amrywiaeth o ffyrdd, megis gweithio gydag arweinwyr grwpiau gwleidyddol, mynychu a monitro cyfarfodydd Cyngor a chyflwyno adroddiadau blynyddol i Gynghorau ar eu gweithgareddau a'r safonau ymddygiad o fewn yr awdurdod.

3.3.4 Mae Pwyllgor Safonau prif Gyngor hefyd yn arfer y swyddogaethau uchod o ran aelodau Cynghorau Tref a Chymuned yn ei ardal. Fodd bynnag, yn amodol ar ymgynghoriad â'r Cynghorau hynny yn ei ardal, gall is-bwyllgor gael ei sefydlu i gyflawni holl swyddogaethau Pwyllgor Safonau o ran Cynghorau Cymuned. Mae'n ofynnol i Bwyllgorau Safonau prif Gynghorau gynorthwyo aelodau ac aelodau cyfetholedig Cynghorau Cymuned yn eu hardal i ddilyn y Cod Ymddygiad, a threfnu i gyngor a hyfforddiant gael eu darparu. Er nad yw Cynghorwyr Cymuned yn gweithredu ar gyrff gwneud penderfyniadau megis Pwyllgorau Cynllunio, gelwir arnynt i wneud penderfyniadau ynghylch dyrannu cyllid o braesept y Cyngor a chynnig canllawiau, gan ddefnyddio gwybodaeth leol werthfawr, i'r Cyngor Sir ar effaith ceisiadau cynllunio. Rhaid sicrhau bod aelodau Cynghorau Cymuned yn llwyr ymwybodol o'r Cod Ymddygiad a'i oblygiadau o ran eu penderfyniadau ac a ddylent fod ynghlwm wrth wneud penderfyniad.

3.3.5 Pan gaiff achos ei atgyfeirio at Bwyllgor Safonau ei rôl yw penderfynu a yw aelod wedi torri'r Cod ac a ddylid gosod sancsiwn. Fel arfer cynhelir gwrandawiadau'n gyhoeddus oni fydd rhesymau dilys dros beidio â gwneud hynny er mwyn ennyn hyder y cyhoedd yn safonau bywyd cyhoeddus. Pan ddaw Pwyllgor Safonau i'r casgliad bod aelod neu aelod cyfetholedig wedi methu â chydymffurfio â Chod Ymddygiad y Cyngor perthnasol, gall bennu:

- nad oes angen cymryd unrhyw gamau o ran y methiant hwnnw
- y dylai'r aelod neu'r aelod cyfetholedig gael cerydd a hynny'n gyhoeddus,

neu

- dylai'r aelod neu'r aelod cyfetholedig gael ei wahardd neu ei wahardd dros dro rhag bod yn aelod o'r awdurdod hwnnw am gyfnod nad yw'n hwy na chwe mis neu os yw'n fyrrach, am weddill cyfnod mewn swydd yr aelod.

3.3.6 Gall aelod sydd wedi cael ei sancsiynu geisio caniatâd Llywydd Panel Dyfarnu Cymru i apelio yn erbyn penderfyniad Pwyllgor Safonau.

3.4 Mae gan **Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru** bwerau i ymchwilio i honiadau bod Cynghorwyr unigol yng Nghymru wedi methu â chydymffurfio â Chod Ymddygiad Aelodau eu Cyngor. Rhaid cyflwyno cwyn am fethu â chydymffurfio â'r Cod Ymddygiad yn uniongyrchol i'r Ombwdsmon, a fydd yn penderfynu a yw'n briodol ymchwilio i'r mater.

3.4.1 Os bydd yr Ombwdsmon o'r farn bod angen ymchwilio i gŵyn, yr Ombwdsmon fydd yn cynnal yr ymchwiliad fel arfer. Fodd bynnag, mae gan yr Ombwdsmon bwerau i atgyfeirio cwynion at Swyddog Monitro'r awdurdod lleol priodol er mwyn i'r Pwyllgor Safonau lleol gynnal ymchwiliad a dod i benderfyniad. Gall yr Ombwdsmon atgyfeirio adroddiad ar ganlyniad ymchwiliad gan ei swyddfa i'r Pwyllgor Safonau perthnasol neu, yn gyffredinol mewn achosion mwy difrifol, i Banel Dyfarnu Cymru.

3.4.2 Mae Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru yn ymchwilio i gwynion bod aelodau o awdurdodau perthnasol yng Nghymru wedi torri'r Cod. Wrth bennu a oes angen ymchwilio i gŵyn neu a ddylid parhau i ymchwilio i achos o dorri'r Cod, mae'r Ombwdsmon yn defnyddio prawf dau gam:

- y cam cyntaf yw nodi a oes tystiolaeth uniongyrchol o dorri'r Cod. Y lefel o brawf sydd ei hangen yw 'ar sail tebygolrwydd'
- os bodlonir y cam tystiolaethol cyntaf hwnnw, ar yr ail gam bydd yr Ombwdsmon yn ystyried a oes angen ymchwiliad neu atgyfeiriad i Bwyllgorau Safonau neu Banel Dyfarnu Cymru 'er budd y cyhoedd'. Ymhlith ffactorau budd y cyhoedd mae:
    - difrifoldeb y mater
    - a wnaeth yr aelod fynd ati'n fwriadol i elwa'n bersonol neu elwa rhywun arall ar draul y cyhoedd
    - a yw'r mater dan sylw yn golygu bod aelod wedi camddefnyddio'r ymddiriedaeth neu'r awdurdod a roddwyd iddo ac wedi niweidio rhywun
    - a gafodd y mater ei gymell gan unrhyw fath o wahaniaethu yn erbyn tarddiad ethnig neu genedlaethol y dioddefwr, neu ei rywedd, anabledd, oedran, crefydd neu gred, cyfeiriadedd rhywiol neu hunaniaeth rhywedd
    - a oes tystiolaeth o ymddygiad tebyg blaenorol gan yr aelod

- a oes angen cynnal ymchwiliad neu wneud atgyfeiriad at Bwyllgor Safonau neu Banel Dyfarnu Cymru er mwyn cynnal hyder y cyhoedd mewn aelodau etholedig yng Nghymru

- a yw ymchwiliad neu atgyfeiriad at Bwyllgor Safonau neu Banel Dyfarnu Cymru yn ymateb cymesur, hynny yw, a yw'n debygol y byddai'r mater yn arwain at sancsiynu'r aelod (mae'r Ombwdsmon yn ystyried canlyniadau achosion blaenorol a ystyriwyd gan Bwyllgorau Safonau ledled Cymru a Phanel Dyfarnu Cymru), ac a fyddai defnyddio adnoddau wrth gynnal ymchwiliad neu wrandawiad gan Bwyllgor Safonau neu Banel Dyfarnu Cymru yn cael ei ystyried yn ormodol o gymharu ag unrhyw sancsiwn tebygol.

3.4.3 Nid yw'r ffactorau hyn yn hollgynhwysfawr a bydd y pwysau sydd ynghlwm wrth bob un yn amrywio yn dibynnu ar ffeithiau a rhinweddau pob achos. Mae gan yr Ombwdsmon gryn ddisgresiwn o ran dechrau ymchwiliad neu barhau ag ymchwiliad. Mae wedi diwygio'r prawf dau gam a fabwysiadwyd gan ei ragflaenydd er mwyn darparu mwy o eglurder ynghylch sut y bydd fel arfer yn arfer ei ddisgresiwn ac er mwyn sicrhau elfen o gysondeb a sicrwydd yn y penderfyniadau a wna.

3.4.4 Pan fydd yr Ombwdsmon wedi ymchwilio i gŵyn gall atgyfeirio'r mater at Bwyllgor Safonau perthnasol neu Banel Dyfarnu Cymru i wneud penderfyniad. Bydd hyn yn dibynnu ar natur ac amgylchiadau unigol yr honiad. Wrth gyflwyno ei adroddiad, bydd yr Ombwdsmon yn myfyrio ar y dystiolaeth ac yn ei dadansoddi cyn dod i gasgliad ynghylch a yw'n debygol bod y Cod wedi'i dorri. Fodd bynnag, dim ond Pwyllgor Safonau neu Banel Dyfarnu Cymru sydd â'r awdurdod a'r cyfrifoldeb i wneud penderfyniad ynghylch achos o dorri'r Cod.

## 3.5 Proses Ddatrys Leol

Mae'r rhan fwyaf o brif gynghorau yng Nghymru wedi mabwysiadu gweithdrefnau datrys lleol er mwyn ymdrin â chwynion lefel isel a wneir gan aelod yn erbyn aelod arall. Mae'r trefniadau hyn yn effeithiol wrth ddatrys llawer o'r mathau hyn o gwynion, ac mae nifer o Gynghorau Cymuned sydd wedi mabwysiadu gweithdrefn debyg gan ddefnyddio'r weithdrefn Ddatrys Leol Enghreifftiol a ddatblygwyd i'w defnyddio ganddynt gan Un Llais Cymru. Fel rheol bydd y cwynion hyn yn ymwneud â methiannau honedig i ddangos parch at eraill ac ystyriaeth ohonynt fel sy'n ofynnol gan baragraff 4(b) o'r Cod Ymddygiad neu'r ddyletswydd i beidio â gwneud cwynion blinderus, maleisus neu wacsaw yn erbyn aelodau eraill o dan baragraff 6(1)(ch) o'r Cod. Er y gall aelod barhau i gwyno'n uniongyrchol i'r Ombwdsmon ynghylch cyd-aelod os yw'r mater dan sylw yn ymwneud â pharagraffau 4(b) a 6(1)(d), mae'n debygol o atgyfeirio'r mater yn ôl at Swyddog Monitro'r prif gyngor er mwyn iddo ei ystyried o dan y broses hon. Derbynnir yn gyffredinol mai'r ffordd fwyaf priodol o ddatrys y fath gwynion yw yn anffurfiol ac yn lleol er mwyn cyflymu'r broses gwyno a sicrhau bod adnoddau'r Ombwdsmon yn canolbwyntio ar ymchwilio i gwynion difrifol.

3.5.1 Nod datrysiadau lleol yw datrys materion ar gam cynnar er mwyn atal y sefyllfa rhag gwaethygu'n ddiangen a all niweidio cydberthnasau personol o fewn yr awdurdod ac enw da'r awdurdod. Gall y broses arwain at ymddiheuriad gan yr aelod dan sylw. Fodd bynnag, pan fydd aelod wedi torri protocol lleol ei awdurdod droeon, yna mae'r Ombwdsmon yn disgwyl i'r Swyddog Monitro atgyfeirio'r mater yn ôl ato, ac os bydd yn gweld patrwm o gwynion tebyg gan yr un aelodau, bydd yn ei ystyried yn fater difrifol ac yn penderfynu a yw adrodd y fath gwynion yn barhaus yn ymddygiad sydd, ynddo'i hun, yn gofyn am ymchwiliad fel achos posibl o dorri'r Cod.

## 3.6 Panel Dyfarnu Cymru

Mae Panel Dyfarnu Cymru yn dribiwnlys annibynnol a sefydlwyd o dan Ran III o Ddeddf Llywodraeth Leol 2000 i benderfynu ar honiadau o dorri Cod Ymddygiad statudol awdurdod gan aelodau etholedig a chyfetholedig cynghorau cymuned, bwrdeistref sirol a sir yng Nghymru, yn ogystal ag awdurdodau tân a pharciau cenedlaethol yng Nghymru.

3.6.1 Mae gan Banel Dyfarnu Cymru ddwy swyddogaeth statudol mewn perthynas â thorri'r Cod Ymddygiad:

- ffurfio Tribiwnlysoedd Achos neu Achos Interim i ystyried atgyfeiriadau gan Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru ar ôl iddo ymchwilio i honiadau bod aelod wedi methu â chydymffurfio â Chod Ymddygiad ei awdurdod;

- ystyried apeliadau gan aelodau yn erbyn penderfyniadau pwyllgorau safonau awdurdodau lleol eu bod wedi torri'r Cod Ymddygiad mewn Tribiwnlysoedd Apêl.

3.6.2 Caiff gweithdrefnau Panel Dyfarnu Cymru eu llywodraethu gan y ddeddfwriaeth ganlynol:

- Deddf Llywodraeth Leol 2000 (fel y'i diwygiwyd);
- Rheoliadau Dyfarniadau gan Dribiwnlysoedd Achos a Thribiwnlysoedd Achos Interim (Cymru) 2001 (fel y'u diwygiwyd);
- Rheoliadau Ymchwiliadau Llywodraeth Leol (Swyddogaethau Swyddogion Monitro a Phwyllgorau Safonau) (Cymru) 2001 (fel y'u diwygiwyd)).

3.6.3 Mae Panel Dyfarnu Cymru yn gweithredu yn unol â'i reoliadau gweithdrefnol a deddfwriaeth gysylltiedig arall. Mae'r rheoliadau yn sicrhau y caiff pob achos sy'n cael ei wrando gan y Panel ei drin yn deg, cyson, prydlon a chyfiawn. Mae'n sicrhau y bydd pawb sy'n dod gerbron Panel Dyfarnu Cymru yn deall yn glir y camau y mae'n rhaid iddynt eu cymryd fel bod modd i ffeithiau'r anghydfod a'r dadleuon perthnasol gael eu cyflwyno'n effeithiol i'r Panel. Mae hefyd yn sicrhau y bydd pawb sydd ynghlwm wrth achos yn deall dadleuon y naill a'r llall ac yn gallu ymateb iddynt.

3.6.4 Rhaid i unrhyw un sydd am ymateb i atgyfeiriad gan Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru neu wneud cais am ganiatâd i apelio i Banel Dyfarnu Cymru gwblhau'r ffurflen berthnasol a'i hanfon i'r Panel. Mae'r Panel yn ystod un o Wrandawiadau Panel Dyfarnu Cymru yn cynnwys cadeirydd sydd wedi ymgymhwyso yn y gyfraith a dau aelod lleyg. Gall aelodau sydd wedi ymgymhwyso yn y gyfraith hefyd eistedd fel aelod lleyg. Fel arfer cynhelir Gwrandawiadau'r Panel yn gyhoeddus ac yn agos at ardal yr awdurdod. Bydd Panel Dyfarnu Cymru yn cyhoeddi ei benderfyniadau ar ei wefan. Gellir apelio yn erbyn penderfyniadau Tribiwnlysoedd Achos ar sail gyfyngedig i'r Uchel Lys, ac mae'n rhaid cael caniatâd i apelio i'r Uchel Lys yn y lle cyntaf gan yr Uchel Lys.

3.6.5 Pan fydd yr Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus yn atgyfeirio achos at Banel Dyfarnu Cymru, ei rôl yw penderfynu a yw aelod wedi torri'r Cod ac a ddylid gosod sancsiwn. Y pwerau sydd ar gael i'r Panel pan fydd yn penderfynu bod aelod neu aelod cyfetholedig wedi methu â chydymffurfio â'r Cod yw:

- anghymwyso'r ymatebydd rhag bod, neu rhag dod, yn aelod o'r awdurdod perthnasol dan sylw neu unrhyw awdurdod perthnasol arall am hyd at bum mlynedd
- gwahardd yr ymatebydd neu ei wahardd dros dro rhag bod yn aelod neu'n aelod cyfetholedig o'r awdurdod perthnasol dan sylw am hyd at 12 mis, neu
- beidio â chymryd unrhyw gamau o ran torri'r Cod. Mewn achosion o'r fath gall y Panel benderfynu ei bod yn briodol rhybuddio'r aelod o ran ei ymddygiad yn y dyfodol. Lle bydd rhybudd o'r fath wedi'i gofnodi, mae'n debygol o gael ei ystyried mewn unrhyw wrandawiad yn y dyfodol lle penderfynir bod yr aelod wedi methu â dilyn darpariaethau'r Cod unwaith eto.

3.6.6 Lle y bydd Pwyllgor Safonau neu'r Panel yn gwahardd neu'n gwahardd yn rhannol aelod neu aelod cyfetholedig, bydd yr aelod hwnnw yn dal i fod yn ddarostyngedig i'r Cod Ymddygiad, yn enwedig y darpariaethau a nodir ym mharagraffau 6(1)(a) (*'peidio ag ymddwyn mewn ffordd y gellid yn rhesymol ei hystyried yn un sy'n dwyn anfri ar eich swydd neu ar eich awdurdod'*) a pharagraff 7 (*'peidio â defnyddio eich safle fel aelod yn amhriodol'*).

3.7 Rôl **Swyddog Monitro** prif gyngor

Swyddog wedi'i gyflogi gan y Cyngor Sir neu Fwrdeistref Sirol yw'r Swyddog Monitro. Ymhlith llawer o bethau eraill mae'n cynghori ac yn cynorthwyo Cynghorwyr Sir. Gall Swyddogion Monitro gynnig peth hyfforddiant a chyngor i Gynghorwyr Cymuned yn eu hardal. Mae gan y Swyddog Monitro rôl sylweddol yn y broses ddatrys leol a amlinellwyd yn gynharach a bydd hefyd yn gweithio'n agos yn cynghori Pwyllgor Safonau'r Cyngor.

3.8 Rôl **Clerc** Cyngor Cymuned

Mae gan y Clerc rôl gymhleth ac mae'n cynghori Cynghorwyr Cymuned ar ddeddfwriaeth berthnasol, gan gynnwys materion yn ymwneud â'r Cod Ymddygiad a Rheolau Sefydlog y Cyngor. Bydd y Clerc yn gweithio'n agos gyda'r Cadeirydd i sicrhau bod gweithdrefnau priodol yn cael eu dilyn a bod yr holl wybodaeth angenrheidiol ar gael i Gynghorwyr fel y gallant wneud penderfyniadau ar sail gwybodaeth. Gall Clercod droi at Swyddog Monitro eu Cyngor Sir neu Fwrdeistref Sirol perthnasol am gyngor a chefnogaeth.

3.8.1 Caiff y Clerc ei gyflogi gan y Cyngor ac nid oes rhaid iddo ddilyn y Cod Ymddygiad. Materion personél fydd unrhyw faterion ynghylch perfformiad y Clerc a dylid mynd i'r afael â nhw gan ddefnyddio gweithdrefnau cyflogaeth priodol. Ni all Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru ystyried cwynion ynghylch perfformiad y Clerc am mai mater i'r Cyngor fel cyflogwr y Clerc yw hyn.

3.9 **Cwynion i Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru**

3.9.1 Yn 2019/20 derbyniodd yr Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus 231 o gwynion newydd ynghylch y Cod Ymddygiad - gostyngiad o 18% o gymharu â 2018/19:

| | 2019/20 | 2018/19 |
|---|---|---|
| Cynghorau Tref a Chymuned | 135 | 190 |
| Cynghorau Sir a Bwrdeistref Sirol | 96 | 91 |
| Parciau Cenedlaethol | 0 | 1 |
| Cyfanswm | 231 | 282 |

3.9.2 Roedd y gostyngiad hwn yn 2019/20 yn ymwneud bron yn gyfan gwbl â'r lleihad yn nifer y

cwynion gan neu yn erbyn aelodau o Gynghorau Cymuned. Roedd hyn yn galonogol i'r Ombwdsmon ac yn ei Adroddiad Blynyddol ar gyfer 2019/20 awgrymodd y gallai safonau ymddygiad aelodau'r cyrff hyn fod yn gwella a/neu fod problemau'n cael eu datrys yn lleol a da o beth yw hynny. Serch hynny, mae'n dal i dderbyn cwynion am nifer bach o Gynghorau Cymuned yr ymddengys eu bod yn go wacsaw neu'n cael eu cymell gan elyniaeth wleidyddol neu bersonoliaethau croes, yn hytrach na bod yn faterion sydd wir yn berthnasol i God Ymddygiad. Pan siaradais ag ef rhoddodd enghraifft o hyn drwy gyfeirio at un gŵyn a dderbyniodd am aelod o Gyngor Cymuned a oedd yn clicio ei feiro mewn ffordd ymosodol tuag at aelod arall. Roedd 18% o'r cwynion am Gynghorau Cymuned a dderbyniwyd ond yn ymwneud ag aelodau un corff yn unig ac roeddent, i bob diben, yn gwynion 'talu'r pwyth yn ôl'. Lle y bo'n briodol, mae'r Ombwdsmon wedi cynghori aelodau bod gwneud cwynion wacsaw a/neu flinderus yn torri'r Cod Ymddygiad ynddo'i hun.

3.9.3 Yn 2019/20 roedd 135 o'r 231 o gwynion a ystyriwyd gan Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru yn ymwneud â Chynghorwyr Cymuned, a oedd 18% yn llai o'r 190 o gwynion ynghylch Cynghorwyr Cymuned a ystyriwyd gan yr Ombwdsmon yn 2018/19. Fodd bynnag, er bod yr Ombwdsmon wedi gobeithio bod hyn yn arwydd bod safonau ymddygiad Cynghorau Cymuned yn arbennig yn gwella, ac er nad yw Adroddiad Blynyddol yr Ombwdsmon ar gyfer 2020/21 wedi'i gyhoeddi eto, pan siaradais ag ef rhoddodd wybod ymlaen llaw fod nifer y cwynion a dderbyniodd yn 2020/21 wedi cynyddu 47%. Hefyd dywedodd mai'r arwyddion cynnar yw y bydd cynnydd sylweddol pellach yn y flwyddyn gyfredol (2021/22). Mynegodd bryder bod ei sefydliad yn treulio gormod o amser yn mynd drwy gwynion – dros 400 yn 2020/21 – nad yw'r mwyafrif llethol ohonynt yn werth ymchwilio iddynt. Ym marn yr Ombwdsmon, rhoi hyfforddiant gorfodol i'r holl Gynghorwyr a gwneud mwy o ddefnydd o brosesau datrys lleol ar gyfer llawer o'r cwynion lefel isel hyn yw'r ffordd o sicrhau bod ei waith yn effeithlon, ag iddo bwyslais penodol, a byddai ymestyn ei bŵer i atgyfeirio cwynion yn ôl at ddatrysiad lleol yn newid buddiol i'r fframwaith presennol.

3.9.4 Fel mewn blynyddoedd blaenorol, roedd y rhan fwyaf o'r cwynion Cod Ymddygiad a dderbyniwyd yn 2019/20 yn ymwneud â materion *'hyrwyddo cydraddoldeb a pharch'* (49%) a *'datgelu a chofrestru budd'* (17%). Mynegodd yr Ombwdsmon bryder bod y themâu hyn yn parhau i ddominyddu ac y bu cynnydd o flwyddyn i flwyddyn o ran nifer y cwynion lle yr honnir bwlio, yn enwedig gan Glercod neu gyflogeion/contractwyr prif gynghorau/Cynghorau Sir a Bwrdeistref Sirol neu Gynghorau Cymuned. Yn ei farn ef gallai aelodau gael budd o hyfforddiant neu hyfforddiant gloywi ar y pynciau hyn, er mai ei argraff o ymchwiliadau yw nad yw llawer o aelodau Cynghorau Cymuned yn achub ar gyfleoedd yn aml i dderbyn hyfforddiant ar y Cod Ymddygiad.

3.9.5 Barn yr Ombwdsmon, a ategwyd gan bawb y cyfarfûm â nhw yn ystod fy adolygiad, yw bod hyfforddiant ar y Cod Ymddygiad yn hanfodol er mwyn bod yn 'Gynghorydd da', ac y dylai'r aelodau gwblhau'r hyfforddiant hwn cyn gynted ag y byddant yn dod yn aelod etholedig/cyfetholedig ac y dylid darparu hyfforddiant gloywi rheolaidd ar ddarpariaethau a gofynion y Cod Ymddygiad. Ar hyn o bryd nid oes rhwymedigaeth statudol ar aelodau Cynghorau Cymuned i gwblhau hyfforddiant o'r fath er ei bod yn ofynnol iddynt gydymffurfio â'r Cod.

3.9.6 Yn 2019/20, cafodd 202 neu tua 80% o'r holl gwynion Cod Ymddygiad eu cau ar ôl eu hasesu yn erbyn prawf cam dau yr Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus neu ar ôl i gŵyn gael ei thynnu'n ôl ar y cam asesu. Mae'r gyfran hon ond ychydig yn uwch na'r flwyddyn flaenorol (83%). Roedd y cwynion sy'n weddill yr ymchwiliwyd iddynt yn cynrychioli'r cwynion mwyaf difrifol a dderbyniwyd.

3.9.7 Yn ystod ymchwiliad yr Ombwdsmon, caiff y dystiolaeth a gesglir ei hadolygu er mwyn asesu a yw'n dal i fod o fudd i'r cyhoedd barhau â'r ymchwiliad. Os ymddengys nad yw ymchwilio i fater o fudd i'r cyhoedd mwyach, bydd yr Ombwdsmon yn penderfynu rhoi'r gorau i ymchwilio iddo. Weithiau ni fydd yr ymchwiliad yn canfod unrhyw dystiolaeth o dorri'r Cod. Yn olaf, pan ddaw ymchwiliad i ben, gall yr Ombwdsmon benderfynu nad oes angen cymryd unrhyw gamau o ran y materion dan sylw. Dyma fydd yn digwydd yn aml os bydd yr aelod wedi cydnabod y gall yr ymddygiad awgrymu torri'r Cod a'i fod wedi edifarhau neu wedi cymryd camau cywirol neu adferol i leihau ei effaith ar yr unigolyn, y cyhoedd neu'r awdurdod dan sylw. Gwnaeth yr Ombwdsmon un neu'r llall o'r penderfyniadau uchod hyn mewn 85% o'r ymchwiliadau Cod Ymddygiad yn 2019/20.

3.9.8 Mewn achosion lle na ellir eu datrys fel hyn neu sy'n dangos bod y Cod wedi'i dorri'n ddifrifol, mae angen i'r Ombwdsmon atgyfeirio'r achos at Bwyllgor Safonau lleol perthnasol neu Banel Dyfarnu Cymru i'w ystyried. Yn 2019/20 gwnaed 5 atgyfeiriad, 2% o'r holl gwynion Cod Ymddygiad a gaewyd, o gymharu ag 8 neu 3% yn 2018/19. Yn 2019/20, yr atgyfeiriadau hyn oedd:

- 4 atgyfeiriad at Bwyllgorau Safonau
- 1 atgyfeiriad at Banel Dyfarnu Cymru

3.9.9 Bydd Panel Dyfarnu Cymru neu'r Pwyllgor Safonau lleol perthnasol yn ystyried y dystiolaeth, ynghyd ag unrhyw amddiffyniad a roddir gan yr aelod dan sylw. Yna bydd yn penderfynu a gafodd y Cod ei dorri ac os felly, pa gosb, os o gwbl, y dylid ei rhoi.

3.9.10 Roedd y 4 atgyfeiriad at Bwyllgorau Safonau yn 2019/20 yn ymwneud ag ymddygiad a ystyriwyd yn amharchus, a allai gael ei ystyried yn fwlio a/neu ymddygiad a oedd yn dwyn anfri. Roedd un o'r achosion a gafodd ei atgyfeirio yn ymwneud ag ymddygiad a oedd yn dangos bwlio tuag at un o gyflogeion contractwr yr awdurdod. Pan gafodd Adroddiad Blynyddol 2019/20 ei gyhoeddi, roedd Panel Dyfarnu Cymru yn ystyried apêl ynghylch sancsiwn yn unig yn yr achos hwnnw. Roedd dau atgyfeiriad yn ymwneud ag ymddygiad a oedd yn awgrymu bod yr aelodau wedi defnyddio eu safle'n amhriodol i greu mantais neu osgoi anfantais iddynt eu hunain neu i eraill. Pan gafodd Adroddiad Blynyddol 2019/20 ei gyhoeddi, roedd penderfyniad ynghylch y ddau atgyfeiriad hyn yn yr arfaeth.

3.9.11 Roedd yr atgyfeiriad at Banel Dyfarnu Cymru yn ymwneud ag ymddygiad aelod yn ei fywyd preifat ac ystyriodd a allai'r ymddygiad dan sylw effeithio ar ei awdurdod a dwyn anfri arno. Hefyd roedd yn ymwneud â ph'un a oedd yr aelod hwnnw wedi defnyddio ei safle'n amhriodol i roi mantais i rywun arall ai peidio. Yn achos yr atgyfeiriad hwn, penderfynodd y Panel fod y Cod wedi cael ei dorri mewn ffyrdd difrifol. O ganlyniad, cafodd yr aelod ei wahardd o'i swydd am 3 mis.

3.9.12 Rhwng 2016/17 a 2018/19, gwnaeth Panel Dyfarnu Cymru a Phwyllgorau Safonau gadarnhau a chanfod achosion o dorri'r Cod mewn 88% o'r atgyfeiriadau gan yr Ombwdsmon. Yn 2019/20 gwnaeth Pwyllgorau Safonau a Phanel Dyfarnu Cymru hefyd benderfynu ar 5 achos a atgyfeiriwyd gan yr Ombwdsmon. Yn yr holl achosion hyn, gwnaeth y Pwyllgorau Safonau a'r Panel ganfod achosion difrifol o dorri'r Cod. Ymhlith y rhain roedd enghreifftiau difrifol o ymddygiad amharchus ac amhriodol a oedd yn dwyn anfri ar ran aelodau tuag at aelodau eraill a'r cyhoedd. Mewn un achos, roedd yr aelod wedi torri'r Cod drwy geisio amharu ar ymchwiliad yr Ombwdsmon i gŵyn yn ei erbyn a niweidio'r ymchwiliad hwnnw. Ym mhob achos, cafodd yr aelodau, neu gyn-aelod, dan sylw eu gwahardd am gyfnod o 4 mis.

3.9.13 Fel sy'n glir o'r ystadegau uchod hyn, mae Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru ond yn gwneud atgyfeiriadau at Bwyllgor Safonau neu Banel Dyfarnu Cymru mewn nifer bach iawn o achosion yn unig, ac nid yw'n credu bod yr atgyfeiriadau yn dynodi dirywiad ehangach yn ymddygiad aelodau mewn llywodraeth leol yng Nghymru. Serch hynny, mae canlyniadau'r atgyfeiriadau hyn yn dangos pwysigrwydd safonau ymddygiad mewn bywyd cyhoeddus ac yn rhoi darparu arwydd defnyddiol i aelodau pob awdurdod o'r ffordd y disgwylir iddynt ymddwyn. Hyd yn oed pan na fydd yr Ombwdsmon yn atgyfeirio achos, defnyddir yr ymchwiliad fel cyfle i hyrwyddo arferion da, a chaiff yr aelodau yr ymchwilir iddynt eu hatgoffa o'u rhwymedigaethau o dan y Cod a, lle y bo'n berthnasol, cynigir hyfforddiant neu ymgysylltu pellach â'r awdurdod er mwyn atal achosion pellach posibl. Hefyd, weithiau, tynnir sylw aelodau at y ffaith y gellid ystyried y mater yn achos unrhyw gwynion tebyg yn y dyfodol. Yn ei adroddiad mae'r Ombwdsmon yn glir ei bod yn bwysig defnyddio ffyrdd arloesol ac ymarferol o ddatrys materion er mwyn sicrhau canlyniad mwy prydlon i bawb dan sylw.

## 4 Fy nghanfyddiadau

4.1 Yn ystod fy adolygiad rwyf wedi cyfarfod â'r rhan fwyaf o'r unigolion a'r sefydliadau hynny sydd ynghlwm wrth roi'r fframwaith safonau moesegol ar waith yng Nghymru. Y consensws cyffredinol yw bod y fframwaith presennol yn 'addas at y diben' ac yn gweithio'n dda yn ymarferol, a chynigiodd nifer mawr o'r rhai yr ymgynghorais â nhw nad oes angen trwsio rhywbeth nad yw wedi torri. Dywedodd llawer o'r ymatebwyr fod y fframwaith safonau moesegol sy'n gymwys yng Nghymru yn llawer gwell na'r un a ddefnyddir o fewn llywodraeth leol yn Lloegr ar hyn o bryd yn rhannol oherwydd, yn wahanol i Loegr, mae'r Cod Ymddygiad yn gymwys pan fydd Cynghorydd yn gweithredu yn ei rinwedd swyddogol a phan fydd Cynghorydd yn ymddwyn mewn ffordd y gellid ei ystyried yn dwyn anfri ar ei swydd neu ei awdurdod, ac yn rhannol am fod rhannu rolau a chyfrifoldebau fel y'i disgrifiwyd yn gynharach yn fframwaith Cymru yn rhoi lefel o annibyniaeth wirioneddol o ran y ffordd yr asesir cwynion ac yr ymchwilir iddynt. Fodd bynnag, mae hefyd yn glir, gyda rhai mân addasiadau a diwygiadau i'r fframwaith presennol, y gallai hyn arwain at lai o gwynion lefel isel a bod llai o angen o lawer i gynnal ymchwiliadau ffurfiol sy'n ofynnol i honiadau o dorri'r Cod Ymddygiad, ac y gallai'r safonau moesegol sydd eisoes yn uchel o fewn llywodraeth leol yng Nghymru gael eu gwella ymhellach.

### 4.2 Y Cod Ymddygiad Enghreifftiol

4.2.1 Mae Codau Ymddygiad clir, perthnasol a chymesur yn ganolog i gynnal safonau moesegol mewn bywyd cyhoeddus. Cafodd Codau Ymddygiad eu nodi gan y Pwyllgor ar Safonau mewn Bywyd Cyhoeddus yn ei adroddiad cyntaf yn 1995 fel un o elfennau hanfodol hyrwyddo a chynnal safonau moesegol mewn bywyd cyhoeddus, ar adeg pan nad oedd gan lawer o sefydliadau yn y sector cyhoeddus nhw. Mae Codau Ymddygiad yn chwarae rhan bwysig yn y gwaith o gynnal safonau moesegol mewn sefydliad. Nid ydynt yn ddewis amgen i werthoedd nac egwyddorion, ond maent yn dangos yn glir sut y dylai'r gwerthoedd a'r egwyddorion hynny gael eu rhoi ar waith. Maent yn golygu y gellir dwyn pobl i gyfrif am eu gweithredoedd drwy nodi disgwyliadau clir ynghylch y ffordd y dylent ymddwyn.

4.2.2 Cafodd y pŵer i gyhoeddi Cod Ymddygiad ei drosglwyddo i Weinidogion Cymru gan Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006, ac yn 2008 (fel y'i diwygiwyd ar 1 Ebrill 2016), cyhoeddodd Gweinidogion Cymru y Cod Ymddygiad Enghreifftiol presennol y mae'n ofynnol i'r holl awdurdodau perthnasol ei fabwysiadu. Yng Nghymru, yn wahanol i Loegr, mae'r Cod Ymddygiad yn gymwys pan fydd Cynghorydd yn gweithredu yn ei rinwedd swyddogol (gan gynnwys os yw'n honni ei fod yn gweithredu neu'n rhoi'r argraff ei fod yn gweithredu yn y rhinwedd hwnnw), a phan fydd Cynghorydd yn ymddwyn mewn ffordd *'y gellid yn rhesymol ei hystyried yn un sy'n dwyn anfri ar [ei] swydd neu ar [ei] awdurdod'*. Mae hyn yn cynnwys unrhyw bryd y bydd Cynghorydd yn ceisio defnyddio ei safle i ennill mantais (neu osgoi anfantais) iddo'i hun neu i eraill, neu'n camddefnyddio adnoddau ei awdurdod lleol. Fel y nodwyd yn gynharach, mae Ombwdsmon Gwasanaethau

Cyhoeddus Cymru hefyd wedi cyhoeddi canllawiau ar ddilyn y Cod Ymddygiad wrth ddefnyddio'r cyfryngau cymdeithasol.

4.2.3 Fel rhan o'r adolygiad hwn roedd yn ofynnol imi gynnal archwiliad o'r Codau Ymddygiad a fabwysiadwyd gan yr holl awdurdodau perthnasol yng Nghymru yn erbyn y Cod Enghreifftiol er mwyn nodi unrhyw amrywiadau lleol ac ystyried a yw'r deg 'egwyddor' ymddygiad yn dal i fod yn berthnasol ac a oes angen i'r Cod Ymddygiad Enghreifftiol gael ei ddiweddaru. Byddai hyn yn cynnwys nodi meysydd lle y gellid/dylid gwneud gwelliannau. Gwnaeth Swyddogion Monitro'r holl brif gynghorau, Awdurdodau Parciau Cenedlaethol, ac Awdurdodau Tân ac Achub ymateb i'm cais am wybodaeth am y Cod Ymddygiad a oedd wedi'i fabwysiadu gan eu Hawdurdod heblaw am un (Cyngor Sir), a'r ymateb oedd bod y Cod Ymddygiad Enghreifftiol wedi cael ei fabwysiadu heb fawr ddim amrywiadau nac ychwanegiadau. Fodd bynnag, mae nifer o awdurdodau lleol (dros hanner) wedi mabwysiadu gweithdrefn neu brotocol datrys lleol sy'n ategu'r Cod Enghreifftiol, ac mae gan dros hanner yr awdurdodau lleol ofyniad hyfforddiant hefyd, unwaith eto nid fel rhan o'r Cod ei hun ond yn ychwanegol ato. Mewn awdurdodau eraill mae hyn yn ddisgwyliad yn hytrach na bod yn orfodol.

4.2.4 Mae paragraff 17 o'r Cod Enghreifftiol yn ei gwneud yn ofynnol i aelodau, o fewn 28 o ddiwrnodau ar ôl cael unrhyw rodd, lletygarwch, buddiant materol neu fantais faterol, sy'n fwy na gwerth a bennir mewn penderfyniad gan eu hawdurdod, ddarparu hysbysiad ysgrifenedig ar gyfer swyddog monitro'r awdurdod, neu mewn perthynas â Chyngor Cymuned, swyddog priodol yr awdurdod yn nodi bodolaeth a natur y rhodd honno, y lletygarwch hwnnw, y buddiant materol hwnnw neu'r fantais faterol honno. Nid yw'r Cod yn nodi unrhyw drothwy ar gyfer datganiadau o'r fath ond mae nifer o awdurdodau wedi pennu trothwy y mae'n rhaid cael datganiad y tu hwnt iddo. Mae hyn yn amrywio o £21 i £100 ac mae cytundeb y dylai'r trothwy gael ei nodi yn y Cod er mwyn sicrhau cysondeb ledled Cymru.

4.2.5 Roedd hefyd yn ofynnol imi ystyried opsiynau i sicrhau bod gofynion darpariaethau'r Gofrestr Buddiannau yng Ngorchymyn y Cod Ymddygiad Enghreifftiol yn unol â pholisi Deddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru) 2021 i atal cyfeiriadau Cynghorwyr rhag cael eu cyhoeddi. Fel yr wyf yn ei ddeall, cafodd y gyfraith ynghylch cyhoeddi cyfeiriadau cartref Cynghorwyr ei newid yn Neddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru) 2021 felly ni fydd Cynghorau yn gwneud hyn mwyach o fis Mai 2022. Mae hyn er mwyn sicrhau diogelwch a phreifatrwydd aelodau, ac yn adlewyrchu'r ffaith bod negeseuon e-bost a galwadau ffôn yn ffordd fwy defnyddiol o gysylltu ag aelodau. Fodd bynnag, mae'r Rheoliadau a gyhoeddwyd o dan Ddeddf Llywodraeth Leol 2000 yn dal i'w gwneud yn ofynnol i aelodau gynnwys eu cyfeiriad cartref yng Nghofrestr Buddiannau'r Cyngor felly nid yw'r ddeddfwriaeth yn gytûn. Cytunir na ddylai'r Cod Ymddygiad ei gwneud yn ofynnol i Gynghorwyr ddatgelu eu cyfeiriad cartref, ac y dylai Paragraff 10.2(vi) o'r Cod Ymddygiad Enghreifftiol gael ei ddiwygio fel a ganlyn:

> *'unrhyw dir (heblaw am eich prif breswylfa) y mae gennych fuddiant llesiannol ynddo ac sydd yn ardal eich awdurdod'*

4.2.6 Mae'r Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus wedi codi mater yn ymwneud â'r diffiniad

o *'person'*, sy'n derm a ddefnyddir yn aml yn y Cod Ymddygiad Enghreifftiol. Ni chaiff *'person'* ei ddiffinio yn Neddf Llywodraeth Leol 2000 nac yn y Cod Ymddygiad Enghreifftiol felly mae'r Ombwdsmon wedi gorfod dibynnu ar y diffiniad yn Neddf Dehongli 1978 sef '*a body of persons corporate or unincorporate'*. Mae'r Ombwdsmon wedi cael ei herio pan mae wedi ceisio defnyddio ei bwerau i gael gwybodaeth gan gwmni neu elusen ac mae'n rhaid iddo fygwth a/neu ddefnyddio pwerau i ddwyn yn ffurfiol achos troseddol a/neu achos dirmyg o dan ddeddfwriaeth bresennol am fethu â chydweithredu â'r ymchwiliad gan yr Ombwdsmon. Felly byddai'n fuddiol cael diffiniad clir o ystyr *'person'* ar wyneb y ddeddfwriaeth neu yn y Cod Enghreifftiol.

4.2.7 Mae paragraff 4a o'r Cod Ymddygiad Enghreifftiol yn ei gwneud yn ofynnol i aelod:

> *'cyflawni eich dyletswyddau a'ch cyfrifoldebau gan roi sylw dyladwy i'r egwyddor y dylai fod cyfle cyfartal i bawb, waeth beth fo'u rhyw, eu hil, eu hanabledd, eu cyfeiriadedd rhywiol, eu hoed neu eu crefydd'*

Mae pryder nad yw'r ddarpariaeth hon yn cynnwys yr holl nodweddion gwarchodedig, ac ym marn yr ymgyngoreion, er na fu unrhyw broblemau eto yn sgil natur gul y ddarpariaeth hon, dylai gael ei hymestyn i gynnwys pob un o'r naw nodwedd warchodedig o dan Ddeddf Cydraddoldeb 2010 – hil, crefydd neu gred, oedran, anabledd, rhyw (rhywedd), cyfeiriadedd rhywiol, ailbennu rhywedd, priodas a phartneriaeth sifil, beichiogrwydd a mamolaeth.

4.2.8 Mae'n amlwg bod potensial i dorri'r Cod Ymddygiad yn sgil defnydd helaeth a chynyddol aelodau etholedig o amrywiaeth o gyfryngau cymdeithasol. Mae Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru wedi llunio canllawiau defnyddiol ar y cyfryngau cymdeithasol, sef *'Cyfryngau Cymdeithasol: Canllaw i Gynghorwyr'*. Mae'r canllawiau yn rhoi cyngor ar sut i ddefnyddio'r cyfryngau cymdeithasol, y problemau posibl a sut i'w hosgoi. Mae'n atgoffa aelodau pryd bynnag y caiff rhywbeth ei roi ar y cyfryngau cymdeithasol ei fod yn cael ei gyhoeddi, ac i bob diben yn ddarllediad cyhoeddus sy'n ddarostyngedig i'r Cod Ymddygiad a deddfau amrywiol. Mae canllawiau CLlLC yn atgoffa aelodau bod y Cod Ymddygiad yn gymwys i aelodau pryd bynnag y byddant yn *'Cyflawni busnes eich awdurdod, yn gweithredu, yn honni eich bod yn gweithredu neu'n rhoi'r argraff eich bod yn gweithredu yn eich rôl swyddogol fel aelod o'r awdurdod neu'i gynrychiolydd'*, ac mae'r Cod yn gymwys os bydd aelod yn ymddwyn '*mewn modd a allai yn rhesymol gael ei ystyried fel ymddygiad sy'n dwyn anfri ar eich swydd neu'ch awdurdod'*. Os gellir adnabod aelod fel Cynghorydd wrth ddefnyddio'r cyfryngau cymdeithasol, naill ai drwy enw'r cyfrif neu sut y caiff ei ddisgrifio neu'r hyn a ddywed a sut y dywedir ef, bydd gofynion y Cod Ymddygiad yn gymwys. Os bydd aelod yn dweud rhywbeth a allai gael ei ystyried yn rhywbeth sy'n dwyn anfri ar ei swydd neu ei awdurdod, bydd y Cod yn gymwys hyd yn oed os nad yw'r aelod i'w weld yn gweithredu mewn rhinwedd swyddogol nac yn adnabod ei hun fel aelod. Mae canllawiau'r Ombwdsmon yn nodi:

> *'Gall beirniadu'ch awdurdod mewn modd annheg neu anghywir mewn arena gyhoeddus gael ei ystyried yn ddwyn anfri ar eich awdurdod'*, ac yn yr un ffordd ag

y mae'n ofynnol ichi ymddwyn yng nghyfarfodydd y Cyngor neu yn eich cymunedau dylech:

- ddangos parch tuag at eraill – peidiwch â defnyddio'r cyfryngau cymdeithasol i fod yn anfoesgar neu'n amharchus
- peidiwch â datgelu gwybodaeth gyfrinachol am bobl na'r Cyngor
- peidiwch â bwlio na dychryn pobl eraill – gallai ailadrodd sylwadau negyddol am unigolion, neu wrth unigolion, dro ar ôl tro gael ei ddehongli fel bwlio neu ddychryn
- peidiwch â cheisio sicrhau budd i chi neu anfantais i eraill
- cadwch at y deddfau cydraddoldeb – peidiwch â chyhoeddi unrhyw beth y gellid ei ystyried yn hiliol, yn rhywiaethol, yn oedraniaethol, yn homoffobaidd, yn wrth-ffydd neu'n sarhaus i unrhyw grŵp sydd â nodweddion a ddiogelir a ddiffinnir yn Neddf Cydraddoldeb 2010. Hyd yn oed fel jôc neu â'ch "tafod yn eich boch"

Dylai'r canllawiau defnyddiol hyn gan CLlLC ac Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru gael eu ffurfioli drwy ddiwygiadau priodol i'r Cod Ymddygiad Enghreifftiol.

4.2.9 Euogfarnau troseddol

Mae 6(1)(b) o'r Cod Ymddygiad yn rhwymo aelodau etholedig i adrodd ar ymddygiad troseddol pobl eraill ond nid eu hymddygiad troseddol eu hunain. Dywed:

*(Rhaid i chi) 'adrodd, p'un ai drwy weithdrefn adrodd gyfrinachol eich awdurdod neu'n uniongyrchol i'r awdurdod priodol, ar unrhyw ymddygiad gan aelod arall neu gan unrhyw un sy'n gweithio i'ch awdurdod neu ar ei ran ac y mae'n rhesymol i chi fod o'r farn ei fod yn golygu neu'n debygol o olygu ymddygiad troseddol (nad yw at ddibenion y paragraff hwn yn cynnwys tramgwyddau neu ymddygiad y gellir ei gosbi drwy gosb benodedig)'*

Yn ymarferol, mae'r rhan fwyaf o aelodau wedi hunan-adrodd achosion posibl o dorri'r Cod o ganlyniad i ymddygiad troseddol i'r Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus. Fodd bynnag, bu achosion lle nad yw hyn wedi digwydd nes i wiriadau DBS y Swyddog Monitro nodi euogfarnau neu fod y mater wedi cael sylw yn y wasg. Dylai'r Cod Ymddygiad gael ei ddiwygio'n briodol fel bod yr aelod yn gorfod adrodd ar ei ymddygiad troseddol ei hun.

## 4.3 Hyfforddiant i Gynghorwyr

4.3.1 Yn ddieithriad, dywedodd pob unigolyn neu gynrychiolydd sefydliadol y cyfarfûm ag ef wrth gynnal yr adolygiad hwn y dylai hyfforddiant gorfodol ar gyfer pob Cynghorydd ar

ofynion y Cod Ymddygiad a fabwysiadwyd gan ei awdurdod fod yn orfodol, ac y dylai'r hyfforddiant cychwynnol hwn gael ei 'fireinio'n' rheolaidd. Y ffordd symlaf o sicrhau bod pawb yn cael hyfforddiant gorfodol fyddai cynnwys ymrwymiad i gwblhau'r hyfforddiant angenrheidiol yn y Datganiad Derbyn Swydd y mae'n ofynnol i bob aelod etholedig yng Nghymru ei lofnodi o dan Orchymyn Etholiadau Lleol (Datganiad Derbyn Swydd) (Cymru) 2004 cyn y gall ddod yn Gynghorydd, yn yr un ffordd ag y mae'n ofynnol iddo ddilyn Cod Ymddygiad ei awdurdod ar hyn o bryd. Gall fod angen deddfwriaeth i ddiwygio Gorchymyn 2004 yn briodol. Fel y dangoswyd wrth archwilio'r Codau Ymddygiad a fabwysiadwyd gan yr holl awdurdodau perthnasol, mae hyfforddiant gorfodol ar y Cod Ymddygiad eisoes yn ofynnol i fwy na hanner y prif gynghorau felly ni fyddai hyn yn ddatblygiad dadleuol i aelodau prif gynghorau. Fodd bynnag, er ei bod yn ofynnol i holl aelodau Cynghorau Cymuned, o dan Orchymyn 2004, fod yn rhwym wrth y Cod Ymddygiad gall gael ei ystyried yn ddadleuol iddynt orfod hefyd ymrwymo i hyfforddiant heb rybudd priodol felly gellid hysbysu pawb sy'n ystyried sefyll etholiad am hyn. Neu, gall fod yn haws diwygio'r Cod Ymddygiad i'w gwneud yn ofynnol i'r rhai sy'n ddarostyngedig i'r Cod gael hyfforddiant priodol ar y Cod.

4.3.2 Os caiff hyfforddiant cychwynnol a gloywi ar y Cod ei wneud yn orfodol bydd angen ystyried sut y gellir darparu'r hyfforddiant hwnnw. Ar hyn o bryd mae llawer o Swyddogion Monitro yn darparu hyfforddiant ar y Cod Ymddygiad, nid yn unig i'w haelodau eu hunain, ond hefyd i aelodau Cynghorau Cymuned yn yr ardal. Mae rhai o'r Cynghorau Cymuned mwy o faint yn trefnu'r hyfforddiant eu hunain, yn aml gan ddefnyddio'r deunyddiau hyfforddi a ddatblygwyd gan Un Llais Cymru ar y Cod Ymddygiad a materion llywodraethu ehangach. Weithiau bydd Un Llais Cymru yn darparu'r hyfforddiant yn uniongyrchol ond mae i hyn oblygiadau o ran adnoddau, yn enwedig i'r Cynghorau Cymuned llai o faint.

## 4.4 **Pwyllgorau Safonau a Chadeiryddion Annibynnol**

4.4.1 Cyfarfûm â nifer o Gadeiryddion Annibynnol Pwyllgorau Safonau a hefyd bûm mewn cyfarfod o Fforwm Cadeiryddion Pwyllgorau Safonau Gogledd Cymru yn ystod yr adolygiad hwn. Cefais fy nharo gan yr amrywiol ffyrdd y mae Pwyllgorau Safonau yng Nghymru yn gweld eu cylch gwaith a'r rôl a chwaraeir gan Gadeiryddion Annibynnol Pwyllgorau Safonau. Ar un pegwn ymddengys fod Pwyllgorau Safonau a'u Cadeiryddion Annibynnol wedi cael neu wedi mabwysiadu rôl gyfyngedig iawn, gan gwrdd yn anaml a dim ond yn weithredol pan fo Gwrandawiad ynghylch achos a atgyfeiriwyd gan Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru. Ar y pegwn arall mae rhai Pwyllgorau Safonau a Chadeiryddion sy'n ystyried bod eu cylch gwaith yn llawer ehangach na hyn, a'u bod yn arwain y gwaith o ddatblygu a chynnal y fframwaith safonau moesegol yn yr awdurdod lleol hwnnw. Yn arbennig mae'r Pwyllgorau Safonau a'r Cadeiryddion hyn, ynghyd â'r Swyddog Monitro, yn gweithredu fel y brif ffynhonnell o gyngor, cefnogaeth a chanllawiau i'r Cynghorau Cymuned yn eu hardal. Mewn nifer o awdurdodau bydd Aelodau Annibynnol y Pwyllgor yn mynychu cyfarfodydd, nid yn unig ar gyfer eu Cyngor eu hunain ond hefyd gyfarfodydd y Cynghorau Cymuned yn eu hardal, gan gofnodi eu hasesiad o'r cyfarfod yn gyffredinol ac ymddygiad aelodau'n benodol, a bwydo'r asesiad hwn yn ôl i Glerc a Chadeirydd y Cyngor Cymuned. Maent yn barod i ymyrryd os bydd

angen er mwyn cynorthwyo'r Cyngor a'i Glerc i ymdrin ag ymddygiad heriol ac amhriodol gan aelodau o'r Cyngor hwnnw ac, mewn un achos, mae'r Cadeirydd Annibynnol yn monitro'r sefyllfa mewn Cynghorau Cymuned arbennig o broblematig yn ei ardal ac yn ymyrryd i 'blismona' ymddygiad yr aelodau dan sylw.

4.4.2 Mae angen gweithredu mewn modd cyson a sicrhau bod cylch gwaith y Pwyllgor Safonau yn debyg at ei gilydd ledled Cymru, gan dderbyn nad oes un ateb i bawb a bod angen i'r Pwyllgor Safonau lleol adlewyrchu natur benodol y sefyllfa leol ar gyfer y prif awdurdod dan sylw. Dylai Cadeirydd y Pwyllgor Safonau chwarae rôl arwain, ynghyd â'r Prif Weithredwr, y Swyddog Monitro ac Arweinwyr grwpiau gwleidyddol wrth hyrwyddo safonau ymddygiad uchel ym mhob rhan o'r Cyngor.

4.4.3 Wrth wraidd Deddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru) 2021 mae egwyddorion democratiaeth, amrywiaeth, tryloywder ac atebolrwydd i ddinasyddion Cymru. Mae'r Ddeddf yn cynnwys nifer o ddarpariaethau sy'n hanfodol er mwyn sicrhau bod cymunedau a Chynghorau lleol yn fwy tryloyw ac agored, yn ogystal â mesurau i drechu bwlio ac aflonyddu ymhlith aelodau etholedig a staff Cynghorau. Mae'r darpariaethau hyn yn cynnwys:

- dyletswydd newydd ar arweinwyr grwpiau gwleidyddol mewn prif gynghorau i gymryd camau rhesymol i hybu a chynnal safonau ymddygiad uchel gan aelodau eu grŵp

- ei gwneud yn ofynnol i'r arweinydd/arweinwyr grŵp gydweithredu â Phwyllgor Safonau'r Cyngor wrth arfer ei swyddogaethau i hybu a chynnal safonau ymddygiad uchel ar draws y Cyngor

- swyddogaethau newydd i Bwyllgorau Safonau sicrhau y gall arweinwyr grŵp gael gafael ar gyngor a hyfforddiant i gefnogi eu dyletswyddau newydd a monitro cydymffurfiaeth arweinwyr grŵp â'r dyletswyddau hynny

- ei gwneud yn ofynnol i'r Pwyllgorau Safonau lunio adroddiad blynyddol i'r awdurdod ar gyflawni ei swyddogaethau, ei asesiad o safonau ymddygiad o fewn yr awdurdod ac unrhyw argymhellion ar gyfer gwella safonau. Ar ddiwedd pob blwyddyn ariannol dylai'r adroddiad hwn ddisgrifio sut mae swyddogaethau'r Pwyllgor wedi cael eu cyflawni yn ystod y flwyddyn ariannol, a rhoi trosolwg o faterion yn ymwneud ag ymddygiad o fewn y Cyngor. Bydd angen i'r Cyngor ystyried yr adroddiad o fewn tri mis i'w dderbyn. Bydd y ddyletswydd newydd hon yn helpu i sicrhau bod pob Pwyllgor Safonau yn mabwysiadu arferion da a bod materion o ran safonau yn cael eu hystyried yn rheolaidd (unwaith y flwyddyn o leiaf) gan holl aelodau'r Cyngor.

- ei gwneud yn ofynnol i Gynghorau Cymuned gyhoeddi a pharhau i adolygu cynllun hyfforddi ar gyfer eu haelodau a'u swyddogion. Disgwylir i gynlluniau o'r fath gynnwys darparu hyfforddiant ar y Cod Ymddygiad pan fo'n briodol.

4.4.4 Ystyrir bod angen hyfforddiant cychwynnol ar aelodau Pwyllgorau Safonau, nid yn unig

ar y Cod Ymddygiad Enghreifftiol ond hefyd ar sut i gynnal Gwrandawiadau er mwyn sicrhau bod yr aelod y cwynir amdano, yr achwynydd ac unrhyw dystion yn cael eu trin mewn ffordd agored a theg. Dylai'r hyfforddiant cychwynnol gael ei fireinio ar unwaith cyn gwrando achos hefyd.

4.4.5 Ceir Fforwm sefydledig ar gyfer Cadeiryddion Annibynnol Pwyllgorau Safonau yn y gogledd a'r canolbarth. Bûm yn un o gyfarfodydd y Fforwm hwn a chael sgwrs ddefnyddiol iawn â'r Cadeiryddion a'r Swyddogion Monitro oedd yno. Er y byddai Fforwm ar gyfer Cadeiryddion Pwyllgor Safonau yn y de yn sicr yn cyflawni diben tebyg wrth hwyluso cyfnewid gwybodaeth a phrofiadau am waith Pwyllgorau Safonau yn y rhan honno o Gymru, rwy'n awgrymu y dylai fod Fforwm Cymru gyfan ac y byddai ailsefydlu'r Gynhadledd flynyddol ar gyfer Cadeiryddion Annibynnol ac aelodau Annibynnol Pwyllgorau Safonau ledled Cymru a gynhaliwyd tan yn ddiweddar yn annog gweithredu cyson a mabwysiadu arferion gorau ledled Cymru.

4.4.6 Mae Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru yn derbyn bod angen mwy o atgyfeiriadau at Bwyllgorau Safonau pan fo'n gwrthod ymchwilio i gwynion, ac er bod angen i natur dechnegol y dull o reoli atgyfeiriadau yn ôl gael ei hystyried yn ofalus nad yw o'r farn bod hyn yn gymhleth. Ym marn yr Ombwdsmon ni fyddai'r trefniant anffurfiol hwn yn gofyn am unrhyw newid deddfwriaethol o ran ei bwerau ef ond byddai angen i Bwyllgorau Safonau gael pwerau ychwanegol i'w gwneud yn ofynnol i aelodau gael yr hyfforddiant angenrheidiol a'r pŵer i'w gwneud yn ofynnol i aelod ymddiheuro i'r achwynydd. Ei farn glir yw y byddai rhoi'r pŵer i'r Pwyllgor Safonau orfodi hyfforddiant neu ei gwneud yn ofynnol i ymddiheuro yn ffordd ddefnyddiol o *'ladd rhywbeth yn yr egin'* yn lleol.

4.4.7 Fel rhan o'm hadolygiad, gofynnwyd imi ystyried a yw sefydlu is-bwyllgorau o Bwyllgorau Safonau sy'n canolbwyntio ar faterion Cynghorau Cymuned wedi cael unrhyw effaith ar y broses o gefnogi Cynghorau Cymuned ac ymdrin â chwynion. O'm harchwiliad o Bwyllgorau Safonau ymddengys mai dim ond un Cyngor Sir yng Nghymru sydd wedi sefydlu is-bwyllgor o'r fath o'i Bwyllgor Safonau a chan fod gan y Cyngor Sir hwnnw 128 o Gynghorau Cymuned yn ei ardal fe'i hystyrir yn ffordd ymarferol o reoli'r sefyllfa.

## 4.5 Cynghorau Cymuned

4.5.1 Roedd pawb a gymerodd ran yn yr adolygiad yn cytuno y gall proses ddatrys leol ar y cyd â hyfforddiant gorfodol ar gyfer pob aelod helpu i ddatrys llawer o faterion yn lleol cyn iddynt fynd yn rhy bell, ac atal cwynion lefel isel ac anfoddhad o ran cyd-aelodau rhag troi'n gwynion ffurfiol i'r Ombwdsmon y mae'n rhaid iddo naill ai ymdrin â nhw neu eu hatgyfeirio nôl i'w hystyried yn lleol. Yn y pen draw, fodd bynnag, bydd llwyddiant unrhyw ddull gweithredu yn dibynnu ar gydweithrediad a gweithredoedd aelodau unigol a rhaid i gyfundrefn y Cod Ymddygiad aros yn ei lle i ddelio ag achosion o gamymddwyn difrifol.

4.5.2 Mynegodd llawer o'r rheini y siaradais i â nhw gryn bryder am y lefel o fwlio, diffyg parch neu fel arall ymddygiad aflonyddgar cyffredinol rhai aelodau mewn cyfarfodydd Cynghorau Cymuned. Yn arbennig, mae ymddygiad a ystyriwyd yn fwlio neu aflonyddu yn y gorffennol wedi cael effaith andwyol ar allu rhai Cynghorau i gadw aelodau a

swyddogion Cyngor. Gall ymddygiad llai difrifol, ond sy'n amharu serch hynny, gan aelodau nad yw'n fethiant i gydymffurfio â'r Cod hefyd lesteirio'r gwaith o gynnal busnes y Cyngor yn effeithiol. Mae'r Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus yn cymryd o ddifrif unrhyw honiad bod aelod wedi bwlio neu aflonyddu ar aelod neu swyddog ac mae ei ganllawiau ar hyn yn ei gwneud hi'n glir bod yn rhaid i aelodau ddangos yr un cwrteisi tuag at aelodau a swyddogion eraill ac ystyriaeth ohonynt ag a ddangosant yn eu bywydau beunyddiol. Wrth geisio lleihau nifer yr achosion o fwlio neu ymddygiad amhriodol arall, gyda chymorth Swyddogion Monitro, mae'r Ombwdsmon wedi ymgysylltu â nifer o Gynghorau Cymuned sydd wedi bod yn destun nifer anghymesur o gwynion yn y gorffennol. Yn ei farn ef, ni chaiff bwlio nac aflonyddu, na diffyg parch, eu goddef. Nod canllawiau sy'n cael eu paratoi gan Un Llais Cymru a Chymdeithas Clercod Cynghorau Lleol yw helpu Cynghorau i osgoi neu drechu bwlio, aflonyddu ac ymddygiad amhriodol, gan gynnwys cyngor ar lunio cwyn effeithiol. Mae'r canllawiau hyn i aelodau Cynghorau Cymuned yn pwysleisio'r angen am gysylltiadau effeithiol rhwng aelodau a swyddogion, o fewn diwylliant o barch ac ystyriaeth gyffredinol.

4.6 **Datrys cwynion yn lleol**

4.6.1 Nod datrysiadau lleol yw datrys materion ar gam cynnar er mwyn atal y sefyllfa rhag gwaethygu'n ddiangen a all niweidio cydberthnasau personol o fewn yr awdurdod ac enw da'r awdurdod. Gall y broses arwain at ymddiheuriad gan yr aelod dan sylw. Fodd bynnag, pan fydd aelod wedi torri protocol lleol ei awdurdod droeon, yna mae'r Ombwdsmon yn disgwyl i'r Swyddog Monitro atgyfeirio'r mater yn ôl ato, ac os bydd yn gweld patrwm o gwynion tebyg gan yr un aelodau, bydd yn ei ystyried yn fater difrifol ac yn penderfynu a yw adrodd y fath gwynion yn barhaus yn ymddygiad sydd, ynddo'i hun, yn gofyn am ymchwiliad fel achos posibl o dorri'r Cod.

4.6.2 Mae'r rhan fwyaf o brif Gynghorau yng Nghymru wedi mabwysiadu gweithdrefnau datrys lleol er mwyn ymdrin â chwynion lefel isel a wneir gan aelod yn erbyn aelod arall. Mae'r trefniadau hyn yn effeithiol wrth ddatrys llawer o'r mathau hyn o gwynion, ac mae nifer bach o Gynghorau Cymuned (tua 70 o'r 735 o Gynghorau Tref a Chymuned yng Nghymru) sydd wedi mabwysiadu gweithdrefn debyg gan ddefnyddio'r weithdrefn Ddatrys Leol Enghreifftiol a ddatblygwyd i'w defnyddio ganddynt gan Un Llais Cymru a'r Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus. Mae hyn yn darparu canllawiau sy'n berthnasol i Gynghorau Tref a Chymuned wrth lunio a gweithredu protocolau o'r fath. Fel rheol bydd y cwynion hyn yn ymwneud â methiannau honedig i ddangos parch at eraill ac ystyriaeth ohonynt fel sy'n ofynnol gan baragraff 4(b) o'r Cod neu'r ddyletswydd i beidio â gwneud cwynion blinderus, maleisus neu wacsaw yn erbyn aelodau eraill o dan baragraff 6(1)(ch) o'r Cod. Er y gall aelod barhau i gwyno'n uniongyrchol i'r Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus ynghylch cyd-aelod os yw'r mater dan sylw yn ymwneud â pharagraffau 4(b) a 6(1)(d), mae'n debygol o atgyfeirio'r mater yn ôl at Swyddog Monitro'r prif gyngor er mwyn iddo ei ystyried o dan y broses hon. Derbynnir yn gyffredinol mai'r ffordd fwyaf priodol o ddatrys y fath gwynion yw yn anffurfiol ac yn lleol er mwyn cyflymu'r broses gwyno a sicrhau bod adnoddau'r Ombwdsmon yn canolbwyntio ar ymchwilio i gwynion difrifol.

## 4.7 Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru

4.7.1 Mae adran 68 o Ddeddf 2000 yn rhoi'r pŵer i Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru gyhoeddi canllawiau ar gyfer awdurdodau perthnasol ar faterion yn ymwneud ag ymddygiad aelodau ac aelodau cyfetholedig o'r awdurdodau hynny. Mae'r Ombwdsmon wedi cyhoeddi dwy set o ganllawiau o dan y pwerau hyn i gynorthwyo aelodau i ddeall eu rhwymedigaethau o dan y Cod Ymddygiad. Mae'r ddwy set o ganllawiau yr un peth yn y bôn o ran dehongli'r Cod, ond mae un fersiwn wedi'i theilwra'n arbennig i'r cyd-destun y mae Cynghorwyr Tref a Chymuned yn gweithredu ynddo. Caiff y canllawiau a gyhoeddir o dan y pwerau hyn, yn fwyaf diweddar yn 2016, eu hadolygu o bryd i'w gilydd yn sgil rhoi'r Cod ar waith, cyfraith achosion sy'n dod i'r amlwg a newidiadau i'r Cod ei hun. Mae'r canllawiau presennol wedi cael eu hadolygu a'u diweddaru yn bennaf i gynnwys penderfyniadau mwy diweddar Pwyllgorau Safonau a Phanel Dyfarnu Cymru. Hefyd achubwyd ar y cyfle i egluro ac, mewn rhai achosion, atgyfnerthu geiriad y canllawiau, er enghraifft, o ran bwlio ac aflonyddu ar gyd-aelodau a swyddogion a datgelu buddiannau.

4.7.2 Mae adran 69 o Ddeddf 2000 yn rhoi'r pŵer i Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru ymchwilio i honiadau gan unrhyw berson fod aelod wedi methu â chydymffurfio â Chod Ymddygiad ei awdurdod perthnasol. Gall yr Ombwdsmon hefyd ymchwilio i achosion posibl o dorri'r Cod sydd wedi dod i sylw'r Ombwdsmon yn ystod ymchwiliad. Bydd yr Ombwdsmon yn ystyried cynnwys ei ganllawiau ar y Cod wrth arfer ei bwerau. Gall y canllawiau hefyd gael eu hystyried gan Bwyllgorau Safonau a Phanel Dyfarnu Cymru wrth arfer eu priod swyddogaethau.

4.7.3 Prawf Budd y Cyhoedd (dau gam)

Mae gan yr Ombwdsmon gryn ddisgresiwn o dan Ddeddf 2000 i bennu a yw'n briodol ymchwilio i gŵyn a wneir i'w swyddfa. Yn rhy aml o lawer, bu angen i'r Ombwdsmon a'i ragflaenwyr fynegi pryder am nifer y cwynion talu'r pwyth yn ôl lefel isel gan aelodau sy'n go wacsaw, neu sydd wedi'u cymell gan elyniaeth wleidyddol neu bersonoliaethau croes, yn hytrach na materion gwirioneddol o ran y Cod Ymddygiad. Cafodd y prawf dau gam ei gyflwyno gyntaf yn 2015 ac fe'i hadolygir yn barhaus. Diben y prawf yw darparu mwy o eglurder, a lefel o sicrwydd a chysondeb, wrth arfer disgresiwn yr Ombwdsmon ynghylch a yw ymchwiliad er budd y cyhoedd. Mae hyn yn sicrhau bod adnoddau penodol yn canolbwyntio ar yr honiadau mwy difrifol a gaiff yr Ombwdsmon. Yn aml, ni fydd achosion yn mynd rhagddynt am na fyddant yn bodloni'r prawf cam cyntaf am nad oes tystiolaeth uniongyrchol o dorri'r Cod o bosibl. Bu hyn yn berthnasol i gwynion ynghylch aelodau Cynghorau Tref a Chymuned. Mae'r Ombwdsmon wedi parhau i weithio gydag Un Llais Cymru a Chymdeithas Clercod Cynghorau Lleol ar ddatblygu canllawiau a baratoir ganddynt ar sut i lunio cwyn effeithiol. Ym marn yr Ombwdsmon nid yw cynnwys Pwyllgorau Safonau yn y gwaith o gymhwyso'r prawf dau gam yn ymarferol, nid lleiaf oherwydd y gellir ei ystyried yn rhagfarnu ystyriaeth o unrhyw adroddiad ar ymchwiliad dilynol sydd wedi'i atgyfeirio'n ôl at Bwyllgor yn ddiweddarach. Hefyd byddai fwy na thebyg yn gofyn am ddeddfwriaeth sylfaenol i wneud hyn yn un o swyddogaethau Pwyllgor Safonau neu ryw berson neu gorff arall.

Mae gan yr Ombwdsmon bwerau o dan adran 70 o Ddeddf 2000 i atgyfeirio cwynion ar gyfer ymchwiliad lleol gan Swyddogion Monitro. Fodd bynnag, mynegodd Swyddogion Monitro bryderon am arfer y pwerau hyn am nad oedd adnoddau ar gael i gynnal ymchwiliadau lleol yn effeithiol. Hefyd mae amharodrwydd ar ran Swyddogion Monitro i fod ynghlwm wrth ymchwilio i gwynion yn erbyn aelodau o'u hawdurdodau eu hunain am resymau dealladwy.

4.7.4 Cododd nifer o ymgyngoreion bryder bod yr Ombwdsmon yn ymdrin â chwynion drwy ymarferion desg heb gynnal ymchwiliad manwl, a chafodd dilysrwydd y prawf dau gam ei gwestiynu hefyd. Ystyriwyd bod cam cyntaf y prawf yn wrthrychol ac yn seiliedig ar feini prawf rhesymol glir. Fodd bynnag, ystyriwyd bod y prawf 'budd y cyhoedd' ail gam yn oddrychol ac yn seiliedig ar farn yr Ombwdsmon ar y cyfan. Awgrymwyd y dylai'r prawf 'budd y cyhoedd' gael ei gymhwyso at 'gynulleidfa' ehangach a benodwyd at y diben, megis Pwyllgor Safonau prif Gyngor yr ardal. Hefyd, mynegwyd pryder bod y nifer isel o atgyfeiriadau at Bwyllgorau Safonau fel cyfran o'r cwynion a dderbyniwyd gan yr Ombwdsmon yn cael effaith andwyol ar allu Pwyllgorau Safonau i gynnal hyder y cyhoedd mewn aelodau etholedig, bod achwynwyr o'r farn nad oedd eu pryderon yn cael eu trin o ddifrif ac, ar adegau, fod yr aelod y cwynwyd amdano yn teimlo ei fod wedi'i ryddhau o fai ac yn rhydd i barhau i ymddwyn yn y ffordd y cwynwyd amdani. Byddai defnyddio disgresiwn yr Ombwdsmon yn fwy tuag atgyfeirio na'r hyn oedd yn wir ar hyn o bryd yn cael ei groesawu.

4.7.5 Mae pryder bod yr ymchwiliadau a gynhelir gan yr Ombwdsmon yn cymryd gormod o amser, yn gysylltiedig â phryder na chaiff y pŵer i wahardd yr aelod dan sylw tra bo'r ymchwiliad yn mynd rhagddo ei arfer gan Banel Dyfarnu Cymru drwy atgyfeiriad gan yr Ombwdsmon. Gall hyn olygu y gall aelod sy'n wynebu honiadau difrifol o natur droseddol barhau i weithredu fel Cynghorydd sydd â goblygiadau posibl o ran diogelu'r cyhoedd, Cynghorwyr eraill a chyflogeion yr awdurdod lleol. Ymatebodd yr Ombwdsmon i'r pryderon am hyd rhai ymchwiliadau drwy gyfeirio at yr oedi na ellir ei osgoi sy'n deillio o'r ffaith nad yw tystion ar gael a'r angen i gasglu tystiolaeth nad oedd wedi'i chynnwys fel rhan o'r gŵyn gychwynnol. Hefyd ailategodd ei bryder bod ei sefydliad yn treulio gormod o amser ac adnoddau prin yn mynd drwy gwynion – dros 400 yn 2020/21 – nad yw'r mwyafrif llethol ohonynt yn werth ymchwilio iddynt.

## 4.8 Panel Dyfarnu Cymru

4.8.1 Mae Llywydd Panel Dyfarnu Cymru wedi gwneud nifer o gynigion i ddiwygio'r polisïau a'r arferion sy'n gymwys i'r Panel. Mae'r Panel yn greadur statud a gafodd ei greu gan Ddeddf Llywodraeth Leol 2000 ond, ers datganoli, mae sail pwerau a phrosesau'r Panel wedi deillio o gymysgedd o Ddeddf 2000 ac amrywiaeth o Reoliadau i Gymru, yn enwedig Rheoliadau Dyfarniadau gan Dribiwnlysoedd Achos a Thribiwnlysoedd Achos Interim (Cymru) 2001 a Rheoliadau Ymchwiliadau Llywodraeth Leol (Swyddogaethau Swyddogion Monitro a Phwyllgorau Safonau) (Cymru) 2001 (ill dau wedi'u diwygio). Cafodd y Rheoliadau eu drafftio gan Llywodraeth Cymru, a mater i Lywodraeth Cymru fyddai diwygio unrhyw bolisi. Hefyd, mae angen i 'gyfarwyddiadau ymarfer' gael eu cymeradwyo gan y Prif Weinidog ac er mai mater i Lywydd y Panel yw pennu

gweithdrefnau newydd neu newidiadau ar gyfer Tribiwnlysoedd Apêl, rhaid i'r Prif Weinidog gytuno ar unrhyw newidiadau. Mater i'r Llywydd yw Canllawiau Llywyddol ond nid ydynt yn gyfreithiol rwymol.

4.8.2 Gorchmynion adrodd cyfyngedig

Ni all y Panel reoli mewn unrhyw ffordd adroddiadau'r wasg ynghylch unrhyw achos, er bod y gyfraith ynghylch adrodd ar droseddau rhywiol yn gymwys yn awtomatig (mae wedi'i hanwybyddu gan y wasg oni bai bod achos troseddol wedi'i gynnal, er gwaethaf y ffaith bod y Panel wedi'i hatgoffa am hynny mewn Gwrandawiadau). Mae'r Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus wedi dweud, heb bŵer deddfwriaethol penodol sy'n ei alluogi i wneud y fath orchmynion adrodd cyfyngedig, na fu rhai achwynwyr yn barod i wneud datganiadau na chwynion, a bu achosion lle mae trydydd partïon nad oeddent hyd yn oed yn dystion wedi cael sylw'r wasg a'r cyfryngau cymdeithasol. Yn sgil hyn mae'r Panel wedi ceisio mynd i'r afael â'r broblem drwy ddefnyddio ei bŵer i reoli ei achosion fel bod rhai tystion neu drydydd partïon penodol yn aros yn ddienw. Ni fu hyn yn gyfforddus am nad oes pŵer penodol i gadw rhywun yn ddienw (mae PDC wedi defnyddio'r Confensiwn Ewropeaidd ar Hawliau Dynol i wneud hyn, sy'n gyson â'r hyn a wnaed gan Dribiwnlysoedd Cyflogaeth cyn newid y ddeddfwriaeth i ganiatáu gorchmynion o'r fath yn benodol), ac nid yw'n rhwym ar neb heblaw'r partïon neu'r tystion sy'n ymddangos ger ei fron. Hefyd, o ystyried natur gwaith y Panel a'r amharu anochel ar ddemocratiaeth leol a all ddeillio o osod sancsiynau, byddai'n well bod yn fwy agored am dystion a gosod Gorchymyn Adrodd Cyfyngedig. Ym marn Llywydd y Panel, byddai'r pwerau sydd ar gael i Dribiwnlys Cyflogaeth - gall Tribiwnlys Cyflogaeth osod Gorchymyn Adrodd Cyfyngedig naill ai tan ddiwedd achos neu Orchymyn Adrodd Cyfyngedig estynedig a all fod ar waith am byth - yn briodol i bob Tribiwnlys Panel, a gellid eu cyflwyno naill ai drwy ddeddfwriaeth ar gyfer yr holl dribiwnlysoedd yng Nghymru yn sgil Adroddiad diweddar Comisiwn y Gyfraith neu'n benodol ar gyfer Panel Dyfarnu Cymru.

4.8.3 Tystion dienw

Mae cysylltiad agos rhwng y mater hwn a chyhoeddi Gorchmynion Adrodd Cyfyngedig. Mae'r Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus wedi gofyn am ddull cyson o gadw tystion yn ddi-enw fel bod ei staff yn gwybod beth yw'r sefyllfa wrth baratoi adroddiadau ac egluro'r broses wrth dystion. Mae'r Llywydd o'r farn ei bod yn briodol cyhoeddi canllawiau i sicrhau cysondeb a thryloywder a bydd yn gwneud hynny'n fuan, ond byddai pŵer penodol i gadw tystion yn ddi-enw yn ddefnyddiol i Dribiwnlysoedd Achos ac Apêl er mwyn sicrhau sail gyfreithiol ar gyfer cam o'r fath. Gall y Llywydd ychwanegu'r pŵer hwn ar gyfer Tribiwnlysoedd Apêl fel rhan o'i gylch gwaith, ond byddai angen deddfwriaeth newydd sbon ar gyfer Tribiwnlysoedd Achos.

4.8.4 Datgelu

Mae mater yn codi ynghylch datgelu deunydd heb ei ddefnyddio a ddelir gan yr Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus a Swyddogion Monitro. Cytunwyd diwygio

proses yr Ombwdsmon ei hun yn hyn o beth, gyda chanllawiau/cyfarwyddyd ymarfer Llywyddol ar ddatgelu a rôl y Swyddog Monitro'n gyffredinol. Ystyrir bod hyn yn osgoi oedi o ran gweithdrefn y Panel ac yn galluogi'r aelod a gyhuddir a'r Tribiwnlys i gael gafael ar dystiolaeth ychwanegol yn hawdd.

4.8.5 Gweithdrefn y Tribiwnlys Apêl

Mae Llywydd y Panel yn bwriadu gofyn i'r Prif Weinidog, drwy Lywydd Tribiwnlysoedd Cymru, gymeradwyo diwygiadau i weithdrefn y Tribiwnlys Apêl. Dylid darparu gwasanaeth drwy bost dosbarth cyntaf gyda rheolau gwasanaeth tybiedig ar waith, a dylai'r Panel allu cadw tystion yn ddi-enw yn benodol. Mae man llwyd o ran galw tystion – mae gan Dribiwnlysoedd Achos y pŵer penodol i wneud hyn drwy'r Rheoliadau perthnasol ond dywed y Rheoliadau ar gyfer Tribiwnlysoedd Apêl mai Llywydd y Panel sy'n pennu hyn gyda chaniatâd y Prif Weinidog. Mae'r Rheoliadau presennol hefyd yn ei gwneud yn ofynnol i'r Pwyllgor Safonau ystyried penderfyniad y Panel ar yr Apêl os yw'n wahanol i'r penderfyniad gwreiddiol. Mae hyn yn amhoblogaidd ymhlith Pwyllgorau Safonau am eu bod yn teimlo'n rhwym wrth benderfyniad y Panel os am ddim mwy nag osgoi apeliadau pellach. Er hyn, mae'r Llywydd yn fodlon ar y sefyllfa sydd ohoni gan fod y Pwyllgor Safonau yn parhau i fod yn gyfrifol a gall adlewyrchu ei ymateb i benderfyniad y Panel yn y sancsiwn y mae'n penderfynu ei osod.

Gweithdrefn y Tribiwnlys Achos

Ym marn Llywydd y Panel mae'r Rheoliadau wedi dyddio mewn sawl ffordd. Dylid darparu gwasanaeth drwy bost dosbarth cyntaf gyda rheolau gwasanaeth tybiedig ar waith, y gallu i gadw tystion yn ddienw, a Rheoliad sy'n dweud y gall Gwrandawiadau gael eu gohirio â rhybudd o saith diwrnod i'r aelod a gyhuddir. Ar hyn o bryd ni ellir cynnal gwrandawiadau hanner cyhoeddus a hanner preifat.

4.8.7 Gweithdrefn caniatâd i apelio

Yn 2016 cyflwynwyd proses apelio newydd, gan ei gwneud yn ofynnol i gael caniatâd i apelio gan Lywydd y Panel. Ym marn y Llywydd nid yw'r broses hon yn gweithio'n dda – mae ond yn caniatáu dirprwyo ei phŵer i aelod cyfreithlon arall os yw'n absennol lle y byddai'n well ganddi gael disgresiwn ynghylch dirprwyo, megis pan fydd yn adnabod yr aelod a gyhuddir, mae'n ei gwneud yn ofynnol iddi wneud penderfyniad o fewn 21 diwrnod gydag estyniad amser os bydd angen rhagor o wybodaeth ond nid yw'n glir o ba bryd y mae'r terfyn amser newydd yn gymwys, ac nid yw'n rhoi unrhyw gyfle i'r Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus gyflwyno sylwadau i'r Panel. Mae Gwrandawiad yn bosibl os oes amgylchiadau arbennig, ond ni ellir cael rhagor o amser i wneud hyn yn effeithiol. Mae'r Llywydd yn cynnig mân ddiwygiadau er mwyn gwneud y broses yn fwy cytbwys a synhwyrol.

4.8.8 Pwerau dedfrydu

Ar hyn o bryd y pwerau sydd ar gael i'r Panel pan fydd yn penderfynu bod aelod neu aelod cyfetholedig wedi methu â chydymffurfio â'r Cod yw:

- anghymwyso'r ymatebydd rhag bod, neu rhag dod, yn aelod o'r awdurdod perthnasol dan sylw neu unrhyw awdurdod perthnasol arall am hyd at bum mlynedd
- gwahardd yr ymatebydd neu ei wahardd dros dro rhag bod yn aelod neu'n aelod cyfetholedig o'r awdurdod perthnasol dan sylw am hyd at 12 mis, neu
- beidio â chymryd unrhyw gamau o ran torri'r Cod. Mewn achosion o'r fath gall y Panel benderfynu ei bod yn briodol rhybuddio'r aelod o ran ei ymddygiad yn y dyfodol. Lle bydd rhybudd o'r fath wedi'i gofnodi, mae'n debygol o gael ei ystyried mewn unrhyw wrandawiad yn y dyfodol lle penderfynir bod yr aelod wedi methu â dilyn darpariaethau'r Cod unwaith eto.

Mae Swyddogion Monitro wedi cadarnhau y byddent yn hoffi i'r Panel allu gorfodi sancsiynau mwy amrywiol fel yn achos cyn-Banel Dyfarnu Lloegr.

4.8.9 Tribiwnlysoedd Achos Interim

Mae gan yr Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus y pŵer o dan a72 o Ddeddf 2000 i wneud atgyfeiriadau interim at Banel Dyfarnu Cymru os yw hynny er budd y cyhoedd a lle ceir tystiolaeth prima facie nad yw'r unigolyn wedi cydymffurfio â'r Cod Ymddygiad, y mae ei natur yn debygol o arwain at ei anghymhwyso. Mae'r Ombwdsmon a Llywydd y Panel o'r farn bod y trothwy ar gyfer bodloni gofynion deddfwriaethol atgyfeiriad interim at y Panel yn rhy uchel. Rhennir y farn hon gan lawer o'r Swyddogion Monitro ac eraill rwyf wedi cyfarfod â nhw, ond byddai unrhyw newid i'r pwerau hyn yn gofyn am ddeddfwriaeth sylfaenol gan Lywodraeth Cymru. Y ffaith yw nad yw'r Ombwdsmon byth wedi gwneud cais am Wrandawiad o'r fath. Mae'r broses yn hir ac nid yw Deddf 2000 yn egluro'n ddigonol yr hyn sydd ei angen i ymdrin â gwrandawiadau o'r fath. Ymddengys mai bwriad y Ddeddf yw galluogi aelod a gyhuddir i gael ei wahardd am chwe mis (nid yw'n glir ai gwaharddiad am un tymor yw hwn neu a ellir ei adnewyddu ar gais) wrth i'r Ombwdsmon ymchwilio i weld a yw'r Cynghorydd hwnnw drwy ei rôl wedi ymyrryd â'r ymchwiliad neu a oedd angen ei wahardd ar sail interim am ryw reswm arall. Mae'r mater wedi codi sawl gwaith lle y caiff Cynghorwyr eu herlyn am droseddau rhyw hanesyddol ac mae teimlad cryf ymhlith Swyddogion Monitro a Phwyllgorau Safonau nad yw'n briodol parhau i roi cydnabyddiaeth i Gynghorydd sy'n wynebu cyhuddiadau o'r fath, ac y gallai parhau i adael iddo weithredu fel Cynghorydd beryglu'r cyhoedd, Cynghorwyr eraill neu aelodau o staff. Bydd aelod a gyhuddir o droseddau yn ddieuog nes ei brofi'n euog, ac er mwyn i'r Ombwdsmon wneud atgyfeiriad interim byddai angen tystiolaeth gref bod gwaharddiad er budd y cyhoedd, yn enwedig os yw'r troseddau'n rhai hanesyddol. Gellid sicrhau hyn, er enghraifft, petai tystiolaeth bod yr aelod yn peri risg i'r cyhoedd yn gyffredinol neu i grŵp penodol lleol. Byddai gwahardd aelod ar sail niwtral yn debyg i'r hyn a wneir mewn materion cyflogaeth tra bo gwrandawiadau yn yr arfaeth yn rhoi peth sicrwydd i'r cyhoedd ac awdurdodau lleol ynghylch y risg y gallai'r aelod dan sylw aildroseddu neu gamddefnyddio ei safle yn y gymuned leol tra bod ymchwiliad yn mynd rhagddo neu ei fod yn aros am achos troseddol. Hefyd, byddai Tribiwnlys Achos Interim yn dilyn yr un

broses â Thribiwnlys Achos llawn, sy'n golygu y byddai'n cymryd o leiaf dri mis i gael Gwrandawiad, a byddai angen Panel llawn ar y Gwrandawiad a fyddai wedyn yn ei gwneud hi'n anodd cyfansoddi Panel newydd ar gyfer y Gwrandawiad terfynol. Nid oes unrhyw gymorth yn y ddeddfwriaeth o ran sut i reoli Gwrandawiadau o'r fath ac ni chaiff 'budd y cyhoedd' ei ddiffinio. Cynigir symleiddio'r broses gyfan drwy gymhwyso prawf sy'n debyg i'r hyn a ddefnyddir gan y Tribiwnlysoedd Rheoleiddiol megis Tribiwnlys yr Ymarferwyr Meddygol. Byddai'r Gwrandawiad yn cael ei gynnal gan aelod sy'n cyfreithlon yn eistedd ar ei ben ei hun ond gyda'r gallu i wahodd cyflwyniadau llafar gan y partïon er budd cyfiawnder. Byddai'r Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus yn cyflwyno atgyfeiriad at Lywydd y Panel gydag adroddiad yn nodi'r cefndir a pham y ceisid gwaharddiad interim. Fan bellaf dim ond gwaharddiad o chwe mis (rhannol neu lawn) fyddai'n bosibl, a gellid ei adnewyddu hyd at deirgwaith i gyd (cyfanswm o 18 mis). Byddai'r aelod a gyhuddid yn cael cyfle i ddweud pam na ddylai gael ei wahardd ar sail interim, ond ni fyddai unrhyw dystiolaeth yn cael ei cheisio a byddai adroddiad yr Ombwdsmon yn cael ei gymryd ar sail ei werth wyneb yn yr un ffordd ag adroddiad y Cyngor Meddygol Cyffredinol yn Nhribiwnlys yr Ymarferwyr Meddygol. Y prawf a gymhwysid fyddai:

*‘Where it appears to the Interim Case Tribunal that:*

*a) if the matters outlined by the Ombudsman in the interim report are found by a Case Tribunal at a final hearing and would be likely to be found to constitute a failure to comply with the Code of Conduct of the relevant authority concerned;*

*b) and that the nature of that failure is such as to be likely to lead to disqualification under section 79(4)(b) of the Local Government Act 2000;*

*and*

*c) and that it is in the public interest to suspend or partially suspend the accused member immediately for the protection of members of the public, to maintain public confidence in local government, to uphold proper standards of conduct and behaviour, or to enable the completion of the Ombudsman’s investigation.’*

Byddai'r diwygiad hwn yn gymharol fach o ran y prawf budd cyhoeddus presennol, ond byddai'n gwneud y camau y mae angen eu cymryd a'r diffiniad o fudd y cyhoedd yn llawer cliriach. Byddai'n gofyn am ddeddfwriaeth newydd gan Lywodraeth Cymru.

## 5 Casgliadau ac argymhellion

5.1 Croesewais y cyfle i arwain yr adolygiad hwn ac i gasglu'r dystiolaeth ehangaf bosibl gan y rhai a oedd ynghlwm wrth roi'r fframwaith safonau moesegol ar waith ynghylch cryfderau a gwendidau'r fframwaith presennol, sut y gellid ei wella a sut y rheolir gofynion y ddeddfwriaeth ddiweddar fel y mae'n ymwneud â safonau moesegol. Y prif gwestiwn i bawb dan sylw oedd - sut y gellir gwella safonau moesegol mewn llywodraeth leol yng Nghymru, ac yn ymarferol sut y gellir lleihau nifer y cwynion?

5.2 Ystyriwyd ei bod yn hanfodol sicrhau bod y teulu llywodraeth leol yng Nghymru yn chwarae rhan lawn yn yr adolygiad ac yn llywio'r canlyniad. Roedd angen dangos y fath gyfranogiad fel rhan o ganlyniad y gwaith hwn. Rwyf wedi cyfarfod â llawer o'r unigolion hynny a chynrychiolwyr y sefydliadau a oedd fwyaf ynghlwm wrth gyflwyno'r fframwaith safonau moesegol yng Nghymru, ac mae'r adroddiad hwn, ei ganfyddiadau a'i argymhellion yn bennaf seiliedig ar farn a phrofiadau'r unigolion a'r sefydliadau hynny.

5.3 Ar gam cyntaf yr adolygiad ymgysylltwyd â'r unigolion a'r cynrychiolwyr hynny er mwyn casglu barn am y broses a'r dull o roi'r fframwaith ar waith, gan gynnwys manylion ynghylch lle mae'r fframwaith yn gweithio'n dda ac a oes unrhyw feysydd y gellid eu gwella. Mae canlyniad y cam cyntaf hwn yn adeiladu ar elfennau cadarnhaol y fframwaith gan gryfhau'r meysydd hynny lle yr ystyrir y gellid gwneud gwelliannau ar yr un pryd. Hefyd, fel rhan o'r gwaith hwn, ystyriwyd opsiynau i sicrhau bod gofynion darpariaethau'r Gofrestr Buddiannau yng Ngorchymyn y Cod Ymddygiad Enghreifftiol yn unol â pholisi'r Ddeddf i atal cyfeiriadau Cynghorwyr rhag cael eu cyhoeddi.

5.4 Roedd y canlynol yn ofynnol fel prif elfennau'r gwaith:

- *Archwiliad o Godau Ymddygiad yr holl awdurdodau gofynnol yn erbyn y Cod Enghreifftiol er mwyn nodi unrhyw amrywiadau lleol*

- *Dadansoddiad o effeithiolrwydd y fframwaith wrth feithrin safonau ymddygiad uchel mewn llywodraeth leol yng Nghymru a hyder y cyhoedd yn y trefniadau hynny*

- *Ystyried a yw'r fframwaith yn dal i fod yn addas at y diben, gan gynnwys a yw'r deg egwyddor ymddygiad yn dal i fod yn berthnasol ac a oes angen i'r Cod Ymddygiad Enghreifftiol gael ei ddiweddaru. Bydd hyn yn cynnwys nodi meysydd lle y gellid/dylid gwneud gwelliannau i'r trefniadau presennol.*

- *Ystyried rôl Pwyllgorau Safonau, gan gynnwys eu rôl o ran Cynghorau Tref a Chymuned, ac a yw sefydlu is-bwyllgorau wedi cael unrhyw effaith ar y broses*

*o gefnogi Cynghorau Cymuned ac ymdrin â chwynion.*

- *Dadansoddiad o'r trefniadau a'r protocolau sydd ar waith o fewn awdurdodau i gefnogi aelodau a staff i a) atal materion rhag codi yn y lle cyntaf a b) atal uwchgyfeirio materion y tu hwnt i lefel ddatrys leol. Bydd hyn yn cynnwys meysydd megis cyfathrebu a chyfeirio clir, hyfforddiant ac ymwybyddiaeth a'r dull o ymdrin â chwynion.*

- *Ystyried y sancsiynau presennol ac a ydynt yn briodol o hyd*

5.5 Mae cam cyntaf yr adolygiad wedi cwmpasu pob un o'r materion hyn ac mae fy nghanfyddiadau a'm hargymhellion ar gyfer newid isod yn ymwneud â'r prif agweddau ar y gwaith:

5.5.1 ***Archwiliad o Godau Ymddygiad yr holl awdurdodau gofynnol yn erbyn y Cod Enghreifftiol er mwyn nodi unrhyw amrywiadau lleol***

Cynhaliais archwiliad o'r Codau Ymddygiad a fabwysiadwyd gan yr holl awdurdodau gofynnol yn erbyn y Cod Ymddygiad Enghreifftiol er mwyn nodi unrhyw amrywiadau lleol ac ystyried a yw'r deg egwyddor ymddygiad yn dal i fod yn berthnasol ac a oes angen diweddaru'r Cod Ymddygiad Enghreifftiol. Roedd hyn yn cynnwys nodi meysydd lle y gellid/dylid gwneud gwelliannau. Gwnaeth Swyddogion Monitro'r holl brif gynghorau, Awdurdodau Parciau Cenedlaethol, ac Awdurdodau Tân ac Achub ymateb i'm cais am wybodaeth am y Cod Ymddygiad a oedd wedi'i fabwysiadu gan eu Hawdurdod heblaw am un (Cyngor Sir), a'r ymateb oedd bod y Cod Ymddygiad Enghreifftiol wedi cael ei fabwysiadu heb fawr ddim amrywiadau nac ychwanegiadau. Fodd bynnag, mae nifer o awdurdodau lleol (dros hanner) wedi mabwysiadu gweithdrefn neu brotocol datrys lleol sy'n ategu'r Cod Enghreifftiol, ac mae gan fwy na'u hanner ofyniad hyfforddiant hefyd, unwaith eto nid fel rhan o'r Cod ei hun ond yn ychwanegol ato. Mewn awdurdodau eraill mae hyn yn ddisgwyliad yn hytrach na bod yn orfodol.

5.5.2 ***Dadansoddiad o effeithiolrwydd y fframwaith wrth feithrin safonau ymddygiad uchel mewn llywodraeth leol yng Nghymru a hyder y cyhoedd yn y trefniadau hynny***

Mae pawb y cyfarfûm â nhw fel rhan o'r adolygiad hwn o'r farn bod y fframwaith safonau moesegol sy'n gymwys yng Nghymru yn llawer gwell na'r un a ddefnyddir o fewn llywodraeth leol yn Lloegr ar hyn o bryd yn rhannol oherwydd, yn wahanol i Loegr, mae'r Cod Ymddygiad yn gymwys pan fydd Cynghorydd yn gweithredu yn ei rinwedd swyddogol a phan fydd Cynghorydd yn ymddwyn mewn ffordd y gellid ei ystyried yn dwyn anfri ar ei swydd neu ei awdurdod, ac yn rhannol am fod rhannu rolau a chyfrifoldebau fel y'i disgrifir yn gynharach yn fframwaith Cymru yn rhoi lefel o annibyniaeth wirioneddol o ran y ffordd yr asesir cwynion ac yr ymchwilir iddynt. Mae'r fframwaith yn gyffredinol, a gofynion y Cod Ymddygiad yn arbennig, wedi chwarae rhan annatod wrth feithrin y safonau ymddygiad uchel sydd i'w gweld mewn llywodraeth leol yng Nghymru.

Fodd bynnag, mae gan yr Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus a'r Swyddogion Monitro bryderon ynghylch y lefel barhaus o gwynion, sydd wedi cynyddu'n ddiweddar, am ymddygiad aelodau Cynghorau Cymuned. Dylai addasiadau a diwygiadau i'r fframwaith presennol sy'n gofyn am hyfforddiant gorfodol ar y Cod Ymddygiad ar gyfer pob aelod a mwy o ddefnydd o weithdrefnau datrys lleol arwain at leihad sylweddol yn nifer y cwynion lefel isel yn bennaf a wneir a'r angen am ymchwiliadau ffurfiol sy'n ofynnol i honiadau o dorri'r Cod Ymddygiad, a fyddai'n arwain at wella'r safonau moesegol sydd eisoes yn uchel o fewn llywodraeth leol yng Nghymru ymhellach.

5.5.3 ***Ystyried a yw'r fframwaith yn dal i fod yn addas at y diben, gan gynnwys a yw'r deg egwyddor ymddygiad yn dal i fod yn berthnasol ac a oes angen i'r Cod Ymddygiad Enghreifftiol gael ei ddiweddaru. Bydd hyn yn cynnwys nodi meysydd lle y gellid/dylid gwneud gwelliannau i'r trefniadau presennol.***

Y consensws yw bod y fframwaith presennol yn 'addas at y diben' ac yn gweithio'n dda yn ymarferol, a chynigiodd nifer o'r rhai yr ymgynghorais â nhw nad oes angen trwsio rhywbeth nad yw wedi torri. Ystyrir bod y deg egwyddor ymddygiad yn berthnasol, ac yn gyffredinol credir bod y Cod Ymddygiad Enghreifftiol yn briodol - ac yn well na'r Cod Ymddygiad a ddefnyddir o fewn llywodraeth leol yn Lloegr - ac nad oes angen ei ddiwygio'n sylweddol.

Fodd bynnag, rwyf wedi cynnig nifer o ddiwygiadau i'r Cod Ymddygiad Enghreifftiol o ran:

- Mae paragraff 17 o'r Cod Enghreifftiol yn ei gwneud yn ofynnol i aelodau, o fewn 28 diwrnod ar ôl cael unrhyw rodd, lletygarwch, buddiant materol neu fantais faterol, sy'n fwy na gwerth a bennir mewn penderfyniad gan eu hawdurdod, ddarparu hysbysiad ysgrifenedig ar gyfer Swyddog Monitro'r awdurdod, neu mewn perthynas â Chyngor Cymuned, swyddog priodol eich awdurdod yn nodi bodolaeth a natur y rhodd honno, y lletygarwch hwnnw, y buddiant materol hwnnw neu'r fantais faterol honno. Nid yw'r Cod yn nodi unrhyw drothwy ar gyfer datganiadau o'r fath ac mae nifer o awdurdodau wedi pennu trothwy y mae'n rhaid cael datganiad y tu hwnt iddo. Dylai'r trothwy gael ei nodi yn y Cod er mwyn sicrhau cysondeb ledled Cymru.

- Mae'r gyfraith sy'n gofyn am gyhoeddi cyfeiriadau cartref Cynghorwyr wedi newid yn ddiweddar felly nid yw Cynghorau yn gwneud hyn mwyach. Fodd bynnag, mae'n ofynnol i aelodau gynnwys eu cyfeiriad cartref yng Nghofrestr Buddiannau eu Cyngor. Cytunir na ddylai'r Cod Ymddygiad ei gwneud yn ofynnol i Gynghorwyr ddatgelu eu cyfeiriad cartref, a chynigir y dylai Paragraff 10.2(vi) o'r Cod Ymddygiad Enghreifftiol gael ei ddiwygio fel a ganlyn:

  *'unrhyw dir (heblaw am eich prif breswylfa) y mae gennych fuddiant llesiannol ynddo ac sydd yn ardal eich awdurdod'*

- Ni chaiff *'person'* ei ddiffinio yn Neddf Llywodraeth Leol 2000 nac yn y Cod

Ymddygiad Enghreifftiol felly mae'r Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus wedi gorfod dibynnu, wrth gynnal ei ymchwiliadau, ar y diffiniad yn Neddf Dehongli 1978 sef '*a body of persons corporate or unincorporate'*. Mae hyn wedi achosi problemau, ac ystyrir y byddai'n fuddiol cael diffiniad clir o ystyr *'person'* ar wyneb y ddeddfwriaeth neu yn y Cod Enghreifftiol.

- Mae pryder bod y ddarpariaeth ym Mharagraff 4a o'r Cod Ymddygiad Enghreifftiol yn ei gwneud yn ofynnol i aelod:

  > *'cyflawni eich dyletswyddau a'ch cyfrifoldebau gan roi sylw dyladwy i'r egwyddor y dylai fod cyfle cyfartal i bawb, waeth beth fo'u rhyw, eu hil, eu hanabledd, eu cyfeiriadedd rhywiol, eu hoed neu eu crefydd'*

  yn cynnwys yr holl nodweddion gwarchodedig. Dylai'r ddarpariaeth hon gael ei hymestyn i gynnwys pob un o'r naw nodwedd warchodedig o dan Ddeddf Cydraddoldeb 2010 – hil, crefydd neu gred, oedran, anabledd, rhyw (rhywedd), cyfeiriadedd rhywiol, ailbennu rhywedd, priodas a phartneriaeth sifil, beichiogrwydd a mamolaeth.

- Mae'r posibilrwydd o dorri'r Cod Ymddygiad yn sgil y defnydd helaeth a chynyddol o'r cyfryngau cymdeithasol gan aelodau etholedig yn destun pryder. Dylai'r canllawiau defnyddiol ar y defnydd o'r cyfryngau cymdeithasol gan CLlLC ac Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru gael eu ffurfioli drwy ddiwygiadau priodol i'r Cod Ymddygiad Enghreifftiol.

- Mae 6(1)(b) o'r Cod Ymddygiad yn rhwymo aelodau etholedig i adrodd ar ymddygiad troseddol pobl eraill ond nid eu hymddygiad troseddol eu hunain. Yn ymarferol, mae'r rhan fwyaf o aelodau wedi hunan-adrodd achosion posibl o dorri'r Cod o ganlyniad i ymddygiad troseddol i'r Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus. Fodd bynnag, bu achosion lle nad yw hyn wedi digwydd a dylai'r Cod Ymddygiad gael ei ddiwygio'n briodol fel bod yr aelod yn gorfod adrodd ar ei ymddygiad troseddol ei hun.

Yn ogystal â'r diwygiadau arfaethedig hyn i'r Cod Ymddygiad Enghreifftiol, mae nifer o argymhellion eraill o ran y fframwaith safonau moesegol presennol yng Nghymru:

- **Hyfforddiant gorfodol ar y Cod Ymddygiad i holl aelodau prif gynghorau a chynghorau cymuned**

  Cynigiodd pob unigolyn neu gynrychiolydd sefydliadol y cyfarfûm ag ef y dylai hyfforddiant gorfodol ar gyfer pob Cynghorydd ar ofynion y Cod Ymddygiad a fabwysiadwyd gan ei awdurdod fod yn orfodol, ac y dylai'r hyfforddiant cychwynnol hwn gael ei 'fireinio'n' rheolaidd. Y ffordd symlaf o sicrhau bod pawb yn cael hyfforddiant gorfodol fyddai cynnwys ymrwymiad i gwblhau'r hyfforddiant angenrheidiol yn y Datganiad Derbyn Swydd y mae'n ofynnol i bob aelod etholedig yng Nghymru ei lofnodi o dan Orchymyn Etholiadau Lleol

(Datganiad Derbyn Swydd) (Cymru) 2004 cyn y gall ddod yn Gynghorydd, yn yr un ffordd ag y mae'n ofynnol iddo ddilyn Cod Ymddygiad ei awdurdod ar hyn o bryd. Gall fod angen deddfwriaeth i ddiwygio Gorchymyn 2004 yn briodol. Mae Deddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru) 2021 yn ei gwneud yn ofynnol i Gynghorau Cymuned gyhoeddi a pharhau i adolygu cynllun hyfforddi ar gyfer eu haelodau a'u swyddogion. Disgwylir i gynlluniau o'r fath gynnwys hyfforddiant ar y Cod Ymddygiad pan fo'n briodol. Os caiff hyfforddiant cychwynnol a gloywi ar y Cod ei wneud yn orfodol ar gyfer pob cynghorydd bydd angen ystyried sut y gellir darparu'r hyfforddiant hwnnw.

- **Datrys mwy o gwynion yn lleol**

Mae'r rhan fwyaf o brif Gynghorau yng Nghymru wedi mabwysiadu gweithdrefnau datrys lleol er mwyn ymdrin â chwynion lefel isel a wneir gan aelod yn erbyn aelod arall. Mae'r trefniadau hyn yn effeithiol wrth ddatrys llawer o'r mathau hyn o gwynion, ac mae nifer bach o Gynghorau Cymuned (tua 70 o'r 735 o Gynghorau Tref a Chymuned yng Nghymru) sydd wedi mabwysiadu gweithdrefn debyg gan ddefnyddio'r weithdrefn Ddatrys Leol Enghreifftiol a ddatblygwyd i'w defnyddio ganddynt gan Un Llais Cymru a'r Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus. Er y gall aelodau barhau i gwyno'n uniongyrchol i'r Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus ynghylch cyd-aelod os yw'r mater dan sylw yn ymwneud â pharagraffau 4(b) a 6(1)(d), mae'n debygol o atgyfeirio'r mater yn ôl at Swyddog Monitro'r prif awdurdod er mwyn iddo ei ystyried o dan y broses hon. Derbynnir yn gyffredinol mai'r ffordd fwyaf priodol o ddatrys y fath gwynion yw yn anffurfiol ac yn lleol er mwyn cyflymu'r broses gwyno a sicrhau bod adnoddau'r Ombwdsmon yn canolbwyntio ar ymchwilio i gwynion difrifol. Dylid ystyried a ddylai'r Cod Ymddygiad Enghreifftiol gael ei ddiwygio'n briodol er mwyn ei gwneud yn ofynnol i ystyried datrys cwyn yn lleol cyn ei hatgyfeirio at yr Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus. Y consensws yw, ar y cyd â rhoi hyfforddiant gorfodol ar y Cod Ymddygiad i bob Cynghorydd, y byddai hyn yn cyflymu'r broses gwyno ac yn sicrhau bod adnoddau'r Ombwdsmon yn canolbwyntio ar ymchwilio i gwynion difrifol.

- **Pwerau estynedig i Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru**

Mae pryder bod y nifer isel o atgyfeiriadau at Bwyllgorau Safonau fel cyfran o'r cwynion a dderbyniwyd gan yr Ombwdsmon yn cael effaith andwyol ar allu Pwyllgorau Safonau i gynnal hyder y cyhoedd mewn aelodau etholedig, bod achwynwyr o'r farn nad oedd eu pryderon yn cael eu trin o ddifrif ac, ar adegau, fod yr aelod y cwynwyd amdano yn teimlo ei fod wedi'i ryddhau o fai ac yn rhydd i barhau i ymddwyn yn y ffordd y cwynwyd amdani. Byddai mwy o ddefnydd o ddisgresiwn yr Ombwdsmon ym maes atgyfeirio na'r hyn a geir ar hyn o bryd yn cael ei groesawu gan Swyddogion Monitro a Chadeiryddion Pwyllgorau Safonau. Mae'r Ombwdsmon yn cydymdeimlo â'r farn a fynegwyd gan rai o'r bobl y siaradais i â nhw fod ei ymchwiliadau yn cymryd gormod o amser ac yn rhy aml na chaiff cwynion go ddifrifol eu trin. Mae wedi mynegi ei

bryder bod ei sefydliad yn treulio gormod o amser yn mynd drwy gwynion – dros 400 yn 2020/21 – nad yw'r mwyafrif llethol ohonynt yn werth ymchwilio iddynt. Ym marn yr Ombwdsmon, defnyddio prosesau datrys lleol ar gyfer llawer o'r cwynion lefel isel hyn yw'r ffordd o sicrhau bod ei waith yn effeithlon ac â phwyslais penodol, a byddai ymestyn ei bŵer i atgyfeirio cwynion yn ôl at ddatrysiad lleol yn newid buddiol i'r fframwaith presennol.

- **Newidiadau i bwerau a phrosesau Panel Dyfarnu Cymru**

  Mae Llywydd Panel Dyfarnu Cymru wedi gwneud nifer o gynigion i ddiwygio'r polisïau a'r prosesau sy'n gymwys i waith y Panel.

  - **Gorchmynion adrodd cyfyngedig**

    Ni all y Panel reoli mewn unrhyw ffordd adroddiadau'r wasg ynghylch unrhyw achos, er bod y gyfraith ynghylch adrodd ar droseddau rhywiol yn gymwys yn awtomatig. Mae'r Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus wedi dweud, heb bŵer deddfwriaethol penodol sy'n ei alluogi i wneud y fath orchmynion adrodd cyfyngedig, na fu rhai achwynwyr yn barod i wneud datganiadau na chwynion, a bu achosion lle mae trydydd partïon nad oeddent hyd yn oed yn dystion wedi cael sylw'r wasg a'r cyfryngau cymdeithasol. Ym marn Llywydd y Panel, byddai'r pwerau sydd ar gael i Dribiwnlys Cyflogaeth - gall Tribiwnlys Cyflogaeth osod Gorchymyn Adrodd Cyfyngedig naill ai tan ddiwedd achos neu Orchymyn Adrodd Cyfyngedig estynedig a all fod ar waith am byth - yn briodol i bob Tribiwnlys Panel, a gellid eu cyflwyno naill ai drwy ddeddfwriaeth ar gyfer yr holl dribiwnlysoedd yng Nghymru yn sgil Adroddiad diweddar Comisiwn y Gyfraith neu'n benodol ar gyfer Panel Dyfarnu Cymru.

  - **Tystion di-enw**

    Mae cysylltiad agos rhwng y mater hwn a chyhoeddi Gorchmynion Adrodd Cyfyngedig. Mae'r Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus wedi gofyn am ddull cyson o gadw tystion yn ddi-enw fel bod ei staff yn gwybod beth yw'r sefyllfa wrth baratoi adroddiadau ac egluro'r broses wrth dystion. Mae'r Llywydd o'r farn ei bod yn briodol cyhoeddi canllawiau i sicrhau cysondeb a thryloywder a bydd yn gwneud hynny'n fuan, ond byddai pŵer penodol i gadw tystion yn ddi-enw yn ddefnyddiol i Dribiwnlysoedd Achos ac Apêl er mwyn sicrhau sail gyfreithiol ar gyfer cam o'r fath. Gall y Llywydd ychwanegu'r pŵer hwn ar gyfer Tribiwnlysoedd Apêl fel rhan o'i gylch gwaith, ond byddai angen deddfwriaeth newydd sbon ar gyfer Tribiwnlysoedd Achos.

  - **Datgelu**

    Mae mater yn codi ynghylch datgelu deunydd heb ei ddefnyddio a ddelir

gan yr Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus a Swyddogion Monitro. Cytunwyd diwygio proses yr Ombwdsmon ei hun yn hyn o beth, gyda chanllawiau/cyfarwyddyd ymarfer Llywyddol ar ddatgelu a rôl y Swyddog Monitro'n gyffredinol.

- **Gweithdrefn y Tribiwnlys Apêl**

  Mae Llywydd y Panel yn bwriadu gofyn i'r Prif Weinidog, drwy Lywydd Tribiwnlysoedd Cymru, gymeradwyo diwygiadau i weithdrefn y Tribiwnlys Apêl. Mae'r Rheoliadau presennol hefyd yn ei gwneud yn ofynnol i'r Pwyllgor Safonau ystyried penderfyniad y Panel ar yr Apêl os yw'n wahanol i'r penderfyniad gwreiddiol. Mae hyn yn amhoblogaidd ymhlith Pwyllgorau Safonau am eu bod yn teimlo'n rhwym wrth benderfyniad y Panel os am ddim mwy nag osgoi apeliadau pellach. Er hyn, mae'r Llywydd yn fodlon ar y sefyllfa sydd ohoni gan fod y Pwyllgor Safonau yn parhau i fod yn gyfrifol a gall adlewyrchu ei ymateb i benderfyniad y Panel yn y sancsiwn y mae'n penderfynu ei osod.

- **Gweithdrefn y Tribiwnlys Achos**

  Ym marn Llywydd y Panel mae'r Rheoliadau yn rhy hen ac mae wedi cynnig nifer o ddiwygiadau er mwyn gwneud Gweithdrefn y Tribiwnlys Achos yn fwy effeithlon ac yn decach i dystion.

- **Gweithdrefn caniatâd i apelio**

  Yn 2016 cyflwynwyd proses apelio newydd, gan ei gwneud yn ofynnol i gael caniatâd i apelio gan Lywydd y Panel. Mae'r Llywydd o'r farn nad yw'r broses hon yn gweithio'n dda ac yn cynnig mân ddiwygiadau er mwyn gwneud y broses yn fwy cytbwys a synhwyrol.

- **Pwerau dedfrydu**

  Ar hyn o bryd mae'r pwerau sydd ar gael i'r Panel pan fydd yn pennu bod aelod neu aelod cyfetholedig wedi methu â chydymffurfio â'r Cod yn gyfyngedig a hoffai'r Llywydd weld y Panel yn gallu gorfodi sancsiynau mwy amrywiol fel yn achos cyn-Banel Dyfarnu Lloegr. Mae'r Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus a Swyddogion Monitro wedi cadarnhau eu bod yn cefnogi hyn.

- **Tribiwnlysoedd Achos Interim**

  Mae gan yr Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus y pŵer o dan a72 o Ddeddf 2000 i wneud atgyfeiriadau interim at Banel Dyfarnu Cymru os yw hynny er budd y cyhoedd a lle ceir tystiolaeth prima facie nad yw'r unigolyn wedi cydymffurfio â'r Cod Ymddygiad, y mae ei natur yn debygol

o arwain at ei anghymhwyso. Mae'r Ombwdsmon a Llywydd y Panel o'r farn bod y trothwy ar gyfer bodloni'r gofynion deddfwriaethol ar gyfer atgyfeiriad interim at y Panel yn rhy uchel, a rhennir y farn hon gan lawer o'r Swyddogion Monitro ac eraill rwyf wedi cyfarfod â nhw, ond byddai unrhyw newid i'r pwerau hyn yn gofyn am ddeddfwriaeth sylfaenol gan Lywodraeth Cymru. Cynigir symleiddio'r broses gyfan drwy gymhwyso prawf sy'n debyg i'r hyn a ddefnyddir gan y Tribiwnlysoedd Rheoleiddiol megis Tribiwnlys yr Ymarferwyr Meddygol. Byddai'r Gwrandawiad yn cael ei gynnal gan aelod sy'n gyfreithlon yn eistedd ar ei ben ei hun ond gyda'r gallu i wahodd cyflwyniadau llafar gan y partïon er budd cyfiawnder. Byddai'r Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus yn cyflwyno atgyfeiriad at Lywydd y Panel gydag adroddiad yn nodi'r cefndir a pham y ceisid gwaharddiad interim. Fan bellaf dim ond gwaharddiad o chwe mis (rhannol neu lawn) fyddai'n bosibl, a gellid ei adnewyddu hyd at deirgwaith i gyd (cyfanswm o 18 mis). Byddai'r aelod a gyhuddid yn cael cyfle i ddweud pam na ddylai gael ei wahardd ar sail interim, ond ni fyddai unrhyw dystiolaeth yn cael ei cheisio a byddai adroddiad yr Ombwdsmon yn cael ei gymryd ar sail ei werth wyneb yn yr un ffordd ag adroddiad y Cyngor Meddygol Cyffredinol yn Nhribiwnlys yr Ymarferwyr Meddygol. Y prawf a gymhwysid byddai:

*‘Where it appears to the Interim Case Tribunal that:*

*a. if the matters outlined by the Ombudsman in the interim report are found by a Case Tribunal at a final hearing and would be likely to be found to constitute a failure to comply with the Code of Conduct of the relevant authority concerned;*

*b. and that the nature of that failure is such as to be likely to lead to disqualification under section 79(4)(b) of the Local Government Act 2000;*

*and*

*c. and that it is in the public interest to suspend or partially suspend the accused member immediately for the protection of members of the public, to maintain public confidence in local government, to uphold proper standards of conduct and behaviour, or to enable the completion of the Ombudsman’s investigation.’*

Byddai'r diwygiad hwn yn gymharol fach o ran y prawf budd cyhoeddus presennol, ond byddai'n gwneud y camau y mae angen eu cymryd a'r diffiniad o fudd y cyhoedd yn llawer cliriach. Byddai'n gofyn am ddeddfwriaeth newydd gan Lywodraeth Cymru.

5.5.4 ***Ystyried rôl Pwyllgorau Safonau, gan gynnwys eu rôl o ran Cynghorau Tref a***

***Chymuned, ac a yw sefydlu is-bwyllgorau wedi cael unrhyw effaith ar y broses o gefnogi Cynghorau Cymuned ac ymdrin â chwynion.***

Cefais fy nharo gan yr amrywiol ffyrdd y mae Pwyllgorau Safonau yng Nghymru yn gweld eu cylch gwaith a'r rolau gwahanol a chwaraeir gan Gadeiryddion Annibynnol Pwyllgorau Safonau. Ar un pegwn ymddengys fod Pwyllgorau Safonau a'u Cadeiryddion Annibynnol wedi cael neu wedi mabwysiadu rôl gyfyngedig iawn, gan gwrdd yn anaml a dim ond yn weithredol pan fo Gwrandawiad ynghylch achos a atgyfeiriwyd gan Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru. Ar y pegwn arall mae rhai Pwyllgorau Safonau a Chadeiryddion sy'n ystyried bod eu cylch gwaith yn llawer ehangach na hyn, a'u bod yn arwain y gwaith o ddatblygu a chynnal y fframwaith safonau moesegol yn yr awdurdod lleol hwnnw. Yn arbennig mae'r Pwyllgorau Safonau a'r Cadeiryddion hyn, ynghyd â'r Swyddog Monitro, yn gweithredu fel y brif ffynhonnell o gyngor, cefnogaeth a chanllawiau i'r Cynghorau Tref a Chymuned yn eu hardal. Mae angen gweithredu mewn modd cyson a sicrhau bod cylch gwaith y Pwyllgor Safonau yn debyg, at ei gilydd, ledled Cymru, ond gan dderbyn nad oes un ateb i bawb a bod angen i'r Pwyllgor Safonau lleol adlewyrchu natur benodol y sefyllfa ar gyfer y prif gyngor dan sylw. Dylai Cadeirydd y Pwyllgor Safonau chwarae rôl arwain, ynghyd â'r Prif Weithredwr, y Swyddog Monitro ac Arweinwyr grwpiau gwleidyddol wrth hyrwyddo safonau ymddygiad uchel ym mhob rhan o'r Cyngor.

Mae Deddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru) 2021 yn cynnwys nifer o ddarpariaethau ac iddynt oblygiadau o ran gwaith Pwyllgorau Safonau y disgwylir iddynt gefnogi arweinyddiaeth wleidyddol y Cyngor wrth gynnal safonau ymddygiad uchel gan aelodau eu grŵp a chyflwyno adroddiad blynyddol i'r awdurdod ar gyflawni ei swyddogaethau, ei asesiad o safonau ymddygiad o fewn yr awdurdod ac unrhyw argymhellion ar gyfer gwella safonau.

Mae angen hyfforddi aelodau Pwyllgorau Safonau, nid yn unig ar y Cod Ymddygiad Enghreifftiol, ond hefyd ar sut i gynnal Gwrandawiadau er mwyn sicrhau bod yr aelod y cwynir amdano, yr achwynydd ac unrhyw dystion yn cael eu trin mewn ffordd agored a theg.

Ceir Fforwm sefydledig ar gyfer Cadeiryddion Annibynnol Pwyllgorau Safonau yn y gogledd a'r canolbarth. Er y byddai Fforwm ar gyfer Cadeiryddion Pwyllgor Safonau yn y de yn sicr yn cyflawni diben tebyg wrth hwyluso cyfnewid gwybodaeth a phrofiadau am waith Pwyllgorau Safonau yn y rhan honno o Gymru, awgrymaf y dylai fod Fforwm Cymru Gyfan ac y byddai ailsefydlu'r Gynhadledd flynyddol ar gyfer Cadeiryddion Annibynnol ac aelodau Annibynnol Pwyllgorau Safonau ledled Cymru, a gynhaliwyd tan yn ddiweddar, yn annog gweithredu cyson a mabwysiadu arferion gorau ledled Cymru.

Mae Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru yn derbyn bod angen mwy o atgyfeiriadau at Bwyllgorau Safonau pan fo'n gwrthod ymchwilio i gwynion, ac er bod angen i natur dechnegol y dull o reoli atgyfeiriadau yn ôl gael ei hystyried yn ofalus nad yw o'r farn bod hyn yn gymhleth. Ym marn yr Ombwdsmon ni fyddai'r trefniant anffurfiol hwn yn gofyn am unrhyw newid deddfwriaethol o ran ei bwerau ef ond byddai angen i

Bwyllgorau Safonau gael pwerau ychwanegol i'w gwneud yn ofynnol i aelodau gael yr hyfforddiant angenrheidiol a'r pŵer i'w gwneud yn ofynnol i aelod ymddiheuro i'r achwynydd. Ei farn glir yw y byddai rhoi'r pŵer i'r Pwyllgor Safonau orfodi hyfforddiant neu ei gwneud yn ofynnol i ymddiheuro yn ffordd ddefnyddiol o *'ladd rhywbeth yn yr egin'* yn lleol.

Ystyriais a yw sefydlu is-bwyllgorau o Bwyllgorau Safonau sy'n canolbwyntio ar faterion Cynghorau Cymuned wedi cael unrhyw effaith ar y broses o gefnogi Cynghorau Cymuned ac ymdrin â chwynion. O'm harchwiliad o Bwyllgorau Safonau ymddengys mai dim ond un Cyngor Sir yng Nghymru sydd wedi sefydlu is-bwyllgor o'r fath o'r Pwyllgor Safonau a chan fod gan y Cyngor Sir hwnnw 128 o Gynghorau Cymuned yn ei ardal fe'i hystyrir yn ffordd ymarferol o reoli'r sefyllfa.

Mae cryn bryder am y lefel o fwlio, diffyg parch neu fel arall ymddygiad aflonyddgar cyffredinol rhai aelodau mewn cyfarfodydd Cynghorau Tref a Chymuned. Mae'r Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus yn cymryd o ddifrif unrhyw honiad bod aelod wedi bwlio neu aflonyddu ar aelod neu swyddog ac mae ei ganllawiau ar hyn yn ei gwneud hi'n glir bod yn rhaid i aelodau ddangos yr un cwrteisi tuag at aelodau a swyddogion eraill ac ystyriaeth ohonynt ag a ddangosant yn eu bywydau beunyddiol. Wrth geisio lleihau nifer yr achosion o fwlio neu ymddygiad amhriodol arall, gyda chymorth Swyddogion Monitro, mae'r Ombwdsmon wedi ymgysylltu â nifer o Gynghorau Tref a Chymuned sydd wedi bod yn destun nifer anghymesur o gwynion yn y gorffennol, ac mae canllawiau a baratowyd gan Un Llais Cymru a Chymdeithas Clercod Cynghorau Lleol yn anelu at helpu Cynghorau i osgoi neu drechu bwlio, aflonyddu ac ymddygiad amhriodol. Mae hwn yn fater a allai gael ei liniaru i ryw raddau drwy ei gwneud yn ofynnol i gynghorwyr gael hyfforddiant a gwneud mwy o ddefnydd o weithdrefnau datrys lleol, ond mae'n broblem ddifrifol y bydd angen parhau i'w monitro a mynd i'r afael â hi lle y bo angen gan Bwyllgorau Safonau a Swyddogion Monitro lleol

5.5.5 ***Dadansoddiad o'r trefniadau a'r protocolau sydd ar waith o fewn awdurdodau i gefnogi aelodau a staff i a) atal materion rhag codi yn y lle cyntaf a b) atal uwchgyfeirio materion y tu hwnt i lefel ddatrys leol. Bydd hyn yn cynnwys meysydd megis cyfathrebu a chyfeirio clir, hyfforddiant ac ymwybyddiaeth a'r dull o ymdrin â chwynion.***

Bu'r adolygiad o fudd mawr wrth ddynodi lle mae'r angen am newidiadau i'r trefniadau presennol i gefnogi aelodau a staff – yn bennaf Pwyllgorau Safonau a Swyddogion Monitro – i atal materion rhag codi ac ymdrin â nhw mewn ffordd fwy effeithiol ac amserol heb fod angen i'r Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus ymchwilio iddynt. Bwriedir i'r argymhellion ar gyfer newidiadau i'r fframwaith safonau moesegol presennol gynorthwyo'r gwaith o gyflawni'r amcan hwnnw.

5.5.6 ***Ystyried y sancsiynau presennol ac a ydynt yn briodol o hyd***

Pan ddaw Pwyllgor Safonau i'r casgliad bod aelod neu aelod cyfetholedig wedi methu â chydymffurfio â Chod Ymddygiad y Cyngor perthnasol, gall bennu:

- nad oes angen cymryd unrhyw gamau o ran y methiant hwnnw
- y dylai'r aelod neu'r aelod cyfetholedig gael cerydd a hynny'n gyhoeddus

  neu

- dylai'r aelod neu'r aelod cyfetholedig gael ei wahardd neu ei wahardd dros dro rhag bod yn aelod o'r awdurdod hwnnw am gyfnod nad yw'n hwy na chwe mis neu os yw'n fyrrach, am weddill cyfnod mewn swydd yr aelod.

Gall aelod sydd wedi cael ei sancsiynu gan Bwyllgor Safonau geisio caniatâd Llywydd Panel Dyfarnu Cymru i apelio yn erbyn y penderfyniad.

Yn ystod fy adolygiad ni fynegwyd nad yw'r sancsiynau hyn sydd ar gael i Bwyllgor Safonau yn gymesur nac yn briodol. Fodd bynnag, cadarnhaodd yr Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus a Swyddogion Monitro eu bod yn cefnogi galluogi Panel Dyfarnu Cymru i osod sancsiynau mwy amrywiol nag sy'n wir ar hyn o bryd. Cynigir y dylai'r sancsiynau fod yn debyg i'r rhai sydd ar gael i cyn-Banel Dyfarnu Lloegr.

5.5.7 **Hygyrchedd y fframwaith safonau moesegol**

Er nad oedd hyn yn fater a godwyd gan unrhyw ymgynghorai, mae pryder serch hynny ynghylch y cyfyngu ar allu aelod o'r cyhoedd i wneud cwyn ddilys am ymddygiad aelod etholedig yn ei ardal gan y diffyg cyhoeddusrwydd ynghylch y fframwaith safonau moesegol a sut y gall y weithdrefn gwyno gael ei defnyddio. Ceir gwybodaeth a chyngor defnyddiol iawn ar wefannau Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru, CLlLC ac Un Llais Cymru. Fodd bynnag, yn seiliedig ar fy mhrofiad i o chwilio gwefannau prif Gynghorau, yn ogystal â gwefan Llywodraeth Cymru, am wybodaeth am y Cod Ymddygiad, neu waith Pwyllgorau Safonau neu sut i gwyno am ymddygiad cynghorydd, byddai aelod o'r cyhoedd yn ei chael hi'n anodd iawn dod o hyd i wybodaeth ddefnyddiol petai am gwyno. Ac wrth gwrs ni all pob aelod o'r cyhoedd fynd ar y we, ac mae rhai aelodau o'r cyhoedd yn wynebu anhawster penodol yn cael gafael ar wybodaeth oherwydd anableddau amrywiol, neu am eu bod yn perthyn i 'grŵp anodd ei gyrraedd' megis y gymuned teithwyr neu am fod ganddynt broblemau ieithyddol. Nid oes gennyf argymhelliad ymarferol ynghylch sut y dylid mynd i'r afael â hyn ond er mwyn sicrhau bod y fframwaith safonau moesegol yn wirioneddol agored, tryloyw a hygyrch i bawb, ac os mai'r amcan yw y dylai'r fframwaith ennyn hyder pawb a all fod angen ei ddefnyddio, yna mae angen ystyried sut y gellir sicrhau mynediad cyfartal i bawb.

5.6 Bydd ail gam yr adolygiad yn canolbwyntio ar weithio gyda phartneriaid a rhanddeiliaid i wneud unrhyw newidiadau i'r fframwaith safonau moesegol yr ystyrir eu bod yn briodol ac yn angenrheidiol gan Weinidogion Cymru yn sgil canfyddiadau ac argymhellion cam

cyntaf yr adolygiad.

**Richard Penn**

**Ymgynghorydd Annibynnol**

**Gorffennaf 2021**

| Pwyllgor : | Y PWYLLGOR SAFONAU |
|---|---|
| Dyddiad : | 8 Tachwedd 2021 |
| Teitl : | Honiadau yn erbyn aelodau |
| Awdur : | Uwch Gyfreithiwr (Corfforaethol) |
| Pwrpas : | Er gwybodaeth |

**1. Cefndir**

Pwrpas yr adroddiad hwn yw cyflwyno gwybodaeth i'r Pwyllgor am benderfyniadau'r Ombwdsmon ar gwynion ffurfiol yn erbyn aelodau.

**2. Penderfyniadau**

Derbyniwyd y penderfyniadau canlynol oddi wrth yr Ombwdsmon ers yr adroddiad diwethaf.

| Cwyn | Penderfyniad |
|---|---|
| **Cwyn Rhif 202002960**<br><br>Roedd y gŵyn yn ymwneud â sylwadau ar Facebook. Credai'r yr achwynydd eu bod yn homoffobig gyda'r bwriad o fwlio un o'i weithwyr. | Ar ôl cynnal ymchwiliad penderfynodd yr Ombwdsmon nad oedd angen cymryd camau pellach.<br><br>Gan nad oedd yr aelod yn gweithredu fel cynghorydd ar y pryd ym marn yr Ombwdsmon, gallai ond ystyried honiad o ddwyn anfri ar ei swydd neu ar ei awdurdod.<br><br>Gwadodd yr aelod fod y sylwadau yn rhai homoffobig a derbyniodd yr Ombwdsmon y gellid eu dehongli mewn ffordd wahanol. Dywedodd yr aelod nad oedd yn bwriadu nag yn disgwyl achosi unrhyw boen, ei fod yn difaru ei weithred ac yn fodlon ymddiheuro.<br><br>Gan nad oedd cysylltiad digonol rhwng y sylwadau a'i rôl fel cynghorydd, ac yng ngoleuni esboniad yr aelod am y sylwadau a'i gydnabyddiaeth na ddylai fod wedi gwneud y sylwadau, nid oedd yn y budd cyhoeddus i gymryd unrhyw gamau pellach. |

| | |
|---|---|
| **Cwyn Rhif 202102802**<br><br>Cwyn gan glerc am ohebiaeth gan aelod yn ymwneud â threfniadau cyfarfod y cyngor. | Dim ymchwiliad.<br><br>Roedd sylwadau'r aelod am gynnal cyfarfodydd a phrosesau cwyno'r cyngor yn wleidyddol eu natur ac felly'n annhebygol o dorri'r cod.<br><br>Nid oedd hi'n ymddangos i'r Ombwdsmon fod yr aelod wedi ceisio bwlio'r achwynydd.<br><br>Nid oedd cynnwys e-bost penodol yn anghwrtais nac yn gallu torri'r Cod, ond roedd cysylltu gyda'r achwynydd o ystyried ei sefyllfa ar y pryd yn annoeth a byddai'n atgoffa'r aelod fod gan aelod rywfaint o gyfrifoldeb am iechyd a lles gweithwyr y cyngor. |

**3. Dadansoddiad o'r Cwynion**

Isod ceir dadansoddiad o natur y cwynion y cafwyd penderfyniad arnynt hyd yn hyn eleni (2021/22):

| **Aelod y gwnaed y gŵyn yn ei (h)erbyn** | |
|---|---|
| Aelod o gyngor cymuned | 4 |
| Aelod o Gyngor Gwynedd | 1 |
| Aelod o Gyngor Gwynedd a chyngor cymuned | |
| **Natur yr achwynydd** | |
| Cynghorydd | 1 |
| Aelod o'r cyhoedd | 3 |
| Swyddog | 1 |
| **Natur yr honiad** | |
| Ymddygiad cyffredinol | 5 |
| Datgan Buddiant | |
| Ymddygiad cyffredinol a Datgan Buddiant | |
| **Canlyniad** | |
| Dim ymchwiliad | 4 |
| Ymchwiliad – dim tystiolaeth o dorri'r Cod Ymddygiad | 0 |
| Ymchwiliad –dim camau pellach | 1 |

**4. Achosion Agored**

4.1 Mae’r sefyllfa o safbwynt achosion eraill fel a ganlyn:

- **Ombwdsmon yn ystyried os dylai ymchwilio** **1**
- **Ombwdsmon yn cynnal ymchwiliad** **2**
- **Wedi eu cyfeirio at y Pwyllgor Safonau** **1**
- **Wedi eu cyfeirio at  Banel Dyfarnu Cymru** **1**

**5. Argymhelliad**

5.1 Gofynnir i’r Pwyllgor nodi’r wybodaeth

# Eitem 7

| | |
|---|---|
| **Pwyllgor :** | **Y Pwyllgor Safonau** |
| **Dyddiad :** | **8 Tachwedd 2021** |
| **Teitl :** | **Adroddiad Blynyddol yr Ombwdsmon 2020/21** |
| **Awdur :** | **Y Swyddog Monitro** |
| **Gweithredu :** | **Nodi er Gwybodaeth** |

**Cefndir**

1. Mae Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru wedi cyhoeddi ei adroddiad blynyddol am y flwyddyn 2020-2021

2. Mae copi o'r adroddiad wedi ei gynnwys fel **Atodiad** i'r adroddiad hwn. Gellir gweld copi o'r adroddiad hefyd ar wefan yr Ombwdsmon (https://www.ombwdsmon.cymru/annual-report-accounts/)

**Argymhelliad**

3. Gofynnir i'r Pwyllgor nodi'r adroddiad.



# Cyflawni Cyfiawnder

**Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru**

## Adroddiad a Chyfrifon Blynyddol 2020/21

# Adroddiad a Chyfrifon Blynyddol 2020/21

**Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru**

**am y flwyddyn a ddaeth i ben ar 31 Mawrth 2021**

Gosodwyd gerbron Senedd Cymru o dan baragraffau 15, 17 a 18 o Atodlen 1 i Ddeddf Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus (Cymru) 2019.

# Cynnwys

Cynnwys ..... 3
Negeseuon Allweddol ..... 5
Rhagair ..... 6
Ciplun o'r Flwyddyn ..... 12
Ein Dangosyddion Perfformiad Allweddol ..... 13
Ein gwaith ar amrantiad ..... 18
Niferoedd a thueddiadau ein llwyth achosion ..... 19
Adroddiad datgeliadau chwythu'r chwiban ..... 38
Amseroldeb ..... 39
Argymhellion ..... 41
Cydymffurfio ..... 42
Adolygu a Sicrhau Ansawdd ..... 44
Adborth gan ddefnyddwyr gwasanaeth ..... 47
Hygyrchedd, ymwybyddiaeth ac allgymorth ..... 51
Safonau Cwynion ..... 57
Ymchwiliadau ar ei liwt ei hun ..... 60
Polisi Cyhoeddus ..... 64
Rhannu ein canfyddiadau ..... 66
Hyfforddi a datblygu ..... 73
Iechyd a llesiant ..... 75
Cydraddoldeb, amrywiaeth a chynhwysiant ..... 76
Cynaliadwyedd ..... 80
Atebolrwydd ffurfiol ..... 82
Meincnodi ..... 83
Rheolaeth Ariannol ..... 84
Datganiad Llywodraethu Blynyddol 2020/21 ..... 95
Adroddiad Taliadau ..... 107

Adroddiad Archwiliad ac Atebolrwydd Senedd Cymru......................................111
Cysoni Adnoddau Net â'r Gofynion Arian Parod Net .......................................112
Tystysgrif ac adroddiad archwilydd annibynnol Archwilydd Cyffredinol Cymru ar gyfer y Senedd..................................................................................................113
Datganiad o Wariant Net Cynhwysfawr ............................................................121
Datganiad Sefyllfa Ariannol ..............................................................................122
Datganiad Llif Arian ..........................................................................................123
Datganiad Newidiadau yn Ecwiti Trethdalwyr...................................................123
Nodiadau ar y Datganiadau Ariannol ................................................................124
Datgeliadau Pensiynau .....................................................................................137

## Negeseuon Allweddol

| | |
|---|---|
| | Rydym wedi parhau i ddarparu dros y rhai sydd wedi dioddef anghyfiawnder yn ystod y pandemig. |
| | Rydym yn rhagweithiol, gan helpu’r sector cyhoeddus i wella yn ystod cyfnod anodd. |
| | Rydym yn cofleidio dysgu a chroesawu adborth. |
| | Rydym yn gwneud ein gorau i sicrhau a hyrwyddo cydraddoldeb ac amrywiaeth. |
| | Rydym yn dod at ein gilydd a chefnogi ein gilydd. |
| | Rydym yn atebol ac agored am ein perfformiad a’n defnydd o adnoddau. |

# Rhagair

## Cyfiawnder o bell



Fel y rhan fwyaf ohonoch, rwyf wedi treulio amser helaeth ac annisgwyl eleni'n gweithio o gartref ac o bell. Yn wir, y rhagair hwn yw'r adroddiad blynyddol cyntaf i gael ei gynhyrchu o fy ystafell fyw.

Mae pandemig y coronafeirws wedi cyflwyno heriau newydd i bob corff cyhoeddus, nid lleiaf yr heriau anferth i'r gwasanaethau iechyd a gofal, sy'n parhau wrth i mi ysgrifennu hwn. Mae fy meddyliau gyda holl weision y cyhoedd hynny, y gweithwyr allweddol na chawsant yr opsiwn o weithio o gartref drwy'r argyfwng hwn.

Mae ein staff ni i gyd wedi cael eu galluogi i weithio'n llwyddiannus o bell ac rwy'n dra diolchgar i'n tîm Technoleg Gwybodaeth am hwyluso'r newid hwnnw mor effeithiol. Rwy'n ymwybodol hefyd bod angen diolch i'r nifer fach o staff gwasanaethau corfforaethol a chymorth gwaith achos a fu'n mynd i'r swyddfa i sicrhau bod rhai tasgau, delio gyda'r post a sganio dogfennau, wedi gallu parhau drwy hyn i gyd. Rydym wedi cynnal ein gwasanaeth drwy bob dim, gan ateb galwadau a derbyn cwynion ond gwneud yn siŵr hefyd bod y swyddfa'n glynu wrth y safonau uchaf o ran pellter a hylendid cymdeithasol.

Gwelsom y lleihad sylweddol cyntaf erioed mewn cwynion ac ymholiadau i'r swyddfa. Fodd bynnag, er syndod, gwelsom gynnydd o tua 47% yn nifer y cwynion Cod Ymddygiad am aelodau lleol etholedig yn ystod y pandemig. Roedd rhai'n achosion proffil uchel, gan gynnwys sancsiynau sylweddol ar aelodau yng Nghaerdydd a Merthyr. Mewn blwyddyn pryd y daeth Cyngor Plwyf Handforth i sylw dieisiau'r cyfryngau cymdeithasol, roedd y swyddfa'n rhan o hyfforddi cwpwl o gynghorau tref yn uniongyrchol i sicrhau eu bod yn hollol ymwybodol o ddisgwyliadau'r Cod a bod angen cynnal safonau uchel mewn bywyd cyhoeddus lleol. Fe wnaethom hefyd ddiwygio canllawiau ein Cod Ymddygiad.

Rwyf hefyd yn ddiolchgar iawn i'r holl staff am leihau ein baich achosion, gan barhau i asesu, ymchwilio a chau cwynion yn ystod amseroedd prysur, gan leihau ein baich achosion yn barod ar gyfer y cynnydd yn nifer y cwynion rydyn ni'n eu

cael nawr ar ôl y pandemig.  Ar ddiwedd y flwyddyn roedd ein llwyth achosion yn is nag ar unrhyw adeg ers 2017, tua 16% yn is na'r adeg yma'r llynedd.

Rydym hefyd wedi gweithio'n galed i leihau achosion hirbarhaus, gyda dim ond 12 achos dros 12 mis oed – camp aruthrol o ystyried yr heriau nid yn unig i'r swyddfa ond hefyd i gyrff ein hawdurdodaeth.

Gwnaed cynnydd gwych hefyd gyda'n pwerau rhagweithiol newydd, pan lansiwyd ein hymchwiliad 'ar ei liwt ei hun' cyntaf o wasanaethau digartrefedd yng Nghymru ym mis Ionawr.  Roeddwn yn falch iawn o lansio'r ymgynghoriad gyda chymorth Michael Sheen yng nghynhadledd y Sefydliad Siartredig Tai ym mis Medi 2020.  Defnyddiwyd ein pwerau 'ar ei liwt ei hun' hefyd mewn ystod o achosion eraill, gan gynnwys triniaethau a roddwyd i 16 o gleifion gyda chanser prostad yng Ngogledd Cymru.

Roedd y siwrne i ennill pwerau newydd yn nod sylfaenol ar gyfer fy amser yn y swydd.  Dros haf 2020 roeddwn wedi gallu ysgrifennu'r stori rhwng 2014 a 2020 ac fe'i cyhoeddwyd yn y Journal of Social Welfare and Family Law.  Gallwch ddarllen fersiwn o'r stori yn International Ombudsman's Institute's website.

Daeth Safonau Cwynion Awdurdodau Lleol i rym ar 1 Ebrill 2021, a Safonau Cwynion Byrddau Iechyd i rym ar 1 Mehefin 2021.  Mae hyfforddiant ar safonau cwynion bellach wedi'i gyflwyno i bob awdurdod lleol yng Nghymru ac i'r rhan fwyaf o'r byrddau iechyd.  Mae ein gwaith yn y sector tai ar waith ers tro gyda gweminar hynod lwyddiannus wedi'i hwyluso gan TPAS Cymru.  Cafodd hyfforddiant ei ddarparu i sefydliadau sy'n cynhyrchu tua 95% o'n cwynion, oedd yn dipyn o gamp yn yr amgylchiadau.

Cyhoeddwyd chwe adroddiad lles y cyhoedd yn ystod y flwyddyn, â'n hail goflyfr Cydraddoldeb a Hawliau Dynol.  Roedd dau adroddiad arbennig ar Gyngor Caerdydd a Bwrdd Iechyd Powys yn trafod methiannau cydymffurfio.  Fe wnaethom barhau i ymgysylltu â Chymdeithas yr Ombwdsmyn, y Sefydliad Ombwdsmyn Rhyngwladol a'r Grŵp Ombwdsmyn Gwasanaethau Cyhoeddus, i ddeall mwy am sut wnaeth ein cyd-ombwdsmyn ymdopi â'r pandemig.  Roeddwn hefyd yn hynod falch o annerch y Cyngor Cyfiawnder Gweinyddol i siarad am faniffesto i ddiwygio gwasanaethau Ombwdsmyn, oedd yn gyfle i hyrwyddo'r diwygiadau yng Nghymru a rhannu arferion da â'r gymuned Ombwdsmyn ehangach.  Eleni cyhoeddodd y swyddfa **At Eich Gwasanaeth**, fy mhumed adroddiad thematig a'r tro hwn yn canolbwyntio ar arferion da o waith achos.

Yn ôl ymchwil annibynnol gan Beaufort Research, roedd ymwybyddiaeth y cyhoedd o'r swyddfa'n fwy nag erioed gan gynyddu o 13% ers 2012, ac yn uwch yng Ngogledd Cymru nag yn unman arall yng Nghymru.  Ar y cyfan, teimlai 85% o'r rhai wnaeth ymateb ei bod yn hawdd cysylltu â'r swyddfa.  Fodd bynnag, arhoswn yn bryderus fel sefydliad fod cyfran y cwynion gan leiafrifoedd ethnig a phobl anabl wedi gostwng ac eleni bwriadwn gynllunio gweithgareddau allgymorth penodol i fynd i'r afael â hyn.

Mae coronafeirws wedi effeithio ar bob un ohonom.  Ar un adeg ym mis Rhagfyr, er ein bod yn gweithio o gartref, roedd un o bob 15 o'n staff wedi eu heintio, o'i gymharu ag un o bob 65 o'r cyhoedd yn gyffredinol.  Roedd rhai o'n cynghorwyr clinigol a phroffesiynol hefyd yn sâl ac yn drist iawn bu farw cynghorydd gwasanaethau cymdeithasol uchel ei werth a'i barch oherwydd yr haint.  Mae ein meddyliau gyda'i deulu a'i ffrindiau.

Fel busnes sy'n ymwneud â phobl, roeddem wrth ein bodd o weld talent newydd o gefndiroedd amrywiol mewn archwilio, yswiriant a'r heddlu'n ymuno â'n Pwyllgorau Archwilio a Risg a Chynghori.  Mae ein diwylliant yn parhau i ddatblygu ac roeddem yn falch iawn o dderbyn statws cyflogwr Arian gan Chwarae Teg. Eleni, yn dilyn Mae Bywydau Du o Bwys, cyhoeddwyd ein Siarter Hil ac Ethnigrwydd yn y Gwaith gyntaf.

Fe wnaethom hefyd recriwtio ein Partner Busnes Adnoddau Dynol cyntaf, er mwyn adeiladu ar y diwylliant seiliedig ar werthoedd yr ydym wedi gweithio i'w sefydlu dros y blynyddoedd ond sydd heddiw'n ymddangos i fod yn fwy hanfodol fyth wrth i weithio o bell ddod yn rhan gynyddol debygol o'r 'normal newydd'.

Ym mis Ionawr roeddwn yn falch a chefais y fraint o weld y Senedd yn pleidleisio 48-2 o blaid ymestyn cyfnod fy swydd tan fis Mawrth 2022.

Er gwaethaf holl heriau'r flwyddyn ddiwethaf, teimlaf fod yr adroddiad blynyddol hwn yn adlewyrchu'n dda ar y swyddfa ac ar ein pobl, gan obeithio y daw'r flwyddyn nesaf â mwy o 'normalrwydd' i'n bywydau i gyd, a llai (ond nid dim) gweithio o fy ystafell fyw.

## Nick Bennett

**Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru**



# Amdanom ni

Mae gennym dair rôl yn bennaf:

1. Trin cwynion am ddarparwyr gwasanaethau cyhoeddus.
2. Ystyried cwynion am aelodau etholedig yn torri'r Cod Ymddygiad.
3. Phwyso am welliannau i systemau gwasanaethau cyhoeddus.

Rydym yn annibynnol o holl gyrff y llywodraeth ac mae'r gwasanaeth a ddarparwn yn ddi-dâl.

## Cwynion am ddarparwyr gwasanaethau cyhoeddus

Yn bennaf, ystyriwn gwynion am wasanaethau a ddarperir gan gyrff cyhoeddus sydd wedi eu datganoli yng Nghymru, gan gynnwys:

- llywodraeth leol (cynghorau sir a chymuned)
- Y Gwasanaeth Iechyd Gwladol (gan gynnwys meddygon teulu a deintyddion)
- landlordiaid cymdeithasol cofrestredig (cymdeithasau tai)
- Llywodraeth Cymru, a'r cyrff a noddir ganddi

Gallwn hefyd ystyried cwynion am ofal cymdeithasol a drefnir neu a ariennir yn breifat a gwasanaethau gofal lliniarol ac, mewn rhai amgylchiadau penodol, agweddau ar ofal iechyd a ariennir yn breifat.  Ystyriwn gwynion am gamweinyddu, methiannau gwasanaeth neu fethu â darparu gwasanaeth.  Os yw pobl wedi cael eu trin yn annheg neu'n anghyson, neu wedi derbyn gwasanaeth gwael lle mae darparwr y gwasanaeth ar fai, gallwn argymell camau unioni neu newid proses i sicrhau nad yw'r pethau hyn yn digwydd eto.

> "Rwy'n ddiolchgar i chi...am gymryd amser i adolygu'r achos hwn yn drylwyr...mae eich e-bost yn awgrymu ystyriaeth feddylgar a diduedd..."

## Cwynion yn ymwneud â'r Cod Ymddygiad

Ein hail rôl yw ystyried cwynion bod aelodau etholedig awdurdodau lleol wedi torri'r Cod Ymddygiad, sy'n disgrifio'r egwyddorion ymddygiad y dylai aelodau eu dilyn mewn bywyd cyhoeddus.  Mae'r awdurdodau lleol hyn yn cynnwys:

- cynghorau sir a chynghorau bwrdeistref sirol
- cynghorau cymuned
- awdurdodau tân
- awdurdodau parciau cenedlaethol
- comisiynwyr Heddlu a Throseddu a phaneli heddlu a throseddu

Rydym hefyd yn "berson rhagnodedig" o dan y Ddeddf Datgelu er Lles y Cyhoedd ar gyfer codi pryderon chwythu'r chwiban am aelodau awdurdod lleol yn torri'r Cod Ymddygiad.  Rhoddir mwy o esboniad ar hyn yn adran Chwythu'r Chwiban yr Adroddiad.

## Gwelliannau systemig i wasanaethau cyhoeddus

Ein trydedd rôl yw pwyso am welliannau ehangach i wasanaethau cyhoeddus. O dan Ddeddf Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus (Cymru) Deddf 2019 (Deddf OGCC 2019) cawsom bwerau rhagweithiol newydd i bwyso am welliannau systemig.

Gallwn gynnal ymchwiliadau ar ein liwt ein hunain, hyd yn oed lle na chawsom gŵyn, os credwn fod camweinyddu wedi digwydd gan achosi anghyfiawnder personol.  Rhoddir mwy o wybodaeth am ein hymchwiliadau 'ar ei liwt ei hun' yn adran Ar Ei Liwt Ei Hun yr adroddiad hwn.

Gallwn nawr osod safonau cwynion ar gyfer cyrff cyhoeddus yng Nghymru.  Gallwn gyhoeddi datganiad o egwyddorion i gyrff cyhoeddus ar weithdrefnau trin cwynion a chyflwyno gweithdrefnau trin cwynion enghreifftiol i gyrff cyhoeddus a restrir yn y Ddeddf.  Rydym hefyd yn monitro perfformiad cyrff cyhoeddus ar drin cwynion, gan gynnwys adolygu eu data ar drin cwynion.  Mae'r adran Cydymffurfio yn yr Adroddiad hwn yn nodi sut yr ydym wedi gweithredu'r pŵer hwn.

Swyddfa ombwdsmon gyntaf y DU gyda phwerau llawn a gweithredol i bwyso am welliannau systemig.

# Ciplun o'r Flwyddyn

## Ebrill

Cyhoeddi'r Adroddiad Thematig 'Colli Cyfiawnder'.

## Mai

Ail-afael mewn ymchwilio i achosion meddygon teulu a gofal sylfaenol ar ôl ymgysylltu'n gadarnhaol â'r BMA.

## Mehefin

Dechrau ein 'taith gerdded' rithiol o Bencoed i Fangor i hybu lles staff yn ystod y pandemig.

## Gorffennaf

Cwblhau hyfforddiant Ymchwilio Ardystiedig ar gyfer staff gwaith achos.

## Awst

Lansio'r Siarter Hil ac Ethnigrwydd yn y Gwaithle. Lansio sesiynau lles i staff.

## Medi

Hyfforddiant safonau cwynion i awdurdodau lleol yn dechrau.

## Hydref

Cyhoeddi dau adroddiad Lles y Cyhoedd ar ofal iechyd gwael.

## Tachwedd

Lansio Safonau Cwynion ar gyfer Byrddau Iechyd.

## Rhagfyr

Dau adroddiad Lles y Cyhoedd ar fethu â gweithredu argymhellion yr Ombwdsmon a cholli amseroedd atgyfeirio i dderbyn triniaeth.

## Ionawr

Dechrau ymchwiliad 'ar ei liwt ei hun' i ddigartrefedd.
Dau adroddiad Lles y Cyhoedd ar fethu â darparu diagnosis a gofal diwedd bywyd addas.

## Chwefror

Safonau'r Gymraeg yn dod yn weithredol.

## Mawrth

Cyhoeddi adroddiad thematig 'Arfer Da' ac adroddiadau Lles y Cyhoedd ar fethiannau penderfyniadau ac eglurder clinigol a chymhwyso gweithdrefnau cynllunio cyfreithlon.

# Ein Dangosyddion Perfformiad Allweddol

Mesurwn ein perfformiad yn erbyn cyfres heriol o ddangosyddion perfformiad allweddol (KPI). Mae'r tabl isod yn rhoi trosolwg ar y dangosyddion hyn. Trafodwn y ffigurau hyn yn fwy manwl drwy weddill yr adroddiad. Gallwch symud yn hawdd i'r rhannau perthnasol yn yr adroddiad drwy glicio ar deitl y KPI yn y tabl isod.

| **Dangosyddion Perfformiad Allweddol** | **Targed 2020/21** | **2020/21** | **2019/20** |
|---|---|---|---|
| **1.** Cwynion am gyrff cyhoeddus - amseroedd penderfynu. | | | |
| Penderfyniad nad yw cwyn o fewn eu hawdurdodaeth - < 3 wythnos | 90% | 94% | 95% |
| Penderfyniad i beidio ag ymchwilio i gŵyn (ar ôl gwneud ymholiadau cychwynnol) < 6 wythnos | 90% | 85% | 92% |
| Pan fyddwn yn ceisio datrys y mater yn gynnar, penderfyniad o fewn 9 wythnos | 90% | 88% | 94% |
| Penderfyniad i ymchwilio a dechrau ymchwiliad o fewn 6 wythnos i'r dyddiad y ceir digon o wybodaeth | 80% | 65% | 67% |
| Cwynion am gyrff cyhoeddus yr ymchwilir iddynt - achosion wedi cau | | | |
| Achosion a gaewyd o fewn 12 mis | 85% | 52% | 81% |
| **2.** Cwynion sy'n ymwneud â'r Cod Ymddygiad – amseroedd penderfynu | | | |
| Penderfyniad i beidio ag ymchwilio o fewn 6 wythnos | 90% | 90% | 93% |
| Penderfyniad i ymchwilio a dechrau ymchwiliad o fewn 6 wythnos i'r dyddiad y ceir digon o wybodaeth | 80% | 76% | 86% |
| Cwynion Cod Ymddygiad sy'n cael eu hymchwilio – achosion a gaewyd | | | |
| Achosion a gaewyd o fewn 12 mis | 90% | 50% | 88% |
| **3.** Bodlonrwydd cwsmeriaid* | | | |
| Hawdd dod o hyd i OGCC | 91 / 98% | 85 / 97% | 85 / 97% |
| Gwasanaeth a gafwyd yn dderbyniol | 63 / 83% | 62 / 91% | 62 / 91% |
| Esboniad clir o'r broses ac o'r penderfyniad | 65 / 89% | 63 / 96% | 63 / 96% |

*Rhoddir canlyniadau ar gyfer pawb wnaeth ymateb (y ffigur cyntaf) a'r rhai oedd yn fodlon â'r canlyniad (yr ail ffigur).

| **Dangosydd Perfformiad Allweddol** | **Targed 2020/21** | **2020/21** | **2019/20** |
|---|---|---|---|
| **4.** Cydymffurfio | | | |
| % o'r argymhellion a wnaed, oedd i'w gweithredu ac y cydymffurfiwyd â nhw gan gyrff cyhoeddus yn ystod y flwyddyn | Amh | 74% | 72% |
| Nifer yr ymweliadau cydymffurfio | 6 | 7 | 4 |
| **5.** AD | | | |
| Cwblhau adolygiadau PRDP (gwerthuso) | 100% | 100% | 100% |
| Ymateb gweithwyr i arolwg staff* | Amh | * | 92% |
| **6.** Hyfforddiant staff | | | |
| % y staff sy'n cyflawni'r nifer targed o ddiwrnodau o ddatblygiad proffesiynol parhaus | 95% | 77% | 93% |
| **7.** Presenoldeb staff | | | |
| Nifer y dyddiau a gollir ar gyfartaledd oherwydd salwch fesul aelod o staff | 6.5 | 3.0 | 9.0 |
| % y diwrnodau gwaith a gollwyd oherwydd salwch staff | 2.5% | 1.14% | 3.4% |
| % y diwrnodau gwaith a gollwyd oherwydd salwch tymor byr | 1% | 0.62% | 1.0% |
| % y diwrnodau gwaith a gollwyd oherwydd salwch tymor hir | 1.5% | 0.52% | 2.4% |
| **8.** Ariannol | | | |
| Arian a ad-dalwyd i Gronfa Gyfunol Cymru | < 3% | 0.4% | 1.0% |
| Cost uned fesul achos | £700 | £674 | £669 |
| Costau cefnogi fel canran o'r gyllideb | < 5% | 4.1% | 4.3% |
| Barn Archwilio Allanol ar Gyfrifon | Cyfrifon diamwys | Cyfrifon diamwys | Cyfrifon diamwys |
| Barn yr Archwilwyr Mewnol ar reolaethau mewnol | Sicrwydd Sylweddol | Sicrwydd Sylweddol | Sicrwydd Sylweddol |
| **9.** Cwynion amdanom ni | | | |
| Nifer y cwynion a dderbyniwyd | Amh | 26 | 36 |
| Nifer y cwynion a gadarnhawyd | Amh | 5 | 7 |
| **10.** Cynaliadwyedd | | | |
| Gwastraff (kg) | 26000 | 3988 | 26996 |
| Trydan (kWh) | 104000 | 71668 | 104521 |

*Ni chafodd unrhyw arolwg staff ei wneud eleni.



# Cyflawni Cyfiawnder

**Nod strategol 1**

Ceisiwn fod yn wasanaeth cwynion teg, annibynnol, cynhwysol ac ymatebol.  Rydym yn parhau i gyflawni cyfiawnder i bobl Cymru drwy drin cwynion am gamweinyddu gan ddarparwyr gwasanaethau cyhoeddus a honiadau bod aelodau etholedig wedi torri'r Cod Ymddygiad.  Pan fyddwn yn ymyrryd ar ôl ystyried cwyn, rydym eisiau sicrhau ein bod yn unioni'r anghyfiawnder a phwyso am welliannau systemig.

## Canllaw byr i'r derminoleg

| | |
|---|---|
| **Llwyth achosion:** yr holl achosion y mae'r swyddfa'n delio â nhw. | **Achos:** unrhyw gyswllt gyda'n swyddfa gan aelod o'r cyhoedd. |
| **Llwyth achosion newydd:** yr holl achosion newydd a ddaeth i'n swyddfa yn ystod y flwyddyn. | **Llwyth achosion a gaewyd:** yr holl achosion a gaewyd yn ystod y flwyddyn. Mae hyn yn cynnwys achosion y gallem fod wedi'u derbyn mewn blynyddoedd blaenorol. |
| **Ymholiad:** lle mae aelod o'r cyhoedd yn cysylltu â ni gydag ymholiad cyffredinol ond heb y wybodaeth angenrheidiol i wneud cwyn, neu lle daw'r mater yn amlwg o fewn cylch gwaith corff arall. Yn yr amgylchiadau hyn, cynigiwn gyngor neu eu cyfeirio at wasanaethau eraill fel bo angen. | **Cwyn:** achos lle mae'r wybodaeth angenrheidiol wedi'i chyflwyno i ni i asesu ei haeddiannau. Ar ôl asesu'r wybodaeth, byddwn naill ai'n penderfynu ymchwilio ymhellach i'r cwyn, ceisio datrys y cwyn yn gynnar, neu wrthod y cwyn. |
| **Ymyriad:** canlyniad i gŵyn lle'r ydym wedi penderfynu ei bod yn briodol gweithredu – cadarnhau'r cwyn neu gynnig ateb arall neu setliad gwirfoddol. | **Atgyfeirio**: math o ymyriad yn yr achosion Cod Ymddygiad lle rydym yn cyfeirio mater at Bwyllgor Safonau neu Banel Dyfarnu Cymru i'w ystyried. Gall hyn fod oherwydd na ellir dirwyn y mater i ben mewn unrhyw ffordd arall neu oherwydd ei fod yn cynnwys achosion difrifol o dorri'r Cod. |
| **Canlyniad:** ein penderfyniad ar ôl i ni ystyried cwyn. | |

Mae patrwm tueddiadau ein gwaith achos yn helpu i dynnu sylw at newidiadau posib ym mherfformiad cyrff cyhoeddus neu ymddygiad aelodau etholedig.  O'i gymharu â 2019/20, eleni:

| | |
|---|---|
| **16%** | Cawsom 16% yn llai o gwynion am gyrff cyhoeddus.  Mae'n debyg bod Covid-19 wedi effeithio ar y nifer a'r math o gwynion a gawsom eleni. |
| **22%** | Gwelsom 21% yn llai o gwynion newydd am Fyrddau Iechyd. Mae'n debyg bod y lleihad hwn oherwydd effaith y pandemig ar wasanaethau iechyd. |
| **20%** | Fe wnaethom ymyrryd mewn 20% o'r cwynion am gyrff cyhoeddus, yr un fath â'r llynedd.  Fe wnaethom hefyd atgyfeirio 3% o'r cwynion am dorri'r Cod Ymddygiad at Bwyllgor Safonau neu Banel Dyfarnu Cymru. |
| **47%** | Fe wnaethom dderbyn 47% yn fwy o honiadau bod y Cod Ymddygiad wedi cael ei dorri. |

Rydym hefyd yn gweithio i sicrhau y cynigiwn y gwasanaeth gorau posib a'n bod yn hygyrch i bawb sydd ein hangen arnynt.  Yn 2020/21 roedd:

| | |
|---|---|
| **51%** | Roedd 51% o'r rhai wnaeth ymateb i'n harolwg boddhad cwsmeriaid yn fodlon â'r gwasanaeth a gawsant.  Mae hyn i lawr o'i gymharu â ffigurau'r llynedd. |
| **99%** | Fodd bynnag, roedd y boddhad yn codi i 99% ymhlith rhai a oedd yn fodlon â chanlyniad eu cwyn. |

# Ein gwaith ar amrantiad

**61%**
wedi cael cyngor neu eu cyfeirio at wasanaethau cymorth eraill


**3,774**
o ymholiadau

**2,409**
o gwynion

**47%**
yn fwy o gwynion Cod Ymddygiad na'r llynedd.

## Cwynion am

**14%**
achos o dorri'r Cod Ymddygiad.



**86%**
o gyrff cyhoeddus.

## Cwynion a gaewyd am **gyrff cyhoeddus**

**1,687**
o Asesiadau

**212** Setlwyd 212 yn gynnar gyda'r corff cyhoeddus

**346** Roedd 346 y tu allan i'n hawdurdodaeth

**658** Methu ag ymchwilio* i 658 o gwynion

**471** Gwnaed 471 yn rhy fuan

**248**
o Ymchwiliadau

## Cwynion a gaewyd am **achosion o dorri'r Cod Ymddygiad**

**10** Tynnwyd 10 yn ôl

**255** Caewyd 255 ar ôl ystyriaeth gychwynnol

**265**
o Asesiadau

**24**
o Ymchwiliadau

# Niferoedd a thueddiadau ein llwyth achosion

## Trosolwg ar ein llwyth achosion

### Llwyth achosion newydd

Bob blwyddyn, mae miloedd o unigolion yn cysylltu â ni.  Yn 2020/21 roedd nifer y cysylltiadau â’n swyddfa i lawr o 14% i 6,183.

Rydym yn croesawu pob cyswllt â'n swyddfa gan barhau i geisio codi ymwybyddiaeth pobl o'n rôl a'n pwerau i'w helpu i ddeall pryd a sut y gallwn fod o gymorth.  Roedd tua 61% o’r achosion newydd yn ymholiadau lle’r oeddem wedi gallu rhoi cyngor neu eu cyfeirio at gymorth arall, yn hytrach na’n gwynion.

### Llwyth achosion a gaewyd

Eleni, fe wnaethom gau 12% yn llai o gwynion ar y cyfan.  Er bod llai o gwynion am gyrff cyhoeddus wedi eu cau, gwelsom gynnydd yn nifer y cwynion am dorri’r Cod Ymddygiad a gaewyd.



Roedd dechrau blwyddyn ariannol 2020/21 wedi cyd-ddigwydd â thon gyntaf y pandemig Covid-19.  Roeddem yn ymwybodol ac ystyriol o effaith y pandemig ar wasanaethau rheng flaen yng Nghymru ac yn gyndyn o roi unrhyw bwysau diangen ar gyrff cyhoeddus ar ddechrau’r don gyntaf.  Aethom ati i gael deialog adeiladol rhwng y swyddfa a’r cyrff cyhoeddus yr ymchwiliwn iddynt er mwyn deall eu sefyllfa ac egluro sut y byddem yn ymateb.  Roedd hyn er mwyn gwneud yn siŵr y byddai’n gweithio i bawb a’n bod yn cynnal gwasanaeth i bobl oedd yn cwyno i ni.  Mae’r ddeialog hon wedi parhau yn ystod y flwyddyn a ninnau wedi addasu’r un fath ag y mae cyrff cyhoeddus wedi’i wneud.

Roedd hoe fach cyn dechrau ymchwiliadau newydd ac mewn anfon adroddiadau drafft allan, ac adroddiadau terfynol yn cynnwys argymhellion.  Ar ôl ymgysylltu â’r BMA, roedd yna hefyd gyfnod byr pryd y penderfynwyd atal pob ymchwiliad meddyg teulu dros dro, oherwydd yr effaith benodol ar feddygon teulu.

Gwelodd berfformiad yn hanner cynta'r flwyddyn achosion hirbarhaus yn cynyddu oherwydd hyn.  Fodd bynnag, wrth i bethau wella gyda'r pandemig, llwyddodd cyrff cyhoeddus, fel ninnau, i addasu i'r amgylchiadau newydd gan fuddsoddi mewn technoleg ac yn ein staff er mwyn gallu gweithio'n effeithiol o gartref.  O ganlyniad, fe wellodd ein perfformiad yn ail hanner y flwyddyn gan ddod â nifer yr achosion i lawr.  Er yr aflonyddwch, roedd gennym lai o achosion yn dal i fod ar agor ar ddiwedd y flwyddyn, i lawr o 489 yn 2019/20 i 410 yn 2020/21.

Mae nifer y cwynion yr ydym yn eu cau'n wahanol i nifer y cwynion a dderbyniwn.  Mae hyn oherwydd bod rhai o'r cwynion a gaewyd yn 2020/21 wedi eu derbyn y flwyddyn cynt, a bydd rhai o'r cwynion a dderbyniwyd yn 2020/21 yn cael eu cau yn 2021/22.

## Cwynion am gyrff cyhoeddus

### Cwynion newydd am gyrff cyhoeddus

| | |
|---|---|
| ↓16% | **Tueddiadau cyffredinol**<br>Yn 2020/21, derbyniwyd 1,874 o gwynion newydd am gyrff cyhoeddus, 16% yn llai na'r llynedd. |

Mae Covid-19 wedi effeithio ar y nifer a'r math o gwynion a gawsom eleni, felly rhaid bod yn bwyllog wrth wneud unrhyw gymhariaeth â'r perfformiad blaenorol. Mae Covid-19 wedi effeithio ar nifer fawr o wasanaethau, gan gynnwys gwasanaethau trin cwynion mewn cyrff cyhoeddus yng Nghymru.  Mae'n bosib bod rhai aelodau o'r cyhoedd wedi bod yn fwy cyndyn o gwyno, gan gydnabod y pwysau mawr yr oedd gwasanaethau cyhoeddus o danynt.

Fodd bynnag, roedd cynnydd yn nifer y cwynion am sut y deliwyd gyda chwynion. Ar ei ben ei hun, nid yw nifer y cwynion newydd i'n swyddfa'n dweud y stori i gyd am berfformiad gwasanaethau cyhoeddus, ond mae ein pwerau Safonau Cwynion newydd yn dechrau creu darlun gwell o'r cwynion a ymdrinnir gan y sector cyhoeddus ehangach.  Rhoddir mwy o fanylion am ein gwaith Safonau Cwynion yn adran Safonau Cwynion yr adroddiad hwn.

**Darparu Cyfiawnder: Canolwr 202002115**
Yn ystod pandemig Covid-19, nid oedd yr achwynydd yn gallu cael gafael ar wasanaethau iechyd oherwydd eu bod yn cael eu trefnu dros y ffôn, ac ni allai ei ffôn dderbyn galwadau gan rifau 'withheld'. Roedd hyn am resymau'n ymwneud â'i hiechyd. Cytunodd y Bwrdd Iechyd a'i meddygfa leol i ystyried a chadarnhau pa addasiadau y gellid eu gwneud, yn unol â Deddf Cydraddoldeb 2010, i sicrhau y gallai gael gafael ar eu gwasanaethau.

Mae'r adrannau nesaf yn trafod tueddiadau ein cwynion newydd, am gyrff y GIG ac awdurdodau lleol, yn fwy manwl.

Rydym yn categoreiddio ein cwynion ar sail eu prif bwnc. Dengys y tabl brif bynciau'r cwynion newydd am gyrff cyhoeddus a dderbyniwyd yn ein swyddfa, a'r newidiadau o'i gymharu â 2019/20:

| Pwnc | 2020/21 | 2019/20 |
|---|---:|---:|
| Iechyd | 39% | 41% |
| Tai | 13% | 15% |
| Delio â chwynion | 12% | 9% |
| Gwasanaethau cymdeithasol | 9% | 8% |
| Cynllunio a rheoli adeiladu | 7% | 7% |
| Covid-19 | 3% | 0% |
| Arall | 17% | 20% |

Rydym hefyd yn cofnodi ein cwynion yn ôl y math o gorff cyhoeddus y cwynir yn eu herbyn.  Roedd ein cwynion newydd yn ymwneud â'r cyrff canlynol:

| Corff | 2020/21 | 2019/20 | % |
|---|---|---|---|
| Cyrff y GIG (gan gynnwys Byrddau Iechyd, Ymddiriedolaethau GIG, Deintyddion, Meddygon Teulu, Optegwyr a Fferyllwyr) | 802 | 1020 | -22% |
| Awdurdodau Lleol (gan gynnwys Sir/ Cynghorau Bwrdeistref Sirol a Phanelau Apêl Ysgolion) | 793 | 890 | -11% |
| Y sector tai cymdeithasol (cymdeithasau tai) | 170 | 202 | -15% |
| Llywodraeth Cymru a chyrff a noddir ganddi | 56 | 68 | -18% |
| Cynghorau Cymuned | 18 | 27 | -33% |
| Arall | 35 | 35 | 0% |
| Cyfanswm | 1874 | 2242 | -16% |

**↓21%**

**Cwynion newydd: Cyrff y GIG**
O'r holl gwynion newydd am gyrff cyhoeddus, roedd 802 yn ymwneud â chyrff y GIG, 21% yn llai o'i gymharu â'r llynedd. Mae cyrff y GIG yn cyfrif am 43% o'r holl gwynion.

Fel mewn blynyddoedd cynt, roedd Byrddau Iechyd yn cyfrif am y nifer uchaf o gwynion am gyrff y GIG.  Fodd bynnag, ac eithrio Bwrdd Iechyd Prifysgol Cwm Taf Morgannwg, mae lleihad sylweddol wedi bod yn nifer y cwynion eleni. Mae'r tabl isod yn rhoi dadansoddiad manwl o'r cwynion newydd am y cyrff hyn o'i gymharu â 2019/20.

| Bwrdd Iechyd | 2020/21 | 2019/20 | % |
|---|---|---|---|
| Bwrdd Iechyd Prifysgol Aneurin Bevan | 96 | 140 | -33% |
| Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr | 184 | 227 | -19% |
| Bwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro | 62 | 100 | -38% |
| Bwrdd Iechyd Prifysgol Cwm Taf Morgannwg | 86 | 80 | 8% |
| Bwrdd Iechyd Prifysgol Hywel Dda | 64 | 92 | -30% |
| Bwrdd Iechyd Addysgu Powys | 16 | 23 | -30% |
| Bwrdd Iechyd Prifysgol Bae Abertawe | 79 | 91 | -13% |
| **Cyfanswm** | **587** | **753** | **-22%** |

Dengys y tabl isod bod y rhan fwyaf o’r cwynion iechyd yn gysylltiedig â thriniaeth glinigol.

| Math o gŵyn yn ymwneud ag iechyd | % |
|---|---|
| Triniaeth glinigol yn yr ysbyty | 54% |
| Triniaeth glinigol y tu allan i'r ysbyty | 28% |
| Gwasanaethau ambiwlans | 4% |
| Gweithdrefnau apwyntiad / derbyn i ysbyty / rhyddhau a throsglwyddo | 2% |
| Gofal parhaus | 2% |
| Meddyginiaeth > paratoi meddyginiaeth presgripsiwn | 2% |
| Dad-gofrestru | 1% |
| Cyllid | 1% |
| Cofnodion meddygol / safonau cadw cofnodion | 1% |
| Gwasanaethau anfeddygol | 1% |
| Problemau rhestri cleifion | 1% |
| Cyfrinachedd | <0% |
| Arall | 5% |

**Cyflawni Cyfiawnder: Cyfeirnod 201906799**

Casglodd yr Ombwdsmon fod diffygion wedi bod yn asesiad, ymchwiliad a diagnosis Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr o strôc coesyn ymennydd Mr D, tan ei bod yn rhy hwyr i ystyried opsiynau triniaeth. Er nad oedd yr ymchwiliad yn gallu penderfynu a fyddai triniaeth wedi gwneud gwahaniaeth i ganlyniad Mr D, canfu fod colli’r cyfle i drafod opsiynau triniaeth posib yn anghyfiawnder sylweddol.

Argymhellodd yr Ombwdsmon y dylai’r Bwrdd Iechyd wneud y canlynol:

1. Ymddiheuro wrth Mr D a Mrs D.
2. Talu iawndal o £1,500.
3. Rhannu’r adroddiad gyda’r meddygon perthnasol er mwyn gallu gwella eu hymarfer clinigol.
4. Datblygu cynllun gweithredu’n rhoi sylw i’r methiannau a ddisgrifiwyd yn yr adroddiad, o fewn tri mis.

| 791 | **Cwynion newydd: Awdurdodau lleol**<br>O’r holl gwynion newydd am gyrff cyhoeddus, roedd 791 ohonynt yn ymwneud ag Awdurdodau Lleol (gan gynnwys apeliadau ysgolion) — gostyngiad o 11% |
|---|---|

Dengys y tabl isod nifer y cwynion a gawsom am bob cyngor, ac eithrio apeliadau ysgol.  Nid yw nifer y cwynion o reidrwydd yn arwydd o wasanaeth gwael.

| Awdurdod Lleol | |
|---|---|
| Cyngor Bwrdeistref Sirol Blaenau Gwent | 15 |
| Cyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr | 31 |
| Cyngor Bwrdeistref Sirol Caerffili | 46 |
| Cyngor Caerdydd | 96 |
| Cyngor Sir Caerfyrddin | 27 |
| Cyngor Sir Ceredigion | 32 |
| Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy | 32 |
| Cyngor Sir Ddinbych | 32 |
| Cyngor Sir y Fflint | 59 |
| Cyngor Gwynedd | 30 |
| Cyngor Sir Ynys Môn | 18 |
| Cyngor Bwrdeistref Sirol Merthyr Tudful | 15 |
| Cyngor Sir Fynwy | 20 |
| Cyngor Castell-nedd Port Talbot | 19 |
| Cyngor Dinas Casnewydd | 31 |
| Cyngor Sir Penfro | 28 |
| Cyngor Sir Powys | 38 |
| Cyngor Bwrdeistref Sirol Rhondda Cynon Taf | 40 |
| Cyngor Abertawe | 73 |
| Cyngor Bwrdeistref Sirol Torfaen | 12 |
| Cyngor Bro Morgannwg | 39 |
| Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam | 43 |

Roedd y cwynion hyn yn ymwneud ag amrywiaeth o bynciau.  Rhestrir y prif bynciau yn 2020/21 yn y tabl isod.

| Pwnc y cwyn a dderbyniwyd | |
|---|---|
| Cynllunio a Rheoli Adeiladu | 16% |
| Tai | 15% |
| Gwasanaethau Cymdeithasol Plant | 14% |
| Delio â Chwynion | 14% |
| Yr Amgylchedd ac Iechyd yr Amgylchedd | 8% |
| Gwasanaethau Cymdeithasol Oedolion | 7% |
| Ffyrdd a Thrafnidiaeth | 7% |
| Covid -19 | 5% |
| Cyllid a Threth | 3% |
| Addysg | 2% |
| Gweinyddu Budd-daliadau | 2% |
| Cyfleusterau Cymunedol, Adloniant a Hamdden | 1% |
| Trwyddedu | 1% |
| Iechyd | 1% |
| Darparwr Annibynnol y GIG | <0% |
| Eraill Amrywiol | 4% |

**Cyflawni Cyfiawnder: Cyfeirnod 201906728**

Roedd Gwasanaethau Cymdeithasol Cyngor Caerdydd wedi methu â chyflawni ei ddyletswyddau statudol tuag at Mr A, oedd wedi'i adael heb ofal. Roeddent hefyd wedi methu ag ystyried effaith y newidiadau hyn ar urddas Mr A, ar ei allu i fyw'n annibynnol, ac i ymarfer ei ddewis a'i reolaeth, gan effeithio ar ei Hawliau Dynol o dan Erthygl 8 (parch at gartref, bywyd preifat a bywyd teuluol).

Roedd y Cyngor wedi ymddwyn mewn ffordd weithdrefnol annheg drwy beidio â rhoi digon o wybodaeth iddo er mwyn gallu deall y newidiadau i'w becyn gofal, neu fel y gallai eu herio. Roedd hyn yn ddigon i effeithio ar Hawliau Dynol Mr A o dan Erthygl 6 (hawl i wrandawiad teg, wedi'i gysylltu i'r drefn briodol).

Roedd oedi wedi bod cyn i'r Cyngor ymateb i rai o ganfyddiadau rhagarweiniol yr ymchwiliad cam 2, a chyfleoedd felly wedi eu colli i gywiro pethau cyn gynted â phosib. Cytunodd y Cyngor i wneud y canlynol er mwyn setlo'r cwyn:

1. Ymddiheuro ymhellach ac yn ystyrlon.
2. Talu iawndal o £8000.

## Cwynion a gaewyd am gyrff cyhoeddus

| | |
|---|---|
| **1,934** | **Tueddiadau cyffredinol**<br>Yn 2020/21, fe wnaethom gau 1,934 o gwynion am gyrff cyhoeddus - 15% yn llai na'r flwyddyn cynt. Mae pandemig Covid-19 wedi effeithio ar ein gwaith achos, a bod angen i ni ystyried y pwysau ar wasanaethau cyhoeddus. |

Pan dderbyniwn gŵyn newydd, awn ati i wneud asesiad cychwynnol ohono i benderfynu a allwn ac a ddylem ymchwilio iddo.


Mae Deddf Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus 2019 yn nodi meini prawf sy'n rhaid eu hystyried cyn y gallwn ymchwilio.  Mae'r rhain yn cynnwys y gofyniad bod y corff y cwynir amdano wedi cael cyfle rhesymol i ddatrys y cwyn a bod y cwyn yn cael ei wneud i'r Ombwdsmon o fewn 12 mis i'r digwyddiadau y cwynir amdanynt.  Os nad yw'r meini prawf hyn yn cael eu cwrdd, bydd y cwyn yn cael ei gau yn y cam asesu.

Yn 2020/21 caewyd 87% o'r cwynion am gyrff cyhoeddus yn y cam asesu.  Mae hyn yn ganran debyg i ffigurau'r llynedd ac yn adlewyrchu nifer y cwynion a dderbyniwyd sy'n ymwneud â materion sydd y tu allan i'n hawdurdodaeth, a chwynion a wneir i ni'n gynamserol lle na chafodd darparwr y gwasanaeth, fel rheol, gyfle i ddatrys y mater.

Mae hyn yn awgrymu bod mwy y gallwn ei wneud i godi ymwybyddiaeth pobl a allai gwyno yn y dyfodol o beth yw ein rôl a'n pwerau.  Rhoddir mwy o wybodaeth am ein gwaith allgymorth a chyfathrebu yn adran Hygyrchedd, ymwybyddiaeth ac allgymorth yr Adroddiad hwn.

Mae cyfran y cwynion a gaewyd oedd yn ymwneud â sut y cafodd cwynion eu trin hefyd wedi dyblu bron.  Mae hyn yn dangos pa mor bwysig yw bod gan gyrff cyhoeddus drefniadau trin cwynion ac yn atgyfnerthu ein pwerau rhagweithiol newydd i gynorthwyo trin cwynion yn effeithiol.  Rydym yn rhagweld y bydd nifer y cwynion am drin cwynion yn dechrau lleihau wrth i'r gwersi a ddysgir o'n hyfforddiant safonau cwynion a lansiwyd ym mis Medi 2020 ddechrau gwreiddio ar draws y cyrff cyhoeddus.

O'i gymharu â 2019/20, yn 2020/21 roedd cyfran y cwynion a ymchwiliwyd gan ein swyddfa'n dilyn y cam asesu'n eithaf tebyg i'r llynedd, sef 13%.  Roedd mymryn o gynnydd i 84% yng nghyfran y cwynion a ymchwiliwyd oedd yn ymwneud ag iechyd.




*Rhesymau 'Methu ag Ymchwilio': mwy na 12 mis ers dod yn ymwybodol o galedi neu anghyfiawnder; mae rhwymedi cyfreithiol amgen ar gael i'r achwynydd, nid oes tystiolaeth o gamweinyddu; methu â chyflawni'r canlyniad a geisir; nid yw'n gymesur; ni ddioddefodd unrhyw galedi nac anghyfiawnder uniongyrchol.

**Cyflawni Cyfiawnder: Cyfeirnod 202003637**

Roedd menyw gyda phecyn gofal iechyd meddwl wedi symud o Loegr i Gymru. Roedd y GIG yn Lloegr wedi cadarnhau y byddent yn ariannu ei gofal iechyd meddwl yng Nghymru. Er hyn, ac ers aros am fisoedd lawer, nid oedd y Bwrdd Iechyd yng Nghymru wedi gwneud y trefniadau angenrheidiol gyda'r corff yn Lloegr i gytuno'r cyllid fel y gellid trosglwyddo ei gofal. Roedd yr oedi wedi effeithio ar lesiant meddwl y claf. Cytunodd y Bwrdd Iechyd i gynnal y cyfarfodydd angenrheidiol er mwyn cytuno'r cyllid o fewn deufis, a sefydlu amserlen ar gyfer trosglwyddo'r gofal.

Un mesur allweddol o berfformiad gwasanaethau cyhoeddus yw cyfran y cwynion lle bu'n rhaid i ni ymyrryd – hynny yw, lle penderfynwyd fod tystiolaeth o gamweinyddu neu fethiant gwasanaeth oedd angen sylw.  Yn 2020/21, roedd seiliau dros ymyrryd mewn 383 neu 20% o'r cwynion a gaewyd gennym – yr un faint â'r llynedd.

Rydym yn parhau i geisio datrys cwynion yn gynnar yn y cam asesu lle bo'n bosib oherwydd mae'n rhoi canlyniad amserol a phositif i bawb.  Eleni roedd datrys yn gynnar yn cyfrif am tua 63% o'n holl ymyriadau – cynnydd o'i gymharu â'r llynedd.

Roedd cyfradd ein hymyriadau mewn achosion iechyd wedi cynyddu o 26% i 29%.  Roedd camweinyddu a methiant gwasanaeth wedi'i ganfod felly mewn cyfran lai o achosion iechyd nag a gaewyd.

Pan fyddwn yn ymyrryd ar ôl ystyried cwyn, rydym eisiau sicrhau ein bod yn unioni'r anghyfiawnder ond hefyd yn pwyso am welliannau systemig.  Rhoddir mwy o wybodaeth am yr argymhellion a wnawn mewn achosion lle'r ydym yn ymyrryd yn adran Argymhellion yr Adroddiad hwn.

| 860 | **Cwynion a gaewyd: Cyrff y GIG**<br>Yn 2020/21, fe wnaethom gau 860 o gwynion yn erbyn cyrff y GIG. Mae hyn 18% yn llai ar gyfer y llynedd a'r flwyddyn cynt. |
|---|---|

O'r cwynion a gaewyd am gyrff y GIG, roedd 630 yn ymwneud â Byrddau Iechyd. Mae'r tabl drosodd yn dangos ein cyfradd ymyrryd mewn cwynion am Fyrddau Iechyd unigol o'i gymharu â'r llynedd.

| Cyfradd ymyrryd mewn cwynion am Fyrddau Iechyd | 2020/21 | 2019/20 |
|---|---|---|
| Byrddau Iechyd presennol | | |
| Bwrdd Iechyd Prifysgol Aneurin Bevan | 36% | 33% |
| Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr | 35% | 31% |
| Bwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro | 29% | 28% |
| Bwrdd Iechyd Prifysgol Cwm Taf Morgannwg | 23% | 15% |
| Bwrdd Iechyd Prifysgol Hywel Dda | 45% | 32% |
| Bwrdd Iechyd Addysgu Powys | 29% | 54% |
| Bwrdd Iechyd Addysgu Powys – achosion Gofal Iechyd | 0% | 31% |
| Bwrdd Iechyd Prifysgol Bae Abertawe | 31% | 11% |
| Cyn Fyrddau Iechyd | | |
| Bwrdd Iechyd Prifysgol Abertawe Bro Morgannwg | 100% | 72% |
| Bwrdd Iechyd Prifysgol Cwm Taf | 100% | 43% |
| Pob Bwrdd Iechyd | 33% | 31% |

Rydym yn parhau i ddelio â rhai cwynion am ddau gyn Fwrdd Iechyd sef Byrddau Iechyd Prifysgol Abertawe Bro Morgannwg a Chwm Taf. Y ddau Fwrdd Iechyd hwn oedd yn cyfrif am y cyfraddau ymyrryd uchaf gennym eleni.

Fodd bynnag, mae'r cyfraddau ymyrryd hyn wedi eu sgiwio gan y ffaith bod y cwynion a gaewyd yn erbyn y Byrddau Iechyd hyn yn cyfrif am nifer fach iawn o gwynion, lle'r oedd angen ymchwilio iddynt, a gariwyd drosodd o'r ddwy flynedd cynt – gyda'r rhan fwyaf rhai nad oedd angen ymchwilio iddynt wedi eu cau yn 2018/19.

| 924 | **Cwynion a gaewyd: Awdurdodau lleol**<br>Yn 2020/21 fe wnaethom gau 924 o gwynion yn erbyn cyrff Awdurdod Lleol – mymryn yn fwy na'r flwyddyn cynt.  O'r rhain, roedd 856 yn ymwneud â Chynghorau Sir a Chynghorau Bwrdeistref Sirol.  Arhosodd ein cyfradd ymyrryd mewn cwynion am y Cynghorau'r un fath ar 13%. |
|---|---|

Nodir ein cyfradd ymyrryd ar gyfer cynghorau yn y tabl isod.

| Cyfradd ymyrryd mewn cwynion am awdurdodau lleol | 2020/21 | 2019/20 |
|---|---|---|
| Cyngor Bwrdeistref Sirol Blaenau Gwent | 6% | 29% |
| Cyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr | 7% | 17% |
| Cyngor Bwrdeistref Sirol Caerffili | 7% | 12% |
| Cyngor Caerdydd | 26% | 17% |
| Cyngor Caerdydd – Rhentu Doeth Cymru | 0% | 33% |
| Cyngor Sir Caerfyrddin | 21% | 8% |
| Cyngor Sir Ceredigion | 13% | 21% |
| Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy | 16% | 13% |
| Cyngor Sir Ddinbych | 6% | 13% |
| Cyngor Sir y Fflint | 18% | 29% |
| Cyngor Gwynedd | 19% | 17% |
| Cyngor Sir Ynys Môn | 6% | 16% |
| Cyngor Bwrdeistref Sirol Merthyr Tudful | 0% | 0% |
| Cyngor Sir Fynwy | 5% | 0% |
| Cyngor Castell-nedd Port Talbot | 6% | 10% |
| Cyngor Dinas Casnewydd | 17% | 16% |
| Cyngor Sir Penfro | 12% | 18% |
| Cyngor Sir Powys | 9% | 17% |
| Cyngor Bwrdeistref Sirol Rhondda Cynon Taf | 5% | 12% |
| Cyngor Abertawe | 13% | 14% |
| Cyngor Bwrdeistref Sirol Torfaen | 0% | 8% |
| Cyngor Bro Morgannwg | 13% | 23% |
| Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam | 13% | 19% |
| **Pob Awdurdod Lleol** | **13%** | **15%** |

Yn ystod y flwyddyn rydym wedi parhau i weithio'n agos ag Awdurdodau Lleol fel rhan o'n rôl Safonau Cwynion i bwyso am wella gwasanaethau cyhoeddus.

**Cyflawni Cyfiawnder: Cyfeirnod 202003819**

Oherwyddy pandemig, roedd Cyngor yn gofyn bod rhiant yn gwisgo masg wyneb wrth gael cyswllt â'i blant. Dywedodd ei fod wedi'i eithrio rhag gwisgo masg am resymau iechyd. Gofynnodd y Cyngor iddo gyflwyno tystiolaeth o'i gyflwr meddygol, ac os nad oedd yn gwisgo masg, i gadw 3 metr i ffwrdd o'i blant yn ystod ei gyswllt â nhw. Roedd canllawiau'r Cyngor ar gyswllt Wyneb yn Wyneb yn ymddangos i fod yn trin pawb a wrthodai wisgo masg yr un fath, gan fethu ag ystyried amgylchiadau gwahanol unigolion. O ganlyniad roedd yr achwynydd wedi cael ei drin yn wahanol i eraill oherwydd ei gyflwr. Cytunodd y Cyngor i adolygu ei ganllawiau i ystyried a oedd yn cydymffurfio â Rheoliadau a Chanllawiau Llywodraeth Cymru a'r ddeddfwriaeth hawliau dynol, gan wneud newidiadau i'r polisi o ganlyniad.

## Cwynion yn ymwneud â'r Cod Ymddygiad

### Cwynion Cod Ymddygiad newydd

Eleni derbyniwyd 535 o gwynion Cod Ymddygiad newydd gennym (cynnydd o 47%) a gwnaethom ymchwilio i 308 cwyn.

| Corff | 2020/21 | 2019/20 |
|---|---:|---:|
| Cynghorau Tref a Chymuned | 167 | 135 |
| Cynghorau Sir a Bwrdeistref Sirol | 138 | 96 |
| Parciau Cenedlaethol | 2 | 0 |
| Awdurdodau Tân | 1 | 0 |
| **Cyfanswm** | **308** | **231** |

Er bod cwynion am aelodau o Barciau Cenedlaethol ac Awdurdodau Tân wedi parhau i fod yn isel, mae cwynion am Gynghorau Tref a Chymuned wedi cynyddu o 23.7%, a chwynion am Gynghorau Sir a Bwrdeistref Sirol wedi cynyddu o 43.8%. Ymddengys bod y cwynion am y cyrff olaf yn bryder arbennig. Fodd bynnag, dylid nodi ein bod wedi derbyn 35 o gwynion am un aelod o Gyngor Sir. Mae nifer o ymchwiliadau'n parhau gyda'r cwynion hynny.

Er hynny, gyda nifer fach o Gynghorau Tref a Chymuned, rydym yn dal i weld cwynion sy'n ymddangos i fod bron yn wacsaw neu a ysgogir gan gystadlu gwleidyddol neu wrthdaro personoliaethau, yn lle bod yn faterion Cod Ymddygiad gwirioneddol.

Pan dderbyniwn gwynion ‘dant am ddant’, byddwn yn gweithio gyda’r Cyngor a Swyddog Monitro'r prif awdurdod i atgoffa eu haelodau o'u dyletswyddau o dan y Cod a'u cyfrifoldebau democrataidd i'w cymunedau.

Rydym wedi darparu hyfforddiant gyda Swyddogion Monitro i gyngor tref a chymuned sy’n gyfrifol am nifer anghymesur o uchel o gwynion i’n swyddfa.

Rydym yn categoreiddio pwnc cwynion Cod Ymddygiad ar sail Egwyddorion Nolan, a ddyfeisiwyd i hyrwyddo safonau uchel mewn bywyd cyhoeddus.
Mae’r tabl isod yn dangos cyfran y cwynion a dderbyniwyd o dan bob egwyddor o'i gymharu â 2019/20:

| **Pwnc** | **2020/21** | **2019/20** |
|---|---:|---:|
| Bod yn atebol ac agored | 4% | 11% |
| Datgelu a chofrestru budd | 14% | 17% |
| Dyletswydd i gadw at y gyfraith | 8% | 7% |
| Uniondeb | 12% | 10% |
| Bod yn wrthrychol a gonest | 5% | 2% |
| Hyrwyddo cydraddoldeb a pharch | 55% | 49% |
| Bod yn anhunanol a stiwardiaeth | 2% | 3% |


Y themâu ‘hyrwyddo cydraddoldeb a pharch’ (55%) a ‘datgelu a chofrestru budd’ yw’r rhai mwyaf cyson o hyd.  Mae cynnydd blynyddol wedi bod yn nifer y cwynion yn honni bod ymddygiad bwlio wedi digwydd.

Mae hyfforddiant Cod Ymddygiad yn hanfodol i fod yn 'gynghorydd da'.  Ond yr argraff a gawn o gynnal ymchwiliadau yw bod aelodau o Gynghorau Tref a Chymuned yn aml yn gyndyn o fanteisio ar gyfleoedd i dderbyn hyfforddiant ar y Cod Ymddygiad.  Er nad oes rheidrwydd statudol i aelodau gwblhau hyfforddiant o'r fath, rydym ni a'r Swyddogion Monitro ar draws Cymru'n eu cynghori'n gryf i wneud hynny.

## Cwynion Cod Ymddygiad a gaewyd

Eleni caewyd 289 o gwynion Cod Ymddygiad. Roedd hyn 23% yn fwy o'i gymharu â'r flwyddyn cynt. Er y cynnydd sylweddol yn nifer y cwynion a dderbyniwyd, mae'r nifer a gaewyd bron yr un fath.

Mae'r graff isod yn rhoi trosolwg ar ganlyniadau cwynion Cod Ymddygiad a gaewyd gennym yn 2020/21.




Asesir pob cwyn Cod Ymddygiad a dderbynnir gan ein swyddfa yn erbyn prawf mewn dwy ran. Ystyriwn:

- A oes tystiolaeth uniongyrchol i gefnogi'r cwyn ac i awgrymu bod y Cod wedi'i dorri.
- A fyddai ymchwilio i'r mater er lles y cyhoedd.

Gellir disgrifio lles y cyhoedd fel "rhywbeth sydd o bryder difrifol ac o fudd neu les i'r cyhoedd"

Yn 2020/21, fe wnaethom gau 92% o'r holl gwynion Cod Ymddygiad ar ôl eu hasesu yn erbyn ein prawf dwy ran, neu ar ôl i gŵyn gael ei dynnu'n ôl yn y cam asesu.  Mae'r gyfran yma'n uwch nag yn y flwyddyn cynt (86%).

Roedd gweddill y cwynion (24 sef 8%) y penderfynwyd ymchwilio iddynt yn cynrychioli'r cwynion mwyaf difrifol a dderbyniwyd.  O'r rhain, cyfeiriwyd deg cwyn at y pwyllgor safonau lleol neu Banel Dyfarnu Cymru, sy'n gynnydd o 100% o'i gymharu â'r flwyddyn cynt.

Pan ddaw ymchwiliad i ben gallwn benderfynu nad oes angen 'dim camau pellach' gyda'r mater yr ymchwiliwyd iddo.  Gall hyn ddigwydd os yw'r aelod wedi cydnabod yr ymddygiad (a allai awgrymu bod y Cod wedi'i dorri) ac yn edifar neu wedi cymryd camau i gywiro neu unioni'r ymddygiad i leihau ei effaith ar yr unigolyn, y cyhoedd neu'r awdurdod dan sylw.

Fe wnaethom benderfynu hyn mewn 58% (14) o'r ymchwiliadau Cod Ymddygiad eleni, oedd yn lleihad sylweddol o'i gymharu â'r flwyddyn cynt (85%).  Mae hyn yn adlewyrchu, er bod llai o achosion wedi eu cyfeirio ar gyfer eu hymchwilio, o'r rhai sy'n cael eu cyfeirio, ein bod yn canfod tystiolaeth i awgrymu bod y Cod Ymddygiad wedi'i dorri mewn mwy o achosion.  Mae hyn yn awgrymu ein bod yn defnyddio ein prawf dwy ran yn effeithiol ac yn adnabod mwy o'r achosion mwyaf difrifol yn y cam asesu.

Mae achosion yn ymwneud â thorri'r Cod yn ddifrifol yn cael eu cyfeirio at Bwyllgor Safonau neu Banel Dyfarnu Cymru i'w hystyried.  Yn 2020/21 atgyfeiriwyd 10 (3%) o'r holl gwynion Cod Ymddygiad a gaewyd gennym. Roedd hyn 2% yn fwy na'r llynedd.

Roedd pynciau'r cwynion Cod Ymddygiad a gaewyd eleni, i raddau helaeth, yn adlewyrchu pynciau'r cwynion newydd a dderbyniwyd.  Roedd y rhan fwyaf yn ymwneud â 'datgelu a chofrestru budd' a 'hyrwyddo cydraddoldeb a pharch'.

## Achosion a atgyfeiriwyd

Yn 2020/21:

- Cyfeiriwyd 6 chŵyn at Bwyllgorau Safonau.
- Cyfeiriwyd 4 cwyn at Banel Dyfarnu Cymru.

Mae Panel Dyfarnu Cymru a'r Pwyllgorau Safonau'n ystyried y dystiolaeth a baratowyd ynghyd ag unrhyw amddiffyniad a gyflwynwyd gan yr aelod dan sylw. Maen nhw yna'n penderfynu a dorrwyd y Cod ac os felly pa gosb, os o gwbl, y dylid ei rhoi.

Atgyfeiriwyd 6 chŵyn at Bwyllgorau Safonau eleni. Ar adeg yr ysgrif hon, mae 5 heb eu cwblhau eto. Roedd y mater a ystyriwyd eisoes yn ymwneud â chyn aelod o Gyngor Cymuned Laleston a ddefnyddiodd arian y Cyngor ar gyfer eitemau personol. Fe geryddodd y Pwyllgor Safonau'r aelod, yr unig sancsiwn oedd ar gael oherwydd bod yr aelod wedi ymddiswyddo. Bu Pwyllgor Safonau hefyd yn ystyried dau achos a gyfeiriwyd ato'r flwyddyn cynt, yn ymwneud â dau aelod o Gyngor Tref Conwy a fethodd â datgelu budd mewn busnes yn ymwneud ag aelod o staff oedd wedi gwneud cwyn bwlio yn eu herbyn ac nad oedd wedi cael ei ddatrys pan ddigwyddodd hynny. Cafodd y ddau aelod eu hatal dros dro am fis.

Cyfeiriwyd 4 achos at Banel Dyfarnu Cymru. Mae dau eisoes wedi cael eu hystyried. Roedd y cyntaf yn ymwneud ag ymddygiad aelod ynghylch eu bod wedi methu â datgelu budd personol a rhagfarnus a'u hymddygiad tuag at aelod o staff. Yn yr achos hwn, roedd yr aelod o Gyngor Bwrdeistref Sirol Merthyr Tudful wedi eu hatal dros dro am saith mis. Roedd yr ail achos yn ymwneud â negeseuon Facebook gan aelod o Gyngor Cymuned Sully a Lavernock yn gwneud cyfeiriadau treisgar, eithafol a direswm am ferched mewn gwleidyddiaeth. Cafodd yr aelod ei ddatgymhwyso am 15 mis. Atgyfeiriwyd dau achos arall sydd eto i gael eu hystyried gan y Panel Dyfarnu.

> Yn 2020/21, roedd Panel Dyfarnu Cymru a'r Pwyllgorau Safonau wedi cadarnhau a chanfod bod 100% o'r achosion i ni eu cyfeirio atynt wedi torri'r Cod.

## Gwersi

Er y cynnydd, byddwn ond yn atgyfeirio mewn nifer fach iawn o gwynion. Mae'r cynnydd yn nifer y cwynion a atgyfeiriwyd i gael eu hystyried ymhellach, yn ymwneud ag achosion difrifol posib o dorri'r Cod y llynedd, yn bryder ac yn awgrymu bod dirywiad wedi bod yn ymddygiad aelodau. O'r cwynion a atgyfeiriwyd ar gyfer gwrandawiad sydd heb eu penderfynu eto, mae'n bryder bod y cwynion yn awgrymu ymddygiad gwarthus a bod rhai aelodau efallai wedi camddefnyddio eu swyddi fel aelodau.

Er hynny, mae ein hymchwiliadau a chanlyniadau'r achosion hyn a atgyfeiriwyd yn dangos pwysigrwydd safonau ymddygiad mewn bywyd cyhoeddus gan roi arweiniad defnyddiol i aelodau pob awdurdod ar sut y dylent ymddwyn.

Rydym ar hyn o bryd yn treialu newid proses a fydd, gobeithio, yn lleihau'r amser a gymerir i benderfynu a ddylid ymchwilio i gŵyn gan wella amseroedd ymchwilio'n gyffredinol. Lle bo'n briodol, rydym hefyd eisiau rhoi cyfle i aelodau egluro eu hymddygiad, hyd yn oed lle nad ydym yn atgyfeirio achos am wrandawiad oherwydd nad yw'n cwrdd â'n prawf lles y cyhoedd.

Defnyddiwn ein hymchwiliad fel cyfle i hyrwyddo ymarfer da a chyfleoedd hyfforddiant i aelodau. Rydym wedi diwygio ac ymgynghori ar ein Canllawiau i aelodau awdurdod lleol yng Nghymru. Mae'r canllawiau diwygiedig ar gael yma.

Daw'r dyletswyddau newydd yn Neddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau 2021 ag ychwanegiadau cymeradwy iawn i'r fframwaith moeseg, a ddylai helpu i annog mwy o berchnogaeth ac atebolrwydd lleol am ymddygiad, pan ddaw'r darpariaethau hyn i rym ym mis Mai 2022.

Edrychwn ymlaen at gyfrannu at adolygiad Llywodraeth Cymru o'r fframwaith moeseg sydd wedi bod yn weithredol yng Nghymru am bron i 20 mlynedd.

## Adroddiad datgeliadau chwythu'r chwiban

Ers 1 Ebrill 2017 mae'r Ombwdsmon yn 'berson rhagnodedig' o dan Ddeddf Datgelu Er Lles y Cyhoedd 1998. Mae'r Ddeddf yn gwarchod staff sy'n pasio gwybodaeth ymlaen am gamweddau mewn rhai amgylchiadau.

Mae'r warchodaeth yn berthnasol dim ond lle mae'r person sy'n datgelu'n credu'n rhesymol:

1. Eu bod yn gweithredu er lles y cyhoedd, sy'n golygu na fydd gwarchodaeth fel arfer ar gyfer cwynion personol.
2. Bod y datgeliad yn ymwneud ag un o'r canlynol:
   - Troseddau (gan gynnwys anghywirdeb ariannol fel twyll).
   - Methu â chydymffurfio â dyletswyddau a nodir mewn cyfraith.
   - Camweinyddu cyfiawnder.
   - Peryglu iechyd a diogelwch rhywun.
   - Difrod i'r amgylchedd.
   - Cuddio unrhyw gamwedd mewn unrhyw un o'r categorïau uchod.

Fel 'person rhagnodedig' rhaid i ni adrodd yn flynyddol ar achosion datgelu chwythu'r chwiban yng nghyd-destun cwynion Cod Ymddygiad yn unig.
Yn 2020/21 fe wnaethom dderbyn 36 cwyn Cod Ymddygiad a allai fod yn cwrdd â'r diffiniad statudol o ddatgelu gan aelod o staff neu gyn aelod o staff cyngor. Roedd y datgeliadau'n ymwneud yn bennaf â honiadau bod aelodau wedi 'methu â hyrwyddo cydraddoldeb a pharch'. Ymchwiliwyd i 11 o gwynion. Mae ymchwiliadau'n parhau i 10 o'r cwynion gydag un yn cael ei ollwng oherwydd nad oedd yr ymchwiliad mwyach er lles y cyhoedd.

Cafodd y ddau gŵyn a oedd wedi parhau o 2019/20 eu dirwyn i ben. Cyfeiriwyd un at y Pwyllgor Safonau. Cafodd y cyn-Aelod ei geryddu am gamddefnyddio arian. Cyfeiriwyd yr ail achos at Banel Dyfarnu Cymru. Penderfynwyd atal yr Aelod dros dro am fethu â datgan budd ac ymddwyn yn wael tuag at aelod o staff.

## Amseroldeb

Rydym yn ymwybodol bod angen darparu gwasanaeth amserol. Mae angen i ni ymchwilio'n drylwyr, ystyried barn a sylwadau achwynwyr a chyrff cyhoeddus, a gofyn am gyngor proffesiynol pan fo angen.

Profodd 2020/21 i fod yn flwyddyn ofnadwy o heriol. Oherwydd y pandemig ni allai cyrff cyhoeddus ymgysylltu'n iawn â ni ar gwynion. Aeth y newid fel bod staff yn gallu gweithio o'u cartrefi'n ddigon llyfn, ond mae hyn hefyd, ynghyd â'r aflonyddwch i drefniadau addysgu a gofal plant arferol ein staff, wedi effeithio ar gynnydd ein gwaith achosion. Ar ddechrau'r pandemig, penderfynwyd gohirio dros dro ein hymchwiliadau iechyd ac i feddygon teulu ac, o gofio'r pwysau ar wasanaethau cyhoeddus yn wythnosau cyntaf y pandemig, ni ddechreuwyd unrhyw ymchwiliadau newydd rhwng Ebrill a Mehefin. Effeithiodd hyn ar ein perfformiad, yn enwedig ar amseroedd dechrau ymchwiliad a chwblhau'r gwaith. Dengys y tabl isod ein perfformiad yn 2020/21.

| **Dangosyddion Perfformiad Allweddol** | **2020/21 Targed** | **2020/21** | **2019/20** |
|---|---|---|---|
| Cwynion am gyrff cyhoeddus - amseroedd penderfynu. | | | |
| Penderfyniad nad yw cwyn o fewn awdurdodaeth < 3 wythnos. | 90% | 94% | 95% |
| Penderfyniad i beidio ag ymchwilio i gŵyn (ar ôl gwneud ymholiadau cychwynnol) < 6 wythnos. | 90% | 85% | 92% |
| Pan fyddwn yn ceisio datrys y mater yn gynnar, penderfyniad o fewn 9 wythnos. | 90% | 88% | 94% |
| Penderfyniad i ymchwilio a dechrau ymchwiliad o fewn 6 wythnos i'r dyddiad y ceir digon o wybodaeth. | 80% | 65% | 67% |
| Cwynion am gyrff cyhoeddus yr ymchwilir iddynt - achosion wedi cau. | | | |
| Achosion a gaewyd o fewn 12 mis. | 85% | 52% | 81% |
| Cwynion sy'n ymwneud â'r Cod Ymddygiad – amseroedd penderfynu. | | | |
| Penderfyniad i beidio ag ymchwilio o fewn 6 wythnos. | 90% | 92% | 91% |
| Penderfyniad i ymchwilio a dechrau ymchwiliad o fewn 6 wythnos i'r dyddiad y ceir digon o wybodaeth. | 90% | 76% | 86% |
| Cwynion Cod Ymddygiad sy'n cael eu hymchwilio – achosion a gaewyd. | | | |
| Achosion a gaewyd o fewn 12 mis. | 90% | 50% | 88% |

Mesurwn amseroldeb o'r pwynt y derbyniwn ddigon o wybodaeth gan yr achwynwr. Gwnawn hyn fel bod ein perfformiad yn adlewyrchu profiad achwynwyr. Ond mae hefyd yn golygu bod unrhyw oedi gan gyrff cyhoeddus neu ein cynghorwyr clinigol, a hefyd pa mor amserol yw ein gwaith ein hunain, yn effeithio ar ein perfformiad. Yn 2020/21 effeithiodd y pethau hyn fwy nag arfer ar ein perfformiad.

Fe wnaethom adrodd y llynedd y byddai cymhlethdod cynyddol cwynion iechyd, ac achosion hirbarhaus, yn effeithio ar gyrraedd ein targed yn 2020/21, sef bod 85% o achosion camweinyddu neu fethiant gwasanaeth yn cael eu cau o fewn 12 mis. Yn 2020/21 dim ond 52% o'r cwynion camweinyddu / methiant gwasanaeth a gaewyd o fewn 12 mis. Ar gyfer achosion Cod Ymddygiad roedd yn 50%. Fodd bynnag, rydym wedi gweithio'n galed yn 2020/21 i gwblhau ymchwiliadau, yn enwedig i achosion hŷn. Ar ddiwedd y flwyddyn, roedd ein llwyth cwynion yn 403 o'i gymharu â 439 ar ddiwedd 2019/20 a'n llwyth achosion agored ond yn cynnwys 12 achos dros 12 mis oed ar ddiwedd y flwyddyn. Rydym yn cydnabod pa mor bwysig yw bod yn amserol i achwynwyr, Cynghorwyr a chyrff cyhoeddus a byddwn yn parhau i roi ffocws ar hyn yn y flwyddyn i ddod.

## Argymhellion

Pan fyddwn yn canfod bai, gwnawn argymhellion i gywiro'r anghyfiawnder.
Yn 2020/21 roedd:

| | |
|---|---|
| **1,045** | Fe wnaethom 1045 o argymhellion i gyrff cyhoeddus. |
| **£62k** | Fe wnaethom argymell talu dros £62,000 o iawndal. |

Yn 2020/21, bu'n rhaid i ni ymyrryd mewn 383 o achosion.  Ar draws yr achosion hyn gwnaed 1,045 o argymhellion – ar gyfartaledd, 2.7 argymhelliad i bob achos.

Yr argymhelliad mwyaf cyffredin a wnawn yw y dylai'r corff ymddiheuro wrth yr unigolyn neu'r bobl wnaeth ddioddef anghyfiawnder (23%).  Mae hyn yn adlewyrchu'r pwysigrwydd bod achwynwyr yn derbyn cydnabyddiaeth pan aeth pethau o'i le ac ymddiheuriad am y methiannau a gafodd eu canfod.

Rydym hefyd fel arfer yn argymell bod corff yn egluro ei ymddygiad yn llawn i'r achwynydd (6%) neu'n ymateb i'w cwyn cychwynnol (9%).

Dengys hyn ba mor bwysig yw perfformiad da gan gyrff cyhoeddus wrth drin cwynion.

Y grŵp argymhellion mwyaf cyffredin wedyn yw newid gweithdrefn neu adolygu proses (18%) ynghyd â rhoi adborth i staff (14%).  Mae'r argymhellion hyn yn arbennig o bwysig: ceisiwn nid yn unig gywiro unrhyw anghyfiawnder ond hefyd helpu cyrff cyhoeddus i ddysgu o'r hyn aeth o'i le a gwella at y dyfodol.

Ein prif gyfraniad yw sicrhau cyfiawnder i unigolion a gwelliannau cyffredinol i wasanaethau cyhoeddus.  Fodd bynnag, lle bo hynny'n briodol gallwn argymell iawndal ariannol.  Yn 2020/21, fe wnaethom argymell hyn mewn 9% o'r achosion i ni ymyrryd ynddynt.

Roedd cyfanswm yr iawndal ariannol a argymhellwyd yn £62,350.

## Cydymffurfio

Nod ein hargymhellion yw cywiro pethau, sicrhau cyfiawnder a gwella gwasanaethau er lles y cyhoedd – nid yn unig i'r bobl sy'n cwyno. Yn 2020/21 roedd:

| | |
|---|---|
| **2** | Cyhoeddwyd 2 adroddiad diddordeb arbennig. |
| **85%** | Cawsom dystiolaeth o gydymffurfio ag 85% o'r argymhellion oedd i'w gweithredu yn ystod y flwyddyn. |

Eleni, tynnwn sylw hefyd at effaith ein hargymhellion ar wasanaethau cyhoeddus.

Gwyddom, er ei bod yn bwysig sicrhau bod methiant neu anghyfiawnder yn cael ei gywiro, rydym yn ymwybodol mai'r effaith fwyaf y gallwn ei chael yw sicrhau bod dysgu systematig i feithrin mwy o welliannau gwasanaeth cyhoeddus o ganlyniad i'n hargymhellion.

Ceisiwn sicrhau cytundeb cyrff cyhoeddus i'n hargymhellion bob tro. Lle nad yw cyrff cyhoeddus yn cytuno â'n hargymhellion neu'n setliadau, neu os nad ydynt yn gweithredu'r argymhellion neu'r setliadau a gytunwyd, gallwn gyhoeddi adroddiadau arbennig. Eleni fe wnaethom gyhoeddi dau adroddiad o'r fath mewn perthynas â Chyngor Caerdydd a Bwrdd Iechyd Powys ynglŷn â methiannau cydymffurfio. Ym mis Mawrth 2020 cwynodd Mr A i'r Ombwdsmon drwy ei Aelod Seneddol fod awdurdod lleol, er iddynt gytuno i gwblhau asesiad annibynnol o'i anghenion ar ddechrau 2019, wedi methu â gwneud hynny. Yn unol â'i bwerau, datrysodd yr Ombwdsmon y gŵyn (yn lle ymchwilio) ar sail cytundeb y Cyngor i gynnal asesiad annibynnol o anghenion Mr A. Pan nad oedd hyn wedi'i gwblhau, cyhoeddodd yr Ombwdsmon adroddiad arbennig a oedd yn gosod dyletswydd ar yr Awdurdod dan sylw i roi'r wybodaeth ddiweddaraf i'r Ombwdsmon yn wythnosol am y cynnydd a wnaed.

Mae 20% o'n hargymhellion yn nodi ail-hyfforddi neu adolygu proses. Gall hyn arwain at wella gwasanaethau cyhoeddus yn sylweddol.




Eleni, cawsom dystiolaeth o gydymffurfio ag 85% o'r argymhellion oedd i'w gweithredu yn 2020/21.  Ar gyfer y 15% arall, nid ydym wedi derbyn tystiolaeth o gydymffurfio a byddwn yn mynd ar ôl hyn, o fewn y cyfyngiadau oherwydd Covid-19, yn y misoedd nesaf.

Byddwn yn parhau i weithio â chyrff cyhoeddus ac i adolygu effaith ein hargymhellion ar wasanaethau, gweithdrefnau a chanlyniadau.

## Adolygu a Sicrhau Ansawdd

Mae gennym brosesau teg a thryloyw i ddelio â cheisiadau i adolygu penderfyniadau ar achosion ac ar gyfer asesu ansawdd ein gwaith achos yn rheolaidd i sicrhau ei fod yn cwrdd â'n safonau gwasanaeth. Rhannwn unrhyw ddysgu o'r adolygiadau hyn â'n staff i gynorthwyo dysgu sefydliadol. Yn 2020/21 roedd:

| | |
|---|---|
| **216** | Cawsom 216 o achosion adolygu |
| **205** | Cwblhawyd 205 o adolygiadau |
| **98%** | Caewyd 98% o adolygiadau o fewn 20 diwrnod |
| **9%** | Roeddem yn cydnabod y gallem fod wedi gwneud mwy mewn 9% o'r achosion a adolygwyd, yn aml lle derbyniwyd tystiolaeth ychwanegol gan yr achwynydd. |

### Ceisiadau i adolygu achosion

Rydym yn hyderus yn ein proses ymchwilio. Fodd bynnag, rydym yn cydnabod bod achwynwyr yn gallu bod yn anhapus â chanlyniad eu cwyn. Mae ein proses adolygu achosion yn rhoi cyfle i'n penderfyniadau gael eu hadolygu'n fewnol.

Mae achosion yn cael eu hadolygu gan staff nad oeddent yn rhan o'r achos yn flaenorol.

Fel gyda'r rhan fwyaf o'n gwaith, gwelsom ychydig o leihad eleni yn ein llwyth achosion adolygu. Mae'r tabl isod yn dangos ein llwyth achosion adolygu o'i gymharu â 2019/20:

| Achosion adolygu | 2020/21 | 2019/20 |
|---|---|---|
| Achosion wedi eu cario drosodd o'r flwyddyn cynt | 5 | 16 |
| Achosion newydd | 211 | 216 |
| Cyfanswm | 216 | 232 |
| Cwblhawyd | 205 | 227 |
| Wedi eu cario drosodd i'r flwyddyn nesaf | 11 | 5 |

Gwerthfawrogwn fod angen ystyried adolygiadau'n amserol.  Ceisiwn gwblhau pob cais i adolygu penderfyniad, ac ymateb, o fewn 20 diwrnod gwaith.  Rydym yn falch o fod wedi cynyddu'n sylweddol nifer yr achosion a gyrhaeddodd y targed hwn.

| Amser ymateb | 2020/21 | 2019/20 |
|---|---|---|
| Ymateb o fewn 20 diwrnod | 98% | 83% |
| Nifer gyfartalog o ddiwrnodau i ymateb | 12.1 | 15.5 |

Gallwn benderfynu cadarnhau, yn llawn neu'n rhannol, adolygiad am nifer o wahanol resymau – er enghraifft, os anfonodd yr achwynydd dystiolaeth, gwybodaeth neu esboniad pellach atom, neu os credwn y gallem fod wedi gwneud mwy.

Gyda 19 o achosion a adolygwyd yn 2020/21, penderfynwyd y dylid eu hail-agor neu gymryd camau pellach.  Mae hyn yn 9% o'r holl achosion a adolygwyd – ychydig yn llai na'r llynedd.  I roi'r 19 achos hwn mewn cyd-destun pellach, maen nhw'n cynrychioli 0.8% o'r holl benderfyniadau ar achosion eleni.

Yn 2020/21, er ein bod wedi cwblhau 11% yn llai o adolygiadau na'r flwyddyn cynt, rydym yn ffyddiog bod ein proses adolygu'n gweithio'n effeithlon a'n bod yn cwrdd â'n targedau.

## Sicrhau ansawdd

Yn 2020/21, fe wnaethom ailddylunio ein proses Sicrhau Ansawdd.  Gweithredwyd y newidiadau hyn o 1 Mehefin 2021 ymlaen, gan olygu y bydd ein harchwiliad Sicrhau Ansawdd yn edrych, pob mis, ar hap-sampl o'n gwaith achosion yn y camau ymholiad, asesu ac ymchwilio i sicrhau ein bod yn gweithredu'n unol â'n safonau gwasanaeth.  Bydd canlyniadau o'r archwiliad yn cael eu bwydo'n ôl i staff a rheolwyr pob mis fel y gallwn adnabod unrhyw arferion da neu wael yn sydyn a sicrhau bod gwersi a ddysgir yn cael eu nodi a'u rhaeadru ar draws OGCC.

Cyflawnwn hefyd adolygiadau Sicrhau Ansawdd, yn cynnwys gweithwyr iechyd proffesiynol, o sampl o'r cyngor clinigol a dderbyniwn i'n helpu gyda'n gwaith achos.

Yn 2021/22, byddwn yn monitro ac adolygu pa mor effeithiol yw'r broses Sicrhau Ansawdd i wneud yn siŵr ei bod yn gweithio fel y dylai ac yn cyflwyno'r wybodaeth angenrheidiol i'n sicrhau bod ein gwaith yn cwrdd â'n

## Dysgu gwersi

P'un ai ar sail adolygiadau neu'r broses Sicrhau Ansawdd, ceisiwn sicrhau ein bod yn ystyried pa wersi y gallwn eu dysgu a beth sydd angen ei wella.



Mae unrhyw bwyntiau dysgu sy'n cael eu hadnabod yna'n cael eu rhaeadru i'n staff drwy gyfarfodydd tîm ac ardal ddysgu ddynodedig ar ein Mewnrwyd, sy'n tynnu sylw at bwyntiau dysgu sydd wedi eu hadnabod, i sicrhau ein bod yn ymateb yn ddioed iddynt.  Ystyriwn hefyd a dynnwyd sylw at unrhyw angen hyfforddiant unigol neu sefydliadol, ac a oes angen newid unrhyw bolisi neu weithdrefn.

Roedd un enghraifft o ddysgu yn 2020/21 yn ymwneud â'n bylchau yn ein prosesau ar gyfer delio ag adolygiadau o achosion Cod Ymddygiad a hysbysu aelodau a gyhuddwyd bod cais adolygu wedi'i dderbyn, ac o'r canlyniad.  Rydym bellach wedi diwygio ein gweithdrefnau i sicrhau bod hyn yn digwydd yn effeithlon ac amserol, gyda chyfrifoldebau clir yn cael eu dynodi i swyddogion penodol.

Yn 2021/22, bwriadwn ddatblygu trefniadau ar gyfer sut y gallwn gasglu ynghyd y gwersi sydd i'w dysgu o wahanol ffynonellau, nid yn unig o'n prosesau Adolygu a Sicrhau Ansawdd, er mwyn cyflwyno dull cynhwysfawr, traws-sefydliadol o wella ein gwasanaethau.

## Adborth gan ddefnyddwyr gwasanaeth

Rydym yn gwbl ymroddedig i wasanaeth rhagorol. Rydym yn croesawu adborth gan ein defnyddwyr gwasanaeth ac yn ceisio dysgu o'n camgymeriadau.
Yn 2020/21 roedd:

| | |
|---|---|
| **51%** | Roedd 51% o'r holl achwynwyr a holwyd yn fodlon a'n gwasanaeth cwsmeriaid... |
| **99%** | ... gan godi i 99% ymhlith rhai oedd yn fodlon â chanlyniad eu cwyn. |
| **26** | Derbyniwyd cwynion newydd amdanom. |
| **100%** | Fe wnaethom ymateb i 100% o'r cwynion amdanom mewn 20 diwrnod. |
| **22%** | Cadarnhawyd, yn llawn neu'n rhannol, 22% o'r cwynion amdanom. |

### Ymchwil boddhad cwsmeriaid

Ym mis Mawrth ail-gynhaliwyd arolwg ffôn annibynnol o sampl gynrychiadol o'n hachwynwyr y caewyd eu hachosion yn ystod y flwyddyn. Mae hyn yn rhoi adborth mwy trylwyr ar ein gwasanaeth. Rydym yn parhau i gasglu data boddhad ar-lein, sydd ar agor i achwynwyr ar unrhyw gam yn y broses. Mae hyn yn rhoi ychydig yn fwy o ddealltwriaeth i ni o'r hyn oedd yn bwysig i bobl. Mae cysylltiad cryf iawn rhwng argraff gadarnhaol o'n gwasanaeth a chanlyniad y cwyn.

| | |
|---|---|
| **85%** | Yn cytuno ei bod yn hawdd cysylltu gyda ni. |
| **77%** | Yn dweud ein bod wedi eu trin gyda chwrteisi a pharch. |

Roedd y canfyddiadau'n debyg i rai'r llynedd.  Yn gyson, roedd y rhai oedd yn fodlon â'r canlyniad yn fodlon hefyd gyda'n gwasanaeth.  Yn anffodus, ni allwn helpu pawb ac roedd y rhai nad oeddent yn hapus â'r canlyniad yn llai hapus gyda sut y gwnaethom drin eu cwynion.  Efallai fod hyn yn anochel o ystyried bod llawer o'n defnyddwyr gwasanaeth yn teimlo'n gryf iawn am eu hachosion.

Wrth ddadansoddi'r canfyddiadau, gwelsom gynnydd sylweddol mewn boddhad gyda'n hachosion Cod Ymddygiad, ond gwaetha'r modd gwelsom lai o foddhad gyda'r ffordd y gwnaethom drin cwynion am gyrff cyhoeddus.  Fel y llynedd, roedd y sgoriau cadarnhaol yn parhau i fod yn uwch ar gyfer achosion a gaewyd yn y cam ymchwilio nag ar gyfer rhai a gaewyd yn y cam asesu.

"Diolch am wasanaeth da, rwy'n teimlo bod fy nghwyn wedi'i gymryd o ddifrif"

Rydym yn dal i gael ein gweld fel corff parod i helpu, gan lwyddo i ddiweddaru mwy o achwynwyr fel yr oeddem wedi cytuno i wneud.  Er gofyn i ni wneud addasiadau rhesymol gyda'n ffurflenni cwyno copi caled ac ar-lein, a gyda'r llythyrau'n cydnabod derbyn cwynion newydd, dim ond ychydig yn fwy o bobl oedd yn cofio ein bod wedi cynnig hyn.

Roedd achwynwyr yn llai bodlon â sut y gwnaethom ddelio â'u cwynion ac o ran eu hargraff o ba mor deg oedd ein penderfyniadau, er bod yr argraff yma'n amrywio'n sylweddol gan ddibynnu ar ba mor fodlon oedd yr achwynydd gyda'r canlyniad.  Yn ôl sgoriau'r arolwg yn ymwneud â'n Safonau Gwasanaeth, er bod ychydig o leihad wedi bod mewn boddhad yn gyffredinol, roedd gan achwynwyr oedd yn fodlon â chanlyniad eu hachos argraff well o'n gwasanaeth.  Gallwch ddarllen am ein Safonau Gwasanaeth ar ein gwefan yma.

"Roedd yn broses hir ac emosiynol iawn ond roedd y cyfathrebu gan y tîm gweinyddol yn wych a phroffesiynol!"

| Ein Safonau Gwasanaeth | Pob ymatebydd | | Ymatebwyr oedd yn fodlon â'r canlyniad | |
|---|---|---|---|---|
| | **2020/21** | **2019/20** | **2020/21** | **2019/20** |
| 1. Byddwn yn sicrhau bod ein gwasanaeth yn hygyrch i bawb. | 63% | 65% | 81% | 77% |
| 2. Byddwn yn cyfathrebu'n effeithiol gyda chi. | 63% | 64% | 86% | 82% |
| 3. Byddwn yn sicrhau eich bod yn derbyn gwasanaeth proffesiynol gennym. | 52% | 57% | 91% | 89% |
| 4. Byddwn yn deg wrth ddelio gyda chi. | 48% | 49% | 90% | 86% |

Er mwyn gwella cyfraddau boddhad ein holl achwynwyr, byddwn yn adolygu sut yr ydym yn cyfathrebu, yn enwedig yn y cam asesu. Byddwn yn adolygu anghenion achwynwyr yn rheolaidd drwy gydol y broses o ddelio â'u cwynion, a diweddaru unrhyw addasiadau rhesymol i adlewyrchu anghenion yr achwynwyr.

## Cwynion amdanom ni

Yn 2020/21, cawsom 26 o gwynion am ein gwasanaeth gan adolygu a chau 25 o'r rhain yn ystod y flwyddyn. Mae'r cwynion hyn yn rhoi adborth hynod ddefnyddiol i ni ar ein gwasanaeth ac rydym yn eu cymryd o ddifrif.

Cadarnhawyd 5 neu 22% o'r cwynion yn ein herbyn, y drydedd flwyddyn yn olynol i ni weld lleihad yn nifer y cwynion a gadarnhawyd gennym. O ganlyniad i'r cwynion hyn, rydym wedi newid rhai o'n prosesau cyfathrebu ac adolygu, sut y rheolwn ein hachosion Cod Ymddygiad, ac wedi penodi pencampwr awtistiaeth i'n helpu i ddeall anghenion achwynwyr awtistig yn well. Ni chafodd gweddill y cwynion eu cadarnhau neu cawsant eu tynnu'n ôl ar ôl i'r achwynwyr newid eu meddwl.

Fe wnaethom ymateb i'r holl gwynion yn ein herbyn o fewn y targed o 20 diwrnod.

| Amser Ymateb | 2020/21 | 2019/21 | 2018/19 |
|---|---|---|---|
| O fewn 20 diwrnod | 24 (100%) | 29 (91%) | 29 (94%) |
| Tu allan i 20 diwrnod | 0 | 3 (9%) | 2 (6%) |

## Gwasanaeth Adolygu Annibynnol

I sicrhau ein bod yn agored ac atebol, os yw defnyddiwr gwasanaeth yn anfodlon â'n hymateb i'w cwyn am ein gwasanaeth, maen nhw’n gallu gofyn i'w hachos gael ei ystyried gan wasanaeth adolygu annibynnol allanol (IRSCC), wedi’i ddarparu gan ch&i.  Nid yw ch&i yn adolygu ein penderfyniadau ar achosion, dim ond y cwynion am ansawdd y gwasanaeth a ddarperir gennym.

Yn 2020/21, cyfeiriodd saith o bobl eu cwynion at ch&i.  Roedd pob un, i raddau, yn ymwneud â'n penderfyniadau, sy'n rhywbeth nad oes gan ch&i unrhyw awdurdod drosto.  Cafodd un o’r cwynion a adolygwyd yn allanol ei gadarnhau’n rhannol, yn ymwneud a’n prosesau ymchwilio a chydymffurfio.  Canmolodd ch&i ein dull gweithredu a dull y staff dan sylw i fynd i’r afael â’r materion.  Rydym wedi ymddiheuro am gynyddu’r gŵyn ac wedi sefydlu rôl Swyddog Cydymffurfio a Gwella newydd.  Bydd taflen ffeithiau cydymffurfedd yn cael ei chwblhau erbyn diwedd mis Mehefin 2021.

# Hygyrchedd, ymwybyddiaeth ac allgymorth

Gwnawn ein gorau i ddarparu gwasanaeth cwynion cynhwysol ac ymatebol. Rydym eisiau sicrhau bod pobl yn gwybod am ac yn ymddiried yn ein gwasanaeth a'n bod yn hygyrch i bawb sydd ein hangen. Yn 2020/21 roedd:

| | |
|---|---|
| **85%** | Roedd 85% o'n cwsmeriaid a holwyd wedi'i chael yn hawdd cysylltu gyda ni. |
| Cymraeg | Rydym bellach yn cydymffurfio â'r rhan fwyaf o Safonau'r Gymraeg. |
| **3** | Fe wnaethom gynnal 3 seinfwrdd i ddeall anghenion ein rhanddeiliaid. |

## Cydraddoldeb, Amrywiaeth a Chynhwysiant

Rydym wedi ymrwymo i sicrhau y cynigiwn wasanaeth teg a chyfartal i bawb ac i gyhoeddi Adroddiad Cydraddoldeb blynyddol gyda chamau gweithredu i'n helpu i wella. Gallwch ddarllen yr Adroddiad Cydraddoldeb Blynyddol 2020/21 ar ein gwefan.

Yn ôl ein proses reolaidd o gasglu data, mae rhai pobl yn wynebu rhwystrau i dderbyn ein gwasanaeth ac rydym yn benderfynol o wneud ein gorau fel bo'n gwasanaethau mor hygyrch â phosib. Rydym wedi ymgysylltu'n weithredol ag ystod o grwpiau lleiafrifol ethnig ac anabledd er mwyn deall yn well pam fod pobl yn ei chael yn anodd dod atom.

## Hygyrchedd

Ceisiwn fod yn hygyrch i bawb sy'n cysylltu â ni a chynigiwn ystod o wasanaethau i gefnogi hygyrchedd. Gofynnwn i achwynwyr roi gwybod i ni os oes angen cymorth a chefnogaeth arnynt ac ystyriwn ac ymatebwn i bob cais am addasiadau.

Gallwn ddarparu'r wybodaeth a gynhyrchwn mewn nifer o fformatau fel ar CD ac mewn Braille. Defnyddiwn nifer o wasanaethau ar-lein ac wyneb yn wyneb i fod yn fwy hygyrch. Mae gwasanaeth 'BrowseAloud' ar ein gwefan sy'n cynorthwyo'r defnyddiwr drwy alluogi 'llais-i-destun' ar ein gwefan.

Mae fideo Iaith Arwyddion Prydain (BSL) a dolen i'r 'SignVideo' (gwasanaeth cyfieithu i ddefnyddwyr BSL) hefyd ar y wefan.  Tanysgrifiwn i 'Language Line' fel y gallwn ddefnyddio cyfieithwyr i rai a fyddai'n well ganddynt siarad yn eu hiaith gyntaf, ac mae modd cyfieithu ein gwefan yn hawdd i nifer o ieithoedd eraill.

Eleni dywedodd 85% o'r rhai wnaeth ymateb i'r arolwg ffôn ei bod yn hawdd neu'n hawdd iawn cysylltu gyda ni.

### Y Gymraeg

Rydym yn ymrwymedig i sicrhau bod yr iaith Gymraeg yn cael ei chroesawu a'i thrin yn ddim llai ffafriol na'r Saesneg ym mhob agwedd ar ein gwaith a'n bod yn ateb anghenion siaradwyr Cymraeg.  Mae gennym eisoes drefniadau yn eu lle i sicrhau y gallwn gynnig gwasanaeth dwyieithog cynhwysfawr i bobl sy'n dod i gysylltiad â'r swyddfa.

Ers mis Ionawr 2021, rydym bellach yn cydymffurfio â'r rhan fwyaf o Safonau'r Gymraeg ac wedi mabwysiadu Polisi Iaith Gymraeg diwygiedig y gallwch ei ddarllen yma.

### Ymwybyddiaeth ac allgymorth

Roedd yr ymgyrch allgymorth eleni'n canolbwyntio ar hyrwyddo ein pwerau newydd ac ymgysylltu â chynrychiolwyr o gymunedau sydd wedi eu tan-gynrychioli, gan gynnwys TGP Cymru, Tîm Cymorth Lleiafrifoedd Ethnig a Phobl Ifanc Cymru (EYST), Fforwm Adsefydlu Partneriaeth Ymfudo Strategol Cymru, Anabledd Dysgu Cymru, Tai Pawb, Autistic UK a'r Gymdeithas Tsieineaid yng Nghymru.  Mae'r gwaith hwn wedi helpu i godi ymwybyddiaeth o Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru ymhlith pobl anabl, lleiafrifoedd ethnig ac ymfudwyr gan lwyddo i gasglu adborth ar ba mor hygyrch oedd ein gwasanaeth.

## Cwynion llafar

Derbyniwyd 63 o gwynion llafar eleni, yn erbyn targed o 120.  Mae hwn yn ffigur siomedig a byddwn yn mynd ati'n benodol i geisio gwella hyn yn 2021/22.  Un ffactor bwysig oedd bod angen i staff weithio o gartref am bron i hanner y

flwyddyn, oedd wedi ein hatal rhag derbyn a chofnodi cwynion llafar yn y ffordd arferol.  Dim ond nifer fach o gwynion llafar yr oeddem wedi gallu eu derbyn, wrth i staff fynd i'r swyddfa, dros fisoedd yr haf.

Fodd bynnag, dros y cyfnod hwn fe wnaethom gaffael, gosod a rhoi meddalwedd a chaledwedd ffôn newydd yn ei le fel bod staff yn gallu derbyn cwynion llafar o'u cartrefi ac mae'r gyfradd cwynion llafar felly ar gynnydd.

Fel rhan o'n hymgyrch Allgymorth, siaradom ag ystod o grwpiau cynrychiadol dros y flwyddyn, gan gynnwys gyda Chynghorau Iechyd Cymuned, grwpiau cymorth ac eiriolaeth a gyda'n 'Seinfyrddau', am ein gwasanaeth cwynion llafar newydd.  Cafodd y datblygiad hwn ei groesawu.

Dros y flwyddyn i ddod, byddwn yn gorffen paratoi ac yn lansio ymgyrch gymdeithasol darged i hyrwyddo ein pŵer i dderbyn cwynion llafar.



# Hyrwyddo Dysgu

**Nod strategol 2**

Ceisiwn hyrwyddo dysgu o gwynion ac ysgogi gwelliannau ar raddfa ehangach. Eleni rydym yn torri tir newydd gyda'r gwaith hwn. Ni yw'r ombwdsmon cyntaf yn y DU i gael pwerau llawn a gweithredol i sefydlu rôl Safonau Cwynion a chynnal ymchwiliadau ar ein liwt ein hunain.

Yn 2020/21 cymerwyd camau breision drwy lansio ein pwerau newydd i wthio am welliannau systemig:

- Cyhoeddi ein Polisi Trin Cwynion Enghreifftiol, a'i ganllawiau cysylltiedig, ar gyfer Awdurdodau Lleol a Byrddau Iechyd.
- Darparu 90 o rith-sesiynau hyfforddiant i gyrff cyhoeddus drwy Gymru.
- Parhau i ddatblygu ein gwaith ar adrodd data safonedig ar gyfer cyrff cyhoeddus yng Nghymru.
- Lansio ein hymchwiliad 'ar ei liwt ei hun' cyntaf yng nghynhadledd Sefydliad Siartredig TAI Cymru, wedi'i gymeradwyo gan yr actor Hollywood a'r ymgyrchydd digartrefedd Michael Sheen.

Rydym wedi parhau i oleuo'r broses bolisi yng Nghymru drwy rannu dysgu o'n gwaith, gan ymateb i ymgynghoriadau cyhoeddus a chyfrannu at sesiynau tystiolaeth gyda'r Senedd.

Rydym hefyd wedi parhau i ddefnyddio gwahanol fformatau traddodiadol a newydd i gyfathrebu gwersi o'n gwaith achos.  Yn 2020/21 roedd:

| | | | |
|---|---|---|---|
| **8** | Cyhoeddwyd 8 adroddiad lles y cyhoedd. | | Cyhoeddwyd ein hail Goflyfr Cydraddoldeb a Hawliau Dynol. |
| **1** | Cyhoeddwyd un adroddiad thematig 'At Eich Gwasanaeth: Canllaw Arfer Da'. | | Anfonwyd llythyrau blynyddol at gyrff yn ein hawdurdodaeth. |
| | Rydym wedi parhau i ymgysylltu'n uniongyrchol â'r cyrff yn ein hawdurdodaeth a rhannu gwybodaeth â chyrff craffu a rheoleiddio eraill. | | |

Yn 2020/21, fe wnaethom unwaith eto gyllidebu arian i'w ddefnyddio'n benodol ar weithredu'r Ddeddf OGCC newydd.  Dyma'r gwariant a wnaed yn ystod y flwyddyn:

| Deddf OGCC 2019: Gwariant yn 2020/21 | £000 |
|---|---:|
| Costau staff | 305 |
| Adeiladau | 13 |
| Gwasanaethau cyfrifiadurol | 7 |
| Cyfathrebu | 2 |
| Costau Swyddfa | 2 |
| Hyfforddiant | 1 |
| **Cyfanswm a wariwyd ar Bwerau Newydd** | **330** |
| Cyllideb | 359 |
| **Amrywiant** | **29** |

Rydym wedi gwario 91% (2019/20: 92%) o'r arian a gyllidwyd am y flwyddyn. Mae'r gwariant hwn yn cynnwys costau uniongyrchol yn ymwneud ag ymchwiliadau 'ar ei liwt ei hun' a gwaith safonau cwynion, a chostau anuniongyrchol yn cynnwys costau swyddfeydd ac adnewyddu meddalwedd wedi eu dosrannu.

## Safonau Cwynion

O dan Ddeddf 2019 OGCC cawsom bwerau newydd i bwyso am welliannau systemig i wasanaethau cyhoeddus.  Y cyntaf o'r pwerau hyn yw ein rôl Safonau Cwynion newydd.  Gallwn nawr gyflwyno gweithdrefnau trin cwynion enghreifftiol i gyrff yn ein hawdurdodaeth.  Gallwn hefyd nawr fonitro sut y mae'r cyrff hyn yn trin cwynion.  Yn 2020/21:

| | |
|---|---|
|  | Cyhoeddwyd ein Polisi Trin Cwynion Enghreifftiol, a'i ganllawiau cysylltiedig, ar gyfer Awdurdodau Lleol a Byrddau Iechyd. |
|  | Darparwyd 90 o rith-sesiynau hyfforddiant i gyrff cyhoeddus drwy Gymru. |
|  | Gwnaethom barhau i ddatblygu ein gwaith ar adrodd data safonedig ar gyfer cyrff cyhoeddus yng Nghymru. |

### Polisïau enghreifftiol

Ein bwriad yn wreiddiol oedd lansio ein Polisi Trin Cwynion Enghreifftiol ar gyfer awdurdodau lleol ar 16 Mawrth 2020.  Oherwydd y pandemig penderfynwyd peidio – ond gan roi gwybod i bob un o'r 22 awdurdod lleol am ein cynlluniau.  Fe wnaethom barhau i weithio'n agos â'r Awdurdodau, ac ar ôl ystyried yn ofalus a chydweithredol, penderfynwyd symud ymlaen i lansio'r polisi ar 30 Medi 2020.

Yn yr un modd, yn ystod ail hanner 2020 fe wnaethom ymgysylltu'n eang â thimau o'r Byrddau Iechyd i drafod ein cynlluniau ac ystyried eu barn am symud ymlaen gyda'n gwaith yng nghanol Covid-19.  Roedd y Byrddau Iechyd yn unfrydol o blaid i ni symud ymlaen – felly dosbarthwyd polisi trin cwynion enghreifftiol i'r Byrddau a'r Ymddiriedolaeth Iechyd yng Nghymru ar 30 Tachwedd 2020.

O dan Ddeddf OGCC 2019, daw'r polisïau enghreifftiol i rym chwe mis ar ôl eu cyflwyno – ac rydym wedi bod yn gweithio'n galed gyda'r cyrff dan sylw i sicrhau eu bod yn cael eu cefnogi yn eu hadolygiadau polisi.

## Hyfforddiant

Am y tro cyntaf yng Nghymru, mae'r Awdurdod Safonau Cwynion wedi hwyluso sesiynau hyfforddi ar ymarfer da wrth drin cwynion. Er ein bod yn wreiddiol wedi bwriadu cynnal sesiynau wyneb yn wyneb ag awdurdodau lleol ar draws Cymru, mae parhad Covid-19 wedi golygu y bu'n rhaid i ni newid ein cynlluniau.

Unwaith y daeth yn glir y byddai'r cyfyngiadau'n aros am sbel, penderfynwyd symud ein hyfforddiant i lwyfan rhithiol. Roedd y galw gan awdurdodau lleol yn gryf o hyd felly ail-archebwyd y sesiynau wyneb yn wyneb gan ddechrau ym mis Medi 2020. Ar adeg yr ysgrif hon, rydym bellach wedi darparu 90 o sesiynau hyfforddi drwy MS Teams i Awdurdodau Lleol a Byrddau Iechyd. Mae'r adborth a gawsom, a lefel yr ymgysylltu, wedi bod yn anhygoel gyda 97% o'r rhai wnaeth ymateb i'n harolwg yn dweud eu bod wedi mwynhau'r hyfforddiant a 100% yn dweud ein bod yn cyfoethogi'r hyfforddiant gyda'n profiad.

"Hwn oedd un o'r cyrsiau hyfforddi gorau i mi fod arno mae'n debyg, ac er mai hwn oedd fy sesiwn gyntaf o bell, llwyddodd pawb i gyfrannu'n llawn ato."

"Dyma'r hyfforddiant cyntaf a gefais ers tro byd i mi ddod allan ohono'n meddwl ei fod yn werth chweil a buddiol i fy swydd. Roedd mor rhagweithiol, mi wnes i fwynhau'n ofnadwy."

"hyfforddiant rhagorol – roedd popeth mor hamddenol ac felly pawb yn teimlo'n gyffyrddus iawn i fynegi eu meddyliau, teimladau, pryderon a syniadau. Diolch i'r ddau ohonoch am brofiad positif iawn."

Bwriadwn adeiladu ar y cychwyn ardderchog hwn yn 2021/22 ac ystyried ein hyfforddiant fel ei fod yn esblygu i ateb gwahanol anghenion ac yn ymateb i fyd ar ôl Covid.

## Data cwynion

Rydym wedi parhau i gasglu data ar gwynion gan awdurdodau lleol, ac wedi dechrau casglu data gan fyrddau iechyd hefyd yn unol a'n pwerau o dan adran 40 Deddf OGCC 2019. Mae mwy o wybodaeth am y data hwn yn ein hadroddiad arbennig ar ein pwerau newydd ar ein gwefan.

## Edrych ymlaen

Yn 2021/22 byddwn yn ceisio sicrhau mwy o gysondeb wrth drin cwynion ac yn pwyso am wella gwasanaethau er lles y cyhoedd yng Nghymru.

Er bod yr ansicrwydd ynghylch parhad a chwmpas y cyfyngiadau Covid-19 yn gwneud cynllunio'n anodd, bwriadwn wneud y canlynol:

- Cyflwyno’r dogfennau Safonau Cwynion yn ffurfiol i rannau eraill o Wasanaethau Cyhoeddus Cymru – gan gynnwys i Gymdeithasau Tai.
- Cyhoeddi gwybodaeth am berfformiad trin cwynion cyrff cyhoeddus drwy dudalen gwe newydd, gan wneud pethau'n fwy tryloyw a hwyluso cymhariaeth rhwng gwahanol gyrff cyhoeddus
- Darparu o leiaf 50 diwrnod o hyfforddiant (gwerth tua £150,000) yn ddi-dâl i gyrff cyhoeddus.
- Anelu at lefel uchel o foddhad gyda'r hyfforddiant hwn.

## Ymchwiliadau ar ei liwt ei hun

Cyflwynwyd y pŵer i gynnal ymchwiliadau ar ei liwt ei hun yn Neddf 2019. Mae dau fath o ymchwiliad ar ei liwt ei hun:

- Ymchwiliad Estynedig – estyniad o fater sydd eisoes yn destun ymchwiliad.
- Ymchwiliad Ehangach – ymchwiliad ar ei ben ei hun nad yw'n ymwneud â chŵyn a wnaed gan unigolyn.

### Ymchwiliadau Ar Ei Liwt Ei Hun Estynedig

Mae'r Ombwdsmon hefyd wedi dechrau pedwar ymchwiliad ar ei liwt ei hun estynedig yn y flwyddyn ddiwethaf, gydag un wedi'i gwblhau. Estyniad o ymchwiliad lle mae cysylltiad sylweddol yw'r ymchwiliadau hyn. Efallai fod cwyn am un elfen o wasanaeth, a/neu am ddarparwr gwasanaeth, gysylltiad agos ag achos arall posib o fethiant gwasanaeth, a/neu gyda darparwr gwasanaeth cysylltiedig arall. Bydd yr Ombwdsmon ond yn dechrau'r ymchwiliadau hyn os oes ganddo amheuaeth resymol bod camweinyddu systemig yn digwydd a bod dechrau ymchwiliad er lles y cyhoedd.

Mae'r ymchwiliadau ar ei liwt ei hun estynedig sy'n cael eu cynnal ar hyn o bryd yn ymwneud â materion lle mae cysylltiad rhwng yr elfennau gwasanaeth, ac mewn eraill mae cysylltiad rhwng darparwyr gwasanaeth eraill, i gyd gyda methiant gwasanaeth posib. Un achos a gwblhawyd dros y flwyddyn ddiwethaf oedd cwyn am Gyngor Abertawe gan Ms A. Cwynodd fod Cyngor Abertawe wedi methu â diogelu ei phlant yn dilyn atgyfeiriad diogelu yn 2016 gan awdurdod lleol yn Lloegr lle'r oedd eu tad yn byw. Yn ystod yr ymchwiliad, roedd yr Ombwdsmon Llywodraeth Leol a Gofal Cymdeithasol yn Lloegr wedi rhoi mwy o wybodaeth i'r Ombwdsmon bod y Cyngor wedi derbyn gwybodaeth debyg o'r blaen gan yr awdurdod lleol, yn 2015. Defnyddiodd yr Ombwdsmon ei bwerau i ymestyn ei ymchwiliad gwreiddiol ac roedd yn gallu ymchwilio'n llawn i gŵyn Ms A. Cafwyd rhywfaint o gamweinyddu yn ystod yr ymchwiliad a gwnaed argymhelliad am ymddiheuriad, iawndal ac adolygiad o arferion a gweithdrefnau.

## Yr Ymchwiliad Ar Ei Liwt Ei Hun Ehangach Cyntaf

Cyflwynwyd y pŵer i gynnal ymchwiliadau ar ei liwt ei hun yn Neddf OGCC 2019. Oherwydd nad oes angen i gŵyn fod wedi cael ei gwneud er mwyn gallu cynnal yr ymchwiliadau hyn, gellir ymateb i bethau fel y maen nhw'n digwydd, yn yr achos hwn y cynnydd amlwg mewn pobl ddigartref, yn enwedig digartref ar y stryd, yng Nghymru. Ar 13 Mawrth 2020, yn unol ag Adran 4 Deddf OGCC 2019, cafodd yr ymgynghoriad ei lansio ar gyfer yr ymchwiliad ehangach cyntaf ar ei liwt ei hun, er mwyn rhoi gwybod i gyrff a rhanddeiliaid perthnasol am ein bwriad i gynnal ymchwiliad ar ei liwt ei hun. Roedd yr ymchwiliad yn cynnig ystyried y broses o asesu ac adolygu digartrefedd.




Yn sgil Covid-19 a'r pwysau aruthrol ar wasanaethau cyhoeddus i ymateb i'r pandemig, penderfynwyd gohirio'r ymgynghoriad hwn. Dros y cyfnod hwn, ystyriwyd beth a fyddai cwmpas yr ymchwiliad. Roedd yn bwysig cydnabod bod llawer o'r newidiadau a wnaed oherwydd y pandemig yn debygol o fod yn rhai dros dro, bod hyd a lled y fframwaith deddfwriaethol a'i ymrwymiadau cysylltiedig yn aros yn eu lle ac y byddai angen ei ailgyflwyno pan fyddai'r argyfwng yn dod i ben. Cytunwyd fod achub ar y cyfle i ehangu cwmpas yr ymchwiliad, i gynnwys ymateb awdurdodau lleol i'r pandemig, yn gyfle i adnabod a rhannu arferion da ynghyd ag unrhyw ffyrdd newydd ac arloesol o weithio.

Ail-lansiwyd yr ymgynghoriad ar gynnal yr ymchwiliad ar ei liwt ei hun cyntaf ar 23 Medi 2020 yng nghynhadledd Sefydliad Siartredig TAI Cymru, wedi'i gymeradwyo gan yr actor Hollywood a'r ymgyrchydd digartrefedd Michael Sheen. Roedd yr ymgynghoriad ar y cyfan yn cael ei groesawu er y lleisiwyd pryderon am amseriad yr ymchwiliad.

Er tawelu meddyliau y byddai unrhyw ymchwiliad yn cael ei wneud gan ystyried yr amgylchiadau'n llawn, roedd yn hollbwysig ei ddechrau, yn enwedig o gofio bod y rhai yr effeithiodd yr ymchwiliad fwyaf arnynt ymhlith rhai o'r bobl fwyaf bregus mewn cymdeithas a llawer yn byw ar y cyrion ac yn cael trafferth derbyn gwasanaethau. Y bobl hynny nad oedd ganddynt fynediad at y glanweithdra angenrheidiol na drws ffrynt i'w hamddiffyn rhag y feirws.

Cyhoeddwyd dogfen y Cynnig ar 20 Tachwedd 2020. Roedd y ddogfen yn disgrifio cwmpas yr ymchwiliad ac yn enwi'r tri awdurdod lleol oedd wedi eu dewis i fod yn rhan o'r ymchwiliad sef Cyngor Caerdydd, Cyngor Sir Gâr a Chyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam. Yn defnyddio data gan Lywodraeth Cymru a'r Swyddfa Ystadegau Gwladol, roedd yr awdurdodau wedi eu dewis ar sail y meini prawf canlynol:

- Nifer yr asesiadau digartrefedd a gwblhawyd gan yr awdurdodau lleol a pha mor gyffredin ydyn nhw.
- Nifer a pha mor aml y mae ceisiadau adolygu'n cael eu derbyn a'u gwrthdroi gan yr awdurdod lleol.
- Yn angen i gynnwys sampl nodweddiadol, yn adlewyrchu gwahanol ardaloedd a demograffeg Cymru, gan gynnwys ardaloedd dinesig a mwy gwledig.

> "Mae Awdurdodau Lleol wedi gweithio'n galed iawn mewn partneriaeth ag iechyd, y trydydd sector, Landlordiaid Cymdeithasol Cofrestredig a mudiadau gwirfoddol i ddod â phobl i mewn o'r strydoedd i lety dros dro ac mewn argyfwng. Rydw i'n falch iawn o sut rydym wedi ymateb i argyfwng y coronafeirws, ond mae'n bwysig ein bod ni'n myfyrio ac yn gweld a oes unrhyw wersi y gallwn ni eu dysgu o'n profiadau dros y misoedd diwethaf. Rwyf felly'n cytuno â'ch cynnig i ymestyn cylch gwaith yr ymgynghoriad i gynnwys effaith Covid-19."
>
> Julie James AS Aelod Cabinet dros Dai a Llywodraeth Leol, Llywodraeth Cymru (2018-2021)

Dechreuwyd yr ymchwiliad ar ei liwt ei hun cyntaf ar 4 Ionawr 2021. Tybiwyd y byddai ymchwiliad ar ei liwt ei hun yn dilyn yr un broses ag unrhyw ymchwiliad arall gan yr Ombwdsmon. Fodd bynnag, mae'r pandemig wedi gofyn bod yn fwy hyblyg gyda'r broses ac wedi gofyn ystyried ffyrdd newydd ac arloesol o weithio, gan gynnwys defnyddio llwyfannau cyfryngau fel Survey Money a Microsoft Teams i holi pobl ynghyd â chynnig adnoddau i gynorthwyo'r awdurdodau i ateb y ceisiadau am wybodaeth.

I sicrhau proses agored a thryloyw o'r dechrau, mae'r Swyddog Ymchwiliadau Ar Ei Liwt Ei Hun wedi bod ar gael i'r awdurdodau lleol er mwyn gallu trafod. Mae gwybodaeth am yr ymchwiliad wedi'i rhannu drwy Seinfyrddau'r Ombwdsmon, a lle'r oedd hynny'n briodol mae'r cyrff perthnasol, gan gynnwys Llywodraeth Cymru wedi cael eu diweddaru.

## Pwysigrwydd pwerau i gynnal ymchwiliadau ar ei liwt ei hun

Mae'r pŵer i gynnal ymchwiliadau ar ei liwt ei hun yn golygu y gallwn ganolbwyntio ar faterion sydd o les i'r bobl fwyaf bregus yn ein cymdeithas, ac ar bobl nad ydynt yn cwyno neu nad ydynt yn gallu cwyno, y lleisiau na chlywir yn aml.  Mae pandemig Covid-19 wedi dangos pa mor bwysig yw'r pwerau hyn i unrhyw wasanaeth Ombwdsmon os am fod yn rhagweithiol yn gwella gwasanaethau, a thrwy ddefnyddio ein pwerau i gynnal ymchwiliadau ar ei liwt ei hun mae gennym gyfle i wneud gwahaniaeth heddiw a gweithio'n rhagweithiol ag awdurdodau lleol i roi diwedd ar ddigartrefedd yng Nghymru.

## Polisi Cyhoeddus

Rydym yn parhau i oleuo'r broses polisi cyhoeddus drwy rannu'r hyn a ddysgwn o'n gwaith.  Eleni:

| | |
|---|---|
| **14** | Fe wnaethom ymateb i 14 ymchwiliad ac ymgynghoriad cyhoeddus. |

### Ffocws ein gwaith polisi

Defnyddiwn ein harbenigedd a’r dystiolaeth o’n gwaith achos i gyfrannu at ddatblygu polisi cyhoeddus mewn meysydd fel iechyd, gofal cymdeithasol a llywodraeth leol.  Gwnawn sylw hefyd ar faterion yn ymwneud â gwasanaethau ombwdsmon fel yr adolygiad eleni gan Gomisiwn y Gyfraith o dribiwnlysoedd sydd wedi eu datganoli yng Nghymru, cyn pasio Bil Tribiwnlysoedd newydd i Gymru.

Roeddem yn falch o gael y cyfle i rannu tystiolaeth o’n gwaith achos o effaith y pandemig ar drin cwynion gan gyrff y GIG a llywodraeth leol, a’r mathau o gwynion a gawsom am yr ymchwiliadau Covid-19 a wnaed gan Bwyllgor Iechyd, Gofal Cymdeithasol a Chwaraeon, a Phwyllgor Cydraddoldeb, Llywodraeth Leol a Chymunedau’r Senedd.

Eleni pasiwyd Deddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru) 2021 gan hebrwng nifer o ddiwygiadau pwysig mewn llywodraeth leol, felly roedd llawer o’n cyfraniadau yn 2020/21 yn ymwneud â llywodraeth leol.

Un o’r diwygiadau hyn oedd sefydlu’r Cyd-bwyllgorau Corfforaethol sef y drefn statudol newydd ar gyfer cydweithrediad rhanbarthol, dros bedair ardal yng Nghymru.  Roeddem yn croesawu ymateb Llywodraeth Cymru i bryderon a leisiwyd gennym yn yr ymgynghoriad ar y Rheoliadau i Sefydlu’r Cyd-bwyllgorau, ac rydym wedi eu dynodi fel ‘awdurdodau rhestredig’ mewn newidiadau i Ddeddf OGCC 2019.  O ganlyniad, mae’r Cyd-bwyllgorau Corfforaethol a’u haelodau bellach yn dod o dan ein pwerau i ymchwilio i gwynion ac yn destun safonau ar drin cwynion.

Pan basiwyd Deddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru) 2021, sefydlwyd hefyd cyfundrefn berfformiad a llywodraethu newydd i awdurdodau lleol, a elwir bellach yn brif gynghorau.  Roeddem yn falch o weld, yn dilyn ein hymateb i’r ymgynghoriad, bod y canllawiau statudol ar berfformiad a llywodraethu prif

gynghorau wedi cael eu newid.  Mae ein coflyfrau, ein hadroddiadau thematig a lles y cyhoedd, yn ogystal â'r dystiolaeth o'n pwerau newydd, wedi eu cynnwys fel tystiolaeth y bydd angen i brif gynghorau ei hystyried wrth wneud hunan-asesiad neu asesiad panel o'u perfformiad.

Yn olaf, mae bob amser yn beth da pan ddefnyddir eich gwaith i helpu eraill, felly roeddem yn falch o rannu copi o'r adolygiad diweddar o'n Cod Ymddygiad i aelodau awdurdod lleol yng Nghymru â'r Senedd, fel enghraifft o arfer da ar gyfer datblygu'r canllawiau ar gyfer y Cod Ymddygiad newydd i Aelodau'r Senedd.



## Rhannu ein canfyddiadau

Defnyddiwn amrywiaeth o fformatau i gyfathrebu gwersi o'n gwaith achos a chwiliwn yn barhaus am ffyrdd newydd o rannu gwybodaeth yn fwy eang a'i gwneud yn fwy hygyrch.  Yn 2020/21 roedd:

| | | | |
|---|---|---|---|
| **6** | Cyhoeddwyd 6 adroddiad lles y cyhoedd gennym. | **1** | Cyhoeddwyd un adroddiad thematig ‘At Eich Gwasanaeth: Canllaw Arfer Da’. |
| | Cyhoeddwyd ein hail Goflyfr Cydraddoldeb a Hawliau Dynol. | | |
| | Fe wnaethom barhau i ymgysylltu'n uniongyrchol â'r cyrff yn ein hawdurdodaeth, yn enwedig y Byrddau Iechyd. | | |

### Adroddiadau lles y cyhoedd

Mae cyhoeddi adroddiad lles y cyhoedd yn parhau i fod yn un o'r ffyrdd allweddol y gallwn dynnu sylw at broblemau systemig, hyrwyddo dysgu o gwynion a sicrhau bod awdurdodau'n atebol am y gwasanaethau a ddarperir ganddynt.

Eleni, fe wnaethom gyhoeddi chwe adroddiad lles y cyhoedd a dau adroddiad diddordeb arbennig ar faterion pwysig y gall cyrff cyhoeddus eraill ddysgu ohonynt. Mae’r adroddiadau hyn yn tynnu sylw at broblemau systemig, methiannau blaenorol lle na ddysgwyd gwersi ohonynt, neu os yw corff cyhoeddus yn gwrthod cytuno i’n hargymhellion.



Roedd chwech o’n hadroddiadau lles y cyhoedd eleni’n ymwneud â gofal iechyd. Roedd yr adroddiad cyntaf yn ymwneud â gofal llygaid annigonol gan Fwrdd Iechyd Bae Abertawe.  Roedd Mrs X yn poeni nad oedd anaf llygad ei merch wedi cael diagnosis cynt. Roedd ei merch, Y, yn oedolyn ifanc bregus yn byw mewn uned breswyl arbenigol gan y Bwrdd Iechyd i rai ag anableddau dysgu, a chanddi ymddygiad hunan-anafu hysbys.  Nid oedd yr anaf i’w llygad wedi cael ei fonitro fel y dylai, ac roedd Y wedyn wedi cael diagnosis o ddatodiad llwyr y retina a chataract trawmatig yn ei llygad dde.

Trwy beidio â derbyn y gofal llygad priodol yn unol a'r gofynion i ddarparu Hanfodion Gofal, roedd hyn wedi achosi anghyfiawnder i Y ac ni chafodd gyfle i dderbyn atgyfeiriad amserol ac adolygiad clinigol.  Roedd cyfathrebu gwael hefyd wedi achosi sioc, braw a gofid i Mrs X. Gallwch ddarllen yr adroddiad ar yr achos hwn yma.

Fe wnaethom gyhoeddi Adroddiad Arbennig ar y gofal a'r driniaeth a roddwyd i fam Mrs A gan Fwrdd Iechyd Addysgu Powys ar ôl i'r Bwrdd fethu â chydymffurfio â dau argymhelliad o'r cwyn gwreiddiol, gan wneud argymhellion pellach bod y Bwrdd yn gwella ei broses trin cwynion.  Gallwch ddarllen yr adroddiad ar yr achos hwn yma.



Roedd Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr wedi methu â chyfeirio canser prostad Mr Y am driniaeth o fewn amser rhesymol, gan orfodi Mr Y i fynd am driniaeth breifat ac achosi gofid a gorboeni sylweddol.  Gallwch ddarllen yr adroddiad ar yr achos hwn yma.

Roedd ein pedwerydd adroddiad lles y cyhoedd ar fethiannau gofal iechyd yn ymwneud â Bwrdd Iechyd Prifysgol Abertawe Bro Morgannwg, cyn yr ailstrwythuro diweddar, ac wedi'i gyflwyno felly i fyrddau iechyd Bae Abertawe a Chwm Taf Morgannwg.  Roeddem yn poeni am y diffyg gofal a chymorth a dderbyniodd Mr W cyn, yn ystod ac ar ôl ei lawdriniaeth am ganser yr oesoffagws (yn ymwneud â'r bibell fwyd rhwng y gwddf a'r stumog) ym mis Chwefror 2018. Roedd y Bwrdd Iechyd wedi methu â diweddaru Mr W a'i wraig Mrs W yn llawn ar ei gyflwr, ei brognosis a beth i'w ddisgwyl.  Yn drist iawn, bu farw Mr W ym mis Medi 2018.  Gallwch ddarllen yr adroddiad ar yr achos hwn yma.

Roedd yr ymchwiliad i ddiagnosis a thriniaeth canser prostad Mr X gan Fwrdd Iechyd Prifysgol Aneurin Bevan wedi adnabod sawl methiant gyda'i ofal. Nid oedd tystiolaeth glir fod Mr X wedi cael gwybod am driniaethau eraill posib ac roedd felly wedi cytuno i driniaeth ddiangen i dynnu ei brostad, gan achosi anghyfiawnder sylweddol iddo.  Gallwch ddarllen yr adroddiad ar yr achos hwn yma.

Roedd yr adroddiad lles y cyhoedd iechyd olaf hefyd yn ymwneud â Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr a'r gofal a roddwyd i'r ddiweddar Mrs B am brolaps rhefrol difrifol. Roedd ein hymchwiliad wedi canfod tystiolaeth, ers 2011, nad oedd penderfyniadau clinigol a rhesymeg y Llawfeddygon Colorefrol yn unol ag ymarfer clinigol derbyniol ac o blaid risg uchel ac opsiynau clinigol anghonfensiynol. Roedd Mrs B wedi'i chaethiwo mwy neu lai'n llwyr i'w chartref am wyth mlynedd olaf ei bywyd gan ddioddef blynyddoedd o anurddas wrth geisio ymdopi a'i phrolaps difrifol a'r diffyg dal dŵr/carthion cysylltiedig. Ni allai fynychu digwyddiadau cymdeithasol, gan gynnwys rhai oedd wedi eu hargymell ar gyfer ei dementia, cyflwr yr oedd wedi dioddef ohono ers 2014. Gallwch ddarllen yr adroddiad ar yr achos hwn yma.

Roedd dau adroddiad lles y cyhoedd arall a gyhoeddwyd gennym eleni'n ymwneud â gwasanaethau cyngor.

Ym mis Rhagfyr 2020, fe wnaethom gyhoeddi adroddiad arbennig ar fethiant Cyngor Caerdydd i gydymffurfio, heb esgus rhesymol, ag argymhelliad blaenorol ynghylch asesiad annibynnol o anghenion Mr A ar ddechrau 2019. Gallwch ddarllen yr adroddiad ar yr achos hwn yma.



Roedd ein hadroddiad lles y cyhoedd olaf yn ymwneud â chamweinyddu gan Gyngor Sir y Fflint pan roesant Dystysgrif Cyfreithlondeb Defnydd neu Ddatblygiad Arfaethedig (tystysgrif a.192) a chaniatâd cynllunio ôl-weithredol i gymydog tŷ drws nesaf Ms N, gan achosi colli preifatrwydd a effeithiodd ar ei mwynhad o'i heiddo a'i gardd a chan hefyd leihau gwerth ei heiddo. Gellir darllen adroddiad yr achos yma.

Er i ni argymell ymddiheuro ym mhob un o'r achosion hyn, a thalu iawndal ariannol hefyd mewn tri achos, gyda saith o'r achosion hyn bu'n rhaid i ni wneud argymhellion manwl i gymryd camau ehangach gan gynnwys adolygu polisi a gweithdrefnau a gwella trefniadau hyfforddi. Byddwn yn monitro cydymffurfio â'r argymhellion hyn, ac effaith y newidiadau a gyflwynwyd, dros y misoedd nesaf.

## Adroddiadau thematig

Ynghyd â'n pwerau newydd i wthio am welliannau systemig, cyhoeddwn adroddiadau thematig ar sail dadansoddiad o'r achosion yr ymchwiliodd ein swyddfa iddynt. Maen nhw'n ffordd ddefnyddiol iawn o dynnu sylw at, a phwysleisio, y prif broblemau sy'n cael eu canfod pob dydd gennym.

Eleni fe wnaethom gyhoeddi ein pumed adroddiad thematig, At Eich Gwasanaeth: Canllaw Arfer Da'. Yn sgîl y pandemig a bod angen i wasanaethau cyhoeddus "feddwl y tu allan i'r bocs", penderfynwyd cyhoeddi'r adroddiad hwn i rannu'r arferion da y daethom ar eu traws yn ein gwaith achos. Gallwch ddarllen copi o'r Adroddiad Yn Eich Gwasanaeth yma

## Coflyfrau'r Ombwdsmon

Cyhoeddwn wybodaeth am ein gwaith achos yng Nghoflyfr yr Ombwdsmon a'r Coflyfr Cod Ymddygiad, a gyhoeddir pob chwarter, ac sy'n cynnwys crynodeb o bob adroddiad a gyhoeddwyd. Mae Coflyfr yr Ombwdsmon hefyd yn cynnwys crynodebau'n ymwneud â 'manteision buan' a setliadau gwirfoddol yn ymwneud ag achosion darparwyr gwasanaethau cyhoeddus. Rydym nawr yn cyhoeddi crynodebau o'n hachosion ar ôl eu cau. Bydd y rhain yn ymddangos mewn trefn dyddiad i rai sydd am edrych yn rheolaidd ar ein crynodebau. Bydd achosion yn cael eu categoreiddio er mwyn gallu chwilio drwy'r pynciau.

Eleni hefyd, cyhoeddwyd ein hail Goflyfr Cydraddoldeb a Hawliau Dynol. Gallwch ddarllen y Coflyfr yma. Nid ein cyfrifoldeb ni yw gwneud canfyddiad diffiniol ynghylch a dorrodd gorff cyhoeddus hawliau dynol rhywun. Fodd bynnag, lle nodwn dystiolaeth o gamweinyddu a achosodd anghyfiawnder, ystyriwn a effeithiwyd efallai ar hawliau dynol person a gwnawn sylwadau ar ddyletswydd corff cyhoeddus i gynnal yr hawliau hyn. Mae'r Coflyfr Cydraddoldeb a Hawliau Dynol yn cynnwys detholiad o achosion lle codwyd hawliau dynol yn benodol fel rhan o gŵyn neu os oeddent yn greiddiol i'n canfyddiadau.

## Llythyrau blynyddol

Rydym yn parhau i anfon llythyrau blynyddol allan at Fyrddau Iechyd ac Awdurdodau Lleol ynghylch y cwynion a dderbyniwyd ac a ystyriwyd gennym yn ystod y flwyddyn. Nod y llythyrau blynyddol yw rhoi gwybodaeth i'r cyrff hyn i'w helpu i wella eu perfformiad trin cwynion a'r gwasanaethau a ddarperir ganddynt. Cyhoeddir pob llythyr blynyddol ar ein gwefan.

## Ymgysylltu

Agwedd bwysig ar ein gwaith gwelliannau yw ymgysylltu'n uniongyrchol â chyrff yn ein hawdurdodaeth a chael cyswllt â rhanddeiliaid eraill sy'n gweithredu yn y sectorau sy'n cyfrif am y rhan fwyaf o'n cwynion.

Rydym yn parhau i ganolbwyntio ein prif welliannau ar Fyrddau Iechyd.

Mae gennym nifer fach o swyddogion ymchwilio sydd hefyd yn cyflawni rôl swyddog gwella. Mae'r staff hyn yn treulio cyfran o'u hamser yn gweithio i herio a chynorthwyo Byrddau Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr, Aneurin Bevan, Bae Abertawe a Hywel Dda. Fel rhan o'r gwaith hwn, yn 2020/21:

- Cawsom gyfarfod chwarterol â Bwrdd Iechyd Aneurin Bevan a gyda swyddogion Bwrdd Iechyd arweiniol o Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru ac Archwilio Cymru.
- Cynhaliwyd cyfarfodydd chwarterol â'r cyfarwyddwr nyrsio a phennaeth y gwasanaeth cwynion ym Mwrdd Iechyd Prifysgol Hywel Dda.
- Cawsom gyfarfod â Chadeiryddion Lleyg sy'n cadeirio Paneli Adolygu Annibynnol i ystyried hawliadau am gyllid gofal iechyd parhaus gan y GIG.
- Fe wnaethom ddarparu hyfforddiant i ymgynghorwyr newydd gymhwyso ym Mwrdd Iechyd Prifysgol Bae Abertawe.
- Cynhaliwyd cyfarfodydd chwarterol rheolaidd â Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr.

Rydym hefyd yn ceisio rhannu gwybodaeth a gwersi a ddysgir â rhanddeiliaid allweddol eraill sy'n gyfrifol am graffu'r sector iechyd, fel Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru, Arolygiaeth Gofal a Gwasanaethau Cymdeithasol Cymru, y Cyngor Meddygol Cyffredinol, Cynghorau Iechyd Cymuned ac Archwilio Cymru, a hefyd gyda Chomisiynwyr Cymru.



# Defnyddio Adnoddau'n Ddoeth

**Nod strategol 3**

Gwerthfawrogwn a chefnogwn ein staff ac rydym yn ymrwymedig i greu gweithle cydradd, amrywiol a chynhwysol. Gwnawn ein gorau i sicrhau llywodraethu da sy'n ein cefnogi a'n herio a meincnodwn ein gwaith yn erbyn yr arferion gorau yn y DU ac yn rhyngwladol. Ceisiwn hefyd sicrhau gwerth am arian a bod ein gwasanaethau'n addas i'r dyfodol.

| | | | |
|---|---|---|---|
| **100%** | Cwblhaodd yr holl staff eu Proses Datblygu ac Adolygu Perfformiad flynyddol. | **77%** | Cwblhaodd 77% o'r staff 28 awr neu fwy o ddatblygiad proffesiynol parhaus. |
| **1.1%** | Gwelsom y ganran gyfartalog o ddiwrnodau gwaith a gollwyd drwy salwch staff yn gostwng yn sylweddol o 3.4% y flwyddyn cynt i 1.1%. |  | Fe wnaethom ddarparu ystod o weithgareddau lles a sesiynau hyfforddi un-i-un i helpu i gynnal morâl ein staff dros y pandemig. |
| **£** | Rydym wedi lleihau ein Bwlch Cyflog Canolrifol Rhwng y Rhywiau o 21% yn 2019 i 5%, sy'n is na'r cyfartalog drwy Gymru ar gyfer y sector cyhoeddus (7.3%). |  | Fe wnaethom gynnal cysylltiadau agos a'n cydweithwyr yn y DU, Ewrop a thros y byd. |

## Hyfforddi a datblygu

Cefnogwn ein staff i ddatblygu'r wybodaeth a'r sgiliau sy'n hanfodol ar gyfer eu gwaith. Yn 2020/21:

| | |
|---|---|
| **100%** | cwblhaodd yr holl staff eu Proses Datblygu ac Adolygu Perfformiad flynyddol. |
| **77%** | cwblhaodd 77% o'r staff 28 awr neu fwy o ddatblygiad proffesiynol parhaus. |

Mae ein staff yn allweddol i'n gwasanaeth ac felly mae sicrhau bod gan ein staff i gyd y sgiliau, gwybodaeth a'r agwedd i ddarparu gwasanaethau rhagorol yn hanfodol bwysig. Rydym yn hwyluso hyfforddiant a datblygu'n weithredol i sicrhau ein bod yn parhau i gynorthwyo a datblygu pob aelod o staff. Yn ogystal â hyn, mae ein Proses Datblygu ac Adolygu Perfformiad yn nodi'n glir i staff beth yw eu hamcanion a'u blaenoriaethau am y flwyddyn i ddod.

Adlewyrchir ein pwyslais ar hyfforddiant a datblygiad staff mewn asesiad blynyddol o anghenion hyfforddi a datblygu pob aelod o staff, ynghyd â rhaglen gynefino gynhwysfawr i staff newydd, hyfforddiant ar-lein ar bynciau allweddol fel cydraddoldeb a hyfforddiant mewnol a Seminarau Arfer Da ar wasanaethau cyhoeddus penodol a newidiadau deddfwriaethol. Darparwn hefyd hyfforddiant sgiliau priodol i staff.

O ganlyniad i bandemig Covid-19, ni fu'n bosib cynnal hyfforddiant wyneb yn wyneb yn ystod y flwyddyn a chafodd llawer o'r hyfforddiant allanol a drefnwyd i staff ei ganslo, yn enwedig ar ddechrau'r flwyddyn. O'r herwydd nid yw rhai staff (23%) wedi gallu cyflawni'r nifer darged o oriau datblygiad proffesiynol parhaus yn ystod y flwyddyn. Byddwn yn cynorthwyo ac annog staff i fanteisio ar gyfleoedd i dderbyn hyfforddiant ar-lein wrth i hyn gael ei ddatblygu, ynghyd â hyfforddiant wyneb yn wyneb wrth i hyn ddechrau digwydd eto.

Gweithredwn Broses Datblygu ac Adolygu Perfformiad i bob aelod o staff, sy'n cynnwys:

- Adolygu'r hyn a gyflawnodd yr aelod o staff y flwyddyn cynt a gosod amcanion ar ddechrau'r flwyddyn.
- Adolygu cynnydd ganol blwyddyn.

Mae proses ar wahân i staff newydd yn ystod eu cyfnodau cynefino a phrawf, gyda blaenoriaethau ac amcanion sydd angen sylw mwy taer.  Mae gan staff sy'n dychwelyd o gyfnod mamolaeth/mabwysiadu, neu salwch hirdymor, amcanion a gytunir ar y pwynt dychwelyd.  I'r holl staff eraill, braf oedd gweld bod y ddau adolygiad ffurfiol wedi'u cwblhau fel y cynlluniwyd.



Mae ein ffocws ar bwysigrwydd hyfforddiant a datblygiad staff yn golygu ein bod wedi gosod targed bod ein staff i gyd yn derbyn o leiaf 28 awr o hyfforddiant a datblygu bob blwyddyn.  Eleni llwyddodd 77% o'r staff i wneud hyn (ac eithrio staff ar gyfnodau mamolaeth/mabwysiadu neu salwch hirdymor).  Byddwn yn parhau i ganolbwyntio ar hyn yn 2021/22, gyda chymorth ein swyddog Adnoddau Dynol mewnol am y tro cyntaf.

Fel rhan o'n proses Datblygu ac Adolygu Perfformiad flynyddol, ystyriwn ba mor effeithiol oedd yr hyfforddiant a'r datblygu a gwblhawyd, ac rydym yn gweithio ar wella ein hasesiad parhaus o hyfforddiant.

## Iechyd a llesiant

Teimlwn yn ofalgar o'n staff ac rydym yn rhagweithiol wrth hybu llesiant yn y gweithle.  Yn 2020/21:

| | |
|---|---|
| **1.1%** | Gwelsom ganran gyfartalog y diwrnodau a gollwyd oherwydd salwch staff yn gostwng i 1.1%. |
| | Rydym wedi parhau i roi ffocws ar les staff gan weithio i'w cynorthwyo mewn blwyddyn anodd. |
| | Rydym wedi cynnal a gwella'r cymorth a roddir i staff gan y Swyddog Cymorth Cyntaf Iechyd Meddwl. |

Mae ein ffocws ar gefnogi staff wedi ein helpu i barhau i ddarparu gwasanaeth drwy gydol y pandemig.  Mae'n bwysig ein bod yn gwneud yn siŵr ein bod yn cefnogi eu hiechyd a'u llesiant.  Mae Covid-19, wrth reswm, wedi cael effaith fawr iawn ar lesiant.  Gohiriwyd ein harchwiliadau iechyd blynyddol ar gyfer staff, ac effeithiwyd hefyd ar weithgareddau llesiant eraill fel ioga a theithiau cerdded amser cinio er i ni symud at opsiynau ar-lein lle'r oedd yn bosib.

Mae ein ffigurau absenoldeb salwch ar gyfer 2020/21 wedi gwella o'i gymharu â'r flwyddyn cynt, gydag absenoldeb staff yn 1.1% ar gyfartaledd, o'i gymharu â 3.4% yn 2019/20.  Roedd 37% o'r diwrnodau a gollwyd oherwydd Covid / Covid hir.

Roedd gorboeni a straen yn cyfrif am 4% o'r diwrnodau a gollwyd i salwch, o'i gymharu â 43% yn 2019/20.  Er bod un neu ddau achos yn gallu llurgunio'r ffigurau hyn, mae'n awgrymu bod ein cymorth i staff wedi talu i ni mewn blwyddyn anodd.

Ni chynhaliwyd arolwg staff llawn yn 2020/21, ond roedd yn braf bod arolwg staff ar eu hagweddau at ddychwelyd i'r swyddfa wedi denu sawl ymateb positif ar sut i ni ddelio ag effaith y pandemig.

"Mae'r pryder a'r gofal am lesiant staff wedi bod yn rhagorol ac yn cael ei werthfawrogi'n fawr"

"Diolch am fod mor hyblyg a chefnogi ein hanghenion"

"Diolch am y gefnogaeth a'r cyfathrebu rhagorol a ddarparwyd i staff yn ystod y cyfnod anodd hwn"

# Cydraddoldeb, amrywiaeth a chynhwysiant

Eleni, rydym wedi parhau'r ymdrechion i sicrhau ein bod fel cyflogwr yn hyrwyddo cydraddoldeb ac amrywiaeth a delio ag unrhyw rwystrau i gynhwysiant, drwy:

| | | | |
|---|---|---|---|
| | Adolygu ein polisi gweithio hyblyg. | | Mabwysiadu Siarter Hil ac Ethnigrwydd yn y Gwaith. |
| | Penodi Partner Busnes Adnoddau Dynol. | | Lleihau ein Bwlch Cyflogau rhwng y rhywiau o 21% yn 2019 i 5% yn 2021. |
| | Gwerthuso faint wnaeth osod amcanion cydraddoldeb yn y Broses Datblygu ac Adolygu Perfformiad. | | Datblygu'r defnydd a wneir o'n gweithdrefn Asesu'r Effaith ar Gydraddoldeb. |

## Rheoli cydraddoldeb

Mae gennym Gynllun Cydraddoldeb Strategol y gallwch ei ddarllen yma. Mae gennym Grŵp Cydraddoldeb Staff sy'n gyfrifol am ddatblygu a monitro'r camau cydraddoldeb a osodwn i ni ein hunain bob blwyddyn. Adroddwn ar y rhain yn ein Hadroddiad Cydraddoldeb y gallwch ei ddarllen yma.

## Amrywiaeth ein gweithlu

Rydym yn parhau i fonitro amrywiaeth ein gweithlu a'n hymgeiswyr am swyddi. Rydym wedi mynd ati'n weithredol i wella diddordeb grwpiau sydd wedi eu tan-gynrychioli yn ein sefydliad, drwy weithgareddau recriwtio ac allgymorth.

Rydym yn gyflogwr Hyderus o ran Anabledd ymrwymedig er mwyn rhoi sylw i'r ffaith bod pobl anabl wedi eu tan-gynrychioli yn ein gweithlu ac ymhlith ymgeiswyr am swyddi.

Rydym hefyd wedi ymrwymo i gryfhau ein cyfraniad at gydraddoldeb hiliol, cyfiawnder a chynhwysiant yng Nghymru ac wedi cyhoeddi ein Siarter Hil ac Ethnigrwydd yn y Gwaith yng nghyd-destun protestiadau Mae Bywydau Du o Bwys yr haf diwethaf. Gallwch ddarllen y Coflyfr yma.

Yn 2020 aethom ati’n weithredol i hyrwyddo unrhyw swyddi gwag drwy grwpiau cymorth i bobl anabl a lleiafrifol ethnig gan hysbysebu yn The Voice, sef papur newydd Affro-Garibïaidd wythnosol, i sicrhau bod ein swyddi’n cyrraedd ymgeiswyr sydd wedi eu tan-gynrychioli.

Mae pobl anabl yn parhau i fod wedi eu tan-gynrychioli’n sylweddol, gyda dim ond 4% ohonynt yn ymgeisio am swyddi a 3% o’n gweithlu’n dweud eu bod yn anabl.  Er bod staff lleiafrifol ethnig wedi eu cynrychioli’n gymesur yn ein gweithlu, maen nhw’n parhau i fod wedi eu tan-gynrychioli fel ymgeiswyr am swyddi.

Yn 2021 fe wnaethom groesawu ein Partner Busnes Adnoddau Dynol newydd sydd ar ein Grŵp Cydraddoldeb ac a fydd yn chwarae rhan greiddiol mewn gwrando ar a gweithredu pryderon gan staff ac yn ystyried sut arall y gallwn hyrwyddo swyddi’n bositif i’n grwpiau blaenoriaeth yn y dyfodol.

## Ein gwaith ar gydraddoldeb rhwng y rhywiau

Mae ein gwaith fel Cyflogwr Chwarae Teg, a gefnogir gan Chwarae Teg, yn dechrau talu ar ei ganfed wrth i’r Bwlch Cyflog Canolrifol Rhwng y Rhywiau leihau o 21% ym Mawrth 2019 i 5% ym Mawrth 2020.

| | 2020/21 | 2019/20 |
|---|---|---|
| % o'r staff sy'n ferched | 76% | 75% |
| Bwlch cyflog canolrifol | 5% | 11% |
| Bwlch cyflog cymedrig | 17% | 19% |

Gwyddom, mewn sefydliad cymharol fach, y gall canlyniadau recriwtio unigol wneud gwahaniaeth mawr i bob golwg.  Mae mwy o lawer o ferched na dynion yn ymgeisio'n gyson am ein swyddi.  Mae gennym hefyd ystod o bolisïau a chyfleoedd hyfforddi yn eu lle i ddileu unrhyw rwystrau i gyflogi neu ddatblygiad gyrfaol merched yn ein gweithle.

Mae’r cynllun Cyflogwr Chwarae Teg yn meincnodi sefydliadau o ran cydraddoldeb rhwng y rhywiau ar draws 4 lefel: efydd, arian, aur a phlatinwm.  Roeddem yn hynod falch o dderbyn Gwobr Arian fel Cyflogwr Chwarae Teg yn 2020, ar ôl sgorio'n uwch na'r cyfartalog drwy Gymru yn y sector cyhoeddus ar draws pob categori a aseswyd.

Yn 2020/21 rydym wedi bod yn gweithredu argymhellion Chwarae Teg gan obeithio gwella ein sgoriau pan gawn ein hail-asesu nes ymlaen eleni.

Mae’r gweithredu wedi cynnwys:

- Targedu poblogaethau amrywiol wrth recriwtio a dewis staff newydd.
- Adolygu ein trefniadau gweithio hyblyg a gwerthuso gwaith ar sail canlyniadau yn ystod cyfnodau clo Covid-19.
- Ystyried syniadau newydd ar gyfer gwobrwyo a chydnabod staff.

Rydym wrth ein bodd ein bod wedi cynnal ein Gwobr Arian, gyda gwelliannau mewn nifer o feysydd, yn ein hasesiad ar gyfer 2021.

## Yr Iaith Gymraeg

Gan ein bod nawr yn destun Safonau’r Gymraeg, rydym yn parhau i fesur sgiliau iaith Gymraeg ein gweithlu’n fwy manwl.

Dywedodd 12% o’n staff mai Cymraeg oedd eu prif iaith, gyda chyfran uwch yn dweud bod ganddynt sgiliau gweddol dda neu rugl:

- Siarad: 21%
- Darllen: 24%
- Ysgrifennu: 21%
- Deall: 25%

Mae’r ffigurau hyn yn lleihad o’i gymharu â’r llynedd ac efallai wedi eu heffeithio gan staff Cymraeg eu hiaith ar absenoldeb mamolaeth, a phobl sydd wedi gadael y sefydliad yn ystod y flwyddyn.

## Gosod amcanion cydraddoldeb personol

Fel sefydliad gweithiwn yn barhaus i ddatblygu ein sgiliau a’n gwybodaeth am gynhwysiant ac amrywiaeth.  Roedd bron i 50% o’n staff wedi gosod amcanion cydraddoldeb amrywiol yn eu hadolygiadau perfformiad blynyddol yn 2020, ar bynciau’n ymwneud â:

- Mynediad at hyfforddiant.

- Cynorthwyo gweithrediad ein Cynllun Cydraddoldeb a gwaith ein Grŵp Cydraddoldeb.
- Datblygu sgiliau iaith Gymraeg.
- Cefnogi cydraddoldeb wrth recriwtio.
- Gwella hygyrchedd ein cyhoeddiadau.
- Cefnogi ystyried hawliau dynol a chydraddoldeb yn ein gwaith achos.

## Ein Pencampwr Awtistiaeth:

Gyda'r cynnydd yn nifer y bobl awtistig sy'n defnyddio ein gwasanaeth, mae'n bwysig i ni nid yn unig fod yn fwy ymwybodol o awtistiaeth ond yn fwy parod i dderbyn y cyflwr hwn a chyflyrau niwro-amrywiol eraill.

Rydym yn ffodus bod gennym aelod o staff gyda phrofiad personol o awtistiaeth i'n helpu i ddeall y cyflwr yn well a bod yn fwy parod i'w dderbyn, gan ei phenodi fel ein Pencampwr Awtistiaeth.

Mae'n ennill gwybodaeth yn barhaus o hyd drwy fynychu gwahanol gyrsiau hyfforddiant a thrwy gyfarfod â mudiadau awtistiaeth, gyda'r wybodaeth yna'n cael ei rhaeadru drwy ddogfennau hyfforddi a diweddaru staff yn rheolaidd.

## Cynaliadwyedd

Rydym yn deall bod angen i ni wneud ein rhan wrth ddiogelu'r amgylchedd a gweithiwn yn barhaus i ddatblygu arferion gweithio cynaliadwy.  Yn 2020/21, effeithiodd y pandemig yn ddifrifol ar ein trefniadau gweithio gan orfodi'r rhan fwyaf o'n staff i weithio o gartref.  Gwelsom leihad mewn gwastraff, defnydd o ynni a milltiroedd teithio o ganlyniad.  Er y bydd newidiadau hirdymor mae'n debyg i batrymau a threfniadau gweithio, yn amlwg bydd cynnydd mewn gwastraff, defnydd o ynni a milltiroedd teithio pan ddaw trefniadau gweithio mwy normal yn bosib:

| | | | |
|---|---|---|---|
| | Cynhyrchwyd 85% yn llai o wastraff. | | Defnyddiwyd 31% yn llai o ynni. |
| **0%** | Anfonwyd 0% o'n gwastraff cyffredinol i gael ei dirlenwi. | | Ychydig iawn o filltiroedd a deithiwyd yn cymudo yn ystod y flwyddyn. |

### Rheoli gwastraff

Yn 2020/21 fe wnaethom gynhyrchu 85% yn llai o wastraff o'i gymharu â'r flwyddyn cynt, yn bennaf oherwydd gweithio o gartref.  Rydym wedi parhau i weithio gyda llai o bapur wrth i ni anfon mwy o'n hadroddiadau a'n gohebiaeth drwy ebost neu'n electronig, yn hytrach nag yn y post.

| | 2020/21 | 2019/20 |
|---|---:|---:|
| Gwastraff cyfrinachol (kg) | 1,480 | 8650 |
| Ailgylchu cymysg (kg) | 1,266 | 2,346 |
| Gwastraff cyffredinol (kg) | 1,242 | 16,000 |
| **Cyfanswm gwastraff (kg)** | **3,988** | **26,996** |

### Golau ac ynni

Defnyddiwyd 31% yn llai o drydan o'i gymharu â'r flwyddyn cynt, o ganlyniad i weithio o gartref.  Fodd bynnag, mae'r gweinyddion Technoleg Gwybodaeth yn ein swyddfeydd, a'r cyfarpar oeri cysylltiedig, wedi bod yn rhedeg drwy'r flwyddyn.

| | 2020/21 | 2019/20 |
|---|---:|---:|
| Defnydd o ynni (KwH) | 71,668 | 104,521 |

## Allyriadau

Oherwydd y pandemig, mae'r rhan fwyaf o'r staff yn gweithio o gartref, gan leihau cymudo ac allyriadau $CO_2$ cysylltiedig.  Amcangyfrifwn ein bod wedi osgoi cynhyrchu 182,000kg o allyriadau yn ystod y flwyddyn (9,000kg yn 2019/20).

| | |
|---|---|
|  **182k** | Wedi osgoi cynhyrchu 182,000 kg o allyriadau $CO_2$ |

Er y bydd rhywfaint o'r enillion hyn yn cael eu colli unwaith y gall staff fynd yn ôl i'w swyddfeydd, bwriadwn newid ein trefniadau gweithio arferol fel bod y rhan fwyaf o'n staff yn gallu gweithio'n rhannol o gartref.

### Adroddiad o dan ddyletswydd (adran 6) Bioamrywiaeth a Gwydnwch Ecosystemau

Rydym yn cyhoeddi adroddiad ar wahân yn unol â'r ddyletswydd hon.

# Atebolrwydd ffurfiol

Rydym yn atebol i'r Senedd am ein gwaith a defnydd y swyddfa o adnoddau.

## Y Senedd

Mae'r Pwyllgor Cyllid wedi sefydlu cyfres o egwyddorion i dywys y gwaith o baratoi'r cyflwyniadau cyllideb, a phob blwyddyn ar ôl ystyried yr egwyddorion hyn, gwnawn gyflwyniad ffurfiol yn gofyn am gyllid am y flwyddyn ganlynol. Mae'r cyflwyniad hwn yn cael ei graffu gan y Pwyllgor Cyllid sy'n gwneud argymhelliad ar y cyllid sydd i'w ddarparu. Mae'r Pwyllgor hefyd yn gwneud sylwadau ac argymhellion ar y cyflwyniad. Mae'r rhain yn cael eu hystyried yn y blynyddoedd wedyn.

Mae dogfen yr Adroddiad a Chyfrifon Blynyddol yn adrodd ar ein defnydd o adnoddau ac ar waith a wnaed yn ystod y flwyddyn. Mae'n cael ei rhoi gerbron y Senedd a'i chyhoeddi ar ein gwefan. Craffir ar yr adroddiad gan y Pwyllgor Cydraddoldeb, Llywodraeth Leol a Chymunedau pob blwyddyn. Bob yn hyn a hyn, mae'r Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus hefyd yn craffu ar ein defnydd o adnoddau gan wneud sylwadau ac argymhellion. Gweithiwn i weithredu argymhellion y Pwyllgorau hyn yn ein cyflwyniad ar Amcangyfrifon a'r Adroddiad a Chyfrifon Blynyddol.

## Adolygiad barnwrol

Fel Corfforaeth Undyn, ac i adlewyrchu egwyddorion cynlluniau Ombwdsmyn rhyngwladol, mae'r Ombwdsmon a'i staff yn llwyr gyfrifol am benderfyniadau a wneir ar achosion. Gall achwynwyr ofyn am adolygiad mewnol o benderfyniad achos y maen nhw'n anhapus â fo, sy'n cael ei wneud gan uwch-aelod o staff nad oedd yn rhan o'r achos cyn hynny. Fodd bynnag, y llwybr priodol i herio ein penderfyniad yw drwy adolygiad barnwrol.

Pur anaml y caiff ein penderfyniadau eu herio'n gyfreithiol ac nid oedd yr achos adolygiad barnwrol yn 2020/21. Fodd bynnag, fe wnaeth gynghorydd oedd yn cael ei ymchwilio am achos honedig o dorri'r Cod Ymddygiad gais am Waharddeb yn yr Uchel Lys i'n hatal rhag ymchwilio i'r cwyn. Gwrthodwyd y cais ac rydym bellach wedi cwblhau'r ymchwiliad ac wedi cyfeirio'r achos at Banel Dyfarnu Cymru.

## Meincnodi

Rydym yn datblygu drwy feincnodi ein gwaith yn erbyn arferion gorau ar draws y sector Ombwdsmyn. Yn 2020/21:

Fe wnaethom gynnal cysylltiadau agos a'n cydweithwyr yn y DU, Ewrop a thros y byd.

### Y Gymuned Ombwdsmyn

Er y cyfyngiadau oherwydd Covid-19, rydym wedi parhau i weithio'n agos â Chymdeithas yr Ombwdsmyn (OA), y Grŵp Ombwdsmyn Gwasanaethau Cyhoeddus a'r Sefydliad Ombwdsmyn Rhyngwladol (IOI). Yn 2020/21 fe wnaethom fynychu (a chadeirio weithiau) nifer o grwpiau budd Cymdeithas yr Ombwdsmyn gan ystyried materion cyfreithiol, adnoddau dynol, cyswllt cyntaf, gwaith achos, cyfathrebu a pholisi.

2020/21 hefyd oedd y flwyddyn olaf y byddai Nick Bennet yn cynrychioli'r DU ar fyrddau byd-eang ac Ewropeaidd yr IOI. Fe wnaethom gymryd rhan mewn cynadleddau a seminarau arfer da gan roi adborth ar gyhoeddiadau arfer da, fel y papur arfer gorau "Giving voice to mental health patients". Gallwch ddarllen y papur hwn yma.

### Comisiynwyr Cymru ac Archwilydd Cyffredinol Cymru

Mae Nick Bennett wedi parhau i gwrdd pob chwarter â Chomisiynwyr Cymru ac Archwilydd Cyffredinol Cymru i drafod materion o fudd cyffredin.


Mae ein staff hefyd wedi cyfarfod droeon, ar wahân i hynny, â chynrychiolwyr y swyddfeydd hyn, a gyda'r Comisiwn Cydraddoldeb a Hawliau Dynol, i drafod pethau fel ein dulliau polisi a gwaith achos a'n systemau TG. Gwerthfawrogwn y cyfleoedd hyn i rannu profiadau, arferion da a heriau gyda'n cydweithwyr. Maen nhw'n bwysicach nag erioed yng nghyd-destun yr heriau a gyflwynir gan Covid-19 i wasanaethau cyhoeddus yng Nghymru.

# Rheolaeth Ariannol


Mae gwariant cyffredinol ar adnoddau wedi cynyddu o'i gymharu â'r un cyfnod y llynedd, tra bod ein gofyniad arian parod cyffredinol wedi'i leihau trwy ad-dalu gwarged y gronfa bensiwn o £974,000.

| Alldro Adnoddau | 2020/21 | 2019/20 | Newid |
|---|---|---|---|
| | £000s | £000s | £000s |
| Cyfanswm Adnoddau | 5,143 | 4,871 | +272 |
| Gofyniad Arian Parod | 4,096 | 4,836 | -740 |

**Gwariant Adnoddau Gros 2020/21**




**Dadansoddiad o wariant yn ôl Nodau Strategol**




## Costau Uned

Mewn blynyddoedd blaenorol rydym wedi adrodd costau uned fel cyfanswm gwariant net y sefydliad wedi'i rannu gyda llwyth gwaith (ymholiadau a chwynion a dderbyniwyd yn ystod y flwyddyn. Tra bo cysondeb wrth gyflwyno o flwyddyn i flwyddyn yn gymorth, mae defnyddio'r dull hwn ar gyfer costau unedau wedi mynd yn fwyfwy hynafol. Er cysondeb rydym yn cynnwys, am y tro olaf, gost yr uned wedi'i chyfrifo yn y dull hwn, ond rydym hefyd yn dangos y dull y byddwn yn ei fabwysiadu ar gyfer y dyfodol.

Roedd y dull a ddefnyddiwyd yn y gorffennol yn ddeniadol oherwydd ei fod yn syml, ond oherwydd nifer o ffactorau nid yw bellach yn addas i bwrpas:

- Nid yw'r gwaith a gyflawnir gennym yn flynyddol yn cael ei gyfyngu i nifer y cwynion a dderbynnir yn y flwyddyn honno. Er enghraifft, yn ystod 2020/21, buom yn gweithio'n helaeth ar gwynion a dderbyniwyd yn ystod 2019/20. Golyga hyn bod yr amrywiadau mewn ymholiadau newydd a chwynion yn ystumio costau uned heb adlewyrchu'r gwaith a wnaed yn ystod y flwyddyn.
- Rydym wedi derbyn ad-daliad pensiwn o £974k yn ystod 2020/21, sy'n lleihau costau ein huned. Incwm untro yw hwn, sydd ar wahân i'r llwyth gwaith cwynion, felly mae'n ystumio costau uned eleni'n artiffisial, ac yn golygu na ellir eu cymharu gyda blynyddoedd blaenorol.
- Rydym wedi bod yn gweithio i gael mwy o effaith wrth wella gwasanaethau cyhoeddus ac ymdrin â chwynion cyrff cyhoeddus. Mae'r pwerau rhagweithiol o dan Ddeddf Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus (Cymru) 2019 yn caniatáu gwaith ar safonau cwynion a gwaith ymchwilio ar ein liwt ein hunain, ac nid yw costau'r rheini'n gysylltiedig ag ymholiadau a chwynion a dderbynnir yn ystod y flwyddyn. Po fwyaf o waith a wnawn ar y rhain, a pho fwyaf o lwyddiant a gawn wrth leihau niferoedd y cwynion, yr uchaf fydd costau unedau.

## Llwyth Gwaith o'i gymharu â Chost Unedau




| | 13/14 | 14/15 | 15/16 | 16/17 | 17/18 | 18/19 | 19/20 | 20/21 |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Llwyth gwaith | 5,392 | 5,766 | 5,999 | 6,804 | 7,114 | 7,116 | 7,200 | 6,179 |
| Cost Uned | £783 | £753 | £747 | £639 | £614 | £602 | £673 | £674 |


Llwyth gwaith — Cost Uned

Sylwer: Mae costau pob uned wedi'u haddasu ar gyfer 2020/21 er mwyn gallu cymharu'n ystyrlon.


Ein hargymhelliad ar gyfer y dyfodol yw cyflwyno costau unedau wedi'u cyfrifo ar gyfer ein prif weithgaredd, sef derbyn, ystyried, ymchwilio ac ymateb i ymholiadau a chwynion. Dyma ein gweithgarwch o dan Nod Strategol 1, a byddwn yn defnyddio'r ffigyrau dadansoddi ar gyfer Costau Gweithredu yn ôl Amcanion Strategol, a gyflwynir yn y cyfrifon archwiliedig hyn. Cyfrifir y rhain o'r Alldro Adnodau Refeniw Net, felly nid ydynt yn cael eu gwyrdroi gan y gwarged pensiwn untro. Er nad oes dull perffaith i gostau unedau (gan fod achosion yn cael eu cario drosodd o flwyddyn i'r llall), byddwn yn ystyried niferoedd y cwynion a'r ymholiadau caeedig yn y flwyddyn yn unedau mwy priodol ar gyfer cyfrifo costau uned.

Mae'r graffiau isod yn dangos yn gyntaf gost ar gyfer y gwaith ymholi a chwynion llawn a gwblhawyd yn ystod y flwyddyn, ac yn ail ar gyfer achosion cwynion a gwblhawyd yn ystod y flwyddyn.

## Cost Uned ar gyfer Cyfanswm y Swyddfa o ran Cau Achosion




## Cost Uned ar gyfer Cyfanswm y Swyddfa o ran Cau Cwynion




Sylwer: Mae'r graffiau hyn wedi'u seilio ar wariant y Nod Strategol hwn, ac wedi'u haddasu i brisiau 2020/21.

Mae costau'r unedau yn adlewyrchu newidiadau i gostau a nifer y cwynion ac ymholiadau a gwblhawyd yn ystod y flwyddyn.  Er enghraifft, mae costau 2019/20 yn cynnwys cynnydd sylweddol mewn cyfraniadau yswiriant cenedlaethol a phensiwn y cyflogwr.  At hynny, mae'r cynnydd mewn costau unedau yn adlewyrchu cymhlethdod yr achosion a ystyriwyd, gan gynnwys y cynnydd parhaus mewn cwynion yn ymwneud ag iechyd, sydd fel arfer yn gofyn am gyngor clinigol allanol, yn ein llwyth gwaith.

Mae rhan fwyaf o'n costau gweithredu yn weddol sefydlog, felly bydd costau unedau yn amrywio'n sylweddol wrth i niferoedd yr achoson gaewyd newid.  Yn 2020/21, roedd niferoedd yr achosion a gaewyd yn is nag mewn blynyddoedd diweddar, yn arbennig felly yn y chwarter cyntaf.  Yn ogystal, cafwyd oedi, eto'n benodol ym misoedd cynnar y flwyddyn, wrth i gyrff cyhoeddus fethu ymateb i ni yn y ffordd arferol yng nghamau cyntaf y pandemig.  Byddwn yn rheoli dilyniant achosion, cau achosion, a chostau unedau yn fanwl yn 2021/22.

## Gwariant hyd at 31 Mawrth 2021 o'i gymharu â'r flwyddyn flaenorol

| | 2020/21<br>£000 | 2019/20<br>£000 | Rhesymau am newidiadau arwyddocaol |
|---|---|---|---|
| Cyflogau | 2,905 | 2,582 | Dyfarniad cyflog o 2.75%, blwyddyn lawn o staff Pwerau Newydd, cynydd o 3 mewn FTE gan gynnwys recriwtio Swyddogion Ymchwilio Cyswllt a dros gyfnod mamolaeth. |
| Costau Nawdd Cymdeithasol | 283 | 252 | |
| Costau pensiwn | 758 | 685 | |
| Ffioedd y gronfa bensiwn | 20 | 33 | |
| **Cyfanswm** | **3,966** | **3,552** | |
| Rhentu o dan brydlesi gweithredol | 238 | 237 | |
| Ffi Archwilio Allanol | 17 | 15 | |
| Ffioedd proffesiynol a chyfreithiol | 193 | 230 | Rheolaeth barhaus o ran cyngor proffesiynol a gostyngiad o ran ffioedd cyfreithiol. |
| Costau eiddo eraill | 123 | 135 | Arbedion trwy gau Swyddfa oherwydd Covid-19. |
| Gwasanaethau cyfrifiadurol | 309 | 209 | Pob Staff wedi'u cyfarparu'n llawn ar gyfer gweithio o gartref. |
| Costau swyddfa | 151 | 169 | Prynu ffotogopiwyr yn 2019/20. |
| Teithio a Chynhaliaeth | 1 | 45 | Llai o deithio oherwydd pandemig Covid-19. |
| Hyfforddi a Recriwtio | 55 | 93 | Recriwtio yn y Tîm Gwella yn 2019/20. |
| Cyfathrebu | 41 | 87 | Sesiynau hyfforddi CSA a gynhaliwyd yn rhithiol. |
| Dibrisiant | 61 | 60 | |
| **Cyfanswm Costau Gweinyddol Eraill** | **1,189** | **1,280** | |
| **Costau Gros** | **5,155** | **4,832** | |
| Incwm | (991) | (14) | Ad-dalu Gwarged y Gronfa Bensiwn. |
| **Gwariant Net** | **4,164** | **4,818** | |
| Cyfalaf | 5 | 53 | Buddsoddiad cyfalaf is yn 2020/21. |
| **Adnoddau Net** | **4,169** | **4,871** | |

Mae gwybodaeth fanylach yn y datganiadau ariannol a'r nodiadau sy'n atodiad i'r cyfrifon.

**Nick Bennett**

*Llofnod* **N Bennett**

**Swyddog Cyfrifyddu**

Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru

7 Gorffennaf 2021



# Adroddiad Atebolrwydd

## 2020/21

# Adroddiad Llywodraethu Corfforaethol

## Adroddiad yr Ombwdsmon

O dan Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006, cyllidir y swyddfa drwy Gronfa Gyfunol Cymru. Rhaid ad-dalu unrhyw falansau arian na chawsant eu gwario i'r Gronfa hon bedair wythnos fan bellaf ar ôl i gopi ardystiedig o'r cyfrifon gael ei osod gerbron Senedd Cymru. Mae hyn yn creu mwy o reolaeth gan fod angen mynd ati'n effeithiol i reoli'r gyllideb ar sail arian ac ar sail adnoddau. Mae cyflog deiliad swydd Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru, a'r costau cysylltiedig, yn gost uniongyrchol i Gronfa Gyfunol Cymru ac yn cael eu gweinyddu drwy Senedd Cymru.

Ar 31 Mawrth 2021, mae'r Swyddfa, sydd wedi'i lleoli ym Mhencoed, Pen-y-bont ar Ogwr yn cynnwys 75 aelod o staff llawn a rhan-amser, gan gynnwys yr Ombwdsmon, y Prif Swyddog Gweithredu a Chyfarwyddwr Gwelliant a'r Prif Gynghorwr Cyfreithiol a Chyfarwyddwr Ymchwiliadau, yn ogystal â staff ymchwilio a chymorth.


Roedd Senedd Cymru wedi darparu £4.1 miliwn tuag at gyllido'r Swyddfa a chawsom £974k ym mis Rhagfyr 2020 yn ymwneud ag ad-dalu gwarged Cronfa Bensiwn Caerdydd a'r Fro. Mae £20k o'r arian hwn i fod i gael ei roi yn ôl i Gronfa Gyfunol Cymru gan ei fod yn arian na chafodd ei ddefnyddio ar ddiwedd y flwyddyn. Cadwyd gwariant y swyddfa o fewn yr Amcangyfrif y cytunwyd arno ym mis Tachwedd 2019 a'i ddiwygio gan Gyllidebau Atodol yn ystod 2020/21.

Mae'r tabl isod yn dangos bod y Swyddfa, am y tro cyntaf ers 2013/14, wedi gweld gostyngiad yn y llwyth gwaith cyffredinol y gellir ei briodoli i bandemig Covid-19, a chynnydd bach dilynol yng nghost yr uned.

| Llwyth | Ymholiadau | Cwynion Cod | Cwynion Cyrff | Cyfanswm Llwyth gwaith | Cost uned |
|---|---|---|---|---|---|
| **2013/14** | 3,234 | 226 | 1,932 | 5,392 | £783 |
| **2014/15** | 3,470 | 231 | 2,065 | 5,766 | £753 |
| **2015/16** | 3,731 | 276 | 1,992 | 5,999 | £747 |
| **2016/17** | 4,512 | 236 | 2,056 | 6,804 | £639 |
| **2017/18** | 4,861 | 270 | 1,983 | 7,114 | £614 |
| **2018/19** | 4,627 | 282 | 2,207 | 7,116 | £602 |
| **2019/20** | 4,726 | 365 | 2,109 | 7,200 | £673 |
| **2020/21** | 3,774 | 535 | 1,874 | 6,183 | £674 |

Mae dadansoddiad o llwyth achosion newydd i'r Swyddfa yn 2020/21 wedi'i ddadelfennu'n fisol yn dangos sut yr effeithiwyd yn ddifrifol ar hanner cyntaf y flwyddyn gan y pandemig a'r cloi, cyn i gwynion ac ymholiadau godi i'r lefel uchaf a welodd y Swyddfa erioed ym mis Mawrth 2021.

**Llwyth achosion - Ebrill 2020 i Mawrth 2021**




## Taliadau a Rhwymedigaethau Pensiwn

Ceir manylion costau cyflog a chostau cysylltiedig yr Ombwdsmon a'r Swyddfa yn yr Adroddiad Taliadau.

Mae’r ymrwymiadau pensiwn i staff blaenorol a phresennol yn cael eu cyflawni drwy Brif Gynllun Pensiwn y Gwasanaeth Sifil (PCSPS) a’r pensiynau sy’n cael eu talu’n uniongyrchol i gyn-Gomisiynwyr neu eu dibynyddion. Daeth y rhwymedigaeth i'r Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol i ben ym mis Ebrill 2020 yn dilyn ymddeoliad yr aelod olaf a oedd yn cyfrannu.

Mae manylion pellach i’w gweld yn y Datgeliadau Pensiynau.

## Llywodraethu Corfforaethol

Mae deiliad swydd Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru yn Gorfforaeth Unigol. Yn ogystal â hynny, wrth ymgymryd â fy rôl fel Ombwdsmon, fe’m penodwyd yn Swyddog Cyfrifyddu’r cronfeydd cyhoeddus, ac yn y cyswllt hwn y mae’r Senedd Cymru yn ymddiried ynof i gyflawni fy swyddogaethau.

Mae’r Pwyllgor Archwilio a Sicrhau Risg yn cynorthwyo’r Ombwdsmon drwy adolygu pa mor gynhwysfawr a dibynadwy yw sicrwydd a llywodraethu, rheoli risgiau, yr amgylchedd rheoli ac uniondeb datganiadau ariannol a’r adroddiad blynyddol.  Mae manylion pellach i’w gweld yn y Datganiad Llywodraethu Blynyddol.

## Cofrestr Buddiannau

Mae cofrestr buddiannau yn cael ei chadw ar gyfer yr Ombwdsmon, y Cyfarwyddwyr ac aelodau'r Panel Ymgynghorol, a’r Pwyllgor Archwilio a Sicrhau Risg.

## Cyfarwyddyd Cyfrifyddu

O dan y Cyfarwyddyd Cyfrifon a gyhoeddwyd gan Drysorlys EM, dyddiedig 21 Rhagfyr 2006, roedd yn ofynnol i mi ddarparu cyfrifon ar gyfer y flwyddyn ariannol a ddaeth i ben ar 31 Mawrth 2021 yn unol ag egwyddorion cyfrifyddu a gofynion datgelu yn yr argraffiad o Lawlyfr Adroddiadau Ariannol y Llywodraeth (y FReM) a gyhoeddwyd gan Drysorlys EM ac a oedd mewn grym yn 2020/21.

Paratowyd y cyfrifon er mwyn:

- Rhoi darlun teg a chywir o’r sefyllfa ar 31 Mawrth 2021, ac o'r alldro adnoddau net, yr adnoddau a ddefnyddiwyd i gyflawni amcanion, enillion a cholledion cydnabyddedig a’r llifoedd arian ar gyfer y flwyddyn ariannol a ddaeth i ben bryd hynny.
- Datgelu gwybodaeth am unrhyw wariant neu incwm o bwys na chafodd ei ddefnyddio at y dibenion y'u bwriadwyd gan Senedd Cymru neu drafodion o bwys nad oeddynt yn cydymffurfio â’r awdurdodau sy'n eu rheoli.

## Archwilwyr

Archwilydd Cyffredinol Cymru yw Archwilydd Allanol cyfrifon OGCC fel y nodwyd ym mharagraff 18 o Atodlen 1 o Ddeddf Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus (Cymru) 2019.

Cost archwiliad 2020/21 oedd £17k (2019/20: £15k).

Hyd y gwn, rwyf wedi cymryd pob cam angenrheidiol i sicrhau bod yr archwilwyr yn ymwybodol o unrhyw wybodaeth sy’n berthnasol i archwilio.

**Nick Bennett**

*Llofnod* **N Bennett**

**Swyddog Cyfrifyddu**

Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru 7 Gorffennaf 2021

## Datganiad Cyfrifoldebau'r Swyddog Cyfrifyddu

O dan Ddeddf Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus (Cymru) 2019, fel Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru, mae'n rhaid i mi baratoi cyfrifon adnoddau, ar gyfer pob blwyddyn ariannol, yn nodi'r adnoddau a brynwyd, a oedd yn cael eu dal neu y cafwyd gwared arnynt yn ystod y flwyddyn, yn ogystal â'r defnydd o adnoddau gan y Swyddfa yn ystod y flwyddyn.

Paratoir y cyfrifon adnoddau ar sail croniadau a rhaid iddynt roi darlun gwir a theg o sefyllfa OGCC a'i alldro adnoddau net, Datganiad Sefyllfa Ariannol a llifoedd arian am y flwyddyn ariannol.

Wrth baratoi'r cyfrifon, fel y Swyddog Cyfrifyddu, rhaid i mi gydymffurfio â gofynion 'Llawlyfr Adroddiadau Ariannol y Llywodraeth' ac yn benodol:

- Glynu wrth y Cyfarwyddyd Cyfrifon a gyhoeddir gan Drysorlys EM, gan gynnwys y gofynion cyfrifyddu a datgelu perthnasol, a defnyddio polisïau cyfrifyddu addas yn gyson.
- Gwneud penderfyniadau ac amcangyfrifon ar sail resymol.
- Dweud a yw'r safonau cyfrifo perthnasol fel y'u nodwyd yn Llawlyfr Adroddiadau Ariannol y Llywodraeth wedi cael eu dilyn, a datgelu ac egluro unrhyw wyriadau o bwys yn y datganiadau ariannol.
- Paratoi'r datganiadau ariannol ar sail busnes byw.
- Cadarnhau bod yr Adroddiad Blynyddol a'r Cyfrifon yn eu cyfanrwydd yn deg, yn gytbwys ac yn ddealladwy.
- Cymryd cyfrifoldeb personol am yr Adroddiad Blynyddol a'r Cyfrifon a'r barnau sy'n ofynnol ar gyfer penderfynu ei fod yn deg, yn gytbwys ac yn ddealladwy.

Mae fy nghyfrifoldebau perthnasol fel Swyddog Cyfrifyddu yn cynnwys priodoldeb a rheoleidd-dra'r arian cyhoeddus y mae'r Swyddog Cyfrifyddu'n atebol amdanynt, am gadw cofnodion priodol a diogelu asedau'r Swyddfa fel y nodir yn Rheoli Arian Cyhoeddus a Deddf Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus (Cymru) 2019.

Fel y Swyddog Cyfrifyddu, rwyf wedi cymryd pob cam y dylwn fod wedi'u cymryd i sicrhau fy mod yn ymwybodol o unrhyw wybodaeth archwilio berthnasol ac i sicrhau bod archwilwyr yr Ombwdsmon yn ymwybodol o'r wybodaeth honno. Hyd y gwn i, nid oes dim gwybodaeth archwilio berthnasol nad yw'r archwilwyr yn ymwybodol ohoni.

# Datganiad Llywodraethu Blynyddol 2020/21

## Statws Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru

Fel y nodwyd yn Atodlen 1, paragraff 2 o Ddeddf Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus (Cymru) 2019, mae'r Ombwdsmon yn Gorfforaeth Unigol sy'n dal y swydd dan Ei Mawrhydi, ac yn cyflawni ei ddyletswyddau ar ran y Goron. Mae Atodlen 1 i baragraff 19 yn datgan mai'r Ombwdsmon yw Swyddog Cyfrifyddu Swyddfa'r Ombwdsmon.

## Cwmpas y Cyfrifoldeb

Wrth gyflawni fy swyddogaeth fel Swyddog Cyfrifyddu, rwyf yn sicrhau bod y Swyddfa'n gweithio'n effeithiol ac i safon uchel o ran uniondeb. Yn ogystal, rwyf yn gyfrifol am gynnal system reolaeth fewnol gadarn sy'n cefnogi'r broses o gyflawni polisïau, nodau ac amcanion Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru, gan hefyd ddiogelu'r asedau a'r arian cyhoeddus yr wyf i yn bersonol gyfrifol amdanynt, yn unol â'r cyfrifoldebau a roddwyd i mi yn "Rheoli Arian Cyhoeddus".

Rwyf yn annibynnol ar Senedd Cymru, ond yn atebol i'w Bwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus am y defnydd o adnoddau a ddarperir i gefnogi fy swyddogaethau statudol. Wrth bennu lefel yr adnoddau sydd ar gael i'r Swyddfa, ystyrir y cynigion ar gyfer cyllideb Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru gan Bwyllgor Cyllid Senedd Cymru yn unol â'r broses a nodir yn y Ddeddf. Byddaf yn llunio Adroddiad a Chyfrifon Blynyddol cyfun i'w rhoi gerbron y Pwyllgor Cydraddoldeb, Llywodraeth Leol a Chymunedau a'r Pwyllgor Cyllid.

Disgwylir i mi gynnwys y datganiad hwn gyda fy adroddiad blynyddol a'r cyfrifon i egluro sut yr eir ati i lywodraethu fy Swyddfa ac i sicrhau bod hynny yn bodloni gofynion y Cod Llywodraethu Corfforaethol a'r Llyfr Oren. Er mwyn gallu bodloni'r gofynion hyn, rwyf wedi sefydlu strwythurau, systemau a gweithdrefnau priodol sy'n gynhwysfawr ac sy'n rhoi tystiolaeth i mi fod y trefniadau llywodraethu'n gweithio fel y'u bwriadwyd ar draws y sefydliad cyfan a'i weithgareddau. Mae trefniadau o'r fath yn cynnwys fy Fframwaith Llywodraethu, rheolaeth fewnol gynhwysfawr, trefniadau archwilio mewnol ac allanol effeithiol a gweithdrefnau rheolaeth ariannol gadarn, cynllunio risg a monitro.

## Cynllunio Strategol a Monitro Perfformiad

Yn fy Nghynllun Strategol am y tair blynedd 2019/20 i 2021/22, rwyf wedi sefydlu'r canlynol ar gyfer y Swyddfa:

## Ein Gweledigaeth ar gyfer gwasanaethau cyhoeddus yng Nghymru:

Gwasanaethau sy'n gwrando'n ac yn dysgu o gwynion.

## Ein Cenhadaeth:

Cadarnhau cyfiawnder a gwella gwasanaethau cyhoeddus.

## Ein Hamcanion Strategol:

- Nod Strategol 1: Sicrhau Cyfiawnder
  Gwasanaeth cwynion teg, annibynnol, cynhwysol ac ymatebol.
- Nod Strategol 2: Hyrwyddo Dysgu, Gweithio i Wella Gwasanaethau Cyhoeddus
  Hyrwyddo dysgu o gwynion ac ysgogi gwelliannau ar raddfa ehangach.
- Nod Strategol 3: Defnyddio Adnoddau'n Ddoeth a Sicrhau bod y Sefydliad yn Addas ar gyfer y Dyfodol
  Nodi a mabwysiadu arfer gorau. Sicrhau gwerth am arian a gwasanaethau sy'n addas ar gyfer y dyfodol. Cefnogi staff a sicrhau dulliau llywodraethu da sy'n ein cefnogi a'n herio.

Er mai gwaith y timau unigol yn y Swyddfa yw rhoi'r camau a nodwyd ar waith, mae'r Tîm Rheoli'n monitro'r cynnydd a wneir yn erbyn targedau a'r canlyniadau a sicrhawyd drwy adroddiadau misol.

## System Rheolaeth Fewnol

Mae'r system reolaeth fewnol wedi'i llunio i reoli risg ar lefel resymol yn hytrach nag i gael gwared â phob risg o fethu â chyflawni polisïau, nodau ac amcanion; felly dim ond sicrwydd rhesymol, ac nid sicrwydd llwyr o effeithiolrwydd y gall ei gynnig. Mae'n seiliedig ar broses barhaus a luniwyd i ganfod a blaenoriaethu'r risgiau o ran cyflawni fy mholisïau, fy nodau a'm hamcanion, i werthuso'r tebygolrwydd y bydd y risgiau hynny'n cael eu gwireddu, a'u heffaith pe bai hynny'n digwydd, ac i'w rheoli'n effeithiol, yn effeithlon ac yn ddarbodus.

Mae'r system wedi bod mewn grym gan Swyddfa OGCC am y flwyddyn a ddaeth i ben 31 Mawrth 2021 a hyd at ddyddiad cymeradwyo'r cyfrifon hyn, ac mae'n cydymffurfio â chyfarwyddyd Trysorlys EM. Ni effeithiodd newidiadau o ganlyniad i bandemig Covid-19 ar Reolaethau Mewnol. Ni chanfuwyd gwendidau sylweddol o ran rheolaeth fewnol yn sgil gwaith archwilio ac mae camau i wella rheolaeth ymhellach yn cael eu rhoi ar waith yn brydlon ac yn cael eu monitro gan y Pwyllgor Archwilio a Sicrhau Risg.

## Trefniadau Llywodraethu Corfforaethol: Y Pwyllgor Archwilio a Sicrhau Risg

Mae trefniadau llywodraethu yn cynnwys Pwyllgor Archwilio a Sicrhau Risg (ARAC). Dyma gyfrifoldebau'r Pwyllgor:

### (a) Cylch Gorchwyl

Mae'r Pwyllgor yn fy nghynorthwyo drwy adolygu pa mor gynhwysfawr a dibynadwy yw sicrwydd ar lywodraethu, rheoli risg, yr amgylchedd rheoli ac uniondeb datganiadau ariannol a'r adroddiad blynyddol.

### (b) Aelodaeth

Mae'r aelodaeth yn cynnwys o leiaf bedwar, ac uchafswm o wyth, aelod allanol annibynnol. Yn dilyn ymarfer recriwtio a gynhaliwyd ym mis Mehefin 2020 i ystyried cyfnodau rhai aelodau sy'n dod i ben yn 2021, penodwyd dau aelod ychwanegol i'r ARAC o fis Medi 2020.

Roedd y canlynol yn aelodau o'r Pwyllgor yn 2020-2021; Mr Jim Martin, cyn Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus yr Alban, Dr Tom Frawley CBE, cyn Gomisiynydd Cwynion ac Ombwdsmon Cynulliad Gogledd Iwerddon, Mr Jonathan Morgan, cyn Aelod Cynulliad a chyn Gadeirydd Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus y Cynulliad Cenedlaethol, Mrs Anne Jones, cyn Gomisiynydd Gwybodaeth Gynorthwyol, Mr Trevor Coxon, cyn Swyddog Monitro Bwrdeistref Sirol Wrecsam, Mr Ian Williams, cyn Brif Weithredwr Grŵp Hendre cyf, Mr Mike Usher, cyn Gyfarwyddwr Archwilio Cymru a Mr John McSherry, cyn Uwch-Reolwr Admiral Group Limited.

Ym mis Gorffennaf 2020, ymddiswyddodd Mr Morgan fel Aelod Annibynnol a Chadeirydd ARAC ac, yn unol ag argymhelliad yr Aelodau Annibynnol, penodais Mr Williams i ymgymryd â swydd y Cadeirydd o fis Medi 2020 ymlaen.

## (c) Hyfforddiant

Gwahoddir Aelodau'r Pwyllgor i asesu eu hanghenion hyfforddi yn flynyddol. Darperir rhaglen gynefino ar gyfer holl aelodau newydd y Pwyllgor Archwilio a Sicrhau Risg. Yn 2020, derbyniodd yr aelodau hyfforddiant ar ymwybyddiaeth Seiberddiogelwch a Rhagfarn Ddiarwybod.

Darparodd Tîm Diogelu Seiber, Tarian, Hyfforddiant Ymwybyddiaeth Seiberddiogelwch i aelodau ARAC ynghyd â Thîm Rheoli'r Swyddfa. Tarian yw'r Uned Seiberdroseddu Ranbarthol, a ariennir yn rhannol gan y Swyddfa Gartref a thri Heddlu De Cymru sy'n gweithio ar y cyd â Llywodraeth Cymru. Mae'r Tîm Diogelu yn codi ymwybyddiaeth o seiberdroseddu ac yn awgrymu sut i gynyddu amddiffyniad yn ei erbyn.

Darparwyd yr hyfforddiant Rhagfarn Ddiarwybod gan Carolyn Hirst, cyn Ddirprwy Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus yr Alban a Phrif Ombwdsmon Dros Dro, Gwasanaethau Ombwdsmon.

## (d) Cyfarfodydd

Mae'r Pwyllgor yn llunio ei raglen waith flynyddol ei hun. Yn gyffredinol, mae'r Pwyllgor yn cyfarfod pedair gwaith yn ystod y flwyddyn. Fodd bynnag, oherwydd newid yn amserlen y cyfarfodydd, dim ond tri chyfarfod a gynhaliwyd yn 2020/21. Oherwydd y pandemig Covid-19 parhaus, cynhaliwyd pob cyfarfod o bell gan ddefnyddio Zoom. Newidiodd y Tîm Rheoli amserlen y cyfarfodydd yn ystod y flwyddyn i'w cynnal ym mis Ionawr, Ebrill, Gorffennaf a Hydref, o fis Ionawr 2021, gan symud cyfarfod traddodiadol mis Mawrth i fis Ebrill i adlewyrchu amseriad y Cyfrifon Blynyddol yn well.

Rwy'n mynd i gyfarfodydd y Pwyllgor Archwilio a Sicrhau Risg ac mae'r Prif Swyddog Gweithredol yn gweithredu fel Ysgrifennydd y Pwyllgor. Hefyd yn bresennol yn rheolaidd mae archwilwyr mewnol ac allanol ac aelodau priodol o Dîm Rheoli'r Ombwdsmon.

Ymhob cyfarfod, mae'r Pwyllgor wedi cael nifer o eitemau sefydlog ar yr agenda. Mae'r rhain yn cynnwys unrhyw ddatganiad o dwyll neu golledion a gafwyd, gan gynnwys colli data. Ym mhob cyfarfod, cafodd y Pwyllgor gopi o'r adroddiad Monitro'r Gyllideb a ystyriwyd gan y Tîm Rheoli. Bwriad hyn yw rhoi sicrwydd i'r Pwyllgor bod craffu ar sefyllfa ariannol yn digwydd yn rheolaidd yn y Swyddfa.

Yn ystod y flwyddyn hefyd cafodd y Pwyllgor adroddiadau ar nifer o faterion priodol eraill sy’n dod o fewn ei Gylch Gorchwyl. Roedd y rhain yn cynnwys cyfrifon 9 a 12 mis, cynlluniau archwilio mewnol, adolygiad o’r Polisi Chwythu’r Chwiban, adolygiad o drefniadau llywodraethu, diweddariadau ar ddatblygiadau TG pwysig, cynnydd ar weithredu’r Cynllun OTC Strategol a materion ariannol a llywodraethu corfforaethol perthnasol a gyhoeddwyd gan Drysorlys EM. Bu’r Pwyllgor yn adolygu trefniadau Atal Twyll y Swyddfa, yng nghyd-destun Fframwaith Atal Twyll Swyddfa’r Cabinet i fodloni’i hun bod trefniadau priodol ar waith.

Rhoddodd y Pwyllgor gyngor i mi i sicrhau bod Datganiad Llywodraethu Blynyddol 2020/21 yn cynnwys gwybodaeth briodol a’i fod yn cydymffurfio ag arferion gorau.

Mae rheoli risg yn eitem sefydlog. Ym mhob cyfarfod bu'r Pwyllgor yn ystyried adroddiad ynglŷn â’r risgiau mwyaf a nodwyd. Aeth y Pwyllgor ati i archwilio a herio’r risgiau a adroddwyd i fodloni ei hun bod pob risg allweddol wedi’i nodi. Cafodd mesurau rheoli risg a lliniaru risg hefyd eu hystyried.

Yn ystod y flwyddyn, daeth cyfnod un aelod i ben, ac ymunodd dau aelod newydd â’r Pwyllgor. Roedd nifer y cyfarfodydd a fynychwyd, ynghyd â nifer y cyfarfodydd yr oedd gofyn i bob aelod ei fynychu, fel a ganlyn:

| **Presenoldeb:** | |
|---|---|
| Jonathan Morgan (Cadeirydd ym mis Gorffennaf) | 1 |
| Ian Williams (Cadeirydd ers mis Medi) | 3 |
| Jim Martin | 3 |
| Anne Jones | 3 |
| Trevor Coxon | 3 |
| Tom Frawley | 3 |
| Mike Usher (ers mis Medi 2020) | 2 |
| John McSherry (ers mis Medi 2020) | 2 |

Mynychodd pob aelod 100% o'r cyfarfodydd yr oeddent yn gymwys i'w mynychu.

## (e) Archwilio Mewnol ac Allanol

Cafodd y Pwyllgor adroddiadau rheolaidd gan yr archwilwyr mewnol a'r archwilwyr allanol. Cynlluniwyd gwaith Deloitte, yr Archwilwyr Mewnol, yn ystod y flwyddyn ar sail asesiad cyffredinol o'u hanghenion ac a gyflawnwyd drwy eu pedwaredd raglen flynyddol. Roedd ei adroddiadau yn nodi'r fframwaith rheolaeth fewnol foddhaol yn y sefydliad a gwnaed argymhellion ar gyfer gwella lle'r oedd angen.

Ym mhob archwiliad heblaw un, barnwyd fod lefel y sicrwydd yn 'Sylweddol', y lefel sicrwydd uchaf. Gwnaethpwyd nifer o argymhellion a oedd â blaenoriaeth isel ac mae'r rhain naill ai wedi'u cwblhau neu byddant yn cael eu cwblhau o fewn amserlenni y cytunwyd arnynt. Yn ogystal, cynhaliwyd archwiliad cynghorol o Bwerau Newydd o dan drefniadau Deddf OGCC 2019 ym mis Hydref 2020.

Roedd yr archwiliadau mewnol a gynhaliwyd yn 2020/21 a'r asesiadau cyffredinol fel a ganlyn:

| | Lefel Sicrwydd |
|---|---|
| Llesiant Staff | **SYLWEDDOL** |
| Llywodraethu Corfforaethol a Rheoli Risg | **SYLWEDDOL** |
| Rheoli Cofnodion | **CYMEDROL** |
| **Systemau Ariannol:** | |
| Bancio a Rheoli Arian Parod | **SYLWEDDOL** |
| Rheolaeth Gyllidebol | **SYLWEDDOL** |
| Cyflogres | **SYLWEDDOL** |

Nodwyd yn Adroddiad Blynyddol yr archwilwyr mewnol ar gyfer 2020/21: 'Yn seiliedig ar gasgliadau ein gwaith, gallwn roi **sicrwydd sylweddol** i'r Ombwdsmon ynglŷn â threfniadau'r sefydliad o ran rheoli risg, llywodraethu a rheolaeth fewnol.' Nododd y Pwyllgor drylwyredd y gwaith archwilio, ymarferoldeb yr argymhellion ac ymateb agored a chadarnhaol y rheolwyr i'r argymhellion a wnaed.

Ystyriodd y Pwyllgor yr Adroddiad Blynyddol a Chyfrifon a oedd yn cynnwys Datganiad Llywodraethu'r Swyddfa ar gyfer 2019/20 ynghyd ag Adroddiad Archwiliad Allanol o Ddatganiadau Ariannol a Llythyr Rheoli. Rhoddwyd barn ddiamod yn dilyn y gwaith archwilio allanol a gynhaliwyd gan Archwilio Cymru ar Gyfrifon 2019/20. Nid oedd unrhyw argymhellion yn deillio o'r Archwiliad. Cafodd casgliadau'r archwiliad allanol ar gyfer y flwyddyn ariannol 2019/20 eu hadolygu yng nghyfarfod mis Medi 2020 y Pwyllgor.

Mae gan yr Archwilwyr Mewnol ac Allanol yr hawl i godi unrhyw fater drwy bolisi mynediad agored gyda’r Cadeirydd a thrwy'r hawl honno i ddwyn unrhyw fater i sylw'r Pwyllgor.  Sicrhaodd y Pwyllgor, drwy adolygu rhaglenni'r Archwilwyr Mewnol ac Allanol, eu bod yn cydweithredu'n effeithiol â'i gilydd.  Mae ansawdd y gwaith archwilio wedi cael ei werthuso yn ystod y flwyddyn drwy ystyried yr adroddiadau archwilio a’r argymhellion a’r ddeialog mewn cyfarfodydd rhwng Aelodau’r Pwyllgor a’r Archwilwyr.

I sicrhau y gellir codi materion priodol yn gyfrinachol mae Cadeirydd y Pwyllgor yn cynnal cyfarfod bob blwyddyn â chynrychiolwyr yr Archwilwyr Allanol a Mewnol.  Cynhaliwyd cyfarfod o’r fath 30 Mawrth 2021.

### (f) Prosesau Monitro

Ym mhob cyfarfod yn ystod 2020/21, cafodd y Pwyllgor adroddiad ar y cynnydd sydd wedi’i wneud o ran gweithredu ar argymhellion yr Archwilwyr Mewnol ac Allanol.  Roedd aelodau'r Pwyllgor yn fodlon bod yr holl argymhellion a wnaed wedi cael neu am gael eu rhoi ar waith yn unol â’r amserlenni y cytunwyd arnynt.

### (g) Adolygiad ac Asesiad Blynyddol

Cynhelir yr adolygiad blynyddol hwn er mwyn gwerthuso gwaith y Pwyllgor a sicrhau bod gwaith y Pwyllgor Archwilio a Sicrhau Risg yn parhau i gydymffurfio â'r Egwyddorion Arfer Da sydd wedi'u nodi yn Llawlyfr Pwyllgorau Archwilio Trysorlys EM.  I helpu'r Pwyllgor benderfynu a oedd yn cydymffurfio ag arferion da, gwahoddwyd pob aelod i lenwi 'Rhestr Wirio Hunanasesiad Pwyllgorau Archwilio’ Swyddfa Archwilio Genedlaethol.  Cafodd sylwadau gan aelodau o'r Pwyllgor eu hystyried wrth baratoi'r Adroddiad Blynyddol ar gyfer 2020/21.

Casgliad Adolygiad Blynyddol y Pwyllgor Archwilio a Sicrhau Risg oedd ei fod wedi cael gwybodaeth a sicrwydd cynhwysfawr a oedd yn ddibynadwy ac yn ddigon iddo gyflawni ei gyfrifoldebau.  Roedd y sicrwydd hwn yn dangos bod yr amgylchedd rheolaeth fewnol cyffredinol, adroddiadau ariannol, rheoli risg ac ansawdd y gwaith Archwilio Allanol a Mewnol yn foddhaol.

Felly, roedd y Pwyllgor yn gallu rhoi sicrwydd y byddai’n fy nghynorthwyo i fel Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru i gydymffurfio â fy nyletswyddau fel Swyddog Cyfrifyddu.  Rhoddodd y Pwyllgor dystiolaeth a fyddai'n helpu gyda'r gwaith o baratoi’r Datganiad Llywodraethu Blynyddol hwn.

## Y Panel Ymgynghorol

Mae’r Panel Ymgynghorol yn fforwm anstatudol a’i brif rôl yw fy nghynorthwyo a fy nghynghori’r wrth arwain a phennu amcanion strategol Swyddfa Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru.  Hefyd, mae’r Panel yn cynnig persbectif allanol i helpu gyda’r gwaith o ddatblygu polisïau ac arferion.

Cynhaliwyd ymarfer recriwtio ym mis Mehefin 2020 i benodi dau aelod ychwanegol i’r Panel i ystyried cyfnodau rhai aelodau a ddaeth i ben yn 2021. Ymunodd dau aelod newydd â’r Panel: Mr Mike Usher a Ms Rhiannon Ivens, cyn Brif Arolygydd yr Heddlu yn Heddlu Dyfed-Powys.  Ymddiswyddodd Ms Ivens o'r Panel ym mis Mawrth 2021.

Cynghori yn unig yw gwaith y Panel Ymgynghorol, ac nid yw'n gwneud penderfyniadau ei hun.

## Rhoi Gwybod am Ddigwyddiadau sy’n Ymwneud â Data Personol

Mae’r holl ddigwyddiadau sy'n ymwneud â data personol yn cael eu hadrodd i’r Pwyllgor Archwilio a Sicrhau Risg, ni waeth a yw OGCC ar fai ai peidio.  Pan fydd OGCC ar fai, Mae canllawiau a gyhoeddwyd gan Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth (ICO) yn cael eu hystyried i sefydlu a oes angen adrodd y digwyddiad i'r swyddfa honno.  Yn ystod 2020/21, roedd angen rhoi gwybod i'r ICO am un digwyddiad.

## Y Fframwaith Risg a Rheoli

Yn unol â 'Rheoli Arian Cyhoeddus Cymru' rwyf yn cael fy nghynorthwyo gan Gyfrifydd Ariannol proffesiynol a chymwysedig sy'n ymgymryd â chyfrifoldebau'r cyfarwyddwr cyllid fel sy'n cael ei nodi yn y ddogfen honno.

Mae rheoli risg a'r gofrestr risgiau yn eitemau sefydlog ar Agenda'r Pwyllgor Archwilio a Sicrhau Risg, ac mae'r agwedd at reoli risg, ynghyd â chwant risg, yn cael eu hadolygu'n rheolaidd.

Rwyf yn parhau i wella'r trefniadau ar gyfer rheolaeth fewnol gadarn er mwyn sicrhau bod y swyddfa'n gallu canfod, asesu a rheoli risg yn effeithiol.

Wrth ymgymryd â'r cyfrifoldeb hwn yn ystod y flwyddyn a ddaeth i ben ar 31 Mawrth 2021, cefais gymorth gan y Prif Swyddog Gweithredol y dirprwywyd rhai o'm cyfrifoldebau iddo.

Rwy'n fodlon bod y systemau sydd ar waith yn nodi risgiau posibl yn gynnar ac yn caniatáu imi gymryd camau priodol, trwy reolaeth weithredol, i leihau unrhyw effaith andwyol ar y swyddfa.

Mae'r Pwyllgor Archwilio a Sicrhau Risg yn derbyn adroddiadau rheolaidd ar y risgiau sy'n ymwneud â'r swyddfa, yn archwilio dull y swyddfa o ymdrin â'r risgiau hynny ac yn darparu sylwadau ac awgrymiadau ar risgiau cyfredol a rhai sy'n dod i'r amlwg.

Mae risgiau'n cael eu hystyried ar draws nifer o feysydd allweddol neu orwelion risg. Mae'r rhain yn cynnwys:

- risgiau a allai effeithio ar fy ngallu i gyflawni fy swyddogaethau craidd
- risgiau sy'n effeithio ar ddiogelwch data
- risgiau ariannol
- risgiau llywodraethiant
- risgiau sy'n effeithio ar gyfleusterau a threfniadau cefnogaeth (fel eiddo a gwasanaethau TG).

Dyma'r prif risgiau a nodwyd ar ddiwedd y flwyddyn:

| Gorwel Risg | Risg yn effeithio ar: | Rheoli a lliniaru'r risg: | Risgiau sy'n anodd cael gwared arnynt: |
|---|---|---|---|
| **Swyddogaeth graidd - Niferoedd yr Achosion a chwrdd â Dangosyddion Perfformiad Allweddol (KPIs)** | Effaith debygol Covid-19 ar niferoedd yr achosion a'r gallu i gwrdd â Dangosyddion Perfformiad Allweddol. Mae'n bosibl y bydd y pandemig yn parhau i effeithio ar allu cyrff cyhoeddus i ymgysylltu â'm swyddfa, gan achosi oedi.<br><br>Ar ben hynny, roedd nifer y cwynion ym mis Mawrth 2021 yn eithriadol o uchel. Os bydd hyn yn parhau, bydd pwysau niferoedd achosion ac amseroldeb yn sylweddol. | Monitro a rheoli niferoedd cwynion a, chyn belled ag y bo modd, adnoddau staff. Gweithio yn agos ac yn gefnogol â chyrff cyhoeddus. | Mae'r cynnydd diweddar yn nifer y cwynion newydd, ynghyd ag oedi posibl wrth gael ymatebion gan gyrff cyhoeddus, yn golygu bod y risg sy'n anodd cael gwared arni yn **GOCH**. |
| **Gwybodaeth a diogelwch system corfforol a seiber** | Oherwydd y nifer cynyddol o ymosodiadau maleiswedd / gwe-rwydo ar sefydliadau tebyg, ystyrir bod y risg hon yn uchel. | Gwneud defnydd llawn o gymorth a chyngor TG yn ogystal â meddalwedd gwrthfeirws a meddalwedd diogelwch arall. Cynyddu ymwybyddiaeth a gwyliadwriaeth staff trwy hyfforddiant. | Mae graddfa debygol yr effaith ar OGCC o unrhyw ymosodiad llwyddiannus yn golygu bod y risg sy'n anodd cael gwared arni yn cael ei hystyried yn **GOCH**. |

## Trefniadau Fframwaith Sicrhau Risg

| Fframwaith OGCC | | | |
|---|---|---|---|
| • Amcanion Strategol o'r Cynllun Corfforaethol<br>• Rhaglen waith<br>• Rheoli Risg<br>• Polisi atal twyll<br>• Fframwaith llywodraethu<br>• Polisïau, gweithdrefnau a chod ymddygiad | | | |
| **Panel Ymgynghorol** | **Swyddog Cyfrifyddu** | **Y Pwyllgor Archwilio a Sicrhau Risg** | **Tîm Rheoli** |
| Yn darparu cefnogaeth a chyngor ar weledigaeth, gwerthoedd a dibenion ynghyd â chyfeiriad a chynllunio strategol. | Llywodraethu.<br>Gwneud penderfyniadau.<br>Rheolaeth ariannol.<br>Rheoli risg. | Adolygu a monitor systemau llywodraethu, risgiau a rheolaethau mewnol. Cytuno ar y datganiad llywodraethu. | Cynllun corfforaethol 3-blynedd.<br>Cynllun gweithredol.<br>Monitro perfformiad.<br>Polisïau corfforaethol.<br>Rheoli risg.<br>Gwerth am arian. |

| **Arweiniad Canolog** | **Polisïau, cynlluniau a chofrestr risg Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru** | **Datganiad Llywodraethu Blynyddol** |
|---|---|---|
| Trysorlys EM.<br>FReM.<br>Rheoli Arian Cyhoeddus Cymru.<br>Archwiliad Mewnol y Sector Cyhoeddus. | | |

| Cydrannau Map Sicrwydd | | |
|---|---|---|
| **Haen amddiffyn 1af**<br>Adrodd ar gyflawni strategol a gweithredol.<br>Adrodd KPI.<br>Rheolyddion ariannol/monitro cyllidebau. | **2il Haen amddiffyn**<br>Adolygu cofrestr risg.<br>Sicrhau ansawdd.<br>Sicrhau diogelwch gwybodaeth. | **3ydd Haen amddiffyn**<br>Adroddiadau archwilio mewnol.<br>Archwiliadau cyfrifo ariannol di-rybudd. |
| **Sicrwydd Arall**<br>Archwilio allanol.<br>Craffu gan y Pwyllgor Cyllid a PAC. | | |

Yn y flwyddyn sydd i ddod, byddaf i a fy Nhîm Rheoli yn parhau i weithio i reoli a lleihau'r risgiau yn y meysydd allweddol hyn a bydd y risgiau yn cael eu hystyried ym mhob cyfarfod o'r Pwyllgor Archwilio a Sicrhau Risg.

## Y Broses Gyllidebu

Yn rhinwedd fy swydd fel Swyddog Cyfrifyddu, rwyf yn sicrhau bod gennyf drefniadau ar waith sy'n cadw rheolaeth dynn ar yr arian cyhoeddus sydd yn fy ngofal. Mae'r Tîm Rheoli yn cael adroddiad monitro cyllideb bob mis sy'n nodi gwir wariant o'i gymharu â'r gwariant a glustnodwyd yn y gyllideb. Mae unrhyw faterion annisgwyl yn ymwneud â gwariant sy'n codi yn ystod y flwyddyn yn cael eu trafod a'r camau sydd angen eu cymryd i sicrhau bod y swyddfa yn cadw o fewn y gyllideb y cytunwyd arni. Ni chododd dim materion yng nghyswllt cyllideb OGCC ar gyfer 2020/21.

O ran y broses llunio amcangyfrif ariannol OGCC ar gyfer 2020/21, cafodd papur yn nodi meini prawf cychwynnol ar gyfer y gyllideb ei drafod gan y Panel Ymgynghorol ym mis Mehefin 2020. At ei gilydd, roedd y cyllidebau adnoddau ac arian parod yn wastad a chawsant eu cynnal ar lefelau 2020/21. Craffodd y Pwyllgor Cyllid y papur ym mis Hydref 2020 a chafodd y swm llawn a geisiwyd ei gynnwys yn y Cynnig Cyllideb Flynyddol ym mis Mawrth 2021.

## Casgliad

Ni effeithiodd y pandemig na gweithio o'r cartref ar system rheolaethau mewnol y Swyddfa. Gallaf ddatgan nad oedd gwendidau o bwys yn y system rheolaeth fewnol yn 2020/21 a fyddai wedi effeithio ar allu'r Swyddfa i gyflawni ei pholisïau, ei nodau a'i hamcanion a bod trefn Lywodraethu Gorfforaethol gadarn ar waith heb unrhyw enghreifftiau o dorri'r Cod Llywodraethu Corfforaethol.

*Llofnod* **N Bennett**

**Nick Bennett**

**Swyddog Cyfrifyddu**
Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru 7 Gorffennaf 2021

# Adroddiad Taliadau

## Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru

Mae Deddf Llywodraeth Cymru 2006 yn darparu bod fy nhaliadau a chostau pensiwn ac yswiriant gwladol cysylltiedig yn cael eu talu o Gronfa Gymunedol Cymru, yn hytrach na chael eu talu'n uniongyrchol. Mae'r costau hyn wedi'u cynnwys yn yr adroddiad taliadau er mwyn sicrhau tryloywder.

## Taliadau

Mae'r adrannau canlynol yn nodi tâl a buddiannau pensiwn uwch reolwyr y Swyddfa: Nick Bennett - Ombwdsmon, Chris Vinestock - Prif Swyddog Gweithredu a Chyfarwyddwr Gwelliant a Katrin Shaw - Cyfarwyddwr Polisi, Cyfraith a Llywodraethu.

| Un Cyfanswm Tâl | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| 2020/21 | | | | | |
| **Swyddogion** | **Cyflog (£'000)** | **Taliadau Bonws (£'000)** | **Buddion mewn ffyrdd eraill (i'r £100 agosaf)** | **Buddiannau pensiwn (i'r £1000 agosaf)** | **Cyfanswm (£'000)** |
| Nick Bennett | 150-155 | - | - | 59,000 | 210-215 |
| Chris Vinestock | 105-110 | - | - | 75,000 | 180-185 |
| Katrin Shaw | 90-95 | - | - | 61,000 | 150-155 |

| Un Cyfanswm Tâl | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| 2019/20 | | | | | |
| **Swyddogion** | **Cyflog (£'000)** | **Taliadau Bonws (£'000)** | **Buddion mewn ffyrdd eraill (i'r £100 agosaf)** | **Buddiannau pensiwn (i'r £1000 agosaf)** | **Cyfanswm (£'000)** |
| Nick Bennett | 150-155 | - | - | 58,000 | 205-210 |
| Chris Vinestock | 100-105 | - | - | 75,000 | 175-180 |
| Katrin Shaw | 85-90 | - | - | 75,000 | 160-165 |

Mae Actiwari'r Cynllun wedi cynghori ynghylch newid yn y ffordd y mae budd-dal pensiwn yn cael eu cyfrif.  O 17 Ionawr 2020, ni fydd ffactorau addasu GMP bellach yn berthnasol mewn cyfrifiadau ar gyfer aelodau sy'n cyrraedd oedran pensiwn y wladwriaeth ar 6 Ebrill 2016 neu ar ôl hynny, ac mae hyn wedi effeithio ar y datgeliad Budd-dal Pensiwn uchod ar gyfer 2020/21.

## Cyflog

Mae'r cyflog yn cynnwys cyflog gros, taliadau goramser ac unrhyw lwfansau eraill i'r graddau bod trethiant y DU yn berthnasol iddynt.

## Buddion o fath arall

Mae gwerth ariannol unrhyw fuddion o fath arall yn cynnwys unrhyw wariant a dalwyd gan OGCC ac sy'n cael ei drin gan Gyllid a Thollau EM fel enillion trethadwy.  Ni fu gwariant o'r fath.

## Taliadau bonws

Ni thalwyd bonws yn ystod y flwyddyn i mi nac i unrhyw aelod o staff yn fy swyddfa am nad oes cynllun bonws ar waith.

## Cymarebau tâl

Roedd tâl band y cyfarwyddwr sy'n cael y cyflog mwyaf yn y flwyddyn ariannol 2020/21 yn £150-£155,000 (2019/20 = £150-£155,000).  Roedd hyn 3.5 (2019/20 = 3.6) yn fwy na thâl canolrifol y gweithlu, a oedd yn £43,857 (2019/20 = £42,684).  Yn 2020/21, ni chafodd dim cyflogai daliad a oedd yn fwy na thâl y cyfarwyddwr sy'n cael y cyflog mwyaf (2019/20 = dim un).

Roedd ystod y taliadau rhwng £20,000 i £155,000 (2019/20, £20,000-£155,000). Mae'r cyfanswm tâl yn cynnwys cyflog, tâl seiliedig ar berfformiad heb ei gyfuno, a buddion o fath arall.  Nid yw'n cynnwys taliadau diswyddo, taliadau dros dro, cyfraniadau pensiwn y cyflogwr na gwerth trosglwyddo cyfwerth ag arian pensiynau.

## Dyfarniadau cyflog

Mae cyflogau'r staff yn gysylltiedig â dyfarniadau cyflog a roddir i weithwyr sy'n gweithio ym maes Llywodraeth Leol yng Nghymru a Lloegr.  Yn unol â'r weithdrefn honno, rhoddwyd codiad cyflog o 2.75% i staff ym mis Ebrill 2020.

## Pensiynau

Isod, dangosir hawliau pensiwn yr unigolion a enwir uchod:

## Rhwymedigaethau Pensiwn

Mae'r ymrwymiadau pensiwn i staff blaenorol a phresennol yn cael eu cyflawni drwy'r Prif Gynllun Pensiwn y Gwasanaeth Sifil (PCSPS) a'r pensiynau sy'n cael eu talu'n uniongyrchol i gyn Gomisiynwyr neu eu dibynyddion.

| Enw | Ar 31/03/21 | | | | | Ar 31/03/20 |
|---|---|---|---|---|---|---|
| | Pensiwn crondedig ar oedran pensiwn a'r cyfandaliad cysylltiedig | Gwir gynnydd mewn pensiwn a chyfandaliad cysylltiedig ar oedran pensiwn | CETV | Gwir gynnydd mewn CETV | Cyfraniad y cyflogwr at gyfrifon pensiwn partneriaeth | CETV |
| | £000 | £000 | £000 | £000 | I'r £100 agosaf | £000 |
| Nick Bennett | 50-55 | 2.5-5 | 623 | 31 | - | 559 |
| Chris Vinestock | 65-70 | 2.5-5 | 997 | 50 | - | 912 |
| Katrin Shaw | 35-40 | 2.5-5 | 617 | 40 | - | 553 |

Mae CETV yn cyfeirio at y gwerth trosglwyddo sy'n cyfateb i arian parod, a gellir dod o hyd i ragor o wybodaeth yn y Datgeliadau Pensiynau.

## Salwch

Yn ystod y flwyddyn, collwyd 3.0 diwrnod fesul cyflogai ar gyfartaledd oherwydd salwch o'i gymharu â 9.0 diwrnod yn 2019/20. Mae hyn gyfwerth ag 1.1% (3.4% yn 2019/20) o gyfanswm y diwrnodau gwaith posibl. Mae hyn yn adlewyrchu absenoldebau tymor byr arferol a salwch tymor hir.

## Adrodd am gynlluniau Gwasanaeth Sifil chynlluniau iawndal eraill

Ni thalwyd dim pecynnau ymadael yn 2020/21 (2019/20 Dim).

## Y Panel Ymgynghorol a’r Pwyllgor Archwilio a Sicrhau Risg

Gwnaed y taliadau amhensiynadwy canlynol, sy’n seiliedig ar gyfradd ddyddiol, i aelodau’r Panel Ymgynghorol a’r Pwyllgor Archwilio a Sicrhau Risg:

| | 2020/21 | 2019/20 |
|---|---:|---:|
| Anne Jones | 2,221 | 1,263 |
| Ian Williams | 2,011 | 933 |
| Trevor Coxon | 1,711 | 933 |
| Jim Martin | 1,711 | 933 |
| Tom Frawley | 1,711 | 622 |
| Jane Martin | 1,482 | 564 |
| Jonathan Morgan | 1,082 | 1,263 |
| Mike Usher | 1,050 | - |
| John McSherry | 900 | - |
| Rhiannon Ivens | 900 | - |

Oherwydd amseriad hwyr cyfarfod Mawrth 2020, gwnaed taliad ym mis Ebrill 2020, sy'n golygu bod ffigurau 2020/21 yn cynnwys 4 taliad.  Mae ffigurau 2019/20 yn cynnwys 3 taliad am y rheswm hwn.

Mae’r ffigyrau hyn hefyd yn cynnwys taliadau a wnaed i aelodau am fynychu sesiynau hyfforddiant Seiberddiogelwch a Rhagfarn Ddiarwybod am hanner diwrnod yn ystod 2020/21.

At ddibenion adrodd ynghylch staff, gweler yr Adroddiad Blynyddol ar Gydraddoldeb.

*Llofnod* **N Bennett**

### Nick Bennett

**Swyddog Cyfrifyddu**

Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru — 7 Gorffennaf 2021

## Adroddiad Archwiliad ac Atebolrwydd Senedd Cymru

Yn ogystal â'r prif ddatganiadau a baratowyd yn unol â'r **Safonau Adrodd Ariannol Rhyngwladol (IFRS)**, mae Llawlyfr Adroddiadau Ariannol y Llywodraeth (FReM) yn ei gwneud yn ofynnol i'r Ombwdsmon baratoi datganiad a nodiadau cefnogi i ddangos alldro adnoddau yn erbyn yr Amcangyfrifon o'r Cyflenwad a gyflwynir i'r Senedd, yng nghyswllt pob cais am adnodd.

### Crynodeb Alldro Adnoddau Net ar gyfer y flwyddyn a ddaeth i ben ar 31 Mawrth 2021

| | Amledd Diwygedig | | | Alldro | | | | 2019/20 |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | Gwariant Gros | Incwm | Cyfanswm Net | Gwariant Gros | Incwm | Cyfanswm Net | Cyfanswm alldro net o'i gymharu â'r amcangyfrif | Cyfanswm Net |
| | £000 | £000 | £000 | £000 | £000 | £000 | £000 | £000 |
| Refeniw | 5,262 | (991) | 4,271 | 5,155 | (991) | 4,164 | 107 | 4,818 |
| Cyfalaf | 25 | - | 25 | 5 | - | 5 | 20 | 53 |
| **Adnodd DEL** | **5,287** | **(991)** | **4,296** | **5,160** | **(991)** | **4,169** | **127** | **4,871** |
| Adnodd AME | 974 | - | 974 | 974 | - | 974 | - | - |
| **Cyfanswm Adnoddau** | **6,261** | **(991)** | **5,270** | **6,134** | **(991)** | **5,143** | **127** | **4,871** |
| **Gofynion arian parod Net** | **4,096** | **-** | **4,096** | **5,067** | **(991)** | **4,076** | **20** | **4,836** |

Mae'r newid yn y gwarged Pensiwn yn cydnabod y tâl i Adnoddau AME i wneud iawn am yr incwm a dderbynnir.  O dan IAS19, dengys y newid hwn yn y Datganiad o Newidiadau mewn Trethdalwyr yn y cyfrifon.

| **Cysoni Alldro Adnoddau Net â'r Datganiad o Wariant Net Cynhwysfawr** | **£000** |
|---|---|
| Cyfanswm Alldro Adnoddau | 5,143 |
| Cyfalaf | (5) |
| Newid yn y gwarged pensiwn | (974) |
| **Datganiad o Wariant Net Cynhwysfawr** | **4,164** |

# Cysoni Adnoddau Net â'r Gofynion Arian Parod Net

ar gyfer y flwyddyn a ddaeth i ben ar 31 Mawrth 2021

| | Nodyn | 2020/21 | | | 2019/20 |
|---|---|---|---|---|---|
| | | Amcangyfrif diwygiedig | Cyfanswm yr Alldro Net | Cyfanswm alldro net o'i gymharu â'r amcangyfrif diwygiedig | Alldro |
| | | £000 | £000 | £000 | £000 |
| Refeniw Net | 2-4 | 4,271 | 4,164 | 107 | 4,818 |
| Cyfalaf Net | 6 | 25 | 5 | 20 | 53 |
| Adnodd AME | | 974 | 974 | - | - |
| **Cyfanswm Adnoddau** | | **5,270** | **5,143** | **127** | **4,871** |
| Symudiadau mewn darpariaethau | 10 | 20 | 10 | 10 | (1) |
| Taliadau Cyfalaf | 6 | (60) | (61) | 1 | (60) |
| Symudiadau mewn cyfalaf gwaith | 7-9 | (160) | (42) | (118) | 26 |
| Addasiadau | | (974) | (974) | - | - |
| **Gofyniad arian parod net** | | **4,096** | **4,076** | **20** | **4,836** |

*Llofnod* **N Bennett**

## Nick Bennett

**Swyddog Cyfrifyddu**

Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru 7 Gorffennaf 2021

# Tystysgrif ac adroddiad archwilydd annibynnol Archwilydd Cyffredinol Cymru ar gyfer y Senedd

## Barn ar y datganiadau ariannol

### Barn

Tystiaf fy mod wedi archwilio datganiadau ariannol Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru ar gyfer y flwyddyn a ddaeth i ben ar 31 Mawrth 2021 o dan baragraff 18 (2) o Atodlen 1 o Ddeddf Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus (Cymru) 2019. Mae'r rhain yn cynnwys y Crynodeb neu Alldro Adnoddau Net, Datganiad o Wariant Net Cynhwysfawr, Datganiad o'r Sefyllfa Ariannol, Datganiad Cyfunol o Lifau Arian, Datganiad o Newidiadau mewn Trethdalwyr a'r nodiadau cysylltiedig, gan gynnwys crynodeb o bolisïau cyfrifyddu pwysig. Paratowyd y datganiadau ariannol hyn o dan y polisïau cyfrifyddu a nodir ynddynt. Y fframwaith adrodd ariannol a gymhwyswyd wrth eu paratoi yw'r gyfraith berthnasol a Llawlyfr Adroddiadau Ariannol Trysorlys EM yn seiliedig ar y Safonau Adrodd Ariannol Rhyngwladol (IFRS) fel y'u mabwysiadwyd gan Safonau Cyfrifyddu'r Undeb Ewropeaidd.

Yn fy marn i, mae’r datganiadau ariannol:

- Yn rhoi darlun gwir a theg o sefyllfa Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru ar 31 Mawrth 2021 ac o’i ofyniad arian parod net, alldro adnoddau net a chost gweithredu net, ar gyfer y flwyddyn a ddaeth i ben bryd hynny.
- Wedi eu paratoi’n briodol yn unol â safonau cyfrifyddu rhyngwladol fel y’u dehonglwyd ac y’u haddaswyd gan Lawlyfr Adroddiadau Ariannol Trysorlys EM.
- Wedi eu paratoi’n briodol yn unol â chyfarwyddiadau Trysorlys EM a gyhoeddwyd o dan Ddeddf Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus (Cymru) 2019.

### Barn ar reoleidd-dra

Yn fy marn i, ym mhob agwedd berthnasol, mae’r gwariant a’r incwm yn y datganiadau ariannol wedi eu cymhwyso at y dibenion a fwriadwyd gan y Senedd ac mae’r trafodiadau ariannol a gofnodir yn y datganiadau ariannol yn cydymffurfio â’r awdurdodau sy’n eu rheoli nhw.

## Sail y barnau

Cynhaliais fy archwiliad yn unol â'r gyfraith berthnasol a'r Safonau Rhyngwladol ar Archwilio yn y DU (Safonau Rhyngwladol ar Archwilio (DU)) a Nodyn Ymarfer 10 'Archwilio Datganiadau Ariannol Cyrff y Sector Cyhoeddus yn y Deyrnas Unedig'. Mae disgrifiad pellach o'm cyfrifoldebau o dan y safonau hynny yn adran cyfrifoldebau'r archwilydd wrth archwilio datganiadau ariannol fy adroddiad. Rwyf yn annibynnol o'r corff yn unol â'r gofynion moesegol sy'n berthnasol i'm harchwiliad o'r datganiadau ariannol yn y DU, gan gynnwys Safon Foesegol y Cyngor Adrodd Ariannol, ac rwyf wedi cyflawni fy nghyfrifoldebau moesegol eraill yn unol â'r gofynion hyn. Credaf fod y dystiolaeth archwilio yr wyf wedi ei chael yn ddigonol ac yn briodol i ddarparu sail i'm barnau.

## Casgliadau sy'n ymwneud â busnes gweithredol

Wrth archwilio'r datganiadau ariannol, rwyf wedi dod i'r casgliad bod y defnydd o sail gyfrifyddu busnes gweithredol wrth baratoi'r datganiadau ariannol yn briodol.

Yn seiliedig ar y gwaith a gyflawnais, nid wyf wedi nodi unrhyw ansicrwydd perthnasol sy'n ymwneud â digwyddiadau nac amodau a allai, yn unigol neu ar y cyd, fwrw amheuaeth sylweddol ar allu'r corff i barhau i fabwysiadu sail gyfrifyddu busnes gweithredol am gyfnod o ddeuddeng mis o leiaf o'r adeg pan awdurdodir cyhoeddiad y datganiadau ariannol.

Disgrifir fy nghyfrifoldebau a chyfrifoldebau y Swyddog Cyfrifyddu mewn cysylltiad â busnes gweithredol yn adrannau perthnasol yr adroddiad hwn.

## Gwybodaeth arall

Mae'r wybodaeth arall yn cynnwys yr wybodaeth a gynhwysir yn yr adroddiad blynyddol heblaw'r datganiadau ariannol a'm hadroddiad archwilydd arnynt. Nid yw'r ddeddfwriaeth na'r cfarwyddiadau a roddir i Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru yn nodi cynnwys na ffurf yr wybodaeth arall sydd i'w chyflwyno gyda'r datganiadau ariannol. Y Swyddog Cyfrifyddu sy'n gyfrifol am yr wybodaeth arall yn yr adroddiad blynyddol. Nid yw fy marn ar y datganiadau ariannol yn cwmpasu'r wybodaeth arall ac, oni nodir fel arall yn glir yn fy adroddiad, nid wyf yn mynegi unrhyw fath o sicrwydd ynghylch hynny. Fy nghyfrifoldeb i yw darllen yr wybodaeth arall ac, wrth wneud hynny, ystyried a yw'r wybodaeth arall yn anghyson yn berthnasol â'r datganiadau ariannol neu'r wybodaeth a gafwyd yn ystod yr archwiliad, neu ei bod yn ymddangos fel arall ei

bod wedi ei chamddatgan yn berthnasol.  Os byddaf yn nodi anghysondebau perthnasol o'r fath neu gamddatganiadau perthnasol amlwg, mae'n ofynnol imi benderfynu a yw hyn yn arwain at gamddatganiad perthnasol yn y datganiadau ariannol eu hunain.  Os byddaf, ar sail y gwaith a gyflawnais, yn dod i'r casgliad bod yr wybodaeth arall hon wedi ei chamddatgan yn berthnasol, mae'n ofynnol imi sôn am y ffaith honno.

Nid oes gennyf unrhyw beth i adrodd amdano i'r perwyl hwn.

## Adroddiad ynghylch gofynion eraill

### Barn ar faterion eraill

Oherwydd nad yw'r ddeddfwriaeth na'r cyfarwyddiadau a roddir i Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru yn nodi cynnwys na ffurf yr wybodaeth arall sydd i'w chyflwyno gyda'r datganiadau ariannol, ni allaf gadarnhau bod yr Adroddiad Blynyddol wedi ei pharatoi yn unol â'r canllawiau.

Yn fy marn i, yn seiliedig ar y gwaith a wnaed yn ystod fy archwiliad, mae'r wybodaeth a roddir yn yr Adroddiad Blynyddol yn gyson â'r datganiadau ariannol.

Er nad oes unrhyw ofynion deddfwriaethol ar gyfer Adroddiad Taliadau Cydnabyddiaeth, mae Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru wedi paratoi adroddiad o'r fath ac, yn fy marn i, mae'r rhan y mae'n ofynnol ei harchwilio fel arfer wedi ei pharatoi'n briodol yn unol â chanllawiau Trysorlys EM.

Er nad oes unrhyw ofynion deddfwriaethol ar gyfer y Datganiad Llywodraethu yn seiliedig ar y gwaith a wnaed yn ystod fy archwiliad, mae'r wybodaeth a roddir yn y Datganiad Llywodraethu Blynyddol ar gyfer y flwyddyn ariannol y paratoir y datganiadau ariannol ar ei chyfer yn gyson â'r datganiadau ariannol ac mae'r Datganiad Llywodraethu Blynyddol wedi'i baratoi yn unol âg arweiniad Trysorlys EM.

### Materion y byddaf yn adrodd arnynt drwy eithriad

Yng ngoleuni gwybodaeth a dealltwriaeth y corff a'i amgylchedd a gafwyd yn ystod y gwaith archwilio, nid wyf wedi nodi camddatganiadau perthnasol yn yr Adroddiad Blynyddol.

Nid oes gennyf unrhyw beth i'w nodi o ran y materion canlynol yr adroddaf i chi, os, yn fy marn i:

- nad oes cofnodion cyfrifyddu priodol wedi eu cadw, neu ni dderbyniwyd ffurflenni cyfrifyddu digonol ar gyfer fy archwiliad oddi wrth y canghennau nad yw fy nhîm wedi ymweld â nhw
- nad yw'r datganiadau ariannol yn cytuno â'r cofnodion a'r ffurflenni cyfrifyddu
- na ddatgelir gwybodaeth a bennir gan Drysorlys EM ynghylch taliadau cydnabyddiaeth a thrafodiadau eraill
- nad wyf wedi cael yr holl wybodaeth a'r esboniadau sydd eu hangen arnaf ar gyfer fy archwiliad.

## Cyfrifoldebau

### Cyfrifoldebau'r Swyddog Cyfrifyddu mewn cysylltiad â'r datganiadau ariannol

Fel yr esbonnir yn fanylach yn y Datganiad o Gyfrifoldebau'r Swyddog Cyfrifyddu, y Swyddog Cyfrifyddu sy'n gyfrifol am baratoi'r datganiadau ariannol yn unol â Deddf Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus (Cymru) 2019 a chyfarwyddiadau Trysorlys EM a wnaed yno, i fod yn fodlon eu bod yn rhoi darlun gwir a theg ac am y fath reolaeth fewnol y mae'r Swyddog Cyfrifyddu, yn penderfynu sy'n angenrheidiol er mwyn gallu paratoi datganiadau ariannol sy'n rhydd o gamddatganiadau perthnasol, boed hynny trwy dwyll neu wall.

Wrth baratoi'r datganiadau ariannol, y Swyddog Cyfrifyddu sy'n gyfrifol am asesu gallu'r corff i barhau fel busnes gweithredol, gan ddatgelu fel y bo'n briodol, faterion sy'n ymwneud â'r busnes gweithredol a defnyddio sail gyfrifyddu busnes gweithredol oni thybir bod hynny'n amhriodol.

### Cyfrifoldebau'r Archwilydd o ran archwilio'r datganiadau ariannol

Fy amcanion yw cael sicrwydd rhesymol ynghylch a yw'r datganiadau ariannol yn eu cyfanrwydd yn rhydd o gamddatganiadau perthnasol, boed hynny oherwydd twyll neu wall, a chyhoeddi adroddiad archwilydd sy'n cynnwys fy marn i.  Sicrwydd rhesymol yw lefel uchel o sicrwydd, ond nid yw'n gwarantu y bydd archwiliad a gynhelir yn unol â Safonau Archwilio Rhyngwladol (DU) yn canfod camddatganiad perthnasol bob amser pan fydd yn bodoli.  Gall camddatganiadau godi trwy dwyll neu wall a chânt eu hystyried yn berthnasol os, yn unigol neu gyda'i gilydd, gellid disgwyl yn rhesymol iddynt ddylanwadu ar benderfyniadau economaidd defnyddwyr ar sail y datganiadau ariannol hyn.

Afreoleidd-dra, gan gynnwys twyll, yw achosion o beidio â chydymffurfio â chyfreithiau a rheoliadau. Rwy'n cynllunio gweithdrefnau yn unol â'm cyfrifoldebau a amlinellir uchod, i ganfod camddatganiadau perthnasol mewn cysylltiad ag afreoleidd-dra, gan gynnwys twyll.

Roedd fy ngweithdrefnau'n cynnwys y canlynol:

- Holi'r rheolwyr a'r rhai sy'n gyfrifol am lywodraethu, gan gynnwys cael ac adolygu dogfennau ategol sy'n ymwneud â pholisïau a gweithdrefnau mewn cysylltiad â:
  - nodi, gwerthuso a chydymffurfio â chyfreithiau a rheoliadau ac a oeddent yn ymwybodol o unrhyw achosion o beidio â chydymffurfio
  - canfod ac ymateb i risgiau o dwyll ac a oes ganddynt wybodaeth am unrhyw dwyll gwirioneddol, tybiedig neu honedig
  - y rheolaethau mewnol a sefydlwyd i liniaru risgiau sy'n gysylltiedig â thwyll neu beidio â chydymffurfio â chyfreithiau a rheoliadau.
- Ystyried, gan weithredu fel tîm archwilio, sut a ble y gallai twyll ddigwydd yn y datganiadau ariannol ac unrhyw ddangosyddion twyll posibl. Yn rhan o'r drafodaeth hon, nodais y posibilrwydd o dwyll yn y meysydd canlynol: cydnabod refeniw, postio cylchgronau anarferol.
- Cael dealltwriaeth o fframwaith awdurdod Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru yn ogystal â fframweithiau cyfreithiol a rheoliadol eraill y mae Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru yn gweithredu ynddynt, gan ganolbwyntio ar y cyfreithiau a'r rheoliadau hynny a gafodd effaith uniongyrchol ar y datganiadau ariannol neu a gafodd effaith sylfaenol ar weithrediadau Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru.

Yn ogystal â'r uchod, roedd fy ngweithdrefnau ar gyfer ymateb i risgiau a nodwyd yn cynnwys y canlynol:

- adolygu datgeliadau y datganiad ariannol a phrofi dogfennau ategol er mwyn asesu cydymffurfedd â'r cyfreithiau a'r rheoliadau perthnasol a drafodir uchod
- holi'r rheolwyr, y Pwyllgor Archwilio a chynghorwyr cyfreithiol ynghylch cyfreithiad a honiadau gwirioneddol a phosibl
- darllen cofnodion cyfarfodydd y rhai sy'n gyfrifol am lywodraethu a'r Bwrdd Ymgynghorol

- wrth fynd i'r afael â'r risg o dwyll trwy wrth-wneud rheolaethau gan reolwyr, profi priodoldeb cofnodion mewn cyfnodolion ac addasiadau eraill; asesu a yw'r barnau a wneir wrth wneud amcangyfrifon cyfrifyddu yn arwydd o duedd bosibl; a gwerthuso rhesymeg busnes unrhyw drafodiadau arwyddocaol sy'n anarferol neu y tu allan i fusnes arferol.

Rwyf hefyd wedi cyfleu cyfreithiau a rheoliadau perthnasol a nodwyd a risgiau o dwyll posibl i bob aelod o'r tîm archwilio, gan barhau i fod yn effro i unrhyw arwyddion o dwyll neu beidio â chydymffurfio â chyfreithiau a rheoliadau trwy gydol yr archwiliad.

Mae'r anhawster cynhenid i ganfod afreoleidd-dra, effeithiolrwydd rheolaethau Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru, a natur, amseru a graddau'r gweithdrefnau archwilio a gyflawnir yn effeithio ar y graddau y gall fy ngweithdrefnau ganfod afreoleidd-dra, gan gynnwys twyll.

Ceir disgrifiad pellach o gyfrifoldebau'r archwilydd o ran archwilio'r datganiadau ariannol ar wefan y Cyngor Adrodd Ariannol www.frc.org.uk/auditorsresponsibilities. Mae'r disgrifiad hwn yn rhan o fy adroddiad archwilydd.

### Cyfrifoldebau rheoleidd-dra

Y Swyddog Cyfrifyddu sy'n gyfrifol am sicrhau rheoleidd-dra y trafodiadau ariannol.

Mae'n ofynnol imi gael digon o dystiolaeth i roi sicrwydd rhesymol imi fod y gwariant a'r incwm wedi eu cymhwyso at y dibenion a fwriadwyd gan y Senedd a bod y trafodiadau ariannol yn cydymffurfio â'r awdurdodau sy'n eu rheoli nhw.

## Adroddiad

Nid oes gennyf unrhyw sylwadau i'w gwneud ynghylch y datganiadau ariannol hyn.

| *Llofnod* |
|---|

**Adrian Crompton**

Archwilydd Cyffredinol Cymru
14 Gorffennaf 2021

**24 Heol y Gadeirlan**
**Caerdydd**
**CF11 9LJ**

Mae Archwilio Cymru wedi ardystio ac adrodd ar y cyfrifon hyn yn y ffurf y cawsant eu drafftio'n wreiddiol. Cyfieithiad o'r fersiwn Saesneg gwreiddiol yw'r fersiwn hwn. Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru sydd yn gyfrifol am gywirdeb y cyfieithiad, nid y Senedd.



# Cyfrifon Blynyddol

## 2020/21

# Datganiad o Wariant Net Cynhwysfawr

ar gyfer y flwyddyn a ddaeth i ben ar 31 Mawrth 2021

| Costau Gweinyddu | Nodyn | 2020/21 | 2019/20 |
|---|---|---|---|
| | | £000 | £000 |
| Costau staff | 2 | 3,966 | 3,552 |
| Costau gweinyddu eraill nad ydynt yn gostau staff | 3 | 1,189 | 1,280 |
| **Costau Gweinyddu Gros** | | **5,155** | **4,832** |
| Incwm Gweithredu | 4 | (991) | (14) |
| **Costau Gweinyddu Net** | | **4,164** | **4,818** |
| **Alldro Refeniw Net** | | **4,164** | **4,818** |

Mae nodiadau 1 i 18 yn rhan o'r datganiadau hyn.

Mae’r holl weithgareddau sydd wedi cychwyn yn y cyfnod yn parhau.

# Datganiad Sefyllfa Ariannol

ar gyfer y flwyddyn a ddaeth i ben ar 31 Mawrth 2021

| | Nodyn | 2020/21 | 2019/20 |
|---|---|---|---|
| | | £000 | £000 |
| **Asedau anghyfredol** | | | |
| Eiddo, Peiriannau a Chyfarpar | 6a | 170 | 202 |
| Asedau anniriaethol | 6b | 124 | 148 |
| Symiau derbyniadwy sy'n ddyledus ar ôl mwy na blwyddyn | 7 | 1 | 1 |
| Gwarged y gronfa bensiwn | Datgeliadau Pensiynau | - | 1,080 |
| | | **295** | **1,431** |
| **Asedau Cyfredol** | | | |
| Symiau masnach derbyniadwy a symiau derbyniadwy eraill | 7 | 228 | 207 |
| Arian parod a'r hyn sy'n gyfwerth ag arian parod | 8 | 20 | 48 |
| | | **248** | **255** |
| **Cyfanswm asedau** | | **543** | **1,686** |
| | | | |
| **Rhwymedigaethau cyfredol** | | | |
| Symiau masnach taladwy a symiau taladwy eraill | 9 | (250) | (210) |
| Darpariaethau llai na blwyddyn | 10 | (45) | (45) |
| | | **(295)** | **(255)** |
| | | | |
| **Cyfanswm yr asedau ar ôl tynnu'r rhwymedigaethau cyfredol** | | **248** | **1,431** |
| | | | |
| **Rhwymedigaethau anghyfredol** | | | |
| Symiau masnach taladwy a symiau taladwy eraill sy'n ddyledus ar ôl blwyddyn | 9 | (15) | (20) |
| Darpariaethau mwy na blwyddyn | 10 | (471) | (481) |
| | | **(486)** | **(501)** |
| | | | |
| **Cyfanswm yr asedau llai rhwymedigaethau** | | **(238)** | **930** |
| | | | |
| **Cronfa Gyffredinol** | | **(238)** | **930** |

Mae nodiadau 1 i 18 a'r Datgeliadau Pensiwn yn rhan o'r datganiadau hyn.

Cymeradwywyd y datganiadau ariannol y Swyddog Cyfrifyddu a'u hawdurdodi i'w cyhoeddi ar 7 Gorffennaf 2021 gan:

**Nick Bennett**

*Llofnod* **N Bennett**

**Swyddog Cyfrifyddu**

Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru

7 Gorffennaf 2021

# Datganiad Llif Arian

ar gyfer y flwyddyn a ddaeth i ben ar 31 Mawrth 2021

| | Nodyn | 2020/21 | 2019/20 |
|---|---|---|---|
| | | £000 | £000 |
| Mewnlif arian net drwy weithgareddau gweithredol | 11 | (4,071) | (4,783) |
| Llif arian net o weithgareddau buddsoddi | 12 | (5) | (53) |
| Cyllid gan Senedd Cymru | 13 | 4,096 | 4,884 |
| Balans arian parod y flwyddyn flaenorol wedi'i ad-dalu | | (48) | (20) |
| **Cynnydd (gostyngiad) net mewn symiau cyfwerth ag arian parod ar ôl addasu ar gyfer taliadau i Gronfa Gyfunol Cymru** | | **(28)** | **28** |
| | | | |
| **Arian parod a'r hyn sy'n gyfwerth ag arian parod ar ddechrau'r cyfnod** | | **48** | **20** |
| | | | |
| **Arian parod a'r hyn sy'n gyfwerth ag arian parod ar ddiwedd y cyfnod** | | **20** | **48** |

Mae nodiadau 1 i 18 yn rhan o'r datganiadau hyn.

# Datganiad Newidiadau yn Ecwiti Trethdalwyr

ar gyfer y flwyddyn a ddaeth i ben ar 31 Mawrth 2021

| **Cronfa Gyffredinol** | 2020/21 | 2019/20 |
|---|---|---|
| | £000 | £000 |
| **Balans ar 1 Ebrill** | **930** | **642** |
| | | |
| Costau gweithredu net | (4,164) | (4,818) |
| Cyllid gan Senedd Cymru | 4,096 | 4,884 |
| Yn ddyledus i Gronfa Gyfunol Cymru: | | |
| Arian parod | (20) | (48) |
| Incwm nad ydynt yn weithredu | - | - |
| Diffyg gwarged actwaraidd | (106) | 270 |
| Gwarged y Gronfa Bensiwn | (974) | - |
| **Cyfanswm yr incwm a'r costau cydnabyddedig am y flwyddyn** | **(1,168)** | **288** |
| **Balans ar 31 Mawrth** | **(238)** | **930** |

Mae nodiadau 1 i 18 a'r Datgeliadau Pensiwn yn rhan o'r datganiadau hyn.

# Nodiadau ar y Datganiadau Ariannol

## 1. Datganiad Polisïau Cyfrifyddu

Mae'r datganiadau ariannol hyn wedi cael eu paratoi yn unol â Llawlyfr Adroddiadau Ariannol y Llywodraeth (y Llawlyfr) a gyhoeddir gan Drysorlys EM sydd mewn grym ar gyfer 2020/21. Mae'r polisïau cyfrifyddu yn y Llawlyfr yn defnyddio Safonau Adroddiadau Ariannol Rhyngwladol fel y maent wedi cael eu mabwysiadu neu eu dehongli ar gyfer y sector cyhoeddus. Os yw'r Llawlyfr yn caniatáu dewis polisi cyfrifyddu, dewiswyd y polisi cyfrifyddu y tybiwyd iddo fod yr un mwyaf priodol i amgylchiadau arbennig Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru, at ddibenion rhoi darlun gwir a theg. Disgrifir y polisïau cyfrifyddu arbennig sydd wedi cael eu mabwysiadu gan Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru isod. Defnyddiwyd hwy'n gyson wrth ymdrin ag eitemau yr ystyrir eu bod yn berthnasol i'r cyfrifon.

### 1.1 Confensiwn Cyfrifyddu

Paratowyd y cyfrifon hyn dan y confensiwn cost hanesyddol wedi'i addasu i ystyried ailbrisio asedau sefydlog, os yw'n berthnasol i'w gwerth i'r busnes, drwy gyfeirio at eu costau cyfredol.

### 1.2 Eiddo, Peiriannau a Chyfarpar

Mae gwariant ar eiddo, peiriannau a chyfarpar yn cael ei gyfalafu lle disgwylir i'r hyn a brynir fod ag oes ddefnyddiol o fwy na blwyddyn a lle mae'r gost yn fwy na £5k. Gall asedau sy'n costio llai na £5k gael eu cyfalafu gyhyd â'u bod yn asedau cyfalaf a'u bod yn rhan o gynllun mwy sydd â chyfanswm dros £5k. Dangosir asedau ar sail eu cost, llai lwfans am ddibrisiant. Adeg eu cydnabod ar y cychwyn mesurir asedau , sefydlog ar sail eu cost, gan gynnwys costau megis costau gosod, y gellir eu priodoli'n uniongyrchol i fod yn rhai a ddefnyddiwyd i'w cael i weithio ar gyfer y defnydd y bwriadwyd hwynt. Wrth adolygu costau'r asedau sefydlog a gafwyd yn flaenorol a'r prisiau a dalwyd ar gyfer caffael eitemau newydd yn ystod y flwyddyn, nid oes gwahaniaeth mawr rhwng gwerth net hanesyddol ar bapur yr asedau a'u cost adnewyddu llai dibrisiant.

## 1.3 Dibrisiant

Caiff asedau eu dibrisio yn ôl cyfraddau a fydd yn eu gostwng i sero neu, os yw'n berthnasol, i amcangyfrif o'u gwerth gweddillol ar sail llinell syth dros eu hoes ddefnyddiol dybiedig yn dilyn taliad dibrisiant blwyddyn lawn cychwynnol ym mlwyddyn eu prynu.  Caiff asedau sy'n cael eu datblygu eu dibrisio o'r mis pan ddefnyddir yr asedau hynny gyntaf.

Ac eithrio pan nodir fel arall y tybir bod asedau byw fel a ganlyn:

| | |
|---|---|
| Peiriannau | 10 mlynedd neu gyfnod y brydles os yw'n llai |
| Dodrefn a ffitiau eraill | 10 mlynedd neu gyfnod brydles ar gyfer ffitiau |
| Cyfrifiaduron a chyfarpar arall | rhwng 3 a 10 mlynedd |

## 1.4 Asedau anniriaethol

Mae trwyddedau meddalwedd cyfrifiadurol a brynir a meddalwedd a ddatblygir yn cael eu cyfalafu os ydynt yn costio £5k neu ragor ac os yw eu hoes ddefnyddiol yn fwy na blwyddyn.  Gall asedau anniriaethol sy'n costio llai na £5k gael eu cyfalafu gyhyd â'u bod yn asedau cyfalaf a'u bod yn rhan o gynllun mwy sydd, â chyfanswm, dros £5k.  Caiff asedau anniriaethol eu hadolygu'n flynyddol er mwyn canfod lleihad yn eu gwerth a chânt eu datgan ar sail cost hanesyddol wedi'i hamorteiddio.  Caiff trwyddedau meddalwedd eu hamorteiddio dros gyfnod y drwydded neu dros oes economaidd ddefnyddiol yr offer cyfrifiadurol y maent wedi'u gosod arno, pa un bynnag yw'r byrraf.  Fel arfer, byddai hyn rhwng 3 a 5 mlynedd. Caiff meddalwedd a ddatblygir ei hamorteiddio dros ei hoes ddefnyddiol amcangyfrifedig.  Yn y flwyddyn y cânt eu prynu, mae taliadau amorteiddio yn cychwyn pan ddefnyddir yr asedau hynny gyntaf.

## 1.5 Treth ar Werth

Nid yw Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru wedi'i gofrestru ar gyfer TAW.  Felly datgelir gwariant yn cynnwys TAW.

## 1.6 Pensiynau

Mae'r ymrwymiadau pensiwn i staff blaenorol a phresennol yn cael eu cyflawni drwy ddarpariaethau Prif Gynllun Pensiwn y Gwasanaeth Sifil (PCSPS), drwy'r Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol a weinyddir drwy Gynllun Pensiwn Caerdydd a Bro Morgannwg (y Gronfa), a thrwy daliadau uniongyrchol i ddau Gomisiynydd blaenorol dros Weinyddu Lleol yng Nghymru ac unrhyw fuddiolwr sy'n dal yn fyw.

Datgelir y manylion llawn yn y Datgeliadau Pensiynau ar ddiwedd y Datganiadau Ariannol.  Caiff costau darparu'r pensiynau hyn eu cynnwys yn y Datganiad Gwariant Net Cynhwysfawr gyda'r enillion a'r colledion actwaraidd sy'n gysylltiedig â Chynllun Pensiwn Caerdydd a Bro Morgannwg yn cael eu cynnwys yn y flwyddyn y maent codi.

## 1.7 Costau gadael yn fuan

Lle mae'n ofynnol i Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru dalu costau ychwanegol buddion sy'n fwy na'r buddion arferol a delir dan y cynllun pensiwn priodol i weithwyr sy'n ymddeol yn gynnar, caiff y costau hyn eu cynnwys yn llawn yn y Datganiad Gwariant Net Cynhwysfawr pan fydd y rhwymedigaeth yn codi.

## 1.8 Prydlesi

Codir tâl am y gwariant ar eiddo a brydlesir yn ystod y cyfnod y mae'n berthnasol iddo.

## 1.9 Costau Staff

Yn unol ag IAS 19, caiff buddion tymor byr cyflogeion, megis cyflogau a chyfraniadau nawdd cymdeithasol, gwyliau blynyddol â thâl ac absenoldeb salwch â thâl, yn ogystal â buddion anariannol ar gyfer cyflogeion cyfredol, eu cydnabod pan fydd cyflogai wedi darparu gwasanaethau yn gyfnewid am y buddion hynny.

## 1.10 Darpariaethau

Symiau yw'r rhain y mae'r swm neu'r amseru sy'n berthnasol iddynt yn ansicr ar ddyddiad y fantolen ac maent yn cynrychioli'r amcangyfrif gorau o'r gwariant sydd ei angen i setlo'r ymrwymiadau.  Pan fydd effaith gwerth arian o ran amser yn sylweddol, caiff y llifoedd arian amcangyfrifedig yr addaswyd yn ôl risg eu disgowntio gan ddefnyddio'r gyfradd ddisgownt a argymhellir gan Drysorlys EM.

## 1.11 Incwm

Caiff yr holl incwm ei gydnabod yn y Datganiad o Wariant Net Cynhwysfawr yn unol â IAS 18 ac IFRS 15.

## 1.12 Effaith Safonau heb fod ar waith eto

| Safon | Dyddiad dod i rym | Rhagor o fanylion |
|---|---|---|
| Prydlesi IFRS 16 | 2022-23<br><br>Gohiriwyd y gweithredu o 2020-21 oherwydd Covid-19 | Bydd IFRS 16 yn disodli safon brydlesi gyfredol IAS 17 ac yn ei gwneud yn ofynnol i brydlesai gydnabod asedau a rhwymedigaethau ar gyfer prydlesi gyda thymor o fwy na 12 mis, oni bai bod yr ased sylfaenol o werth isel. Mae'n ofynnol i brydlesai gydnabod ased hawl i ddefnyddio sy'n cynrychioli ei hawl i ddefnyddio'r ased prydles sylfaenol ac atebolrwydd prydles sy'n cynrychioli ei rwymedigaeth i wneud taliadau prydles. O ganlyniad, mae prydlesai hefyd yn cydnabod dibrisiant yr ased hawl i ddefnyddio a'r llog ar atebolrwydd y brydles ac yn dosbarthu ad-daliadau arian parod rhwymedigaeth y brydles yn gyfran prif a llog. Mae hwn yn newid sylweddol mewn cyfrifyddu prydles. |
| Contractau Yswiriant IFRS 17 | 2023-24<br>ar y cynharaf | Mae IFRS 17 yn disodli Contractau Yswiriant IFRS 4, ac mae angen model mesur cyfredol, gan ddefnyddio gwybodaeth wedi'i diweddaru ar rwymedigaethau a risgiau, ac sy'n ei gwneud yn ofynnol i ganlyniadau gwasanaeth gael eu cyflwyno ar wahân i incwm neu gost cyllid. Mae'n berthnasol i bob contract yswiriant a gyhoeddir, ni waeth pa fath o endid sy'n cyhoeddi'r contractau, felly nid yw'n berthnasol i gwmnïau yswiriant yn unig. |

## 2. Niferoedd a Chostau Staff

| Roedd y costau cyflogaeth gyda'i gilydd fel a ganlyn: | 2020/21 | 2019/20 |
|---|---|---|
| | **£000** | **£000** |
| Staff parhaol: | | |
| Cyflogau | 2,856 | 2,582 |
| Costau Nawdd Cymdeithasol | 280 | 252 |
| Costau Pensiwn | 751 | 685 |
| Ffioedd cronfa bensiwn | 20 | 33 |
| **Cyfanswm** | **3,907** | **3,552** |
| Staff dros dro: | | |
| Cyflogau | 49 | - |
| Costau Nawdd Cymdeithasol | 3 | - |
| Costau Pensiwn | 7 | - |
| **Cyfanswm** | **59** | **-** |
| **Cyfanswm Costau Staff** | **3,966** | **3,552** |

Roedd cyfartaledd nifer yr unigolion cyfwerth â llawn-amser a gyflogwyd (gan gynnwys uwch reolwyr a cyflogaeth cyfnod penodol) yn ystod y flwyddyn fel a ganlyn:

| | 2020/21 | 2019/20 |
|---|---|---|
| | **Nifer.** | **Nifer.** |
| Cyfarwyddwyr | 2 | 2 |
| Cyfathrebu a Chynorthwyo Personol | 3 | 3 |
| Cwynion ac Ymchwiliadau | 51 | 50 |
| Tîm Gwella | 5 | 3 |
| Gwasanaethau Corfforaethol ac TG | 7 | 7 |
| **Cyfanswm** | **68** | **65** |

## 3. Costau Gweinyddu nad ydynt yn gostau staff

| | 2020/21 | 2019/20 |
|---|---|---|
| | £000 | £000 |
| Rhentu o dan brydlesi gweithredol | 238 | 237 |
| Ffi Archwilio Allanol | 17 | 15 |
| Ffioedd Cyfreithiol a phroffesiynol | 193 | 230 |
| Costau eiddo eraill | 123 | 135 |
| Gwasanaethau cyfrifiadurol | 309 | 209 |
| Costau swyddfa | 151 | 169 |
| Teithio a chynhaliaeth | 1 | 45 |
| Recriwtio a Hyfforddi | 55 | 93 |
| Cyfathrebu | 41 | 87 |
| **Is-gyfanswm** | **1,128** | **1,220** |
| Dibrisiant | 37 | 36 |
| Tâl Amorteiddio | 24 | 24 |
| Colled wrth waredu | - | - |
| **Is-gyfanswm** | **61** | **60** |
| **Cyfanswm costau gweinyddu eraill** | **1,189** | **1,280** |

## 4. Incwm gweithredu

| | 2020/21 | 2019/20 |
|---|---|---|
| | £000 | £000 |
| Staff ar secondiad | (16) | (13) |
| Ad-dalu Gwarged y Gronfa Bensiwn | (974) | - |
| Arall – Comisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol | (1) | (1) |
| **Cyfanswm** | **(991)** | **(14)** |

Gellir dod o hyd i ragor o wybodaeth ar ad-dalu gwarged y gronfa bensiwn yn yr adran Datgelu Pensiwn.

## 5. Costau Gweithredu yn ôl Nodau Strategol

Mae costau darparu gwasanaeth Ombwdsmon o'r radd flaenaf i Gymru wedi'u nodi isod. Mae gennym dri nod strategol ar gyfer cyflawni ein cenhadaeth ac mae dyraniad pob un o'r nodau yn seiliedig ar y canlynol:

(a) amcangyfrif o amser y staff a dreuliwyd ar y nod

(b) dyraniad uniongyrchol y gwariant lle y bo hynny'n berthnasol

(c) dosraniad costau eraill pro rata i amcangyfrif amser y staff

| | 2020/21 | | 2019/20 | |
|---|---|---|---|---|
| | £000 | % | £000 | % |
| Nod Strategol 1:<br>Gwasanaeth cwynion teg, annibynnol, cynhwysol ac ymatebol. | 3,965 | 77.2 | 3,764 | 78.1 |
| Nod Strategol 2:<br>Hyrwyddo dysgu o gwynion ac ysgogi gwelliannau ar raddfa ehangach. | 959 | 18.7 | 849 | 17.6 |
| Nod Strategol 3:<br>Nodi a mabwysiadu arfer gorau. Sicrhau gwerth am arian a gwasanaethau sy'n addas ar gyfer y dyfodol. Cefnogi staff a sicrhau dulliau llywodraethu da sy'n ein cefnogi a'n herio. | 214 | 4.1 | 205 | 4.3 |
| **Alldro Adnoddau Net** | **5,138** | **100.0** | **4,818** | **100.0** |

Nid yw dadansoddiad o'r Nodau yn cynnwys gwariant cyfalaf.

## 6a. Eiddo, Peiriannau a Chyfarpar

| 2020/21 | Peiriannau | Cyfrifiaduron a chyfarpar arall | Dodrefn a ffitiadau eraill | Cyfanswm |
|---|---|---|---|---|
| | £000 | £000 | £000 | £000 |
| **Cost neu werth ar 1 Ebrill** | **156** | **223** | **438** | **817** |
| Ychwanegiadau | - | 1 | 4 | 5 |
| Gwarediadau | - | - | - | - |
| **Ar 31 Mawrth** | **156** | **224** | **442** | **822** |
| **Dibrisiant ar 1 Ebrill** | **(156)** | **(136)** | **(323)** | **(615)** |
| A godwyd yn ystod y flwyddyn | - | (18) | (19) | (37) |
| Gwarediadau | - | - | - | - |
| **Ar 31 Mawrth** | **(156)** | **(154)** | **(342)** | **(652)** |
| **Swm ar bapur ar 31 Mawrth 2021** | **-** | **70** | **100** | **170** |
| Swm ar bapur ar 31 Mawrth 2020 | - | 87 | 115 | 202 |

| 2019/20 | Peiriannau | Cyfrifiaduron a chyfarpar arall | Dodrefn a ffitiadau eraill | Cyfanswm |
|---|---|---|---|---|
| | £000 | £000 | £000 | £000 |
| **Cost neu werth ar 1 Ebrill** | **156** | **216** | **428** | **800** |
| Ychwanegiadau | - | 29 | 24 | 53 |
| Gwarediadau | - | (22) | (14) | (36) |
| **Ar 31 Mawrth** | **156** | **223** | **438** | **817** |
| **Dibrisiant ar 1 Ebrill** | **(156)** | **(139)** | **(320)** | **(615)** |
| A godwyd yn ystod y flwyddy | - | (19) | (17) | (36) |
| Gwarediadau | - | 22 | 14 | 36 |
| **Ar 31 Mawrth** | **(156)** | **(136)** | **(323)** | **(615)** |
| **Swm ar bapur ar 31 Mawrth 2020** | **-** | **87** | **115** | **202** |
| Swm ar bapur ar 31 Mawrth 2019 | - | 77 | 108 | 185 |

## 6b. Asedau Anniriaethol

| 2020/21 | Technoleg Gwybodaeth | Meddalwedd Trwyddedau | Cyfanswm |
|---|---|---|---|
| | £000 | £000 | £000 |
| **Cost neu werth ar 1 Ebrill** | **497** | **52** | **549** |
| Ychwanegiadau | - | - | - |
| Gwarediadau | - | - | - |
| **Ar 31 Mawrth** | **497** | **52** | **549** |
| **Amorteiddio ar 1 Ebrill** | **(349)** | **(52)** | **(401)** |
| Amorteiddio a godwyd yn y flwyddyn | (24) | - | (24) |
| Gwarediadau | - | - | - |
| **Ar 31 Mawrth** | **(373)** | **(52)** | **(425)** |
| **Gwerth ar bapur ar 31 Mawrth 2021** | **124** | **-** | **124** |
| Gwerth ar bapur ar 31 Mawrth 2020 | 148 | - | 148 |

| 2019/20 | Technoleg Gwybodaeth | Meddalwedd Trwyddedau | Cyfanswm |
|---|---|---|---|
| | £000 | £000 | £000 |
| **Cost neu werth ar 1 Ebrill** | **500** | **52** | **552** |
| Ychwanegiadau | - | - | - |
| Gwarediadau | (3) | - | (3) |
| **Ar 31 Mawrth** | **497** | **52** | **549** |
| **Amorteiddio ar 1 Ebrill** | **(328)** | **(52)** | **(380)** |
| Amorteiddio a godwyd yn y flwyddyn | (24) | - | (24) |
| Gwarediadau | 3 | - | 3 |
| **Ar 31 Mawrth** | **(349)** | **(52)** | **(401)** |
| **Gwerth ar bapur ar 31 Mawrth 2020** | **148** | **-** | **148** |
| Gwerth ar bapur ar 31 Mawrth 2019 | 172 | - | 172 |

Ym marn Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru nid oes gwahaniaeth o bwys rhwng gwerth llyfr net yr asedau yn ôl eu gwerthoedd heddiw a'u cost hanesyddol.

## 7. Symiau masnach derbyniadwy a symiau derbyniadwy eraill

| | 2020/21 | 2019/20 |
|---|---|---|
| | £000 | £000 |
| **Symiau a ddaw'n ddyledus o fewn blwyddyn** | | |
| Rhagdaliadau | 228 | 207 |
| Dyledwyr masnach | - | - |
| **Symiau a ddaw'n ddyledus ar ôl mwy na blwyddyn** | | |
| Rhagdaliadau | 1 | 1 |
| **Cyfanswm** | **229** | **208** |

## 8. Arian parod a'r hyn sy'n gyfwerth ag Arian Parod

Rhaid dychwelyd unrhyw falansau banc a ddelir ar ddiwedd y flwyddyn i Gronfa Gyfunol Cymru. Mae ffigur o £20k (£48k yn 2019/20) wedi'i gynnwys yn y cyfrifon, fel balans net diwedd blwyddyn yr holl gyfrifon banc a weithredir gan Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru, ni waeth a yw'r cyfrif unigol mewn dyled neu gredyd. Bydd y balans diwedd blwyddyn yn cael ei ad-dalu i Gronfa Gyfunol Cymru yn 2021/22 o dan Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006.

## 9. Symiau Masnach taladwy a Rhwymedigaethau Cyfredol eraill

| | 2020/21 | 2019/20 |
|---|---|---|
| | £000 | £000 |
| **Symiau a ddaw'n ddyledus o fewn blwyddyn** | | |
| Gwyliau blynyddol heb eu cymryd | 175 | 93 |
| Gostyngiad rhent gohiriedig | 5 | 5 |
| Cronfa Gyfunol Cymru – balansau heb eu gwario | 20 | 48 |
| Symiau masnach taladwy | 5 | 6 |
| Croniadau | 45 | 58 |
| | **250** | **210** |
| **Symiau sy'n dod yn ddyledus mewn mwy na blwyddyn** | | |
| Gostyngiad rhent gohiriedig | 15 | 20 |
| **Cyfanswm** | **265** | **230** |

## 10. Darpariaethau ar gyfer Rhwymedigaethau a Thaliadau

| | 2020/21 | | | | 2019/20 |
|---|---|---|---|---|---|
| | Pensiynau ar gyfer Cyngomisiynwyr | Costau Dirywiad | Costau eraill | Cyfanswm | Cyfanswm |
| | £000 | £000 | £000 | £000 | £000 |
| Balans ar 1 Ebrill | 234 | 292 | - | 526 | 525 |
| Darpariaeth ychwanegol sy'n ofynnol | 17 | 14 | - | 31 | 39 |
| Symudiad yn y gyfradd ddisgownt | 3 | - | - | 3 | 6 |
| Darpariaethau a ddefnyddiwyd yn y flwyddyn | (44) | - | - | (44) | (44) |
| **Balans ar 31 Mawrth** | **210** | **306** | **-** | **516** | **526** |

Dadansoddiad o bryd y disgwylir i'r darpariaethau gael eu talu:

| | 2020/21 | 2019/20 |
|---|---|---|
| | £000 | £000 |
| Taladwy o fewn blwyddyn | 45 | 45 |
| Taladwy o fewn 2 i 5 mlynedd | 455 | 157 |
| Taladwy ar ôl 5 mlynedd | 16 | 324 |
| **Balans ar 31 Mawrth 2021** | **516** | **526** |

Mae darpariaethau pensiwn yn cael eu cyfrifo ar sail Tablau Bywyd Cenedlaethol ar gyfer Cymru a Lloegr a gyhoeddir gan y Swyddfa Ystadegau Gwladol. Mae'r cynnydd mewn pensiynau yn hwyrach ymlaen yn y flwyddyn yn unol â'r wybodaeth am ddadchwyddydd CMC a gyhoeddwyd gan Drysorlys EM. Mae'r ffactor disgownt wedi'i newid i -0.95% ar gyfer y flwyddyn ariannol (-0.50% yn 2020/21) yn unol â'r arweiniad a gyhoeddwyd gan y Trysorlys. Mae priod dau o'r cyn-Gomisiynwyr sy'n dal yn fyw yn parhau i fod yn rhwymedigaethau pensiwn.

## 11. Cysoni'r Costau Gweithredol â'r Llifoedd Arian Gweithredol

| | Nodyn | 2020/21 | 2019/20 |
|---|---|---|---|
| | | £000 | £000 |
| **Cost gweithredu net** | | **(4,164)** | **(4,818)** |
| Addasiadau ar gyfer eitemau anariannol | 3 | 61 | 60 |
| Gostyngiad/(Cynnydd) mewn symiau masnach derbyniadwy a symiau derbyniadwy erail | 7 | (21) | (32) |
| Cynnydd/(Gostyngiad) mewn symiau masnach taladwy a symiau taladwy eraill | 9 | 35 | 34 |
| Symudiadau mewn darpariaethau | 10 | (10) | 1 |
| Symudiad mewn arian a ad-dalwyd i Gronfa Gyfunol Cymru | 8 | 28 | (28) |
| **Mewnlif arian net drwy weithgareddau gweithredol** | | **(4,071)** | **(4,783)** |

## 12. Buddsoddiad Ariannol a Gwariant Asedau Anghyfredol

| | 2020/21 | 2019/20 |
|---|---|---|
| | £000 | £000 |
| Prynu eiddo, peiriannau a chyfarpar | (5) | (53) |
| Yr elw o werthu eiddo, peiriannau a chyfarpar | - | - |
| Prynu asedau anniriaethol | - | - |
| **Mewnlif arian net drwy weithgareddau buddsoddi** | **(5)** | **(53)** |

## 13. Cysoni'r Gofyniad Arian Parod Net â'r Cynnydd/(Gostyngiad) mewn Arian Parod

| | 2020/21 | 2019/20 |
|---|---|---|
| | £000 | £000 |
| Gofynion Arian Parod Net: | | |
| Gweithgareddau gweithredol | (4,071) | (4,783) |
| Gwariant Cyfalaf | (5) | (53) |
| | **(4,076)** | **(4,836)** |
| Cyllid gan Senedd Cymru | 4,096 | 4,884 |
| Ad-daliadau i Gronfa Gyfunol Cymru | (48) | (20) |
| **Cynnydd/(Gostyngiad) mewn arian parod a'r hyn sy'n gyfwerth ag arian parod** | **(28)** | **28** |

## 14. Ymrwymiadau o dan Brydlesi Gweithredol

| | 2020/21 | 2019/20 |
|---|---|---|
| | £000 | £000 |
| Cyfanswm taliadau prydles sylfaenol yn y dyfodol ar gyfer yr Adeilad: | | |
| Taladwy o fewn blwyddyn | 198 | 198 |
| Rhwng dwy a phum mlynedd | 699 | 792 |
| Mwy na phum mlynedd | - | 72 |
| | **897** | **1,062** |
| Arall | | |
| Taladwy o fewn blwyddyn | - | - |
| Rhwng dwy a phum mlynedd | - | - |
| Mwy na phum mlynedd | - | - |
| | **-** | **-** |
| **Cyfanswm – pob prydles weithredol** | **897** | **1,062** |

## 15. Rhwymedigaethau amodol

Dim.

## 16. Ymrwymiadau Cyfalaf

Nid oedd unrhyw ymrwymiadau cyfalaf ar 31 Mawrth 2021 (2019/20 Dim).

## 17. Trafodion Partïon Cysylltiedig

Pennaeth Swyddfa Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru yw Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru. Sefydlwyd y swyddfa o dan Ddeddf yr Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus (Cymru) 2005 ac mae bellach yn cael ei lywodraethu gan Ddeddf yr Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus (Cymru) 2019. Mae'r Ombwdsmon yn annibynnol ar y Llywodraeth ac mae trefniadau cyllido'r Swyddfa wedi'u trefnu i sicrhau y diogelir annibyniaeth y Swyddfa. Mae OGCC wedi cael nifer o drafodion o bwys gyda Senedd Cymru, Cyllid a Thollau EM (taliadau Treth ac Yswiriant Gwladol) a Swyddfa'r Cabinet (taliadau yng nghyswllt Prif Gynllun Pensiwn y Gwasanaeth Sifil). Yn ystod y flwyddyn, nid oes dim cyfarwyddwyr, aelodau allweddol o staff na'u perthnasau agos wedi ymwneud ag unrhyw drafodion o bwys.

## 18. Digwyddiadau ar ôl y Cyfnod Adrodd

Dim.

# Datgeliadau Pensiynau

Mae dau gynllun pensiwn yn cael eu gweithredu ar ran y staff presennol – Prif Gynllun Pensiwn y Gwasanaeth Sifil (PCSPS) a Chronfa Bensiwn Caerdydd a Bro Morgannwg (y Gronfa). Hefyd, mae rhwymedigaeth barhaus i fodloni pensiynau di-gyllid dau o berthnasau cyn-Gomisiynwyr Llywodraeth Leol sy'n ddibynyddion.

## Pensiynau'r Gwasanaeth Sifil

Darperir buddion pensiwn drwy drefniadau pensiwn y Gwasanaeth Sifil. O 1 Ebrill 2015 cyflwynwyd cynllun pensiwn newydd ar gyfer gweision sifil – Cynllun Pensiwn Gweision Sifil ac Eraill neu **alffa**, sy'n rhoi buddion ar sail gyrfa gyfartalog gydag oed pensiwn arferol sy'n cyfateb i Oed Pensiwn y Wladwriaeth yr aelod (neu 65 os yw'n uwch). O'r dyddiad hwnnw ymlaen, ymunodd pob gwas sifil a oedd newydd ei benodi â chynllun **alffa** ynghyd â'r rhan fwyaf o'r rheini eisoes yn y gwasanaeth. Cyn y dyddiad hwnnw, roedd gweision sifil yn rhan o gynllun Prif Gynllun Pensiwn y Gwasanaeth Sifil. Mae gan gynllun PCSPS bedair adran: 3 sy'n rhoi buddion ar sail cyflog terfynol (**clasurol, premiwm** neu **clasurol a mwy**) gydag oed pensiwn arferol o 60; ac un sy'n rhoi buddion ar sail gyrfa gyfan (**nuvos**) gydag oed pensiwn arferol o 65.

Nid yw'r trefniadau statudol hyn wedi'u cyllido ac mae cost y buddion yn cael ei thalu gan swm a benderfynir drwy bleidlais gan y Senedd bob blwyddyn. Mae pensiynau sy'n daladwy dan y cynlluniau **clasurol, premiwm, clasurol a mwy, nuvos** ac **alffa** yn cael eu cynyddu'n flynyddol yn unol â deddfwriaeth Cynyddu Pensiynau. Arhosodd aelodau sy'n rhan o'r cynllun PCSPS a oedd o fewn 10 mlynedd o'u hoed pensiwn arferol ar 1 Ebrill 2012 yn y cynllun PCSPS ar ôl 1 Ebrill 2015. Bydd y rheini a oedd rhwng 10 mlynedd a 13 blynedd a 5 mis o'u hoed pensiwn arferol ar 1 Ebrill 2012 yn newid i gynllun **alffa** ryw dro rhwng 1 Mehefin 2015 a 1 Chwefror 2022. Bydd buddion PCSPS pob aelod sy'n newid i gynllun **alffa** yn cael eu 'bancio', gyda'r rheini sydd â buddion cynt yn un o adrannau cyflog terfynol y PCSPS yn cael y buddion hynny ar sail eu cyflog terfynol pan fyddant yn gadael cynllun **alffa**. (Mae'r ffigurau pensiwn a ddyfynnwyd ar gyfer swyddogion yn dangos y pensiwn a enillwyd yn PCSPS neu **alffa** – fel sy'n briodol. Os oes gan y swyddog fuddion yng nghynllun PCSPS a chynllun **alffa**, mae'r ffigur a ddyfynnwyd yn cynnwys gwerth cyfun eu buddion yn y ddau gynllun.)

Gall aelodau sy'n ymuno o fis Hydref 2002 ymlaen ddewis naill ai'r trefniant buddion diffiniedig priodol neu bensiwn cyfranddeiliaid 'prynu arian' gyda chyfraniad cyflogwr (cyfrif pensiwn **partneriaeth**).

Mae cyfraniadau'r gweithwyr yn gysylltiedig â chyflogau ac maent yn amrywio o 4.6% i 8.05% ar gyfer aelodau **clasurol, premiwm, clasurol a mwy, nuvos** ac **alffa**.  Mae'r buddion yn y cynllun **clasurol** yn cronni ar gyfradd o 1/80fed o enillion pensiynadwy terfynol am bob blwyddyn o wasanaeth.  Yn ogystal, telir cyfandaliad sydd gyfwerth â thair blynedd o bensiwn cychwynnol pan fydd cyflogai'n ymddeol.  Gyda'r cynllun **premiwm**, mae'r buddion yn cronni ar gyfradd o 1/60fed o enillion pensiynadwy terfynol am bob blwyddyn o wasanaeth.  Yn wahanol i'r cynllun **clasurol**, nid oes dim cyfandaliad awtomatig.  Mae **clasurol a mwy** yn ei hanfod yn gynllun hybrid gyda buddion yng nghyswllt gwasanaeth cyn 1 Hydref 2002 yn cael eu cyfrifo'n fras fel y cynllun **clasurol**, a buddion am wasanaeth ar ôl mis Hydref 2002 yn cael eu cyfrifo fel yn y cynllun **premiwm**. Gyda **nuvos**, mae'r aelod yn cronni pensiwn ar sail ei enillion pensiynadwy tra bo'n aelod o'r cynllun.  Ar ddiwedd blwyddyn y cynllun (31 Mawrth) mae cyfrif pensiwn a enillwyd yr aelod yn cael ei gredydu gyda 2.3% o'i enillion pensiynadwy ym mlwyddyn honno'r cynllun ac mae'r pensiwn cronedig yn cael ei gynyddu yn ôl deddfwriaeth Cynyddu Pensiynau.  Mae buddion yn y cynllun **alffa** yn cronni yn yr un modd ag y maent yng nghynllun **nuvos**, ac eithrio mai 2.32% yw'r gyfradd cronni.  Ym mhob achos, gall aelodau ddewis rhoi rhan o'u pensiwn heibio (cyfnewid) i gael cyfandaliad hyd at y terfynau a bennir gan Ddeddf Cyllid 2004.

Mae'r cyfrif pensiwn **partneriaeth** yn drefniant pensiwn cyfranddeiliaid.  Mae'r cyflogwr yn gwneud cyfraniad sylfaenol rhwng 8% a 14.75% (yn dibynnu ar oed yr aelod) i gynnyrch pensiwn cyfranddeiliaid a ddewisir gan y cyflogai o blith panel o ddarparwyr.  Nid oes raid i'r cyflogai gyfrannu, ond os bydd yn gwneud cyfraniadau, bydd y cyflogwr yn talu swm cyfatebol hyd at derfyn o 3% o gyflog pensiynadwy (yn ogystal â chyfraniad sylfaenol y cyflogwr).  Mae cyflogwyr hefyd yn cyfrannu 0.5% o gyflog pensiynadwy i dalu cost yswiriant buddion risg a ddarperir yn ganolog (marw yn y swydd ac ymddeol yn sgil salwch).

Y pensiwn cronedig a ddyfynnir yw'r pensiwn y mae gan yr aelod hawl i'w gael pan fydd yn cyrraedd oed pensiwn, neu'n syth ar ôl peidio â bod yn aelod gweithredol o'r cynllun os yw wedi cyrraedd oed pensiwn neu dros yr oedran hwnnw.  60 yw'r oedran pensiwn ar gyfer aelodau cynlluniau clasurol, premiwm a chlasurol a mwy, a 65 ar gyfer aelodau nuvos, a 65 oed neu Oed Pensiwn y Wladwriaeth, pa bynnag yw'r uchaf, ar gyfer aelodau cynllun alffa.  (Mae'r ffigurau

pensiwn a ddyfynnwyd ar gyfer swyddogion yn dangos y pensiwn a enillwyd yn PCSPS neu alffa – fel sy'n briodol.  Os oes gan y swyddog fuddion yng nghynllun PCSPS a chynllun alffa, mae'r ffigur a ddyfynnwyd yn cynnwys gwerth cyfun ei fuddion yn y ddau gynllun, ond mae'n bosib y bydd rhan o'r pensiwn hwnnw yn daladwy ar wahanol oedrannau.)

Mae manylion pellach ar drefniadau pensiwn y Gwasanaeth Sifil ar gael ar y wefan  www.civilservicepensionscheme.org.uk

## Gwerthoedd Trosglwyddo sydd Gyfwerth ag Arian Parod

Gwerth Trosglwyddo sydd Gyfwerth ag Arian Parod (CETV) yw gwerth buddion y cynllun pensiwn wedi'i gyfalafu a gronnwyd gan aelod ar unrhyw adeg, wedi'i asesu gan actwari, ar gyfnod penodol.  Buddion a gronnwyd gan yr aelod yw'r buddion a brisir ynghyd ag unrhyw bensiwn wrth gefn i briod sy'n daladwy o'r cynllun.  CETV yw taliad a wneir gan gynllun neu drefniant pensiwn i sicrhau buddiannau pensiwn mewn cynllun pensiwn neu drefniant arall pan fydd yr aelod yn gadael cynllun ac yn dewis trosglwyddo'r buddiannau y mae wedi eu cronni yn ei gynllun blaenorol.  Mae'r ffigurau pensiwn a nodir yn ymwneud â buddion y mae'r unigolyn wedi eu cronni o ganlyniad i gyfanswm ei aelodaeth yn y cynllun pensiwn, nid dim ond ei wasanaeth mewn swydd uwch y mae'r datgeliad yn berthnasol iddo.

Mae'r ffigurau'n cynnwys gwerth unrhyw fuddion pensiwn mewn cynllun neu drefniant arall y mae'r aelod wedi ei drosglwyddo i drefniadau pensiwn y Gwasanaeth Sifil.  Maent hefyd yn cynnwys unrhyw fuddion pensiwn ychwanegol a gronnwyd i'r aelod o ganlyniad iddo brynu buddion pensiwn ychwanegol ar ei gost ei hun.  Cyfrifir CETV yn unol â Rheoliadau'r Cynlluniau Pensiwn Galwedigaethol (Gwerthoedd Trosglwyddo) (Diwygiad) 2008 ac nid yw'n ystyried unrhyw ostyngiad gwirioneddol neu bosibl i fuddion o ganlyniad i Dreth Lwfans Oes a allai fod yn daladwy pan gymerir buddion pensiwn.

## Gwir gynnydd yn y CETV

Mae hyn yn adlewyrchu'r cynnydd yn y CETV sy'n cael ei ariannu gan y cyflogwr. Nid yw'n cynnwys y cynnydd mewn pensiwn a gronnwyd oherwydd chwyddiant, cyfraniadau'r cyflogai (gan gynnwys gwerth unrhyw fuddion a drosglwyddwyd o gynllun neu drefniant pensiwn arall) ac mae'n defnyddio ffactorau prisio cyffredin y farchnad ar gyfer dechrau a diwedd y cyfnod.

## Iawndal am golli swydd

Ni wnaeth unrhyw aelod o staff adael ar delerau Gadael yn Wirfoddol neu Diswyddo Gwirfoddol yn ystod y flwyddyn ariannol.

## Cronfa Bensiwn Caerdydd a Bro Morgannwg – Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol

Ymddeolodd gweithiwr olaf Cronfa Bensiwn Caerdydd a'r Fro yn 2020/21, sy'n golygu bod Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru, fel y cyflogwr, wedi gadael y Gronfa. Mae Rheoliadau Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol yn mynnu:

- Cael prisiad actiwaraidd ar y dyddiad ymadael.
- Thystysgrif sy'n dangos y taliad gadael sy'n ddyledus neu fod yr asedau dros ben o'i gymharu â'r rhwymedigaethau wedi'i gwblhau.

Mae'r gwarged yn y Gronfa ar y dyddiad ymadael yn £974,000 ac fe'i had-dalwyd gan Gronfa Bensiwn Caerdydd a'r Fro ym mis Rhagfyr 2020. Y gwerth ar 31 Mawrth 2021 oedd dim.

## Cysoni'r statws 'a ariennir' â'r Datganiad o'r Sefyllfa Ariannol

| | Gwerth ar | |
|---|---|---|
| | **31 Rhagfyr 2020** | **31 Mawrth 2020** |
| | **£M** | **£M** |
| Gwerth teg yr asedau | 7.062 | 7.080 |
| Gwerth presennol yr ymrwymiad o ran y buddion diffiniedig a ariennir | 6.088 | 5.040 |
| **Statws 'a ariennir'** | **0.974** | **2.040** |
| Ased heb ei chydnabod | N/A | (0.960) |
| **Ased/(Rhwymedigaeth) a gydnabyddir yn y fantolen** | **0.974** | **1.080** |

Mae'r Actiwari wedi nodi isod esboniad byr o'r prif resymau dros y gostyngiad yn y gwarged rhwng sefyllfa prisio 31 Mawrth 2020 (gwarged o £1.080M) a'r sefyllfa ymadael (gwarged o £0.974M):

1. Newid mewn tybiaethau ariannol - roedd y dybiaeth ynghylch enillion buddsoddiad ar y dyddiad ymadael yn 1.0% ac roedd y dybiaeth ynghylch cynnydd mewn pensiynau yn 2.2%. Roedd y rhain yn seiliedig ar amodau'r farchnad ar y dyddiad ymadael, ac yn benodol mae'r dybiaeth ynghylch enillion buddsoddiad yn seiliedig ar elw sylfaenol bondiau'r llywodraeth sy'n isel iawn ar hyn o bryd. Y ffigurau cyfatebol ym mhrisiad 2019 oedd 1.3% a 2.1% yn y drefn honno. Mae rhagdybiaeth is ynghylch enillion buddsoddiad yn rhoi gwerth uwch ar y rhwymedigaethau, fel y mae rhagdybiaeth uwch ynghylch cynnydd mewn pensiynau. Mae gan Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru strategaeth fuddsoddi dybiannol risg isel. O dan y strategaeth hon, disgwylir yn gyffredinol y byddai unrhyw gynnydd mewn rhwymedigaethau yn cael ei wrthbwyso'n gyffredinol gan gynnydd yn yr asedau (ac fel arall). Fodd bynnag, dros y cyfnod ers prisiad 2019 oherwydd symudiadau cyfnewidiol y farchnad, nid oedd y cynnydd mewn asedau yn gwrthbwyso'r cynnydd mewn rhwymedigaethau.
2. Lwfans ar gyfer dyfarniad McCloud, Rheoli Costau a mynegeio GMP. Arweiniodd hyn at ostyngiad o tua £0.06M yn y gwarged.
3. Newidiadau eraill - newidiadau eraill, gan gynnwys symudiadau aelodaeth dros y cyfnod (hynny yw, effaith aelodau yn symud o statws gweithredol i statws pensiynwr) oedd yn gyfrifol am weddill y gwahaniaeth.

## Pensiynau cyn-Ombwdsmyn

Gyda chytundeb Ysgrifennydd Gwladol Cymru ym 1991 a chadarnhad wedyn gan Offeryn Statudol 1993 Rhif 1367, daeth Comisiynwyr Llywodraeth Leol yn gymwys i ymuno â'r Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol. Fodd bynnag, roedd pensiynau'r tri Chomisiynydd Llywodraeth Leol blaenorol yn parhau'n gyfrifoldeb Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru, ac yn cael eu talu drwy'r Datganiad am y Gwariant Net Cynhwysfawr. Ar 31 Mawrth 2021, roedd priod dau gyn-gomisiynydd sy'n dal yn fyw yn parhau i dderbyn pensiwn.

Mae pensiynau'n cael eu cynyddu'n flynyddol yn unol â chynlluniau pensiwn eraill yn y Sector Cyhoeddus. Mae sail y cyfrifiadau ar gyfer y Cynnydd Blynyddol mewn Pensiynau wedi cael ei newid o ddefnyddio'r symudiad blynyddol seiliedig

ar y Mynegai Prisiau Manwerth i'r Mynegai Prisiau Defnyddwyr.  Mae maint y cynnydd fel arfer wedi'i nodi yn Offeryn Statudol Gorchymyn Cynyddu Pensiynau (Adolygu).  1.7% oedd y cynnydd hwn ar gyfer 2020/21.

Cyfanswm y taliadau yn ystod 2020/21 oedd £44k (£44k yn 2019/20).  Mae'r rhwymedigaethau sy'n deillio o'r ymrwymiad i gyllido'r pensiynau hyn, ynghyd ag unrhyw bensiynau dibynyddion, wedi eu cyfrifo i fod yn £209k (£234k yn 2019/20).  Cyfrifwyd y rhwymedigaeth gyffredinol yn fewnol gan ddefnyddio tablau disgwyliad oes ar gyfer dynion a menywod yng Nghymru a gafwyd oddi ar wefan Adran Actiwari'r Llywodraeth.  Mae cyfradd ddisgownt, o PES (2020), o -0.95% (-0.50% yn 2019/20) wedi'i defnyddio yn unol ag arweiniad gan y Trysorlys y dylid rhoi disgownt ar gyfer yr holl rwymedigaethau pensiwn.

Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru
1 Ffordd yr Hen Gae
Pencoed
CF35 5LJ

| | |
|---|---|
| Ffôn: | 01656 641150 |
| Ffacs: | 01656 641199 |
| Ebost: | holwch@ombudsman.wales |
| Dilynwch ni ar Twitter: | @OmbudsmanWales |